# Rhaglen Gyflawn

**Adran y Prif Weithredwr**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**Y CYNGOR**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD IAU, 10FED RHAGFYR, 2015**

***NODER**

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home**

Lleoliad

**Siambr Dafydd Orwig - Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**maireirianroberts@gwynedd.gov.uk**

(DOSBARTHWYD 3/12/15)

**Dilwyn Williams**
**Prif Weithredwr**


**DYDD IAU, 3 RHAGFYR 2015**

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 10 RHAGFYR 2015**

**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00 y.h., DYDD IAU** nesaf, **DYDD IAU, 10FED RHAGFYR, 2015 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG - SWYDDFEYDD Y CYNGOR, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



Prif Weithredwr

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig
Annibynnol – Siambr Hywel Dda
Llais Gwynedd – Ystafell Gwyrfai
Democratiaid Rhyddfrydol - Ystafell Peris
Llafur – Cefn Siambr Dafydd Orwig

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. COFNODION** 1 - 11

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 8 Hydref, 2015 fel rhai cywir (ynghlwm).

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**5. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL**

Derbyn unrhyw ohebiaeth, gyfathrebiadau neu fusnes arall a ddygir gerbron yn arbennig dan gyfarwyddyd y Cadeirydd.

**6. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**7. CWESTIYNAU**

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.19 o'r Cyfansoddiad.

**8. RHOI'R DDEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT AR WAITH**

Derbyn cyflwyniad gan yr Aelod Cabinet Gofal.

**9. CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH CYNGOR 2016/17** 12 - 16

Ystyried adroddiad y Pennaeth Cyllid (ynghlwm).

**10. TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATAU DISGOWNTIAU - 2016/17** 17 - 19

Ystyried adroddiad y Pennaeth Cyllid (ynghlwm).

**11. ADOLYGU DATGANIAD O BOLISI TRWYDDEDU - DEDDF** 20 - 137

**TRWYDDEDU 2003**

Ystyried adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio (ynghlwm).

**12. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR** 138 - 140

Ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ynghlwm).

**13. ABSENOLDEB AELOD O'R CYNGOR** 141

Ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ynghlwm).

**14. DYFODOL S4C**

Ystyried ymateb gan y Cyngor i gyhoeddiad diweddar y Canghellor.

**15. RHYBUDDION O GYNNIG**

**(A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD MANDY WILLIAMS-DAVIES**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrthi o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Mandy Williams-Davies yn cynnig fel a ganlyn:-

**"Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod y berthynas adeiladol a'r cyfraniad mae Undebau a'u haelodau yn ei wneud yn y gweithlu a'u hymrwymiad i gynnig safon uchel o wasanaeth cyhoeddus. 'Rydym felly yn gwrthwynebu'r mesur undebau llafur a gyflwynwyd yn ddiweddar. Mae'r mesur yn golygu cyflwyno trothwy pledleisio uwch ar gyfer streicio; tynhau'r rheolaeth dros bicedu, cyfathrebu cymdeithasol a sut y caiff tanysgrifiadau i undebau ei gasglu.**

**Ystyria'r Cyngor hwn fod rheolaeth o'r fath yn tanseilio hawliau sifil ein gweithwyr ym meysydd iechyd, addysg a gwasanaethau cyhoeddus craidd oherwydd fod gan y D.G. rai o'r cyfreithiau Undebau Llafur mwyaf llym yn y byd.**

**Galwaf ar Gyngor Gwynedd i ysgrifennu at ein Haelodau Seneddol ac Aelodau Cynulliad yn nodi ein bod yn gwrthwynebu'r mesur."**

**(B) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD SIAN GWENLLIAN**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrthi o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Siân Gwenllian yn cynnig fel a ganlyn:-

**“Mae’r Cyngor hwn yn datgan gwrthwynebiad chwyrn i bolisïau ariannol y Trysorlys am eu bod nhw'n taro'r rhai mwyaf anghenus, yn chwalu'r gwasanaethau cyhoeddus ac yn ein gorfodi ni fel pob Cyngor i wneud toriadau enbyd fydd hefyd yn effeithio yn sylweddol ar yr economi leol. Nid toriadau Cyngor Gwynedd yw'r toriadau ond toriadau'r Torïaid; rydym yn erbyn yr ideoleg sy'n gyrru'r toriadau, ond rydym yn ceisio gweithredu mor deg a thryloyw a phosib o dan amgylchiadau erchyll. Ar waetha hyn rydym yn parhau i fod yn uchelgeisiol dros y sir ac yn awyddus i greu llwyddiant i’r dyfodol.”**

# Y CYNGOR, 08.10.15

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Cadeirydd);

**Y Cynghorwyr:** Craig ab Iago, Endaf Cooke, Annwen Daniels, Anwen Davies, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Trevor Edwards, Thomas Ellis, Alan Jones Evans, Aled Evans, Jean Forsyth, Simon Glyn, Gwen Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllian, Annwen Hughes, Chris Hughes, John Brynmor Hughes, Sian Wyn Hughes, Jason Humphreys, Peredur Jenkins, Aeron M.Jones, Charles W.Jones, Dyfrig Jones, Elin Walker Jones, John Wynn Jones, Linda Wyn Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Dilwyn Lloyd, Christopher O'Neal, Dewi Owen, Michael Sol Owen, William Tudor Owen, Caerwyn Roberts, John Pughe Roberts, W.Gareth Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Gareth Thomas, Glyn Thomas, Ioan Thomas, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams, Hefin Williams, John Wyn Williams, Owain Williams, R.H.Wyn Williams, Mandy Williams-Davies ac Eurig Wyn.

**Swyddogion yn bresennol:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards ac Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr / Dirprwy Swyddog Monitro), Arwel E.Jones (Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni), Llyr Beaumont Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned), Anthony Williams (Swyddog Perfformiad) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Hefyd yn bresennol:-** Dr Einir Young (Cadeirydd y Pwyllgor Safonau)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Lesley Day, Gweno Glyn, Louise Hughes, Anne Lloyd Jones, Brian Jones, Eric Merfyn Jones, Beth Lawton, June E.Marshall, Dafydd Meurig, Linda Morgan, W.Roy Owen, Nigel Pickavance, Peter Read a Mike Stevens.

## 1. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf, 2015 fel rhai cywir.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Aeron Jones fuddiant personol yn eitem 12 ar y rhaglen - Taflen Benderfyniad Brys Aelod Cabinet - oherwydd ei fod yn rheolwr ar gwmni yng Nghaernarfon all gael buddiant o'r cynnig dan sylw.

'Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn eitem 13(B) ar y rhaglen – Rhybudd o gynnig y Cynghorydd Ioan Thomas, am y rhesymau a nodir:-

- Y Cynghorydd W.Tudor Owen – oherwydd ei fod yn Gadeirydd Bwrdd Gisda.
- Y Cynghorydd Siân Gwenllian – oherwydd ei bod yn aelod o Fwrdd Rheoli Gisda.
- Y Cynghorydd Gwen Griffith – oherwydd ei bod yn Gadeirydd Mantell Gwynedd.
- Y Cynghorydd Linda Wyn Jones – oherwydd ei bod yn aelod o Gwmni Seren.

‘Roedd yr aelodau o’r farn eu bod yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**3. CYHOEDDIADAU’R CADEIRYDD**

(1) Cydymdeimlad

Cyfeiriwyd at farwolaeth ddisymwth y Cynghorydd Bob Wright fu’n cynrychioli Ward De Pwllheli ar y Cyngor hwn ers 2008, a chyn hynny yn aelod o Gyngor Dosbarth Dwyfor am sawl blwyddyn cyn ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996. Darllenodd y Cadeirydd deyrnged iddo a baratowyd gan y Cynghorydd Peter Read, a chydymdeimlwyd â’r teulu yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlwyd hefyd â theulu Robin Llyr Evans, 20 oed o Lanbedrog, a fu farw yn dilyn damwain erchyll yn Tsieina.

Nodwyd bod y Cyngor yn dymuno cofio hefyd am bawb o fewn cymunedau’r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Safodd y Cyngor fel arwydd o barch.

(2) Gwellhad Buan

Dymunwyd gwellhad buan i’r Cynghorydd Linda Morgan oedd yn derbyn triniaeth ar hyn o bryd ac hefyd i’r Cynghorwyr Peter Read a Louise Hughes yn dilyn anhwylder diweddar.

(3) Dymuniadau Gorau

Estynnwyd dymuniadau gorau i’r cyn-gynghorwyr Eddie Dogan a Llywarch Bowen Jones, oedd wedi gorfod rhoi’r gorau i’w gwaith fel cynghorwyr oherwydd afiechyd.

‘Roedd Eddie Dogan wedi gwasanaethu llywodraeth leol ers dros ddeugain mlynedd gan ddechrau gyda’r hen Gyngor Gwyrfai a bu wedyn yn aelod o Gyngor Bwrdeistref Arfon cyn cael ei ethol i gynrychioli Ward Dewi ar y Cyngor hwn yn 1996. Bu hefyd yn aelod o Gyngor Dinas Bangor am 43 o

flynyddoedd. 'Roedd Llywarch Bowen Jones wedi'i ethol i gynrychioli Ward Llanaelhaearn yn 2012 a bu yntau'n aelod gwerthfawr o'r Cyngor hwn.

Nodwyd y gwelid colled fawr ar eu holau ac 'roedd y Cyngor am anfon eu dymuniadau gorau, ynghyd â'u diolchiadau, at y ddau.

Nodwyd bod cynlluniau ar waith i gynnal isetholiadau Dewi a Llanaelhaearn ar 19 Tachwedd ac isetholiad De Pwllheli ar 26 Tachwedd.

Dymunwyd yn dda i'r Cynghorydd Roy Owen a'r teulu yn dilyn y digwyddiadau diweddar a nodwyd hefyd bod meddyliau pawb gyda'r Cynghorydd Eric Merfyn Jones a'r teulu.

(4) Croeso

Croesawyd y Cynghorydd Sian Hughes, yr aelod newydd dros Ward Morfa Nefyn, i'w chyfarfod cyntaf o'r Cyngor.

(5) Llongyfarchiadau

Llongyfarchwyd Elfyn Evans ar sicrhau'r canlyniad gorau erioed i Gymro mewn Pencampwriaeth Rali'r Byd. Llwyddodd Elfyn Evans i ddod yn ail yn y Tour de Corse, sef rownd Ffrengig Pencampwriaeth Rali'r Byd FIA eleni a dymunwyd bob llwyddiant iddo yn Rali Cymru Prydain Fawr ar 12-15 Tachwedd.

Llongyfarchwyd y Tîm Cenedlaethol am wneud mor dda yng nghystadleuaeth Cwpan Rygbi'r Byd a dymunwyd yn dda iddynt yn eu gêm yn erbyn Awstralia ddydd Sadwrn nesaf. Dymunwyd yn dda hefyd i'r Tîm Pêl-droed Cenedlaethol sy'n chwarae gêm allweddol yn rowndiau rhagbrofol Euro 2016 yn erbyn Bosnia-Herzegovina nos Sadwrn a nodwyd bod y Cyngor yn ymfalchïo yn llwyddiant yr aelodau hynny o'r ddwy garfan sydd â chysylltiad agos â Gwynedd.

(6) Nodyn

Nodwyd bod cynigion drafft y Panel Annibynnol ar Gyflogau a Threuliau Aelodau i law ac y bwriedid cylchredeg y ddogfen trwy Rhaeadr gan wahodd yr aelodau i gynnig sylwadau.

**4. CWESTIYNAU**

**Cwestiwn gan y Cynghorydd Sion Jones**

"Beth yw barn yr Arweinydd ar wastraffu arian cyhoeddus gydag ymgynghorwyr allanol?"

**Ateb gan y Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor**

*(Dosbarthwyd ateb ysgrifenedig yr Arweinydd i'r aelodau ymlaen llaw.)*

“Mae’n debyg ein bod i gyd yn y Siambr yn gallu datgan nad ydym yn awyddus i weld gwastraffu arian cyhoeddus ym mha bynnag sefyllfa. ‘Rwy’n credu bod gwaith gennym i gyd i sicrhau bod unrhyw wariant cyhoeddus yn digwydd yn y ffordd fwyaf priodol a mwyaf effeithlon. Fel mae’r ateb yn amlinellu mae yna le bob amser i holi a stilio a chraffu ar wariant y Cyngor ac yn wir dyna ydi gwaith y pwyllgorau craffu a’r Pwyllgor Archwilio ac mae’r Pwyllgor Archwilio wedi penderfynu gwneud darn o waith i edrych ar wariant gydag ymgynghorwyr allanol a daw’r adroddiad yna gerbron yr aelodau maes o law. Nid wyf yn rhagdybio beth fydd canlyniad y gwaith hwnnw ond ‘rydw i wedi dweud bod yna le i ni gomisiynu gwaith gan gyrff allanol ac asiantaethau allanol i’n cynorthwyo yn y broses. Yr enghreifftiau ‘rwy’n meddwl amdanynt yw lle mae’r Cyngor yn ceisio creu newid. Yn amlwg, mae’n rhaid i ni gael rhywun hyd braich i fod ynghanol y gwaith hwnnw ac i ni beidio bod yn ddwy ochr y ddadl ar yr un pryd. Nid yw hynny’n bosib’. Mae angen cael presenoldeb pobl annibynnol yn y sefyllfa yna er tegwch i bawb, ac ynghlwm â hynny, wrth gwrs, mae yna wariant. Gadewch i ni weld beth fydd ffrwyth gwaith y gweithgor sy’n edrych ar hwn.”

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Sion Jones**

“Mae’r Arweinydd yn dweud yn ei ymateb ysgrifenedig, os nad yw’r sgiliau arbenigol neu gapasiti angenrheidiol i'w gael o fewn y Cyngor, y byddwn yn defnyddio ymgynghorwyr allanol. ‘Rwy’n meddwl bod hynny’n reit sarhaus. Mae gennym 7000 o staff yn gweithio i Gyngor Gwynedd ac ‘rwy’n credu bod yna sgiliau ffantastig yn y Cyngor yma i ddelio gyda’r gwaith sydd angen ei wneud gan yr ymgynghorwyr allanol yma. Ydi’r Arweinydd yn barod i ymddiheuro am wastraffu arian cyhoeddus?”

**Ateb gan y Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor**

“Nid sarhaus yw cydnabod nad oes gennym y sgiliau i gyd bob amser. Onid realiti’r sefyllfa ydi hynny? Nid ydym i gyd yn arbenigwyr ar bob dim. Mae yna sefyllfaoedd lle ‘rydym angen cymorth a chyngor arbenigol. Onid y peth cyfrifol i wneud yn y sefyllfa yna ydi sicrhau ein bod yn cael cyngor priodol annibynnol ac addas. Yn wir, oni bai ein bod yn gwneud hynny, mae yna le i ni gael ein herio. Byddai Swyddfa Archwilio Cymru ar ein pennau ac mi fyddai yna sefyllfaoedd lle gallem gael ein herio. Mae yna fymryn bach o realiti hefyd, sef wrth i ni leihau’r gweithlu, nid oes gennym y capasiti i wneud pob dim. Mae’n amhosibl. Nid oes yna ddigon o oriau yn y dydd i wneud pob dim ac mae hynny yn isgynnyrch o wynebu toriadau sy’n golygu ein bod yn lleihau niferoedd staff. Ar fater gwariant cyhoeddus, nid wyf o blaid gwastraffu arian, boed hynny ar yr aelwyd neu unrhyw sefydliad cyhoeddus, a rhaid i ni gadw llygaid barcud. Os ydych eisiau edrych ar wariant cyhoeddus, a mater i bawb ddod i gasgliad ynglŷn ag effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwariant hwnnw, ewch i wefan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae nodyn yno o beth mae pob corff cyhoeddus wedi’i wario ar ymgynghorwyr. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwario miliynau ar ymgynghorwyr. Nid wy’n dweud mai gwastraff arian ydi hynny, ond tynnu eich sylw at yr angen i gyrff cyhoeddus wario arian y tu allan i’r corff yna. Nid wy’n mynd i ymddiheuro am unrhyw beth mae’r Cyngor yn ei wneud o ran gwariant. Gadewch i ni edrych ar yr adroddiad sy’n mynd i edrych yn fanwl ar wariant ar ymgynghorwyr yn benodol. Gadewch i ni

ddod i gasgliadau bryd hynny. Sut allwn ni ddod i gasgliad ynglŷn â phatrwm gwariant y Cyngor heb i ni weld y ffeithiau? Mae'n rhyfeddod gen i fod aelod yn gallu sefyll yn y Siambr a gwneud datganiad fel yna pan mae ef ei hun yn aelod o'r pwyllgor sydd wedi comisiynu'r gwaith! Oedd yr aelod yn bresennol yn y pwyllgor pan wnaed y penderfyniad i gomisiynu'r gwaith? Efallai nad oedd o ddim - na doedd o ddim! Mae'r Pwyllgor wedi comisiynu'r gwaith a gadewch i ni weld casgliad y gwaith yna cyn dod i unrhyw gasgliadau. Mae gwneud unrhyw beth arall yn wallgofrwydd llwyr, os caf fentro dweud."

**5. ADRODDIAD PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2014/15**

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn argymell i'r Cyngor gymeradwyo'r ddogfen yn ddarlun cytbwys, teg a chywir o berfformiad y Cyngor yn ystod 2014/15, a'i fabwysiadu.

Diolchodd yr Arweinydd i'r swyddogion hynny fu ynghlwm â'r gwaith.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad yn adlewyrchiad cytbwys, teg a chywir o berfformiad y Cyngor yn ystod 2014/15, a'i fabwysiadu.**

**6. ADRODDIAD BLYNYDDOL TROSOLWG A CHRAFFU GWYNEDD 2014/15**

Cyflwynwyd adroddiadau blynyddol y tri phwyllgor craffu ar gyfer 2014/15 ynghyd â'u rhaglenni gwaith ar gyfer 2015/16.

Pwyllgor Craffu Corfforaethol

Manylodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Corfforaethol, y Cynghorydd Dyfrig Jones, ar gylch gorchwyl a gwaith y pwyllgor yn ystod 2014/15, gan ddiolch i'r Is-gadeirydd, y Cynghorydd Jason Humphreys, aelodau'r pwyllgor a'r swyddogion am eu cefnogaeth.

Pwyllgor Craffu Gwasanaethau

Yn absenoldeb Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau, manylodd y Cynghorydd Alwyn Gruffydd ar gylch gorchwyl a gwaith y pwyllgor yn ystod 2014/15, gan ddiolch i'r Cadeirydd, y Cynghorydd Peter Read a'r Is-gadeirydd, y Cynghorydd Beth Lawton, aelodau'r pwyllgor a'r swyddogion am eu cefnogaeth.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Cyfeiriwyd at lwyth gwaith hynod o drwm y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau a nodwyd yr angen i adolygu'r Cyfansoddiad fel bod y tri phwyllgor craffu yn rhannu'r gwaith yn decach. Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Corfforaethol fod y drefn bresennol yn seiliedig ar fodel a orfodwyd ar y Cyngor yn dilyn yr etholiad diwethaf ac y byddai'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol yn cefnogi ymgais i sicrhau gwell cydbwysedd rhwng llwyth gwaith y gwahanol bwyllgorau craffu.

- Holwyd a oedd yr Arweinydd a'r Cabinet yn talu digon o sylw i argymhellion y pwyllgorau craffu? Awgrymwyd bod yr aelod yn codi'r mater yn uniongyrchol gyda'r Arweinydd a'r Cabinet. Nodwyd ymhellach nad oedd y pwyllgor craffu yn cael gwybod faint o weithiau mae'r Cabinet yn derbyn / gwrthod eu hargymhellion.
- Canmolwyd y prosiect Vanguard yn Ysbyty Alltwen a mynegwyd dymuniad i weld adroddiad gan Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol, yn hysbysu pobl Gwynedd o lwyddiant y peilot.
- Nodwyd bod y pwyllgor craffu wedi holi droeon faint o arian sy'n cael ei wario ar ymgynghorwyr, ond heb gael ymateb.

<u>Pwyllgor Craffu Cymunedau</u>

Manylodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau, y Cynghorydd Angela Russell, ar gylch gorchwyl a gwaith y pwyllgor yn ystod 2014/15 gan ddiolch i'r Is-gadeiryddion yn ystod y flwyddyn, y Cynghorwyr Mandy Williams-Davies a Caerwyn Roberts, aelodau'r pwyllgor a'r swyddogion am eu cefnogaeth.

Diolchodd yr Arweinydd i gadeiryddion, is-gadeiryddion ac aelodau'r tri phwyllgor craffu am eu holl waith gan nodi bod yr adroddiad yn amlygu'n glir pa bynciau gafodd eu craffu, beth oedd diben y craffu a beth sydd wedi digwydd i'r argymhellion yn deillio o hynny.

**7. ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR SAFONAU CYNGOR GWYNEDD 2014/15**

Croesawyd Dr Einir Young, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, i'r Cyngor i gyflwyno adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau am 2014/15.

Manylodd Dr Einir Young ar brif bwrpas y pwyllgor o hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig Cyngor Gwynedd a chynghorau cymuned a thref Gwynedd gan gyfeirio at aelodaeth y pwyllgor a'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2014/15. Diolchodd i Gwilym Ellis Evans, fu'n Gadeirydd y pwyllgor am 10 mlynedd, am ei waith diwyd a'i ymroddiad ac hefyd i Sam Soysa, fu'n Is-gadeirydd, cyn i'w gyfnod ar y pwyllgor ddod i ben. Diolchodd hefyd i'r Swyddog Monitro a'r swyddogion eraill sy'n rhoi cefnogaeth i'r pwyllgor.

Diolchwyd i Dr Einir Young am gyflwyno'r adroddiad.

**8. YMGYNGHORIAD I'R CYFARWYDDIADAU DRAFFT GAN LYWODRAETH Cymru I'R ADOLYGIAD GAN Y COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**

Cyflwynodd y Cynghorydd Tom Ellis, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn nodi, fel rhan o'r rhaglen diwygio llywodraeth leol, y byddai Llywodraeth Cymru yn gofyn i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gynnal adolygiad o drefniadau etholiadol ar gyfer ardaloedd awdurdod lleol newydd arfaethedig. Gofynnwyd i'r Cyngor ystyried argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar y mater ynghyd â barn y pwyllgor ar y newidiadau sydd dan sylw ar gyfer etholiadau 2017.

Mynegodd aelod ddiffyg hyder yn yr holl broses ar y sail bod cynnig llwgrwobr i gynghorwyr o flwyddyn ychwanegol heb unrhyw fandad ac ar dâl llawn yn dangos pa mor isel mae'r broses wedi disgyn.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Cyflwyno'r sylwadau ar gynnwys y Cyfarwyddiadau Drafft i'r Comisiwn Ffiniau sydd wedi eu crynhoi yn Atodiad A i'r cofnodion hyn.**

**(b) Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ddatgan y farn y byddai'n anaddas gweithredu'r newidiadau sydd dan sylw ar gyfer etholiadau 2017 gyda newid mor sylfaenol o ran ffiniau i ddilyn mor fuan yn sgil yr ad-drefnu.**

## 9. TAFLEN BENDERFYNIAD GAN AELOD CABINET

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Economi adroddiad er gwybodaeth yn nodi y cyflwynwyd taflen benderfyniad Aelod Cabinet ynghylch Ardal Gwella Busnes (AGB) Bangor a Chaernarfon Arfaethedig - Pleidleisiau Cyngor Gwynedd fel penderfyniad brys yn unol â rhan 7.25.2 o'r Cyfansoddiad fel na fyddai'r drefn galw i mewn yn berthnasol yn yr achos hwn er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn medru cyflwyno pleidleisiau cyn y dyddiad cau. Nododd fod y drefn yma'n caniatáu gwneud penderfyniad gyda chydsyniad Cadeirydd y Cyngor, ond 'roedd yn ofynnol adrodd ar hynny i'r Cyngor nesaf. Derbyniwyd cytundeb y Cadeirydd fod y mater dan sylw yn un brys a bod y penderfyniad a gynigid yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

Yn ystod y drafodaeth:-

- Croesawyd y ffaith bod y cynllun yn ei le a diolchwyd i'r Aelod Cabinet am ei gwaith.
- Nodwyd bod y Llywodraeth ganolog yn Lloegr wedi penderfynu bod cynghorau lleol Lloegr am gael cadw'r dreth fusnes i gyd er mwyn ei fuddsoddi'n lleol ac awgrymwyd cysylltu gyda Llywodraeth Cymru i ofyn am gyflwyno'r un amodau yng Nghymru. Atebodd y Prif Weithredwr y byddai'n rhaid i bwyllgor craffu edrych ar hyn yn gyntaf er mwyn gweld a fyddai trefn o'r fath yng Nghymru yn arwain at fudd i Wynedd neu beidio.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth.**

## 10. RHYBUDDION O GYNNIG

(a) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Elin Walker Jones, dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd.

**"Galwaf ar fy nghyd-gynghorwyr i gefnogi cais i ysgrifennu at John Penrose, AS i ofyn am newid yn y ddeddf i ganiatáu i ni sy'n dymuno adnabod ein hunain fel Cymry yn hytrach nag fel Prydeinwyr ar Gofrestr Etholiadol, pasborts, ac unrhyw ddogfennaeth swyddogol arall berthnasol.**

**Yn ddiweddar, anfonwyd Ffurflen Ymholiad Etholiadol i bob cartref yng Ngwynedd. Un o'r pethau sy'n cael ei gofrestru ar y Ffurflen yw cenedligrwydd, ond nid oes hawl gan Gymro/ Gymraes i gofnodi ei hun fel Cymro / Cymraes. Anfonir y Ffurflen gan ein Cyngor i bob cartref yng Ngwynedd, ac er bod y Cyngor â chyfrifoldeb am weinyddu'r Gofrestr Etholiadau yng Ngwynedd, mae'n gyfundrefn sy'n gweithredu trefn statudol ar gyfer cynnal etholiadau. Rhaid dilyn y gyfundrefn ar gyfer cynnal y gofrestr etholiadol er mwyn sicrhau hawliau dinasyddion Gwynedd i bleidleisio.**

**Nid Gwynedd sy'n gyfrifol am y gyfundrefn. Nid Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y gyfundrefn. Os am newid y drefn, rhaid cysylltu efo John Penrose, AS, chwip y Llywodraeth yn San Steffan, Comisiynydd yr Arglwydd o Drysorlys ei Mawrhydi ac Ysgrifennydd Seneddol (Gweinidog ar gyfer Diwygio Cyfansoddiadol).**

**Galwaf ar fy nghyd-gynghorwyr i gefnogi hawl Cymry i alw eu hunain yn Gymry. Galwaf ar fy nghyd-gynghorwyr i ddatgan cefnogaeth i ni, fel Cyngor Gwynedd, ysgrifennu at John Penrose i newid y ddeddf."**

Cefnogwyd y cynnig.

**PENDERFYNWYD derbyn y cynnig.**

(b) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Ioan Thomas, dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd.

**"Bod Cyngor Gwynedd yn:-**

**(1) Cydnabod ac yn cefnogi'r gwaith da y mae Gwynedd wedi ei wneud o ran darparu ystod o lety a / neu wasanaethau cefnogi i bobl ddiamddiffyn i'w helpu i gynnal neu adennill eu lle yn y gymuned yng Ngwynedd.**

**(2) Cefnogi parhad rhaglen ataliol Cefnogi Pobl a ariennir gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo a chefnogi pobl ddiamddiffyn a phobl ar yr ymylon i fyw'n annibynnol a chydag urddas yn eu cymunedau drwy ddarparu cefnogaeth gyda thai a gwasanaethau'r Cyngor.**

**(3) Galw ar Lywodraeth Cymru i ddiogelu'r grant Cefnogi Pobl, yn hytrach na'i leihau ymhellach.**

**(4) Cefnogi ymgyrch ar y cyd Cymorth Cymru a Chartrefi Cymunedol Cymru, "Gadewch i ni barhau i Gefnogi Pobl", i ddiogelu'r grant Cefnogi Pobl.**

**(5) Gwahodd Aelodau Etholaeth a Rhanbarthol Cynulliad Cymru i gefnogi'r cynnig hwn."**

Cefnogwyd y cynnig.

**PENDERFYNWYD derbyn y cynnig.**

(c) Cyflwynwyd, er gwybodaeth, lythyr gan Alun Cairns, AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru, mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Wyn Williams i'r cyfarfod diwethaf ynghylch datganoli pwerau Ystâd y Goron.

**PENDERFYNWYD nodi'r llythyr â siomedigaeth.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 2.30pm.

***Atodiad A***

***Cwestiwn 1: Ydych chi'n credu bod y gymhareb a awgrymir yn darparu ar gyfer cael llywodraeth leol effeithiol a hwylus?***

**Na. Mae'r gymhareb yn gwbl anaddas ar gyfer ardal wledig a gwasgaredig. Ar hyn o bryd, mae cymhareb bresennol Gwynedd fel sir yn 1,089 gyda wardiau Gwynedd yn cynnwys rhwng 480 a 2,428 gyda'r ddau ward mwyaf yn rhai 2 aelod.**

**Mae ymagwedd sydd yn defnyddio cymhareb syml o ran y nifer o etholwyr yn codi pryder. Nid yw hynny'n rhoi unrhyw gydnabyddiaeth i'r llwyth gwaith sydd yn codi i gynghorwyr lleol yn sgil myfyrwyr sydd heb gofrestru fel etholwyr, poblogaeth dymhorol, yn sgil y diwydiant ymwelwyr a thai haf.**

**Mae hefyd yn mynd yn gwbl groes i gyfeiriad Llywodraeth Cymru a oedd, yn ei ddogfen ymgynghorol "Diwygio Llywodraeth Leol - Grym i Bobl Leol" yn son am bwysigrwydd "Llywodraethu Cymunedol a arweinir gan aelodau". Mae'n anodd gweld sut y gall cynghorwyr ymdopi â'r rôl heriol hon ar ben eu cyfrifoldebau sefydliadol fel aelodau pwyllgor ayb os byddant yn gwasanaethu etholaethau mor fawr.**

**Pe byddai symudiad o'r fath yn digwydd, byddai'n rhaid symud i drefn o gynghorwyr llawn-amser er mwyn medru ysgwyddo'r llwyth gwaith.**

***Cwestiwn 2: Ydych chi'n credu bod angen isafswm o ran nifer cynghorwyr i sicrhau bod awdurdod lleol yn gweithredu mewn modd effeithiol a democrataidd? Os felly, beth yw'r isafswm a pham?***

**Mae angen isafswm ar gyfer democratiaeth effeithiol ond mae'r math o ffigurau a nodir yn llawer rhy isel. O fewn system Cabinet, gydag angen tua 10 aelod ar gabinet, mae gadael gweddill gwaith y Cyngor (Craffu, Archwilio, Cynllunio, Trwyddedu ayb) i nifer mor fychan o gynghorwyr yn gosod pwysau gwaith afresymol arnynt. Dylai'r isafswm aelodau fod yn o leiaf 45-50 aelod**

**Mae'r sylwadau uchod ar sail barn am lwyth gwaith y cynghorau presennol. Byddai hynny'n amlwg yn cynyddu'n arwyddocaol yn dilyn ad-drefnu mewn meysydd fel Cynllunio a Thrwyddedu, gyda chynnydd yn y nifer o geisiadau fyddai angen sylw.**

**Y mater arall i'w ystyried yw y gallai dyraniad seddau i grwpiau gwleidyddol fod yn fwy cymhleth ar gynghorau gyda niferoedd llai. Gallai fod yn fwy anodd llenwi seddau a gallai'r baich ar nifer fechan o gynghorwyr gynyddu.**

***Cwestiwn 3: Ydych chi'n credu y dylai isafswm nifer yr aelodau etholedig fesul awdurdod lleol gael ei bennu yn y Cyfarwyddiadau Drafft?***

**Dylid, fel yr esboniwyd yn yr ateb i gwestiwn 2. Dylai'r Cyfarwyddiadau Drafft gydnabod anghenion llywodraethu rhedeg cyngor modern. Fodd bynnag, unwaith mae hynny wedi digwydd, dylid edrych ar bob cyngor ar wahân gan ystyried amgylchiadau pob cyngor yn unigol. Rhaid ystyried pellteroedd teithio (ar gyfer teithio i gyfarfodydd yn ogystal â theithio at etholwyr o fewn y ward) yn ogystal â'r angen i gael wardiau sydd yn adlewyrchu cymunedau naturiol.**

***Cwestiwn 4: Ydych chi'n credu y dylid cael cap ar nifer yr aelodau etholedig fesul awdurdod lleol? Os felly, beth ddylai'r uchafswm fod yn eich barn chi a pham?***

**Mae'n siŵr bod rhyw synnwyr mewn cael cap ond dylai hynny adlewyrchu'r ardal ar gyfer cyngor unigol.**

***Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno y dylai pob ward o fewn awdurdod lleol gael tua'r un nifer o etholwyr fesul aelod etholedig?***

**Na. Mae natur wardiau unigol, hyd yn oed oddi fewn i ardaloedd cynghorau unigol mor amrywiol. O ganlyniad nid yw'n synhwyrol gwneud hynny. Mae'n gwbl briodol cael amrediad i ddibenion gwaith y Comisiwn Ffiniau ond byddai'n rhaid i'r Comisiwn gael y rhyddid i eithrio rhag hyn os yw natur cymuned naturiol yn golygu nad yw'n synhwyrol ei gynnwys gydag ardal arall.**

**Ar bwynt cysylltiol, argymhellir y dylid ceisio osgoi wardiau aml-aelod gan fod cael un aelod i ward yn symleiddio pethau i drigolion a chynghorwyr.**

***Cwestiwn 6: Pa effaith ddylai nodweddion penodol ardal ei chael ar nifer y cynghorwyr sydd eu hangen i gynrychioli'r boblogaeth?***

**Dyma ddylai fod yn brif ystyriaethau a dylent fod yn ddylanwadol iawn. Os yw cynghorau i adlewyrchu eu hardaloedd yn iawn, dylai holl nodweddion yr ardal (poblogaeth, pellteroedd teithio, natur cymunedau naturiol ayb) gael effaith ar y penderfyniad**

***Cwestiwn 7: Ydych chi'n cytuno nad oes angen enw Saesneg cyfatebol ar wardiau sydd ag enwau Cymraeg cyffredin? Os nad ydych yn cytuno, ydych chi'n credu y dylai pob ward gael enw Saesneg a Chymraeg?***

**Cytuno nad oes angen enw Saesneg cyfatebol ar wardiau sydd ag enwau Cymraeg cyffredin.**

# Eitem 9

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD:** | **10 Rhagfyr 2015** |
| **AELOD CABINET:** | **Y Cynghorydd Ioan Thomas** |
| **TEITL:** | **CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH CYNGOR 2016/17** |
| **AMCAN:** | **Cadarnhau parhad y Cynllun Lleol cyfredol ar gyfer darparu cymorth tuag at dalu'r Dreth Cyngor am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill 2016.** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |

## 1. Crynodeb Gweithredol

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor ac i'w gymeradwyo ar gyfer 2016/17.

1.2 Ar 1 Ebrill 2013, fel rhan o raglen diwygio lles Llywodraeth San Steffan, diddymwyd Budd-dal y Dreth Cyngor, a cyflwynwyd Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor yn ei le.

1.3 Yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, rhaid i bob awdurdod lleol ddarparu cynllun er mwyn pennu pa ostyngiadau fydd ar gael fel cymorth tuag at dalu'r Dreth Cyngor. Mabwysiadwyd cynllun lleol cyfredol Cyngor Gwynedd gan y Cyngor Llawn ar 4 Rhagfyr 2014.

1.4 Mae'r Rheoliadau'n mynnu fod rhaid i'r Cyngor llawn fabwysiadu'r Cynllun lleol, a hynny erbyn 31 Ionawr cyn dechrau'r flwyddyn ariannol berthnasol.

1.5 Dan y cynllun lleol, gall trethdalwyr cymwys barhau i dderbyn gostyngiad hyd at 100% o werth eu biliau Treth Cyngor (lle'n derbyn rhai budd-daliadau).

1.6 **Argymhellir fod Cynllun Lleol Cyngor Gwynedd yn parhau heb ei addasu ar gyfer 2016/17.** Mae eglurhaon manwl a rhesymau tu ôl i'r argymhellion dilynol yng nghorff dilynol yr adroddiad hwn.

## 2. Argymhellion

**Gofynnir i'r Cyngor llawn benderfynu yn ffurfiol i –**

**2.1 Barhau i weithredu Cynllun Lleol y Cyngor am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill 2016 fel ag yr oedd yn ystod 2015/16. Felly, bydd yr amodau canlynol (a – c isod) ynghylch yr elfennau disgresiwn yn parhau:**

**a) Gweithredu diystyrwch o 100% i bensiynau anabledd rhyfel, a phensiynau gweddwon rhyfel, ar gyfer pensiynwyr a hawlwyr oed gweithio fel ei gilydd.**

**b) Peidio cynyddu'r cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r pedair wythnos safonol sy'n y Cynllun Rhagnodedig.**

**c) Peidio cynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r tri mis safonol sydd wedi'i nodi ar hyn o bryd yn y Cynllun Rhagnodedig.**

**2.2 Lle'n briodol, dirprwyo'r grym i'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet dros Tai, Gofal Cwsmer a Llyfrgelloedd, Amddifadedd a Chydraddoldeb, i wneud mân addasiadau i'r cynllun am 2016/17, ar yr amod na fydd yn newid sylwedd y cynllun.**

## 3. Gwybodaeth Gefndirol

3.1 Yn unol â Deddf Diwygio Lles 2013, ers 1 Ebrill 2013 mae'r cyfrifoldeb am drefnu cymorth tuag at dalu'r Dreth Cyngor, a'r cyllid sydd ynghlwm ag ef, wedi ei drosglwyddo o'r DWP i awdurdodau lleol yn Lloegr ac i Lywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru.

3.2 Mae Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 yn galluogi'r ddarpariaeth o gymorth cymaint â 100% o'r dreth i'r hawlwyr ac yn ariannu rhan o'r gost berthnasol.

3.3 Cymeradwywyd Cynllun Lleol Cyngor Gwynedd am 2015/16 gan y Cyngor Llawn ar 4 Rhagfyr 2014. Mae'r Rheoliadau yn rheoli gweithrediad cynlluniau gostyngiadau ar draws Cymru gyfan ac wedi'u cynllunio i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn cyflwyno cymorth i drethdalwyr Cymreig ar ffurf gyson.

**4. Cynllun Gostyngiadau 2016/17**

4.1 Mae'r Rheoliadau (Rheoliad 18) yn datgan fod **rhaid i awdurdod ystyried a ddylai ddiwygio ei gynllun** neu ei amnewid gan gynllun arall **ar gyfer pob blwyddyn ariannol**; rhaid i'r awdurdod wneud unrhyw ddiwygiad yn ei gynllun, neu unrhyw gynllun a amnewidir, **ddim hwyrach na 31 Ionawr** yn y flwyddyn ariannol sy'n rhagflaenu'r flwyddyn ariannol pan fo'r diwygiad neu'r cynllun a amnewidir i gael effaith.

4.2 Mae'r Rheoliadau (Rheoliad 12) yn datgan na ellir dirpwyo'r swyddogaeth o wneud y cynllun i'r Cabinet, a **rhaid ei benderfynu gan y Cyngor llawn**.

4.3 Felly, bwriad yr adroddiad yma yw bodloni'r gofyn i'r Cyngor ystyried a ddylai ddiwygio ei gynllun lleol.

4.4 Mae disgresiwn cyfyngedig o dan y Cynllun Rhagnodedig i gynghorau ystyried y 3 elfen dewisol penodol canlynol. Mae'r elfennau disgresiwn yma'n fwy hael na'r cynllun cenedlaethol.

<u>Pensiynau anabledd rhyfel a phensiynau gweddwon rhyfel</u>
*(argymhelliad 2.1(a) uchod)*

4.5 Mae disgresiwn i gynyddu'r diystyrwch o bensiynau anabledd rhyfel, a phensiynau gweddwon rhyfel, ar gyfer pensiynwyr a phobl oed gwaith fel ei gilydd.

Ar hyn o bryd, mae £10 cyntaf pensiwn anabledd a phensiwn gweddwon rhyfel wythnosol yn cael ei ddiystyru dan y rheoliadau. Fodd bynnag, mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i ddiystyru hyd at 100% o'r gwir swm dros y £10 cyntaf. Ers 1 Ebrill 1996, penderfynodd Cyngor Gwynedd, fel y mwyafrif o Awdurdodau eraill yng Nghymru, ddiystyru 100% o bensiynau rhyfel dros £10. Yn 2016/17, amcangyfrifir y bydd y diystyrwch hwn o bensiynau rhyfel yn costio oddeutu £33,000 i'r Awdurdod mewn gostyngiadau Treth Cyngor. Dyma yw sefyllfa 2015/16, felly mae'r ddarpariaeth berthnasol eisoes wedi'i gynnwys yn y gyllideb sylfaenol ac yn Strategaeth Ariannol 2016/17.

Argymhellir fod caniatáu'r disgresiwn lleol hwn yng Ngwynedd yn parhau.

<u>Cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bobl oed gwaith</u>
*(argymhelliad 2.1(b) uchod)*

4.6 Mae disgresiwn i gynyddu'r cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bobl oed gwaith o'r pedair wythnos safonol wedi iddynt ddychwelyd yn ôl i'r gwaith, hynny os iddynt fod wedi derbyn budd dal perthnasol am o leiaf 26 wythnos.

Ni cheir unrhyw gyfyngiad ar y cyfnod hiraf gallant gael eu hymestyn iddo ond byddai goblygiadau ariannol. Amcangyfrifir fod cost 4 wythnos safonol o gyfnod estynedig oddeutu £26,000.

Argymhellir parhau i beidio addasu'r pedair wythnos o gyfnod estynedig sy'n y Cynllun Rhagnodedig.

Cyfnod ôl-ddyddio ceisiadau hwyr
*(argymhelliad 2.1(c) uchod)*

4.7 Mae disgresiwn i gynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio cais hwyr tu hwnt i'r cyfnod tri mis safonol. Ni cheir unrhyw gyfyngiad ar y cyfnod hiraf gallant gael eu hymestyn iddo. Amcangyfrifir mai £28,000 yw cost caniatáu'r ôl ddyddio cyfredol (3 mis).

Mae'r Cynllun Gostyngiadau presennol yn caniatáu ôl-ddyddio ceisiadau hwyr am gyfnod hyd at dri mis. Byddai ymestyn y cyfnod yn cynyddu cost y cynllun.

Argymhellir parhau i beidio cynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio o'r tri mis safonol sy'n y Cynllun Rhagnodedig.

**4.8 Mae'r argymhellion uchod ar gyfer 2016/17 yn unol â threfniadau cyfredol 2015/16.**

## 5. Ymgynghori

5.1 Petai'r Cyngor am addasu ei gynllun lleol – i bob pwrpas trwy newid y 3 maes o ddisgresiwn lleol a ddisgrifir ym mharagraffau 4.5 i 4.7 – byddai'n rhaid iddo ymgynghori gydag "unrhyw un sydd â diddordeb".

5.2 Bu ymarferiad ymgynghori hynod drylwyr a chynwysedig yn Rhagfyr 2012 / Ionawr 2013 ar gyfer cynllun 2013/14, a cynhaliwyd ymgynghoriad pellach o 29/11/13 tan 10/01/14 ar gyllun 2014/15.

5.3 Gan nad oes bwriad i addasu'r Cynllun Lleol eleni, nid oes angen ymgynghori pellach.

## 6. Asesiad Effaith Cydraddoldeb

6.1 Ar wahân i'r ariannu ar lefel y Cyngor, nid yw'r cynllun a gynigir ar gyfer 2016/17 yn cynnwys unrhyw newidiadau sylweddol o'r cynllun sy'n weithredol ar hyn o bryd. Felly, ni gynhaliodd Cyngor Gwynedd astudiaeth Asesiad Effaith Cydraddoldeb lleol eleni. Gwnaethpwyd hynny ar gyfer 2013/14, pan newidiwyd y drefn o'r Budd-dal Treth Cyngor i'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor.

6.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad effaith 'rheoleiddiol', sy'n cynnwys asesiad effaith cydraddoldeb, a deallaf fod y darganfyddiadau yn unol â'u disgwyliadau.

## 7. Adnoddau

7.1 Mae costau'r Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor wedi eu cynnwys yn y 'setliad' grant i lywodraeth leol gan Lywodraeth Cymru, ond dylid nodi nad yw'r setliad yma yn talu'r Cynllun Gostyngiadau yn llawn.

7.2 Cyhoeddir y setliad drafft ar gyfer 2016/17 gan Lywodraeth Cymru ar 9 Rhagfyr, oedd yn rhy hwyr i'w ystyried wrth baratoi'r adroddiad yma. Fel mae paragraffau 4.1 a 4.2 uchod yn egluro, rhaid i'r Cyngor llawn wneud y cynllun lleol a hynny cyn 31 Ionawr. Felly, y cyfarfod yma yw'r un hwyraf yn y calendr ble gellir mabwysiadu'r cynllun.

7.3 Realiti'r sefyllfa yw y bydd rhaid i'r Cyngor ariannu unrhyw gostau'r Cynllun nad ydynt wedi eu cynnwys yn y setliad, yn ogystal â chwyddiant, fydd ddim yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. O safbwynt chwyddiant, bydd cost y cymorth yn cynyddu'n gymesur â'r codiad yn y Dreth Cyngor.

7.4 Nid oes dewis ond wynebu'r sefyllfa yma, a bydd yr uchod wedi'i ystyried yn briodol a'i ffactorio mewn i'r Strategaeth Ariannol sy'n adnabod y bwlch ariannol yng nghyllideb 2016/17.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD:** | **10 Rhagfyr 2015** |
| **AELOD CABINET:** | **Cynghorydd Peredur Jenkins** |
| **TEITL:** | **TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATÁU DISGOWNTIAU** |
| **AMCAN:** | **Cadarnhad ffurfiol am 2016/17 o’r penderfyniadau blaenorol i beidio caniatáu disgownt i ail gartrefi a pheidio caniatáu disgownt ar eiddo gwag.** |
| **AWDUR:** | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |

## 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

1.1 Mae’r Cyngor wedi mabwysiadu yn flynyddol, ers 1998, i ganiatáu DIM disgownt i ail gartrefi.

1.2 Mae’r Cyngor wedi mabwysiadu yn flynyddol, ers 2009, i BEIDIO â chaniatáu disgownt ynghylch eiddo gwag.

1.3 Mae’n ddoeth ceisio penderfyniad blynyddol gan y Cyngor llawn ynglŷn â’r materion yma.

## 2. ARGYMHELLION

**2.1 Gofynnir felly yn ffurfiol i’r Cyngor fabwysiadu eto am 2016/17 y bydd Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i’r ddau ddosbarth o ail gartrefi (dosbarthau A a B) fel a ddiffinnir yn Rheoliadau Treth Cyngor (Dosbarthau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) 1998.**

**2.2 Ymhellach, gofynnir hefyd i’r Cyngor benderfynu yn ffurfiol am 2016/17 i BEIDIO â chaniatáu disgownt yng nghyswllt eiddo gwag (dosbarth C).**

## 3. CEFNDIR DEDDFWRIAETHOL

3.1 Rhoddir disgresiwn i Gynghorau o dan Adran 12 o’r Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel a ddiwygir gan Adran 75 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003), a Rheoliadau’r Dreth Cyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998 (fel a ddiwygir gan Reoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2004) i ganiatáu disgownt, ai peidio, i ddau gategori o ail gartrefi (dosbarthau A a B isod) ac i eiddo gwag tymor hir (dosbarth C). Gall y disgownt fod yn 50%, neu raddfa lai o ganran, neu ddim disgownt o gwbl.

3.2 Tra bod rheoliadau eisoes yn caniatáu i’r Cabinet gymryd penderfyniad ar sylfaen treth cyngor, **rhaid sicrhau penderfyniad parthed hawl disgownt o’r Cyngor llawn**. Am resymau technegol (gweler 4.3 isod), gofynnir eto am gadarnhad blynyddol o’r penderfyniad i beidio caniatáu disgowntiau.

## 4. POLISI CYFREDOL A BWRIAD

4.1 Mae'r Cyngor wedi penderfynu caniatáu DIM disgownt i ail gartrefi (dosbarthau A a B) ym mhob blwyddyn ers derbyn hawl disgresiwn o dan reoliadau 1998, ac argymhellir isod fod hyn i barhau yn 2016/17.

4.2 Mae'r Cyngor hefyd wedi penderfynu PEIDIO â chaniatáu disgownt o 50% i ddosbarth C (eiddo gwag) ers 2009/10, ac argymhellir isod fod hyn i barhau yn 2016/17.

4.3 Er mwyn osgoi'r gofyn am benderfyniad blynyddol ar yr uchod, penderfynwyd yng nghyfarfod 21 Ionawr 2010 o'r Cyngor llawn i gadarnhau fod y polisi yma i barhau tu hwnt i 2010/11, ac ymhellach hyd nes bydd eitem berthnasol yn cael ei daflennu ar raglen y Cyngor llawn. Fodd bynnag, ddaru ystyriaeth tribiwnlys prisio o achos parthed eiddo mewn sir arall godi amheuaeth ynglŷn â dilysrwydd penderfyniad a pholisi parhaol ar hyn, a'r farn gyfreithiol yw y byddai'n osgoi elfen o risg i'r Cyngor pe bawn yn sicrhau penderfyniad blynyddol ar gyfer y mater.

4.4 Mae strategaeth ariannol 2016/17, a setliad grant y Cyngor gan Lywodraeth Cymru, wedi'i seilio ar barhad y polisi i ganiatáu DIM disgownt, a byddai rhaid i unrhyw newid i'r polisi hwnnw gael ei ariannu gan y Cyngor yn 2016/17.

## 5. "Y RHEOLIADAU" - RHEOLIADAU TRETH CYNGOR (DOSBARTH O EIDDO PENODEDIG) (CYMRU) 1998 / RHEOLIADAU'R DRETH GYNGOR (DOSBARTHAU RHAGNODEDIG AR ANHEDDAU) (CYMRU) (DIWYGIO) 2004

5.1 Yn y Rheoliadau uchod mae 'ail gartrefi' wedi'u categoreiddio i ddau ddosbarth, sef dosbarthau A a B, tra bod dosbarth C nawr yn cyfeirio at eiddo gwag:

- **Dosbarth A** - Ail gartrefi sy'n ddiddeiliad ac wedi'u dodrefnu lle mae'r meddiant yn cael ei wahardd am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf mewn cyfnod o 12 mis.
- **Dosbarth B** - Ail gartrefi sy'n ddiddeiliad ac wedi'u dodrefnu.
- **Dosbarth C** - Yn ddiddeiliad a heb eu dodrefnu ac wedi bod felly am gyfnod o dros 6 mis.

5.2 Mae'r Rheoliadau yn caniatáu disgresiwn i'r Cyngor godi Treth Cyngor llawn, neu i ganiatáu disgownt o 25% neu 50% i ddosbarthau A a B.

5.3 Yn yr un modd, mae'r Rheoliadau yn caniatáu i'r Cyngor barhau i ganiatáu disgownt 50%, neu raddfa lai o ganran, neu ddim disgownt o gwbl ar ddosbarth C.

## 6. AIL GARTREFI

6.1 Yn ogystal â'r hawl i beidio caniatáu disgownt, mae Deddf Tai (Cymru) 2014 wedi ychwanegu Adran 12B i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 er mwyn cynnwys darpariaeth ddewisol i gynghorau i godi "premiwm" o ddim mwy na 100% ar ail gartrefi. Disgwylir y bydd modd gwneud hyn o Ebrill 2017.

6.2 Fodd bynnag, bydd rhaid cael orchymyn cychwynnol cyn gweithrediad. Nid yw'r gorchymyn yma wedi cael ei gyhoeddi eto, ond disgwylir ei gyhoeddi yn fuan.

6.3 Rhaid i'r Cyngor roi rhybudd o'i fwriad i godi "premiwm ail gartrefi" o leiaf un flwyddyn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi. Felly, os yw'r Cyngor am godi premiwm ar gyfer 2017/18 ymlaen, bydd rhaid i'r Cyngor llawn wneud penderfyniad yn ei gyfarfod ar 3 Mawrth 2016.

6.4 Yn y cyfamser, ar gyfer 2016/17, argymhellir (2.1 uchod) i'r Cyngor beidio â chaniatáu unrhyw ddisgownt i ail gartrefi.

## 7. EIDDO GWAG

7.1 Mabwysiadwyd Strategaeth Tai Gwag Cyngor Gwynedd yn Chwefror 2009. Mae'r Cyngor hefyd wedi cydnabod pwysigrwydd rhoddi sylw i dai gwag o fewn ei Gynllun Strategol (dwyn eiddo gwag yn ôl i ddefnydd). Datganiad cenhadaeth y Strategaeth Tai Gwag yw: *"Bydd Cyngor Gwynedd yn ymdrechu i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Ein nod yw cyfrannu at les y gymdogaeth, cynyddu'r cyflenwad tai, lleihau digartrefedd neu'r posibilrwydd o ddigartrefedd, ac ar yr un pryd, lleihau'r pwysau ar y Rhestr Aros Tai".*

7.2 Ers Ebrill 2009, mae 100% o'r dreth cyngor wedi cael ei godi ar anheddau gwag hir dymor, yn dilyn naill ai cyfnod eithrio o 6 mis, neu gyfnod eithrio estynedig o 12 mis os oedd yr eiddo'n cael ei adnewyddu'n sylweddol. Byddai darparu unrhyw ddisgownt yn rhoi cymhelliad anffodus i berchnogion gadw anheddau yn wag. Mae'n rhan o'r Strategaeth Tai Gwag fod y Cyngor am ymarfer ei disgresiwn i godi 100% o dreth cyngor ar anheddau sy'n wag yn y tymor hir, fel cymhelliad i ddod â'r anheddau hyn yn ôl i ddefnydd. Argymhellir i'r Cyngor llawn barhau â'r penderfyniad o beidio caniatáu'r disgownt ar eiddo gwag yn 2016/17.

7.3 Yn debyg i'r sefyllfa gydag ail gartrefi a ddisgrifir uchod, mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn cyflwyno Adran 12A i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 gan roi darpariaeth ddewisol i gynghorau i godi premiwm treth cyngor o ddim mwy na 100% ar eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy.

7.4 Eto mae'r ddarpariaeth angen gorchymyn cychwynnol cyn gweithredu. Fel yr ail gartrefi, y dyddiad cyntaf y gellir codi unrhyw bremiwm yw Ebrill 2017. Yn y cyfamser, ar gyfer 2016/17, argymhellir (2.2 uchod) fod y Cyngor yn mabwysiadu peidio â chaniatáu unrhyw ddisgownt eiddo gwag.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD:** | **10 RHAGYFR 2015** |
| **AELOD CABINET:** | **DAFYDD MEURIG (CYNLLUNIO A RHEOLEIDDIO)** |
| **TEITL:** | **ADOLYGU DATGANIAD O BOLISI TRWYDDEDU - DEDDF TRWYDDEDU 2003** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO** |

## 1.0 GWYBODAETH GEFNDIROL

1.1 Yn unol ag Adran 5 o'r Ddeddf Trwyddedu 2003, mae angen i bob awdurdod Trwyddedu, gyhoeddi Datganiad o Bolisi Trwyddedu pob 5 mlynedd. Mae'r cyfnod 5 mlynedd yn dod i ben 6 Ionawr 2016. Mae rhaid i'r Cyngor fod wedi penderfynu a chyhoeddi ei bolisi newydd erbyn y dyddiad hwn.

1.2 Mabwysiadwyd y polisi cyfredol gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 16 Rhagfyr 2010. Gwelir copi fel Atodiad 1.

## 2.0 YMGYNGHORIAD STATUDOL CYHOEDDUS

2.1 Yng nghyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu Canolog ar 3 Tachwedd 2015, penderfynwyd cymeradwyo'r Datganiad o Bolisi Trwyddedu Drafft ar gyfer pwrpas cychwyn yr ymgynghoriad statudol cyhoeddus ar gyfer ei fabwysiadu.

2.2 Cychwynnodd yr ymgynghoriad ffurfiol ar 4 Tachwedd 2015 ac roedd yn agored am gyfnod o 21 diwrnod. Diwrnod terfyn yr ymgynghoriad oedd 24 Tachwedd 2015.

2.3 Yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003, gwnaeth yr Uned Trwyddedu (Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd) ymgynghori gyda'r partïon isod yn yr ymgynghoriad cyhoeddus.

- Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Tan & Achub Gogledd Cymru
- Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr
- Pobl/Cyrff sy'n cynrychioli busnesau a thrigolion y sir
- Pobl/Cyrff sy'n cynrychioli deiliaid trwydded/tystysgrif gyfredol

2.4 Parthed "Pobl/Cyrff sy'n cynrychioli busnesau a thrigolion y sir" fe wnaeth yr Uned Trwyddedu gysylltu â phob Clerc Cyngor Cymuned yng Ngwynedd a rhoi gwybod i bob Cynghorydd am yr ymgynghoriad.

2.5 Parthed "Pobl/Cyrff sy'n cynrychioli deiliaid trwydded/tystysgrif gyfredol" fe wnaeth yr Uned Trwyddedu gysylltu ag aelodau o grwpiau 'Pubwatch' a chysylltau Siambrau Masnach ar draws y sir.

2.6 Yn ogystal a'r gofynion statudol uchod fe wnaeth yr Uned Trwyddedu:

i. Paratoi eitem yn Rhaeadr ar gyfer rhoi gwybod i bob Cynghorydd am yr ymgynghoriad.
ii. Paratoi datganiad i'r wasg.
iii. Cysylltu â phob awdurdod cyfrifol arall sy'n bodoli o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, h.y. Unedau Iechyd Amgylchedd, Safonau Masnach ac Iechyd a Diogelwch

y Cyngor; Gwasanaeth Plant y Cyngor; Gwasanaeth Cynllunio'r Cyngor a Pharc Eryri.

iv. Paratoi gwybodaeth ar gyfer tudalen "Dweud eich dweud" ar wefan y Cyngor.
v. Paratoi pecyn wybodaeth i'w harchwilio ym mhob Siop Gwynedd.

2.7 Gwelir copi o'r daflen gwybodaeth a'r asesiad Effaith Cydraddoldeb Cychwynnol a roddwyd gyda'r ymgynghoriad fel Atodiad 2.

## 3.0 YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

3.1 Fe dderbyniodd yr Uned Trwyddedu un ymateb i'r ymgynghoriad oddi wrth Uwch Swyddog Polisi ac Ymchwil o 'Alcohol Concern Cymru', Caerdydd. Roedd ei sylwadau yn berthnasol i 3 darn o'r Datganiad, sef darn 1. Cyflwyniad, darn 10. Amodau ac Atodiad 3 – Alcohol ac Iechyd yng Nghymru.

3.2 Darn 1. Cyflwyniad – roedd yr ymatebydd o'r farn bod cyfle i'r awdurdod nodi fod Iechyd Cyhoeddus, er ei fod ddim yn un o'r amcanion trwyddedu, yn bwysig i'r awdurdod. Roedd yn awgrymu dylwn addasu geiriad y ddogfen er mwyn annog ymgeiswyr i ddangos yn eu Hatodlen Weithredu sut byddent yn cyfrannu at nod y Cyngor o hybu ffyrdd iachach i fyw.

3.3 Darn 10. Amodau – roedd yr ymatebydd o'r farn bod dyle bod y datganiad yn cynnwys atodiad sy'n rhestru amodau cryf gall cael eu gosod ar drwyddedau er mwyn rhwystro hyrwyddiadau anghyfrifol ac arddangosfeydd o alcohol.

3.4 Atodiad 3. Alcohol ac Iechyd yng Nghymru – roedd yr ymatebydd yn croesawu Atodiad 3 yn y ddogfen ond o'r farn dyle bod o'n cynnwys fwy o ystadegau parthed effaith alcohol ar iechyd.

3.5 Gwnaeth y Pwyllgor Trwyddedu Canolog ystyried yr ymateb yn ei gyfarfod ar 1 Rhagfyr 2015. Penderfynodd y Pwyllgor i

- ddiwygio paragraff 2.14 o'r polisi er mwyn cynnwys datganiad bod y cyngor yn "cefnogi eiddo sydd yn hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw ac yfed alcohol yn gyfrifol".
- beidio cynnwys atodiad sy'n rhestru amodau cryf oherwydd ei fod o'r farn bod paragraff 10.3.5 a 10.3.6 yn esbonio'n glir sut gall amodau yn cael eu gorfodi ar drwydded. Hefyd, yn unol â'r Ddeddf Trwyddedu 2003 ni ddylid bod yr Awdurdod Trwyddedu yn defnyddio amodau safonol.
- Beidio newid Atodiad 3 o'r ddogfen oherwydd bod y cynnwys wedi ei gytuno ar y cyd gyda chynghorau lleol eraill yng Ngogledd Cymru.

3.6 Gwelir copi o'r Datganiad o Bolisi Trwyddedu arfaethedig fel Atodiad 3.

## 4.0 CYDWEITHIO

4.1 Crëwyd y Datganiad o Bolisi Trwyddedu arfaethedig o ganlyniad i gydweithio ag awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru.

4.2 Sefydlwyd Grŵp Tasg fel rhan o'r prosiect cydweithio Gwarchod y Cyhoedd ar draws Gogledd Cymru, i weithio gyda'i gilydd i geisio creu datganiad o bolisi trwyddedu 'cyffredin' ar draws Gogledd Cymru.

4.3 Cytunodd y Grŵp Tasg strwythur 'Cynnwys' y polisi, fodd bynnag, oherwydd y ffactorau economaidd a cymdeithasol gwahanol sy'n effeithio pob awdurdod mae pob datganiad wedi ei eirio'n wahanol ac yn parhau i fod yn berthnasol i'w ardal benodol.

4.4 Mae datganiadau presennol y Cynghorau Gogledd Cymru eisoes yn debyg iawn. Mae hyn yn wir ar gyfer y datganiadau arfaethedig.

## 5.0 ADDASIADAU I'R DATGANIAD O BOLISI TRWYDDEDU

5.1 Mae'r polisi wedi cael ei ail-ysgrifennu ac mae fformat a chynllun y polisi wedi ei ddiweddaru er mwyn hwyluso'r darllenydd i ddod o hyd i wybodaeth yn gynt ac yn haws.

5.2 Mae 'Cynnwys' y polisi wedi ei ddiwygio i gydymffurfio a'r strwythur polisi y cytunwyd arno. Mae adrannau ac isadrannau wedi cael eu creu er mwyn darparu gwybodaeth ychwanegol ar faterion a phwerau sydd wedi dod i'r rym ers i'r polisi presennol cael ei fabwysiadu yn 2010. Er enghraifft, Gorchmynion Cyfyngu Bore Cynnar ac Ardoll Hwyr y Nos.

5.3 Mae geiriad y polisi wedi ei addasu er mwyn cyfeirio at ddeddfwriaeth gyfredol. Er enghraifft, mae diffiniad adloniant wedi ei rheoleiddio wedi ei addasu'n sylweddol yn dilyn y Ddeddf Cerddoriaeth Byw 2012 a'r Ddeddf Dadreoleiddio 2015.

5.4 Er y newidiadau hyn, mae ysbryd a gweledigaeth y Datganiad o Bolisi Trwyddedu arfaethedig yn parhau heb newid.

## 6.0 ARGYMHELLIAD

6.1 Bod y Cyngor yn mabwysiadu'r Datganiad o Bolisi Trwyddedu newydd.

**Polisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd**
**at ddibenion Deddf Trwyddedu 2003**

**Cynnwys** — **TUDALEN**


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cefndir | 2 |
| 2. | Cyflwyniad | 4 |
| 3. | Rhwystro Trosedd ac Anrhefn | 5 |
| 4. | Diogelwch y Cyhoedd | 6 |
| 5. | Rhwystro Niwsans Cyhoeddus | 7 |
| 6. | Amddiffyn Plant rhag Niwed | 8 |
| 7. | Effaith Gronnol | 9 |
| 8. | Ceisiadau am Grantiau Newydd ac Amrywiad o'r Telerau ac Amodau | 10 |
| 9. | Oriau Gweithredu | 11 |
| 10. | Camau Gorfodi | 12 |
| 11. | Y Broses Drwyddedu | 13 |
| 12. | Dirprwyo Swyddogaethau argymelledig | 16 |
| 13. | Gwybodaeth Ychwanegol – Trwyddedau Personol. | 17 |

Atodiad "A" – Cyfarwyddyd ynglŷn â'r drefn ar gyfer Ymgeiswyr/Gwrthwynebwyr 18

Atodiad "B" - Strategaethau Trwyddedu 31

Atodiad "C" - Rhestr Amodau

1. Trosedd ac Anrhefn 32
2. Diogelwch y Cyhoedd 37
3. Sinemâu a Diogelwch Tan 42
4. Niwsans Cyhoeddus 45
5. Gwarchod Plant Rhag Niwed 46
6. Amodau Statudol safonol i glybiau 51

Atodiad "D" - Protocol Gorfodaeth 54

## 1. Cefndir

1.1 Seiliwyd y Datganiad Polisi Trwyddedu ar Ddeddf Trwyddedu 2003. Gwelir yn y ddogfen hon y polisïau hynny y bydd y Cyngor yn eu gweithredu pan fydd yn penderfynu ynglŷn â cheisiadau ar gyfer y canlynol:

- Mân-werthu alcohol;
- Cyflenwi alcohol gan neu ar ran clwb i, neu ar orchymyn, aelod o'r clwb;
- Darparu lluniaeth hwyrnos (bwyd neu ddiod poeth o unrhyw eiddo rhwng 23.00 a 05.00 awr); a
- Darparu adloniant rheoleiddiedig ar gyfer y cyhoedd neu aelodau o'r clwb neu gyda'r bwriad o wneud elw gan gynnwys codi arian tuag at elusen pan fydd yr adloniant yn cynnwys :
    - Perfformiad theatr neu arddangosfa ffilm
    - Chwaraeon dan do
    - Gornest baffio/reslo
    - Cerddoriaeth fyw
    - Cerddoriaeth wedi ei recordio
    - Perfformiad dawns
    - Darparu cyfleusterau i chwarae cerddoriaeth
    - Darparu cyfleusterau dawns.

1.2 Ceir cyfarwyddyd yn Atodiad A(i'w lunio)ynglŷn â'r drefn gywir i ymgeiswyr a gwrthwynebwyr.

1.3 Cyfrifoldeb y Cyngor yw gweinyddu ei ddyletswyddau tan ddarpariaethau'r Ddeddf er mwyn hybu'r amcanion trwyddedu a ganlyn:

- **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
- **Diogelwch y Cyhoedd;**
- **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
- **Amddiffyn plant rhag niwed.**

1.4 Sylweddolir mai un ffordd yn unig o gyflawni'r amcanion hyn yw'r swyddogaeth drwyddedu. Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda'r Cymunedau Lleol, yr heddlu, busnes lleol a phob deiliad diddordeb a phartner perthnasol arall.

1.5 Mae deddfwriaethau eraill sydd yn gorfodi'r awdurdod trwyddedu i ufuddhau iddynt er mwyn gweithredu ei swyddogaeth drwyddedu a rhoddir y manylion isod:

- Mae adran 17 o Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1988 yn mynnu fod awdurdod lleol yn gwneud cymaint ag y sydd yn rhesymol i'w wneud i rwystro trosedd ac anrhefn yn y gymuned.
- **Tan ddarpariaethau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Iawnderau Dynol a weithredir gan Ddeddf Iawnderau Dynol 1988 fe osodir dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i amddiffyn hawliau'r unigolyn dan amgylchiadau amrywiol** .
- Deddf Iechyd a Diogelwch wrth Weithio ayyb 1974, Deddf Iechyd 2006 ag Rheoliadau Eiddo Difwg 2007
- Deddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990;
- Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995;
- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (na ddaeth eto i rym ) a
- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Yfed Alcohol mewn Mannau Cyhoeddus dynodedig) 2001.
- Deddf Gamblo 2005
- Deddf Cymdogaethau Glan 2005

- Deddf Lleihau Troseddu Treisiol 2006
- **Deddf Trosedd a Diogelwch 2010 ac atodlen 7 Deddf Plismona a Throsedd 2009**
- **CyfarwyddydGwasanaeth yr Undeb Ewropeaidd**
- Deddf Iechyd 2006 **(Adeiladau Difwg 2007**)

**Nodiadau: - Pan fydd y gyfraith eisoes yn gosod rhwymedigaethau statudol ar yr ymgeiswyr ni fydd y Cyngor yn gosod yr un dyletswyddau neu rhai tebyg fel amod ar drwydded yr eiddo, daliwr y drwydded neu'r clwb.**

1.6 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ceisio cyflawni'r dyletswyddau hynny a ddynodir mewn Strategaethau eraill gan y Llywodraeth i'r graddau y byddent yn cael effaith ar amcanion y Ddeddf Drwyddedu. Gweler yr enghreifftiau isod o'r Strategaethau hyn:

- Cynllun Gweithredu i Ymosod ar Drosedd, Anrhefn a Niwsans Cysylltiedig ag Alcohol, ;
- Mynychu Clybiau yn ddiogel;
- Côd Ymarfer Gorau Cydlynwyr Gwasanaethau Rheoleiddio Awdurdodau Lleol(CGRhALl) a'r Gyfundrefn Safonau Masnach( CSM)ar Brynu ar Brawf Strategaeth Gostwng Trosedd ac Anrhefn
- Concordat Gorfodi

1.7 Bydd y Cyngor hefyd yn dwyn i sylw y mentrau sydd eisoes mewn bod ac sydd yn berthnasol i faes trwyddedu; gweler y manylion pellach yn Atodiad"B":

- *Cynllun diogelwch-liw-nos*
- *Cynllun Profi Oedran*
- *Camerâu Teledu CC yng nghanol y dref*
- *Gorchmynion Gwahardd o Ganol y Dref*
- *Canllawiau Mynychu Clybiau yn ddiogel*

1.8 Diben y drefn drwyddedu yw caniatáu parhad mân-werthiant alcohol a'r ddarpariaeth o weithgareddau y gellir eu trwyddedu mewn modd fydd yn sicrhau diogelwch y cyhoedd ac na fydd er afles i drigolion nac ychwaith yn amharu ar fwynderau. Dymuniad y Cyngor yw hwyluso eiddo sydd tan reolaeth dda gyda dalwyr trwydded sydd yn dringar ynglŷn â'r effaith ar drigolion lleol.

1.9 Mae'r Cyngor yn sylweddoli fod y diwydiant adloniant yn y Sir hon yn cyfrannu tuag at yr economi lleol. Mae'n denu ymwelwyr a thwristiaid, yn creu trefi a phentrefi bywiog ac yn gyflogwr mawr. Yn ogystal bydd gan ddeiliaid masnachol ddisgwyliad cyfreithlon y bydd yr amgylchfyd yn denu ac yn cynnal eu busnes yn yr eiddo hyn. Ond dylid sicrhau yn ogystal yr atebir gofynion y gymuned y mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i'w gwarchod. Trwy geisio hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu bydd y Cyngor yn ceisio gwneud yn siwr fod yr amodau trwyddedu yn rhesymol, cyfatebol ac angenrheidiol. Rydym yn ymwybodol fod angen osgoi camau a fyddai'n rhwystro cerddoriaeth fyw, dawnsio a theatr.

1.10 Bydd y Cyngor hefyd yn edrych ar yr ystyriaethau mwy eang eu cyffyrddiad a fydd yn dylanwadu ar amwynder unrhyw ardal. Bydd y rhain yn cynnwys taflu sbwriel a maeddu, sŵn, troseddu ar y strydoedd a chymhwystra seilwaith y sir, ei hadnoddau ac adnoddau'r heddlu i ymdopi gyda mewnlif o ymwelwyr, yn enwedig gyda'r nos.

1.11 Mabwysiadwyd y polisi hwn gan y Cyngor ar 16 Rhagfyr, 2010 a gwelir ynddo y dull cyffredinol o drin ceisiadau am drwyddedau ar gyfer eiddo a thrwyddedau personol y bydd y Cyngor yn ei ddefnyddio. Wrth fabwysiadu'r polisi hwn mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd pob un cais yn cael ei ystyried yn ôl ei haeddiant.

1.12 Diben y Datganiad o'r Polisi Trwyddedu yw cynorthwyo swyddogion ac aelodau i wneud penderfyniad ar gais penodol gan fanylu ar y materion hynny y rhoddir ystyriaeth iddynt fel arfer. Yn ogystal, mae'r Polisi yn ceisio rhoi gwybodaeth glir i ymgeiswyr, trigolion a deiliaid a buddsoddwyr eraill i'w galluogi hwynt i drefnu symud neu aros neu fuddsoddi yn y Sir gyda rhywfaint o sicrwydd.

1.13 Yn ôl darpariaethau'r Ddeddf Trwyddedu 2003 dylid ymgynghori ynglŷn â'r polisi hwn a'i adolygu o leiaf pob tair blynedd. Felly dylid adolygu'r Polisi hwn dim hwyrach na Rhagfyr 2013.

**2 Cyflwyniad**

2.1 Fel arfer bydd y polisiau'n berthnasol ar gyfer unrhyw gais am drwydded y penderfynir arno ar ôl y dyddiad effeithiol y penderfynodd y Cyngor weithredu'r polisïau hyn, beth bynnag fo dyddiad cyflwyno'r cais yn y lle cyntaf.

Y Categorïau Trwydded y mae'r Polisi hwn yn berthnasol iddynt

- Trwydded Anheddau
- Tystysgrif Anheddau Clwb
- Rhybydd Drost Dro
- Trwydded Bersonnol

**Cynllunio**

2.2 Buasai disgwyl bod defnydd awdurdodedig yn unol â darpariaethau'r ddeddfwriaeth gynllunio ar gyfer unrhyw eiddo y bydd angen trwydded ar eu cyfer. Bydd hyn yn cynnwys ceisiadau ar gyfer eiddo, eiddo clwb a chaffis nos.

2.3 Fe welir polisïau cynllunio'r Cynulliad ym Mholisi Cynllunio Cymru a'r Nodiadau Cyngor Technegol. Fe welir Polisïau Cynllunio'r Cyngor yng Nghynllun Fframwaith Gwynedd, Cynllun Lleol Dwyfor, Cynllun Lleol Arfon Wledig, Cynllun Lleol Afon Menai, Cynllun Lleol Dyffryn Ardudwy a Cynllun Lleol Porthmadog /Ffestiniog.

2.4 Yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer y rhannau hynny o'r sir sydd oddi fewn i'r Parc Cenedlaethol yw Parc Cenedlaethol Eryri. Fe welir eu polisïau cynllunio hwy yng Nghynllun Lleol Eryri a fabwysiadwyd yn 1999. Ymhen amser bydd y Cynllun Datblygu Unedol yn ei ddisodli.

2.5 Yn gyffredinol bydd caniatâd cynllunio yn awdurdodi math eang o ddefnydd o'r eiddo tra rhoddir trwydded ar gyfer math arbennig o weithgaredd. Er engraifft, gall caniatâd cynllunio ar gyfer defnydd adloniant gynnwys gweithgareddau gydag amrywiaeth eang o wahanol effeithiau ar y gymuned. Pan gyflwynir cais gan ymgeisydd am drwydded eiddo dylid ystyried yn fanwl gywir natur yr effaith y bydd y gweithgareddau a ragnodir yn ei gael.

2.6 Buasai disgwyl bod pob ymgeisydd wedi cael y caniatâd cynllunio priodol ar gyfer y cais a dylid cyflwyno manylion. Buasai'n fanteisiol bod unrhyw fanylion yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu (gan gynnwys y manylion ynglyn ag unrhyw gyfyngiadau a osodwyd ) er mwyn osgoi unrhyw ddyblygu diangen.

2.7 Gydag unrhyw gais, bydd y Cyngor yn disgwyl i unrhyw weithgaredd sydd i'w awdurdodi gan y drwydded fod yn ddefnydd cynllunio cyfreithlon a bod yr oriau y gofynnir amdanynt yn cydymffurfio a'r amodau ar unrhyw ganiatad cynllunio.

2.8 Bydd y Cyngor yn annog trwyddedwyr i ddarparu cyfleusterau a fydd yn galluogi pobl anabl i gael mynediad i'r adeiladau hynny drwy gadw mewn cof y Ddeddf Gwahaniaeth ar Sail Anabledd. Ni osodir unrhyw amodau y gellid eu defnyddio i gyfiawnhau cadw (rhywrai) allan ar sail diogelwch y cyhoedd.

## 3 Rhwystro Trosedd ac Anrhefn

3.1 Dylasai'r Datganiad Polisi Trwyddedu, ynghŷd â'r trefnau a'r amodau sydd yn rhan o'r broses, hybu'r Amcanion Trwyddedu (gweler paragraff 1.3):

3.2 Bydd y Cyngor yn defnyddio amrediad cyflawn o fesurau gan gynnwys rheolaeth gynllunio, rheolaeth trafnidiaeth, polisïau a phwerau trosedd ac anrhefn . Bydd y Cyngor yn sefydlu partneriaethau er mwyn cyd-weithio'n agos gyda'r heddlu, yr awdurdod tân, busnes lleol, cynrychiolwyr yn y gymuned a phobl leol i gyflawni'r amcanion hyn.

3.3 Bydd y Cyngor yn rhoi sylw i Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998 sydd yn rhoi cyfrifoldeb ar y Cyngor i rwystro/gostwng trosedd ac anrhefn yn y gymuned.

3.4 Gostwng lefelau troseddu mewn ardaloedd penodol yw un o flaenoriaethau pwysicaf Strategaeth Trosedd ac Anrhefn y Cyngor. Felly bydd y polisi yn rhoi sylw i'r effaith debygol ar drosedd ac anrhefn cysylltiedig y bydd y trwyddedu yn ei gael yn y Sir, yn enwedig pan fydd yn ystyried lleoliad ac effaith a gweithrediad a rheolaeth yr holl geisiadau tebygol am drwydded, yn ogystal â'r amrywiadau o'r amodau.

3.5 Bydd y Cyngor yn rhoi sylw priodol i sylwadau Gwasanaeth Heddlu Gogledd Cymru a bydd yn ymgynghori gyda hwy fel un o'r Awdurdodau Cyfrifol sydd yn ymwneud â cheisiadau am drwyddedau eiddo a thystysgrifau, Cofrestriad Clwb.

### Mynychu Clybiau yn Ddiogel

3.6 Dymuna'r Cyngor hybu'r egwyddorion o "Fynychu Clybiau yn Ddiogel". Bydd yn cymeradwyo canllawiau cyfredol y Swyddfa Gartref ynglŷn â hyn i drwyddedwyr Eiddo ac i ddeiliaid Tystysgrif Eiddo Clwb. Gellir gosod amodau trwyddedu angenrheidiol a phriodol i reoli'r amgylchfyd mewn rhai eiddo perthnasol er mwyn cyflawni amcanion "Mynychu Clybiau yn Ddiogel". Yn ychwanegol i amodau eraill byddwn yn disgwyl i holl glybiau ddarparu cyflenwad parod o ddŵr yn rhad ac am ddim.

### Cyffuriau

3.7 Dylai ymgeiswyr ystyried y gall y bydd angen gosod amodau arbennig ar rhai mathau o leoliadau er mwyn gostwng y gwerthiant a'r defnydd a wneir o gyffuriau a chreu awyrgylch mwy diogel ar gyfer y rheiny fydd wedi defnyddio cyffuriau. Yn yr Atodiad fe welir y mathau o amodau y gellir eu gosod petai hynny'n digwydd, er y gellir gosod amodau ychwanegol o bryd i'w gilydd. Bydd yr amodau hyn yn ystyried yr arweiniad a gafwyd gan y Swyddfa Gartref ac y cyfeiriwyd ato uchod ynglŷn â Mynychu Clybiau yn Ddiogel. Bydd y Cyngor yn ymgynghori gyda'r Heddlu a gyda'r Tîmau Gweithredu Cyffuriau lleol ym mhob achos pan fydd angen gosod yr amodau hyn. Yn ychwanegol i'r amodau eraill, byddwn yn disgwyl i holl glybiau ddarparu cyflenwad parod o ddŵr yn rhad ac am ddim.

### Goruchwylwyr ar y Drysau

3.8 Caiff y Cyngor benderfynu os bydd angen goruchwylwyr mewn rhai eiddo er mwyn gostwng lefelau trosedd ac anrhefn ac er mwyn rhedeg yr eiddo hynny yn fwy diogel.

Os digwydd hynny caiff y Cyngor osod amod, os derbynnir sylwadau perthnasol y dylid cyflogi goruchwylwyr trwyddedig ar y drysau (Awdurdod Diwydiant Diogelwch) naill ai trwy gydol yr amser neu ar yr adegau hynny pan ddigwydd rhai gweithgareddau trwyddedadwy yn yr eiddo, ac yn unol â'r nifer a'r gymhareb a bennir gan y Cyngor.

**4 Diogelwch y Cyhoedd**

4.1 Dymuna'r Cyngor anelu at safonau uchel o ddiogelwch y cyhoedd ar gyfer yr eiddo a'r gweithgareddau a ddaw tan ddarpariaethau Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau dim ysmygu a gynhwysir yn Neddf Iechyd 2006.

4.2 Ymgynghorir gyda'r Adran berthnasol yn y Cyngor sydd yn Awdurdod â Chyfrifoldeb yn hyn o beth i gymell iechyd a diogelwch mewn eiddo perthnasol ac fe gaiff hefyd weithredu fel y Sawl sydd ag Awdurdod i sicrhau ufudd-dod i Ddeddf Trwyddedu 2003.

4.3 Bydd y Cyngor yn sylweddoli na fydd dyletswyddau cyffredinol iechyd a diogelwch pob amser yn cynnwys rhai materion penodol a gyfyd mewn tai trwyddedig mewn cysylltiad â rhai mathau o adloniant ac, felly, efallai bydd angen gosod amodau ar drwydded/dystysgrif.

4.4 Pan fydd angen Trwydded Eiddo neu Dystysgrif Eiddo Clwb caiff y Cyngor ddewis yr amodau priodol ac angenrheidiol o blith y casgliad o amodau a welir yn Atodiad"C"(sydd yn cael ei ddatblygu) ac a fabwysiadwyd gan y Cyngor. Bydd yr amodau hyn yn briodol ar gyfer natur y gweithgareddau a ragnodwyd yn y rhestr gweithredoedd a byddent yn adlewyrchu'r pedwar o amcanion trwyddedu a ragnodwyd ym mharagraff 1.3.

4.5 Mae'r Cyngor o'r farn y dylid ymarfer yr un math o ddulliau iechyd a diogelwch pan fydd gwirfoddolwyr neu bwyllgor clwb neu gymdeithas yn trefnu gweithgareddau ag a drefnir pan fydd perthynas rhwng cyflogwr a'r cyflogedig yn bodoli, beth bynnag fo'r cyfrifoldebau cyfreithlon manwl gywir sydd yn gymwys i'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch.

4.6 Pan fydd unrhyw amodau wedi'u gosod ar Drwydded Eiddo neu Dystysgrif Eiddo Clwb, gall Swyddog Awdurdodedig ar ran y Cyngor archwilio'r eiddo hynny ar unrhyw adeg rhesymol er mwyn sicrhau y bodlonir yr amodau.

4.7 **Cynghorir trefnwyr o ddigwyddiadau mawr, ble bwriedir cynnal gweithgareddau trwyddedig i gysylltu gyda Grwp Ymgynghorol Diogelwch Gwynedd pan yn cynllunio'r digwyddiad ar y dechrau**.

<u>**Diogelwch Tân**</u>

4.8 Bydd y Cyngor yn rhoi sylw priodol i sylwadau Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru a bydd yn ymgynghori gyda hwy fel un o'r Awdurdodau â Chyfrifoldeb sydd yn ymwneud â cheisiadau am drwyddedau a thystysgrifau.

4.9 Caiff y Cyngor ddewis yr amodau priodol ac angenrheidiol o blith y casgliad o amodau a welir yn Atodiad"C"(rhestr amodau) mewn cysylltiad â materion iechyd a diogelwch ac wedi ymgynghori gyda Gwasanaeth Heddlu Gogledd Cymru, yn dilyn sylwadau perthnasol a dderbynnir oddi wrth y Gwasanaeth Tan ac Achub neu awdurdod perthnasol neu rai sydd ag iddynt fudd. Dylai'r ddogfen Asesiad Risg gyfarfod a gofyn i sefydlu ffigwr defnydd ar gyfer yr eiddo.

4.10 Bydd Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tan) 2005 yn berthnasol mewn unrhyw eiddo lle bydd gwaith yn cael ei wneud. Gorfodir y rheoliadau hyn gan Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru a bydd angen i'r sawl sydd â chyfrifoldeb asesu'r perygl o dân.

4.11 Pan fydd ei angen er lles diogelwch y cyhoedd bydd y Cyngor yn cynnwys uchafswm y nifer a ddelir gan y tŷ trwyddedig yn y Drwydded Eiddo/Tystysgrif Eiddo Clwb. Penderfynir ar y nifer hwn trwy ymgynghori gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, yn dilyn sylwadau oddiwrthynt hwy. Os oes Tystysgrif Tân eisoes i'w chael ar gyfer yr adeilad ac y rhagnodir ynddi uchafswm y nifer a ddelir gan yr adeilad, fe ddefnyddir y ffigur hwnnw.

**5 Rhwystro Niwsans Cyhoeddus**

5.1 Pan fydd y Cyngor yn dyfarnu ynghylch yr hyn sydd yn creu niwsans bydd yn canolbwyntio ar effaith afresymol y gweithgareddau trwyddedadwy yn yr adeiladau perthnasol ar y rheiny sydd yn byw ac yn gweithio ac yn cysgu yn y cyffiniau. Byddent yn ymwneud yn bennaf â'r canlynol

- Sŵn o'r adeiladau
- Gwastraff
- Sbwriel
- Meysydd Parcio
- Difwyno'r Golau
- Arogleuon andwyol
- Ymddygiad/Anrhefn

5.2 Pan fydd y Cyngor yn ystyried yr effaith bosibl a gaiff unrhyw dŷ trwyddedig ar yr ardal oddi amgylch i'r adeilad hwnnw, bydd y Cyngor yn cymryd i ystyriaeth y math o weithgaredd adloniant, yr oriau gweithredu a fwriedir, uchafswm y nifer a ddeil yr adeilad, natur yr ardal a'r agosrwydd at y trigolion lleol.

5.3 Gweithredir y darpariaethau hynny o Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990 gan Adain Gwarchod y Cyhoedd sydd yn ymwneud a niwsans sŵn ac fe ymgynghorir gyda'r Adran honno ynghylch unrhyw eiddo presennol be aflonyddir ar drigolion neu ar fusnes lleol.

*5.4* Bydd y Cyngor yn defnyddio'r rhestr o amodau trwyddedu a welir yn Atodiad "C" i reoli sŵn a ddaw o unrhyw adeilad ac i gynghori datblygwyr ynghylch y gwanhau sŵn sydd ei angen ar gyfer adeiladau newydd. Os derbynnir sylwadau perthnasol galla amodau fwy caeth o ran rheoli swn gael eu gosod mewn ardaloedd ble mae'r eiddo gyfagos ag eiddo preswyl (gweler "*Canllawiau Ymarfer Da ynghylch Rheoli Sŵn o Dafarndai a Chlybiau")*

5.5 Ni fydd y Cyngor yn gosod amodau ar eiddo trwyddedig na fyddent tan reolaeth uniongyrchol y trwyddedai/tafarnwr nac unrhyw amodau ar faterion nad ydynt yn gysylltiedig â chyffiniau'r eiddo hynny.

5.6 Yn ogystal mae gan Heddlu Gogledd Cymru hawliau a roddir gan y Ddeddf Trwyddedu 2003 i reoli sŵn o'r eiddo; pe byddai angen galw'r gyfraith i rym byddent yn cysylltu, pan fo hynny'n bosibl, â'r Cyngor yn unol â'r protocol ynghylch gorfodaeth ar y cyd a welir yn Atodiad "D" (i'w gytuno).

5.7 Cyfrifoldeb yr unigolyn fydd rheoli unrhyw sŵn neu aflonyddwch y bydd cwsmeriaid yn ei wneud wrth gyrraedd a gadael yr eiddo a byddent yn destun cyfraith a threfn parthed anrhefn ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol

5.8 Bydd y Cyngor yn pwyso a mesur y posibiliadau ar gyfer aflonyddu ar gymunedau i ryw raddau a'r angen i hybu a chefnogi cerddoriaeth fyw, dawnsio a theatr.

5.9 Roedd cyflwyno rheoliadau dim ysmygu dan amodau'r Ddeddf Iechyd 2006 a goblygiadau yn ymwneud a niwsand cyhoeddus potensial trwy arogleuon niweidiol er mwyn ysmygu. Rhaid i weithredwyr eiddo fod yn ymwybodol bod dyletswydd arnynt i gydymffurfio a phedwar prif amcanion trwyddedu.

5.10 Mae'r Uned Gorfodaeth Stryd yn rheoli Glendid stryd ac o dan adran 93 o Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990 mae hawl gan yr uned i erlyn eiddo ble mae tystiolaeth bod blerwch, megis gweddillion bwyd neu sigaredau ger yr eiddo, cyn belled ac y gall dangod bod yr eido'n gyfrifol am y sbwriel.

## 6 Amddiffyn Plant rhag Niwed

6.1 Y mae'r Cyngor yn sylweddoli y gellir cyflwyno cais am drwydded ar gyfer dewis eang o adeiladau megis theatrau, sinemâu, tai bwyta, tafarndai, clybiau nos, caffis, siopau pryd ar y stryd, neuaddau pentref ac ysgolion. Ni fydd plant yn cael eu rhwystro rhag iddynt gael dod i mewn i adeiladau o bob math oni fydd yn angenrheidiol gwneud hynny er lles diogelwch y plant.

6.2 Pan fydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau am drwyddedau bydd yn cymryd i ystyriaeth yr hanes a berthyn i adeilad arbennig a natur y gweithgareddau y bwriedir eu cynnal yn yr adeilad hwnnw pan fydd yn ystyried unrhyw opsiynau a fyddai'n briodol i rwystro plant rhag niwed. Er engraifft:

- Pan fu collfarn flaenorol am werthu alcohol i rywun o dan 18 oed neu pan fydd tystiolaeth fod yfed dan oed yn digwydd (gan gynnwys unrhyw gamau a gymerwyd gan Adran Safonau Masnach y Cyngor ynghylch prynu ar brawf mewn cysylltiad â chyflenwi alcohol);
- Pan fydd cysylltiad agored gyda defnydd a gwerthiant cyffuriau ;
- Pan fydd elfen gref o hapchwarae yn yr adeilad; neu
- Pan fydd adloniant o fath rhywiol neu adloniant i oedolion yn cael ei gynnig yn aml

6.3 Mewn amgylchiadau megis y rheiny ym mharagraff 6.2, yna caiff y Cyngor osod amodau megis y rhai a ganlyn ynghlwm wrth y drwydded i amddiffyn plant rhag niwed, os derbynnir sylwadau perthnasol.

- Cadw'r oriau y caiff plant fod yn yr adeilad o fewn terfynau;
- Cyfyngu ar oedran y sawl sydd yn cael bod yn yr adeilad (tan 18 oed);
- Cyfyngu ar ba bryd y cynhelir rhai digwyddiadau ; neu
- Bod angen oedolyn yn gwmni i blentyn

6.4 Pan fydd nifer helaeth o blant yn debygol o fod mewn adeilad trwyddedig, er enghraifft ar gyfer sioe blant neu bantomeim, bydd y Cyngor angen nifer o oedolion cyfrifol (a fyddent wedi dangos Dadleniad o Hanes Troseddu derbyniol) er mwyn sicrhau diogelwch y plant.

6.5 Pan fydd caniatâd wedi'i roi i ddangos ffilmiau bydd yr awdurdod yn disgwyl i'r adeilad gydymffurfio gyda chyfyngiadau oedran yn unol ag argymhellion Dosbarthiadau Ffilm y Bwrdd Prydeinig. *Saif y rheol gyffredinol hon ac ni fydd yr awdurdod yn gwyro'r rheol onis ceir achosion eithriadol iawn.*

6.6 Ni ddangosir unrhyw ffilm mewn adeilad trwyddedig os yw'n debygol y bydd yn:

- Creu anrhefn;
- Ennyn casineb neu ysgogi trais tuag at unrhyw ran o'r gymdeithas ar sail lliw, hil neu dras ethnig neu genedlaethol, anabledd, credoau neu dueddiad rhywiol.

6.7 Ni fydd y Cyngor yn gosod unrhyw amodau a fydd yn gofyn yn benodol am fynediad i blant mewn unrhyw eiddo. Pan na fydd cyfyngiad wedi'i bennu mater i'r trwyddedai unigol neu i'r clwb fydd trefnu mynediad.

6.8 Mae Deddf Trwyddedu 2005 yn caniatau elfen o hapchwarae siawns cyfartal mewn adeilad trwyddedig ynghyd a nifer gygyngedig o beiriannau gemau a bydd raid I'r Cyngor neu Oruchwyliwr Dynodedig yr Adeilad fonitro presenoldeb plant neu bobl fregus.

6.9 **Mannau Adloniant -** Gyda chyflwyniad Adran 27 Deddf Plismona a Throsedd 2009 a lle mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Atodlen 3 Deddf Llywodraeth Leol 1982 (Darpariaethau Amrywiol) os defnyddir adeilad ar fwy na 12 achlysur o fewn cyfnod o 12 mis ar gyfer adloniant rhywiol perthnasol, rhaid trwyddedu'r eiddo fel man adloniant rhywiol. Mae Adloniant Rhywiol Perthnasol yn cynnwys: dawnsio glin, dawnsio polyn, dawnsio bwrdd, sioeau stripio, sioeau sbecian a sioeau rhyw fyw.

## 7 Effaith Gronnol

7.1 Gall y nifer o bobl a fydd naill ai'n cerdded trwy'r strydoedd neu'n hel at ei gilydd ar y strydoedd yn ystod oriau'r nos gynyddu oherwydd effaith gronnol ymlediad yr adeiladau adloniant hwyrnos (gan gynnwys caffis nos). Gall hyn arwain at;

- Gynnydd mewn troseddau;
- Gynnydd yn y lefelau sŵn fydd yn amharu ar drigolion;
- Gynnydd sylweddol yn llif y cerddwyr ar y strydoedd;
- Tagfeydd traffig a/neu anawsterau parcio;
- Gollwng sbwriel a maeddu.

7.2 Gall hyn ymyrryd â mwynderau'r trigolion lleol mewn modd annymunol ac ni fydd modd priodoli'r achos bob amser i fynychwyr rhai eiddo penodol. Felly, serch cymryd y camau gorfodi i sicrhau cydymffurfio â'r amodau, ni fydd hyn o reidrwydd yn datrys yr holl broblemau mewn ardal.

7.3.Dan y fath amgylchiadau caiff y Cyngor benderfynu sefydlu "Polisi Dirlawnder" a gwrthod derbyn trwyddedau newydd yn yr ardal honno oherwydd y problemau a gafwyd gynt gyda thai trwyddedig. Fodd bynnag ni fyddai'r Polisi Dirlawnder yn unbenaethol a byddai'r Cyngor yn trin pob cais yn ôl ei haeddiant ac yn rhoi ystyriaeth briodol i bob un.

7.4 Wrth benderfynu mabwysiadu "Polisi Dirlawnder" ar gyfer ardal benodol, fe gaiff y Cyngor, ymhlith pethau eraill, wneud fel a ganlyn –

- Casglu gwybodaeth ynglŷn â phryder difrifol a pharhaol ar ran awdurdod â chyfrifoldeb neu drigolion lleol ynghylch niwsans ac anrhefn

- Enwi a phennu ffiniau'r ardal lle cyfyd yr anawsterau
- Gwneud asesiad o'r rhesymau
- Mabwysiadu polisi ynglŷn â cheisiadau eraill yn y dyfodol ar gyfer eiddo yn yr ardal honno(ond gyda'r amod a geir yn paragraff 7.3)

7.5 Dylid nodi mai un ffordd yn unig o ddelio gyda'r problemau a nodwyd uchod yw Trwyddedu a, chyn y bo Polisi Dirlawnder wedi'i sefydlu, y dylid troi at y dulliau canlynol er mwyn ceisio delio gyda'r problemau

- Rheolaeth gynllunio
- Hawliau'r awdurdodau lleol i ddynodi rhannau o ardal yr awdurdod fel mannau lle na chaniateir yfed alcohol yn gyhoeddus ac y bydd alcohol wedi'i atafaelu yn yr ardaloedd hynny
- Hawliau'r heddlu i gau adeiladau neu ddigwyddiadau dros dro am hyd at 24 awr ar sail anrhefn, y tebygrwydd y bydd anrhefn, neu ar sail sŵn gormodol
- Erlyn y sawl y rhoddwyd trwydded iddo am werthu alcohol i bobl sydd wedi meddwi
- Hawliau'r heddlu, yr awdurdod cyfrifol, y trigolion lleol neu fusnes lleol i roi cais i mewn i adolygu trwydded neu dystysgrif adeilad

## 8 Ceisiadau am Grantiau newydd ac Amrywiad o'r Telerau ac Amodau

8.1 Pan fydd y Cyngor yn ystyried pob cais newydd neu gais i amrywio amodau bydd yn eu hystyried hwynt yng ngoleuni'r amcanion trwyddedu a bydd yn rhoi sylw arbennig i'r canlynol:

8.1.1.Y camau a gymerodd yr ymgeisydd, neu'r rheiny y bwriedir eu cymryd, i atal sŵn a dirgryniad o'r adeilad, gan gynnwys cerddoriaeth, sŵn gwyntylloedd awyru a sŵn lleisiau. Caiff y fath gamau gynnwys cyfarpar a dyfeisiau i ynysu'r adeilad rhag sain, i dymheru'r awyr, i gyfyngu ar sŵn a lobiau acwstig.

8.1.2.Y camau a gymerodd yr ymgeisydd, neu'r rheiny y bwriedir eu cymryd, i rwystro cwsmeriaid rhag codi twrw wrth adael neu gyrraedd yr adeilad.

8.1.3.Y camau a gymerodd yr ymgeisydd, neu'r rheiny y bwriedir eu cymryd i rwystro pobl rhag sefyll mewn ciw, neu os nad oes modd osgoi hynny, i droi y ciwiau i'r neilltu oddiwrth yr eiddo cyfagos neu, fel arall, i gadw rheolaeth ar y ciw fel na bo'n creu rhwystr na helynt.

8.1.4.Y camau a gymerodd yr ymgeisydd, neu'r rheiny y bwriedir eu cymryd i sicrhau y bydd y staff yn gadael yr adeilad yn ddistaw.

8.1.5.Y trefniadau parcio i gwsmeriaid a wnaethpwyd neu'r rheiny y bwriedir eu gwneud ac effaith hyn ar y trigolion lleol.

8.1.6.A oes darpariaeth ddigonol ar gyfer cludiant cyhoeddus i gwsmeriaid.

8.1.7.A fydd y tacsis a'r cerbydau hurio preifat sydd yn cynnig gwasanaeth i'r adeiladau yn debyg o darfu ar y trigolion lleol.

8.1.8. A yw'r ffyrdd ar gyfer cerddwyr, ceir, danfoniad nwyddau neu ddanfoniad gwasanaeth sydd yn arwain at yr adeiladau ac oddi wrthynt yn mynd heibio i eiddo preswyl.

8.1.9.A gymerwyd i ystyriaeth unrhyw ddulliau eraill i rwystro niwsans, megis defnyddio camerâu TCC neu gyflogi goruchwylwyr cofrestredig ar y drysau.

8.1.10Y camau y bwriedir eu cymryd i nadu'r defnydd neu'r gwerthiant o gyffuriau anghyfreithlon, gan gynnwys unrhyw ddulliau o chwilio.

8.1.11.Y camau y bwriedir eu cymryd i gydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd

8.1.12.Y tebygolrwydd y defnyddir trais, neu y bydd anhrefn cyhoeddus neu y bydd anawsterau gyda'r heddlu pe rhoddir trwydded.

8.1.13.Manylion ynglŷn ag unrhyw gamau gorfodi a gymerwyd mewn perthynas ag unrhyw adeilad arall y mae'r ymgeisydd wedi cael trwydded ar ei gyfer.

8.1.14 A fyddai cynnydd mewn problemau gyda chadw neu gael gwared â sbwriel, neu a fyddai sbwriel ychwanegol yng nghyffiniau'r adeilad.

8.1.15 Derbyn cwynion gan awdurdodau â chyfrifoldeb*

8.1.16 Derbyn cwynion gan rhywrai sydd ag iddynt fudd**

**8.1.17 * Gan gynnwys Heddlu Gogledd Cymru, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, ac Adain Gwarchod y Cyhoedd.**

**8.1.18 **Gan gynnwys y sawl sydd yn byw yng nghyffiniau'r adeiladau a'r cylch masnach**

**Yn ychwanegol mewn achos cais am amrywiad:**

8.2 Bydd y Cyngor yn rhoi sylw i unrhyw ddiffyg cydymffurfio â gofynion statudol a ddaeth i sylw'r Cyngor yn enwedig pan fyddent yn tanseilio'r amcanion trwyddedu a welir ym mharagraff 1.4. Bydd hyn yn digwydd oherwydd bod unrhyw ddiffyg cydymffurfio â gofynion statudol eraill yn gallu dangos nad yw'r adeiladau yn addas ar gyfer y gweithgareddau a fwriedir neu nad oes rheolaeth ddigonol ar yr adeiladau i ddiogelu'r cyhoedd rhag niwed neu niwsans.

8.3 A gytunwyd ar fesurau priodol ac a weithredwyd hwynt gan yr ymgeisydd er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau andwyol

8.4 Amrywiad Bychan – Gall deilydd tystysgrif adeilad clwb/trwydded adeilad wneud cais dan y drefn "amrywiad bychan" ar gyfer amrywiadau bychain a fydd yn cael effaith andwyol ar yr amcanion trwyddedu. Nid oes hawl I wrandawiad. Fodd bynnag os gwrthodir y cais gellir gwneud amrywiad llawn.

**8.5 Tynnu Amod fod rhaid cael Goruchwylydd Adeilad Dynodedig – Os oes gan adeilad yn y gymuned drwydded sy'n caniatau cyflenwi/gwerthu alcohol, gall deilydd y drwydded wneud cais i gael gwared ar yr amod mandadol sy'n dweud bod rhaid penodi goruchwylydd dynodedig ar**

**gyfer yr adeilad. Mae hyn yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am werthu/cyflenwi alcohol i'r Pwyllgor Rheoli ar gyfer yr adeilad.**

## 9 Oriau Gweithredu

9.1 Y mae'r Cyngor yn sylweddoli y gellir creu anrhefn ac aflonyddwch ar y strydoedd trwy osod oriau cau diysgog ac annaturiol o fuan mewn rhai ardaloedd pan fydd nifer helaeth o bobl yn tueddu gadael adeiladau trwyddedig ar yr un pryd.

9.2 O ganlyniad gellid cyfrannu tuag at ostwng yr anghydfod sydd yn arwain at anrhefn ac aflonyddwch, ac a welir mewn llefydd sydd yn gwerthu bwyd yn hwyr yn y nos, safleoedd tacsi a mathau eraill o gludiant, trwy estyn yr oriau trwyddedig i werthu alcohol.

9.3. Bydd siopau, storfeydd ac archfarchnadoedd gyda'r hawl i werthu alcohol (na cheir ei yfed yn yr adeilad) yn ystod oriau agor arferol y busnes. Pe byddai'r heddlu neu drigolyn (drigolion) yn gosod cwynion gerbron y Cyngor ynglŷn â siopau unigol sydd yn destun anrhefn ac aflonyddwch gellir cyfyngu ar yr oriau gwerthu hynny.

9.4 Bydd y Cyngor yn rhoi sylw i'r ffactorau a ganlyn pan fydd yn ymdrin â cheisiadau gan ymgeiswyr am oriau terfyn (sef oriau terfyn ar fusnes), sef :

- Ansawdd yr amgylchfyd
- Mwynderau trigolion
- Swyddogaeth neu gymeriad unrhyw ardal arbennig; a
- Natur y gweithgaredd a fwriedir ei gynnal yn yr adeilad

9.5. Bydd yr oriau terfyn fel arfer yn cael eu cymeradwyo pan fydd yr ymgeisydd yn gallu dangos na fydd y bwriad yn cael effaith andwyol ar yr uchod. Caiff y Cyngor osod awr derfyn cynharach pan fo hynny yn briodol ym marn y Cyngor i natur y gweithgareddau ac i fwynderau'r ardal honno, os derbynnir sylwadau perthnasol.

9.6. Pan fydd yr adeiladau yn agos i ardal breswyl gellir gosod amodau mwy caeth ynglŷn â rheoli sŵn ond ni ddylasai hyn gyfyngu ar yr oriau agor, ar yr amod y cydymffurfir â'r amodau angenrheidiol.

## 10 Camau Gorfodi

10.1 Gweler yn Atodiad "D"y protocolau ynglŷn â'r camau gorfodi y bydd y Cyngor a Heddlu Gogledd Cymru yn eu gweithredu ar y cyd( testun trafodaeth yn bresennol).

10.2 Fel rheol bydd y Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddorion gorfodaeth a gytunwyd ac yn unol â pholisi gorfodaeth y Cyngor ei hun. I'r perwyl hwn bydd y Cyngor yn cadw at brif egwyddorion cysondeb, tryloywder a chymesuredd.

10.3 Diwygiad i'r Ddeddf Trwyddedu 2003 dan amodau'r Deddf Lleihau Troseddu Treisiol 2006 yn galluogi'r Awdurdod Trwyddedu, ar gais Uwch Swyddog yr Heddlu, I ychwanegu amodau interim tra'n disgwyl am adolygiad llawn o'r drwydded.

**10.4 Deddf Trosedd a Diogelwch 2010 – yn newid Deddf Trwyddedu 2003 i ganiatau i awdurdodoau lleol wneud gorchmynion cyfyngu gwerthu alcohol**

**yn oriau man y bore gan ddisodli unrhyw drwydded adeilad, tystysgrif clwb neu rybuddion digwyddiadau dros dro sy'n awdurdodi gwerthu alcohol rhwng 0300 a 0600.**

## 11 Y Broses Drwyddedu

**Amodau Trwydded**

11.1 Bydd y Cyngor, cyn belled ag y bydd yn eithaf ymarferol iddo wneud hynny, yn osgoi gosod amodau anghymesur a thrwm ar unrhyw adeilad oni bai ei fod yn ystyried bod rhaid gwneud hynny, yn dilyn sylwadau perthnasol.

11.2 Bydd y Cyngor yn defnyddio'r casgliad o amodau enghreifftiol a gyhoeddwyd gan yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon a bydd yn gosod yr amodau hynny sydd yn briodol ar sail yr amgylchiadau ymhob achos unigol.
Bydd yr amodau enghreifftiol yn ymwneud â'r canlynol –

- Trosedd ac anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Sinemâu a diogelwch tân
- Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn plant rhag niwed

11.3 Pan fydd y Cyngor yn gosod amodau bydd hefyd yn sylweddoli'r angen i osgoi unrhyw fesurau a fyddai'n atal cerddoriaeth fyw, dawnsio neu theatr trwy osod costau anuniongyrchol sydd yn sylweddol uchel.

11.4 Wrth drafod ceisiadau bydd y Cyngor yn rhoi sylw i unrhyw gynghorion a gyhoeddwyd gan yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon. Yn anad dim bydd yn rhoi sylw i'r angen i annog a hybu cerddoriaeth fyw, dawnsio a theatr fel y bydd y gymdogaeth gyfan yn cael budd ohonynt. Pe osodir cwynion ger bron y Cyngor ynglŷn â'r posibilrwydd o anrhefn mewn ardal neilltuol, bydd y Cyngor yn pwyso a mesur ystyriaethau'r Cyngor yn erbyn lles ehangach y gymuned.

11.5 **Amodau Mandadol – Cyflwynodd Deddf Plismona a Throsedd 2009 gyfres o amodau ychwanegol mandadol ar gyfer trwyddedau sy'n cael effaith ar y ffordd y mae adeiladau a chlybiau sy'n gwerthu/cyflenwi alcohol yn cael ei gweithredu.**

**O Ebrill 2010 mae'r tri amod isod yn berthnasol i bob trwydded adeilad a thystysgrif clwb.**

**Gwaherddir ymgyrchoedd hyrwyddo anghyfrifoln ar gyfer diodydd. Rhaid sicrhau bod dwr tap ar gael yn rhad ac am ddim I gwsmeriaid ar gais. Ni ellir rhoi alcohol yn uniongyrchol yng ngheg person arall (oni bai ei fod/bod yn anabl).**

**O 1 Hydref 2010 bydd yr amodau isod hefyd yn berthnasol.**

**Polisi dilysu oed i rwystro gwerthiannau i bobl dan oed.**

**Cyfle i'r cwsmeriaid ddewis fesurau bychain o gwrw, seidr, gwirodydd a gwin.**

**Nid oes raid i'r Cyngor ailgyhoeddi trwyddedau sy'n cynnwys yr amodau ychwanegol ond, lle cyfyd cyfleon, ailgyhoeddir trwyddedau yn rhad ac am ddim gyda'r amodau perthnasol ynghlwm wrthynt.**

**Gweinyddiaeth – Cwrs Ceisiadau**

11.6 Gweinyddol fydd natur llawer o'r swyddogaethau i raddau helaeth. Bydd y cyfrifoldeb dros brosesu unrhyw gais nad oes dadlau yn ei gylch yn cael ei ymddiried i'r Swyddogion.

11.7 Bydd y Cyngor yn disgwyl i bob un ymgeisydd ymgyrraedd tuag at yr amcanion trwyddedu a welir yn yr Atodlen Weithredu gan roi sylw i'r math o adeiladau, y gweithgareddau trwyddedadwy a gynhelir, y dulliau gweithredu, natur y lleoliad ac anghenion y gymuned leol .

11.8 Cymhellir yr ymgeiswyr i fod yn ymwybodol o unrhyw bolisïau cynllunio a chludiant, strategaethau diwylliannol a thwristiaeth a mentrau lleol i rwystro trosedd ac iddynt roi sylw iddynt pan fo hynny'n briodol wrth osod eu Trefniadau Gweithredu.

11.9 Mae'r Cyngor yn derbyn cyngor yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon na ddylid caniatáu i farn y lleiafrif uchel eu cloch ragori ar les cyffredinol y gymuned.

11.10 Caiff y Pwyllgor Trwyddedu, neu Is-Bwyllgor, neu unrhyw swyddog neu ragor gydag awdurdod dirprwyol, weinyddu awdurdod y Cyngor o dan ddarpariaethau'r Ddeddf.

11.11 **Bydd Pwyllgor Trwyddedu swyddogol y Cyngor yn trin ceisiadau sydd yn cynnwys cwynion perthnasol ynghyd ag unrhyw gais i adolygu'r drwydded. Ni fydd sylwadau ond yn berthnasol os ydynt yn ymwneud ag effaith debygol caniatau trwydded ar o leiaf un o'r pedwar amcan trwyddedu. Gall trydydd parti gyflwyno sylwadau neu fe all Cynhorydd Ward wneud hynny ar eu rhan. Fodd bynnag, bydd raid bodloni'r Cyngor ynghylch enw a chyfeiriad y parti sydd â diddordeb a bod person o'r fath wedi cael awdurdod gan y trydydd parti i weithredu ar eu rhan.**

**Partion sydd â ddiddordeb – Mae Adran 33 Deddf yr Heddlu a Throsedd 2009 yn diwygio rhannau 13 a 69 Deddf Trwyddedu 2003 i ganiatau i Aeoldau Etholedig y Cyngor weithredu fel partion sydd â diddordeb. Mae hyn yn caniatau i aelodau awdurdodau trwyddedu wneud sylwadau i wrthwynebu ceisiadau am drwydded neu i alw am adolygiad. Dan Ddeddf Trwyddedu 2003 nid oedd y grymoedd hyn ond ar gael i bartion sydd â diddordeb neu awdurdodau cyfrifol.**

**Rheoliadau Drparu Gwasanaethau 2009 – Yn trawsosod Cyfarwyddeb Gwasanaethau Ewropiaidd i mewn i ddeddfwriaeth y Deyrnas Gyfunol gan ganiatau ceisiadau, rhybuddion a sylwadau ar ffurf electronaidd trwy un pwynt cyswllt (www.eu-go.eu). Yn y Deyrnad Gyfunol gwelir y pwynt cyswllt dan www.ukwelcomes.businesslink.gov.uk sy'n caniatau gwneud ceisiadau am drwydded a thaliadau ar lein.**

**Cyfuno Strategaethau ac osgoi Dyblygu**

11.12 Bydd unrhyw benderfyniad ynglŷn â chais am drwydded yn cael ei wneud yn hollol ar wahân i unrhyw benderfyniad sydd yn ymwneud â materion

cynllunio. Fodd bynnag dylai'r Pwyllgor Cynllunio dderbyn adroddiadau yn rheolaidd ynglŷn â cheisiadau am drwyddedau yn yr ardal a bydd yr adroddiadau hynny yn rhoi sylw i'r effaith gyffredinol a gaiff trosedd ac anrhefn sydd yn gysylltiedig ag alcohol.

Gall cynghorwyr lleol hefyd wneud datganiad ysgrifenedig neu mewn gwrandawiad ar ran parti a diddordeb, pe gofynnir yn benodol, ynghyd a'r hawl personol i wneud datganiadau pe byddent yn byw, neu'n ymwneud a busnes yn ardal y cais.

11.13 Dylai'r Pwyllgor Trwyddedu dderbyn adroddiadau oddi wrth Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ynglyn a Throsedd ac Anrhefn yn y Sir.

11.14 Wrth drafod ceisiadau mae'n bosibl y bydd angen rhoi sylw i nifer o faterion mwy cyffredin; gan hynny dylai Pwyllgor Trwyddedu'r Cyngor dderbyn adroddiadau ar y materion a ganlyn -

- Anghenion y diwydiant ymwelwyr yn yr ardal
- Strategaeth Ddiwylliannol yn yr ardal
- Y sefyllfa o safbwynt cyflogaeth yn yr ardal a'r angen am fuddsoddiad a gwaith newydd pan fo hynny'n briodol
- Ystyriaethau cynllunio a fedr effeithio ar drwyddedau i adeiladau.

11.15 Pan fydd unrhyw brotocolau a gytunwyd arnynt gyda'r heddlu yn sylweddoli angen penodol i chwalu pobl o ganol y dref yn gyflym ac yn ddiogel er mwyn osgoi casgliadau o bobl a fyddai'n gallu creu trosedd ac anrhefn, bydd y Cyngor yn ceisio rhoi gwybod i'r sawl sydd yn gyfrifol am drefnu cludiant lleol fel y gellir gwneud trefniadau, lle bo hynny'n bosibl, i leihau'r posibilrwydd y bydd problemau'n codi.

Byddai'r Pwyllgor yn ystyried derbyn adroddiadau, lle bo'n briodol, ar anghenion lleol yr economi dwristiaeth leol ar gyfer yr ardal er mwyn sicrhau y cant eu hadlewyrchu yn eu hystyriaethau.

**Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro**

11.16 Bydd y Cyngor yn rhoi cyhoeddusrwydd eglur a dealladwy yn lleol i weithgareddau dros dro a ganiateir. Y cyfnod o rybudd lleiaf posibl fydd deng diwrnod; serch hynny byddai'r Cyngor yn annog y dylid rhoi ugain diwrnod gwaith o rybudd er lles ymgynghori agored ni fydd 10 diwrnod gwaith yn cynnwys y diwrnod y cyflwynir y cais nad ychwaith ddiwrnod y digwyddiad.

11.17 Bydd y Cyngor yn rhoi cyngor ynglŷn â diogelwch cyhoeddus ymhlith pethau eraill a hysbysu'r Gwasanaeth Tan ac Achub am unrhyw geisiadau a dderbyniwyd.

11.18 Bydd llawer o'r digwyddiadau lleol wedi cael eu trefnu gan wirfoddolwyr neu gan bwyllgor clwb neu gymdeithas leol. Y mae'r Cyngor o'r farn y dylid rhoi'r un math o sicrwydd iechyd a diogelwch ag y rhoddir mewn sefyllfa waith rhwng cyflogwr a chyflogai beth bynnag fo'r cyfrifoldebau cyfreithiol caeth o dan ddarpariaethau deddfwriaeth iechyd a diogelwch

11.19 Bydd y Cyngor yn annog y rhai hynny sydd yn trefnu digwyddiadau dros dro i gael cyngor/gwybodaeth gan y Grwpiau Cyngor Diogelwch lleol.

## 12 Dirprwyo Swyddogaethau

| Yr hyn sydd dan sylw | Pwyllgor Llawn | Is-bwyllgor | Swyddogion |
|---|---|---|---|
| Cais am Drwydded Bersonol | | Os y bydd sylwadau wedi'u cyflwyno | Os nad oes sylwadau wedi'u cyflwyno |
| Cais am drwydded personol gyda chollfarnau heb ddarfod | | Ymhob achos | |
| Cais am Drwydded Eiddo/tystysgrif eiddo clwb | | Os y bydd sylwadau wedi'u cyflwyno | Os nad oes sylwadau wedi'u cyflwyno |
| Cais am Ddatganiad Darpariaethol | | Os y bydd sylwadau wedi'u cyflwyno | Os nad oes sylwadau wedi'u cyflwyno |
| Cais i amrywio Trwydded Eiddo/tystysgrif eiddo clwb | | Os y bydd sylwadau wedi'u cyflwyno | Os nad oes sylwadau wedi'u cyflwyno |
| Cais i amrywio trwyddedwr personol dynodedig | Os y bydd sylwadau wedi'u cyflwyno gan yr heddlu | | Ymhob achos arall |
| Cais i dynnu yn ôl fel trwyddedwr personol dynodedig | | | Ymhob achos |
| Cais am drwydded i drosglwyddo eiddo | Os y bydd sylwadau wedi'u cyflwyno gan yr heddlu | | Ymhob achos arall |
| Cais am Awdurdod Dros Dro | Os y bydd sylwadau wedi'u cyflwyno gan yr heddlu | | Ymhob achos arall |
| Cais i Adolygu Trwydded Eiddo/ tystysgrif eiddo clwb | Ymhob achos | | |
| Penderfynu os yw cwyn yn amherthnasol, disylwedd neu o natur flinderus | | | Ymhob achos |
| Penderfynu gwrthwynebu pan fydd ymgynghori gyda'r awdurdod lleol yn hytrach na bod yr awdurdod lleol yn arwain | | | Ymhob achos |
| Penderfynu ynglŷn â sylwadau wedi'u cyflwyno gan yr heddlu ynglŷn â rhybudd digwyddiad dros dro | Ymhob achos | | |

**13 Gwybodaeth Ychwanegol – Trwyddedau Personol**

Er y bydd y Cyngor yn rhoi arweiniad eglur a chyflawn ynglŷn â thrwyddedau personol bydd pob adeilad sydd â Thrwydded Eiddo briodol angen Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig. Rhaid i'r sawl a ddynodir gael trwydded bersonol pan fydd alcohol yn cael ei werthu. Prif swyddogaeth yr unigolyn hwn yw sicrhau y bydd bob amser un y gellir ei adnabod yn hawdd ymhlith y Trwyddedwyr Personol yn yr adeilad.

Rhaid i'r ymgeisydd fod mewn sefyllfa i gadarnhau'r canlynol cyn y bydd y Cyngor yn ystyried rhoi trwydded iddo/iddi:

- Eu bod dros 18 oed
- Bod ganddynt gymhwyster trwyddedu
- Na chafodd unrhyw drwydded a oedd ganddynt ei fforffedu yn ystod y 5 mlynedd cyn y cais presennol
- Na ddyfarnwyd hwy yn euog o unrhyw drosedd perthnasol ac nad yw collfarn y drosedd honno wedi darfod

Noder: - Wrth gyfeirio at drosedd perthnasol bydd y canlynol yn cael eu cynnwys

- Trais difrifol
- Anonestrwydd difrifol (gan gynnwys unrhyw ymwneud â gwerthu tybaco neu alcohol wedi smyglo)
- Cyflenwi cyffuriau neu unrhyw un sydd yn euogfarnedig o ddefnyddio cyffuriau
- Troseddau sydd angen eu cofnodi yn y gofrestr troseddau rhywiol
- Torri'r deddfau trwyddedu alcohol

14. Gwybodaeth ychwanegol

14.1 Masnachu ar y Stryd

Tynnir sylw at y ffaith bydd yn rhaid i unrhyw fasnachwr a leolir ar y stryd neu'r brifffordd gydymffurfio a'r ddeddfwriaeth (os yn berthnasol) ac y dylai unrhyw dir fod yn drwyddedig.

14.2 Dodrefn Stryd

Rhaid i ddeilyddion trwyddedau fod yn ymwybodol o bolisi dodrefn stryd y Cyngor a chydymffurfio ag unrhyw bolisi dodrefn stryd.

**<u>ATODIADAU</u>**

Mewn perthynas a'r atodiadau, dileir pob cyfeiriad at drefniadau trosiannol, neu eu newid, fel bo'n briodol. Yng nghyswllt Atodiad D sy'n ymwneud a Gorfodaeth, gweler y Camau Gorfodaeth a fabwysiadwyd gan y Cyngor a'r Heddlu yr awgrymwn y dylid ei chynnwys yn y Polisi newydd.

**<u>BWRIAD</u>**

Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig er mwyn eu cynnwys yn y Polisi Drafft newydd, a'n bod yn ymgynghori a'r holl bartion a diddordeb.

# Atodiad A

## Arweiniad ar y Weithdrefn i Ymgeiswyr

### Cyflwyniad

Bwriad y ddogfen hon yw cynnig arweiniad i ddeiliaid trwyddedau neu dystysgrifau neu bobl sydd yn rhoi rhybudd o ddigwyddiadau dros dro. Mae'n cynnwys gwybodaeth sylfaenol i ymgeiswyr i'w cynorthwyo i wneud ceisiadau llwyddiannus ac arweiniad cyffredinol i gadw gweithredoedd busnes, clwb, mudiad neu ddigwyddiad, o fewn y gyfraith.

Mae'n ddyletswydd ar Gyngor Gwynedd roi arweiniad i ymgeiswyr. Fodd bynnag, wrth ddarllen Datganiad Polisi Trwyddedu, dylai ymgeiswyr ddeall sut bydd Cyngor Gwynedd yn gweinyddu'r trwyddedau a'r awdurdodiadau a'r hyn y mae Cyngor Gwynedd yn ei ystyried sydd yn bwysig.

### Trwyddedau Personol

Mae trwydded bersonol yn cael ei ddal gan unigolyn penodol er mwyn galluogi'r unigolyn werthu alcohol o eiddo sydd yn drwyddedig i ddibenion gwerthu alcohol drwy adwerthu.

Os nad ydych yn drwyddedig ar hyn o bryd, mae'n bosibl i chi ymgeisio am drwydded bersonol a bydd angen i chi brofi eich bod yn gwybod digon am y ddeddf drwyddedu a chanlyniadau cymdeithasol gwerthu alcohol. Profir hyn drwy gwblhau cwrs hyfforddi priodol yn llwyddiannus. Ceir rhestr o gyrsiau addas gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (www.culture.gov.uk/alcohol <http://www.culture.gov.uk/alcohol>). Dylech gyflwyno gwiriad Swyddfa Cofnodion Troseddol sylfaenol i brofi nad ydych wedi cael eich dyfarnu'n euog o unrhyw droseddau perthnasol.

Os nad oes gennych unrhyw gollfarnau, ac eich bod wedi'ch hyfforddi'n addas, a dros ddeunaw mlwydd oed, nid oes rheswm pam na ddylech fod yn addas i gael trwydded bersonol.

Mae trwydded bersonol yn parhau am ddeng mlynedd, a dylech ail ymgeisio i Gyngor Gwynedd os mai ni a roddodd eich trwydded gyntaf i chi. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod trosiannol, gwnewch gais i'r awdurdod lleol ar gyfer yr ardal ble mae'r eiddo trwyddedig wedi'i leoli.

Gall trwyddedwr roi caniatâd i ddod yn Oruchwyliwr Dynodedig y lleoliad (designated premises supervisor (DPS)) ar gyfer eiddo trwyddedig ble mae gwerthu alcohol wedi'i awdurdodi. Mae'n rhaid i bob Trwydded Eiddo gael goruchwyliwr dynodedig ar gyfer y lleoliad, sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol dros awdurdodi gwerthu alcohol a rheoli rheolaeth dydd i ddydd yr eiddo o dan delerau'r drwydded. Sicrhewch os nad yw goruchwyliwr dynodedig y lleoliad yn yr adeilad yn gorfforol, bod yna strwythur rheolaethol clir y mae'r staff yn gyfarwydd ag o. Os nad yw Goruchwyliwr Dynodedig y lleoliad yn bresennol fel arfer, rhagwelir y byddai deiliaid trwydded bersonol eraill yn ymwneud â'r rheolaeth o ddydd i ddydd. Nid oes angen trwyddedau personol ar gyfer achosion clwb cymwys, digwyddiadau dros dro a ganiatawyd nac ar gyfer eiddo trwyddedig nad ydynt yn adwerthu alcohol.

### Trwydded Eiddo/Tystysgrif Eiddo Clwb

Mae Trwydded Eiddo yn caniatáu digwyddiadau trwyddedadwy gael eu cynnal yn neu o ardal benodol, adeilad, rhan o adeilad, llong, cerbyd neu strwythur dros dro. Gall unigolyn, nifer o unigolion, cwmni neu fudiad neu unrhyw un penodedig sydd yn cynrychioli cwmni neu unigolyn wneud cais am drwydded eiddo. Cyfrifoldeb perchennog y busnes neu'r pwyllgor sydd yn gyfrifol am yr adeilad yw'r cais am drwydded eiddo fel arfer. Os yw'r eiddo'n cael

eu prydlesu, mae gan y rhydd-ddeiliad hawl i roi gwybod i Gyngor Gwynedd eu bod berchen, neu'n perchen rhan, neu yn meddiannu'r eiddo, mae ganddynt hawl i gael gwybod am unrhyw geisiadau, rhybuddion a gofyn am wybodaeth arall.

Mae tystysgrif eiddo clwb yn caniatáu digwyddiadau trwyddedadwy gael eu cynnal yn eiddo "clwb cymwys". Nid oes angen deiliad trwydded bersonol wedi'i ddynodi fel Goruchwyliwr Dynodedig y lleoliad ar glwb cymwys sydd yn ymgeisio am Dystysgrif Eiddo Clwb, gan nad oes alcohol yn cael ei adwerthu. Prynnir alcohol gan y clwb ar gyfer y clwb, ac mae'r arian sydd yn pasio ar draws y bar yn cynnal ecwiti rhwng aelodau. Sicrhewch fod llyfr rheolau'r clwb yn esbonio'r polisi yn glir i'r aelodau. Dylai clybiau ystyried yn ofalus a ddylent ymgeisio am dystysgrif eiddo clwb neu drwydded eiddo. Gan fod aelodau pwyllgor clybiau yn newid o bryd i'w gilydd, sicrhewch fod Adeiniau Trwyddedu Cyngor Gwynedd yn cael gwybod am y newidiadau hyn yn syth. Noder os gwelwch yn dda, ei bod yn drosedd i beidio â rhoi gwybod i'r Cyngor pan fydd newid yn yr hwn sy'n cyflawni rôl yr Ysgrifennydd.

Ni chewch ymgeisio am drwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb os ydych chi neu unrhyw rai o aelodau'r pwyllgor o dan 18 mlwydd oed. Nid oes angen i'r un sydd yn ymgeisio am drwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb fod yn ddeilydd trwydded bersonol.

Os nad ydych yn sicr beth i'w wneud, gallwch ddefnyddio'r diagram isod i'ch cynorthwyo i ddod i benderfyniad. Fodd bynnag, os nad ydych yn sicr, nid oes unrhyw beth i'ch rhwystro rhag gwneud amnewid syml ac ymgeisio i newid eich trwydded yn nes ymlaen. Efallai y byddwch yn dymuno aros i weld sut mae'r newid yn y gyfraith yn newid yr amgylchedd busnes.

BYDDWCH YN REALISTIG YN YR HYN YR YDYCH YN BWRIADU EI WNEUD.
YSTYRIWCH:

- EICH CYMDOGION – PRESWYL A BUSNES.
- EICH CEFNDIR GYDA'R HEDDLU A GWASANAETH IECHYD YR AMGYLCHEDD CYNGOR GWYNEDD AC ASIANTAETHAU GORFODAETH ERAILL.

**Sut i wneud cais am Newid Syml?**

Anfonwch:

- Ffurflen gais wedi'i llenwi (trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb)
- Y tâl cywir*
- Eich holl drwyddedau a thystysgrifau presennol
- Cynllun graddfa 1:100 (oni bai eich bod wedi trefnu fel arall gyda Swyddogion Trwyddedu Cyngor Gwynedd) o'r eiddo i gynnwys y manylion a ganlyn:
    - Lleoliad a maint ffin yr adeilad, os yn berthnasol, ac unrhyw furiau allanol a mewnol sydd yn rhan o'r eiddo, neu y mae'r eiddo oddi mewn iddynt
    - Lleoliad yr allanfeydd o'r eiddo
    - Lleoliad llwybrau dianc o'r eiddo, os yn wahanol i'r allanfeydd
    - Lleoliadau ar neu oddi wrth yr eiddo a fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy, ac os yw'r eiddo am gael ei ddefnyddio ar gyfer mwy nag un gweithgaredd drywddedadwy, yna lleoliad pob gweithgaredd
    - Yn yr achos ble mae cais yn berthnasol i werthu alcohol, lleoliad neu leoliadau yn yr eiddo sydd yn neu a fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer yfed alcohol
    - Strwythurau sefydlog (gan gynnwys dodrefn) neu wrthrych tebyg mewn lleoliad sefydlog dros dro (heb fod yn ddodrefn) a allai gael effaith ar allu unigolion yn yr eiddo i ddefnyddio allanfeydd neu lwybrau dianc heb rwystr

- Mewn achos ble mae'r eiddo yn cynnwys llwyfan neu ran wedi'i godi, lleoliad ac uchder y llwyfan neu'r rhan o'i gymharu â'r llawr.
- Lleoliad a math unrhyw offer diogelwch tân neu offer diogelwch eraill, gan gynnwys os yn berthnasol, offer diogelwch morol
- Lleoliad cegin, os oes yna un yn yr eiddo

Hefyd:

- Os bydd y cais am drwydded eiddo yn cynnwys adwerthu alcohol, bydd angen caniatâd yr unigolyn sydd yn ddeilydd trwydded bersonol sydd yn dymuno bod yn oruchwyliwr yr eiddo dynodedig.
- Os bydd y cais am dystysgrif eiddo clwb, bydd angen copi o lyfr rheolau'r clwb, a datganiad bod y clwb yn "glwb cymwys".

Rhaid anfon y cais gyda chopïau gwreiddiol neu ardystiedig y trwyddedau presennol i Adain Drwyddedu Cyngor Gwynedd. Rhaid anfon copi o'r cais (llungopi) at yr heddlu. Er eich budd eich hun, efallai y byddech yn dymuno cael derbynneb am anfon y cais neu anfon y cais drwy bost cofrestredig a chadw'r tocynnau fel prawf bod y ceisiadau wedi cael eu hanfon.

Nid yw'n debygol y bydd problem o ran rhoi trwydded newydd ar yr amod bod y cais wedi'i gwblhau'n llawn ac nad yw'r heddlu yn gwrthwynebu. Os ydych wedi cael eich ystyried yn abl ac addas i ddal unrhyw un o'r trwyddedau uchod yn y gorffennol, ac os nad yw eich amgylchiadau wedi newid, yna mae gennych "Hawliau Taid" a fydd yn diogelu eich oriau busnes a'ch gweithgareddau. Byddwch yn ymwybodol y bydd yr amodau ynghlwm â'ch hen drwyddedau yn parhau ar eich trwydded newydd.

Mae'n rhaid i chi anfon copi o'ch cais at yr holl "Awdurdodau Cyfrifol". Mae manylion cyswllt yr awdurdodau cyfrifol yng Ngwynedd i'w cael o dan y manylion cyswllt ar ddiwedd y rhan yma. Er eich budd eich hun, efallai y byddech yn dymuno cael derbynneb am anfon y cais neu anfon y cais drwy bost cofrestredig a chadw'r tocynnau fel prawf bod y ceisiadau wedi cael eu hanfon.

**Sut fyddaf yn gwybod a yw'r cais wedi'i gwblhau?**

Mae'n rhaid i'r awdurdodau cyfrifol gadarnhau gyda'r Adain Drwyddedu eu bod wedi derbyn copïau o'r cais. Ni fydd y tîm trwyddedu yn ystyried y cais fel un cyflawn heb iddynt gael y cadarnhad yma. Bydd ceisiadau anghyflawn yn cael eu gyrru'n ôl i'r ymgeisydd gyda llythyr i egluro pam ei fod yn anghyflawn. Bydd y Cyngor angen cadarnhad pellach oddiwrth yr awdurdod perthnasol bod cais cyflawn ymhellach wedi ei dderbyn.

**Beth nesaf?**

Mae'n ddyletswydd ar yr ymgeisydd i hysbysebu'r amrywiad cydamserol. Rhaid i hyn fod yn y ffurf gorchmynol ar bapur glas golau, a dylid ei arddangos mewn man amlwg ger neu yn yr eiddo dan sylw, a fydd yn rhoi manylion am y newidiadau. Rhaid arddangos yr hysbysiad hwn am ddim llai nag 28 diwrnod. Rhaid i'r ymgeisydd hefyd hysbysebu'r cais mewn papur newydd lleol sydd ar gael yn y rhan berthnasol o Wynedd, e.e. Cambrian News, Caernarfon & Denbigh Herald, North Wales Chronicle neu papur dyddiol megis y Daily Post neu'r Western Mail. Rhaid cylchredeg hysbysiad papur newydd o leiaf unwaith ddim hwyrach na phum niwrnod gwaith ar ôl cyflwyno'r cais i Adain Drwyddedu Cyngor Gwynedd. Bydd yr hysbysiad papur newydd a'r un ar gyfer y cais yn cynnwys y wybodaeth a ganlyn:

- Y digwyddiadau trwyddedadwy arfaethedig perthnasol i'w cynnal yn yr eiddo.
- Y newidiadau arfaethedig i'r cais (beth sydd yn gwneud y cais yn amrywiad cydamserol)
- Enw'r ymgeisydd
- Cyfeiriad post yr eiddo, neu os nad yw'n berthnasol, disgrifiad o'r eiddo dan sylw

- Manylion ble mae cofrestr Cyngor Gwynedd yn cael ei gadw a ble y gall gael ei archwilio (e.e. swyddfa Cyngor leol)
- Y dyddiadau y gall buddiwr ac awdurdod cyfrifol wneud sylwadau i Dîm Trwyddedu Cyngor Gwynedd (28 niwrnod ar ôl cyflwyno'r cais gorffenedig.
- Datganiad bod rhaid i'r holl sylwadau fod yn ysgrifenedig).
- Datganiad ei bod yn drosedd i wneud datganiad ffug yn fwriadol neu yn fyrbwyll mewn perthynas â chais a'r tâl uchaf y mae unigolyn yn agored iddo ar gollfarn ddiannod.

Os nad oes sylwadau wedi cael eu derbyn o fewn 28 diwrnod, bod y ffurflen gais wedi'i llenwi yn cael ei chyflwyno gyda'r taliadau cywir a gwaith papur arall, yn ogystal â'r hysbysiadau priodol yn y papurau a'r eiddo, bydd y drwydded yn cael ei rhoi.

Fodd bynnag, os oes sylwadau wedi cael eu derbyn gan unrhyw fuddiwr neu awdurdodau cyfrifol, bydd yr adain drwyddedu yn penderfynu a yw'r sylwadau yn berthnasol. Os bydd yr adain drwyddedu yn credu bod y sylwadau yn berthnasol, byddant yn trefnu cyfarfod cyfryngiad rhwng y partïon perthnasol i geisio dod i gyfaddawd rhesymol. Os yw'r broses anffurfiol yma yn aflwyddiannus, bydd gwrandawiad o flaen y pwyllgor trwyddedu yn dilyn. Bydd yr holl bartïon perthnasol yn cael gwybod. Bydd y pwyllgor trwyddedu neu'r is-bwyllgor yn dod i benderfyniad a bydd manylion y penderfyniad hwnnw yn cael eu hanfon at yr holl bartïon perthnasol.

Unwaith y bydd y drwydded newydd wedi cael ei rhoi, ni fydd yn dod i rym nes yr ail ddiwrnod penodedig.

Mae gan yr ymgeisydd hawl i apelio a dylid gwneud hyn i'r ynadon addas i leoliad yr eiddo dan sylw. Dylid ceisio cael cyngor proffesiynol pan fydd ansicrwydd beth fyddai'r peth gorau i'w wneud.

**Angen cymorth?**

Mae Cyngor Gwynedd yn ymwybodol bod yna bryderon ynglŷn â gwneud ceisiadau am drwydded eiddo, ac fe fydd swyddogion ar gael yn y 3 Swyddfa i ymdrin gyda'ch ceisiadau rhwng 10.00am–12.00pm a 2.00pm-4.00pm bob dydd gwaith. A fuasech gystal a ffonio i wneud apwyntiad er sicrhau bod swyddog ar gael Neu, efallai eich bod yn dymuno anfon eich cais at unigolyn proffesiynol trwyddedu cyfrifol megis cyfreithiwr neu ymgynghorydd

**Ffioedd***

Mae'r llywodraeth ganolog wedi pennu'r holl ffioedd ar gyfer deddf trwyddedu 2003. Mae'r ffioedd newydd yn seiliedig ar werth ardrethol annomestig yr eiddo. Maent wedi eu rhannu yn 5 band:

| **Band** | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwerth Ardrethol Annomestig** | £0 - £4,300 | £4,301 - £33,000 | £33,001 - £87,000 | £87,000 - £125,000 | £125,001 + |

Mae ceisiadau am drwyddedau eiddo, tystysgrifau eiddo clwb, amrywiadau (ond heb fod yn newid enw a chyfeiriad neu newidiadau yn y goruchwyliwr dynodedig), addasu trwyddedau presennol a newid/amrywio i'w gweld isod

| **A** | **B** | **C** | **D** | **E** |
|---|---|---|---|---|
| £100 | £190 | £315 | £450 | £635 |

Bydd yn rhaid i'r rhai sydd am wneud cais am wyriad yn ymwneud a alcohol hefyd dalu ffi ychwanegol fel a ganlyn:

| A | B | C | D | E |
|---|---|---|---|---|
| £20 | £60 | £80 | £100 | £120 |

Mae'n rhaid i'r unigolion sydd â thrwydded eiddo a thystysgrif eiddo clwb dalu ffi flynyddol fel a ganlyn:

| A | B | C | D | E |
|---|---|---|---|---|
| £70 | £180 | £295 | £320 | £350 |

Yn ychwanegol, bydd lluosogwr yn weithredol i dafarndai canol dinas a thref (y rhai hynny yn mand D a E) ble mai eu hunig neu brif fusnes yw gwerthu alcohol.

| | Band D(x2) | Band E(x3) |
|---|---|---|
| Ffi am y cais | £900 | £1905 |
| Ffi blynyddol | £640 | £1050 |

I ddarganfod gwerth ardrethol annomestig eich eiddo, rhowch eich cod post ar wefan y Swyddfa Brisio, www.voa.gov.uk.
Mae yn enghreifftiau eraill ble bydd angen talu ffioedd a thaliadau i Gyngor Gwynedd:

| Achlysur ble gellid gorfod talu ffi | At bwy ddylid anfon copïau o'r cais heblaw am Dîm Trwyddedu Gwynedd | Pob ffi i'w thalu i Gyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| Newid syml trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb | Yr Heddlu | Gweler uchod gan ei fod yn dibynnu ar Werth Ardrethol Annomestig |
| Amrywiad cydamserol yn ystod y cyfnod trosiannol (trwydded eiddo, tystysgrifau eiddo clwb) | • Yr Heddlu<br>• Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru<br>• Cynllunio Gwynedd (neu Barc Cenedlaethol Eryri os yw'r eiddo yn y Parc Cenedlaethol).<br>• Adain Iechyd yr Amgylchedd<br>• Iechyd a Diogelwch Gwynedd neu Awdurdod Gweithredu Iechyd a Diogelwch<br>• Amddiffyn Plant Gwynedd<br>• Hysbysebu yn y papur lleol | Gweler uchod gan ei fod yn dibynnu ar Werth Ardrethol Annomestig |
| Trwydded Eiddo neu Dystysgrif Eiddo Clwb newydd | • Yr Heddlu<br>• Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru<br>• Cynllunio Gwynedd (neu Barc Cenedlaethol Eryri os yw'r eiddo yn y Parc Cenedlaethol). | Gweler uchod gan ei fod yn dibynnu ar Werth Ardrethol Annomestig |

| | | |
|---|---|---|
| | • Adain Iechyd yr Amgylchedd Gwynedd<br>• Iechyd a Diogelwch Gwynedd neu Awdurdod Gweithredu Iechyd a Diogelwch<br>• Amddiffyn Plant Gwynedd<br>• Hysbysebu yn y papur lleol | |
| Cais am Drwydded Bersonol | Yr Heddlu | £37 |
| Amrywiad trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb | • Yr Heddlu<br>• Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru<br>• Cynllunio Gwynedd (neu Barc Cenedlaethol Eryri os yw'r eiddo yn y Parc Cenedlaethol).<br>• Adain Iechyd yr Amgylchedd Gwynedd<br>• Iechyd a Diogelwch Gwynedd neu Awdurdod Gweithredu Iechyd a Diogelwch<br>• Amddiffyn Plant Gwynedd<br>• Hysbysebu yn y papur lleol | Gweler uchod gan ei fod yn dibynnu ar Werth Ardrethol Annomestig |
| Darparu copïau o wybodaeth yn y gofrestr | N/A | Cael eu gosod gan Wynedd |
| Cais am gopi o'r drwydded oherwydd bod trwydded eiddo neu grynodeb wedi cael ei ddwyn neu ar goll | N/A | £10.50 ym mhob achos |
| Hysbysu ynglŷn â newid enw neu gyfeiriad (deilydd y drwydded eiddo) | N/A | £10.50 ym mhob achos |
| Cais i amrywio i nodi unigolyn fel goruchwyliwr eiddo | Yr Heddlu | £23.00 |
| Hysbysiad Awdurdod dros dro | Yr Heddlu | £23.00 |
| Cais i drosglwyddo trwydded eiddo | Yr Heddlu | £23.00 |
| Cais i gael gwneud datganiad dros dro | • Yr Heddlu<br>• Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru<br>• Adain Iechyd yr Amgylchedd Gwynedd<br>• Iechyd a Diogelwch Gwynedd neu Awdurdod Gweithredu Iechyd a Diogelwch | £315 |

| | | |
|---|---|---|
| | • Amddiffyn Plant Gwynedd<br>• Hysbysebu yn y papur lleol | |
| Cais am gopi o dystysgrif neu grynodeb oherwydd bod y dystysgrif neu'r crynodeb wedi'i ddwyn neu ar goll | N/A | £10.50 ym mhob achos |
| Hysbysiad am newid enw neu newid rheolau'r clwb | N/A | £10.50 ym mhob achos |
| Newid enw cofrestredig perthnasol y clwb | N/A | £10.50 ym mhob achos |
| Hysbysiadau Digwyddiadau dros dro | Yr Heddlu | £21.00 |
| Cais am gopi o hysbysiad digwyddiad dros dro oherwydd bod yr hysbysiad wedi'i ddwyn neu ar goll | N/A | £10.50 |
| Cais am gopi o drwydded oherwydd bod trwydded bersonol wedi cael ei dwyn neu ar goll | N/A | £10.50 |
| Hysbysiad am newid enw neu gyfeiriad (trwydded bersonol) | N/A | £10.50 |
| Hysbysiad am ddiddordeb mewn unrhyw eiddo | N/A | £21.00 |

Mae angen i ddigwyddiadau hynod o fawr sydd dros dro, ac sydd angen trwydded eiddo, dalu'r ffioedd a ganlyn:

| Nifer y bobl | Ffioedd Ychwanegol |
|---|---|
| 6,000 – 9,999 | £5,000 |
| 10,000 – 19,999 | £7,500 |
| 20,000 – 29,999 | £10,000 |
| 30,000 – 39,999 | £15,000 |
| 40,000 – 49,999 | £20,000 |
| 50,000 – 74,999 | £30,000 |
| 75,000 and over | £50,000 |

O ran digwyddiadau hynod o fawr, ble ceir trwydded eiddo parhaol ar gyfer safle yn hytrach nag un sydd â chyfyngiad amser ar gyfer y digwyddiad, efallai y bydd angen talu ffi ychwanegol oherwydd y gwaith gwirio yn ogystal â'r ffi flynyddol ar gyfer trwydded eiddo o'r fath. Rydym yn ystyried y dylai'r elfen ychwanegol o dâl fod 50% o'r ffi ychwanegol a restrir uchod.

Ar gyfer eiddo sydd yn cael eu hadeiladu, ac nad yw gwerth ardrethol annomestig wedi'i bennu ar eu cyfer, bydd gwerth yn cael ei bennu ar eu cyfer cyn gynted ag y bydd y dystysgrif

cwblhau wedi'i rhoi. Yn yr achosion hyn, bwriedir dyrannu band C ar gyfer eiddo o'r fath. Bydd ffioedd blynyddol dilynol yn berthnasol i werth ardrethol annomestig yr eiddo.

Ni fydd trwydded eiddo a geisir ar gyfer canolfannau cymunedol a rhai ysgolion sydd yn caniatáu adloniant rheoledig, ond nad ydynt yn caniatáu gwerthu alcohol a/neu luniaeth hwyr yn y nos yn gorfod talu ffi. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r adain drwyddedu.

**Atodlen Weithredu**

Mae'r atodlen weithredu yn angenrheidiol ar gyfer pob cais newydd am drwydded eiddo a thystysgrifau eiddo clwb. Y dogfennau sydd yn amlinellu pa weithgareddau y bwriedir eu caniatáu, pryd fydd y gweithgareddau yn digwydd a sut y byddant yn cael eu rheoli a'r oriau agor cyffredinol pryd ganiateir y cyhoedd yn yr eiddo.

Mae'n fuddiol ymgeisio am yr uchafswm o oriau ar gyfer unrhyw weithgaredd. Dylid meddwl yn arbennig am y canolfannau cymunedol gan fod nifer o wahanol ddefnyddwyr yn defnyddio'r eiddo hyn, ac maent yn newid yn weddol aml. Efallai y byddai'n gall ymgeisio am weithgareddau nad ydynt yn digwydd ar hyn o bryd, gan y gallai'r bobl sydd yn llogi'r lle ofyn am y gweithgareddau hynny yn y dyfodol. Er enghraifft, os bydd dosbarthiadau dawns yn cael eu cynnal yn ystod y dydd, nid yw'n annirnadwy y bydd dosbarthiadau dawns yn cael eu cynnal gyda'r nos neu ar y penwythnosau. Yn yr amgylchiadau hyn, byddai'n werth ymgeisio am drwydded cyffredinol na fyddai'n cyfyngu'r bobl sydd yn defnyddio'r neuadd o ran beth y gallent eu cynnig.

Un o'r pethau pwysicaf o ran y rhestr weithredu yw'r adran ble mae'r ymgeisydd yn disgrifio'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu. Fe'ch cynghorir i ystyried yn ofalus beth i'w nodi yma. Bydd yr hyn yr ydych yn ei ysgrifennu yma yn dod yn amod o'r drwydded, yn amodol ar ymgynghoriadau.

**Cyffredinol**

Arwyddion - gall arwyddion da weithredu ar nifer o wahanol lefelau. Wrth y drws, gall arwyddion clir esbonio polisi'r eiddo o ran polisïau cyfyngiadau oedran megis "dros 18 yn unig", "dros 21 yn unig" neu "dim plant heb warchodwyr". Boed yr arwyddion yn ailadrodd y gyfraith neu'n mynegi polisi'r eiddo, gallent weithredu fel rhwystr neu declyn i staff orfodi'r gyfraith neu bolisi'r eiddo mewn modd nad yw'n wrthdrawiadol. Fodd bynnag, nid yw'n ddymuniad gan Gyngor Gwynedd droi'r holl eiddo trwyddedig yn hysbysfyrddau. Dylid defnyddio arwyddion os oes yna broblemau penodol, neu ble mae angen ffinio mannau penodol ar gyfer gweithgareddau neilltuol. Mae rhai enghreifftiau o'r arwyddion y gellid eu defnyddio yn cynnwys:
"Mae teledu cylch cyfyng yn y man yma, a bydd yr heddlu yn cael gwybod am unrhyw dor-cyfraith"
"Mae gan yr eiddo yma bolisi dim goddefgarwch ar gyfer cyffuriau"
"Gall fod angen profi'ch oedran wrth brynu rhai nwyddau"
"Mae croeso i blant o dan oruchwyliaeth yn y tŷ bwyta cyn 8pm"
"Dim diodydd yn y man yma/tu hwnt i'r man yma"

Hyfforddi staff - mae staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda yn gaffaeliaid i unrhyw fusnes. Dylai hyfforddiant allweddol ar gyfer hyfforddi staff mewn eiddo trwyddedig gynnwys gwybodaeth dda o'r hyn a ganiateir a'r hyn na ganiateir yn yr eiddo. Mae cadwyn awdurdod eiddo trwyddedig yn bwysig, a byddai Cyngor Gwynedd yn disgwyl i ymgeiswyr, yn arbennig y rhai sydd yn gwerthu alcohol ble bydd angen goruchwyliwr dynodedig nad yw yn yr eiddo, gael arfer da megis bod y rheolwr ar ddyletswydd yn arwyddo llyfr log cyn cychwyn gweithio, fel ei bod yn glir pwy sydd yn gyfrifol am yr eiddo ar unrhyw adeg benodol. Byddai

rheolwyr ar ddyletswydd gyda thrwyddedau personol fel y gellid sicrhau'r lefel o wybodaeth angenrheidiol pan na fydd goruchwyliwr dynodedig y lleoliad yn bresennol yn enghraifft o arfer da. Mae elfennau pwysig eraill y dylid eu hystyried yn cynnwys:

- Beth i'w wneud os ydynt yn credu bod problem gydag ymddygiad cwsmer neu os ydynt yn credu y bydd problem.
- Beth i'w wneud, ac unrhyw ddyletswyddau arbennig petai yna dân neu unrhyw angen arall i wagio'r eiddo.
- Ble cyflenwir alcohol neu ble mae cyfyngiad oedran yn berthnasol, dylid darparu a chynnal hyfforddiant ynglŷn â beth sydd yn brawf oedran derbyniol a beth na ddylid eu derbyn.
- Ble bo'n berthnasol, dylai staff wybod beth y disgwylid iddynt ei wneud petai yna ddigwyddiad, ac o bosibl, petai yna achos llys i ddilyn, efallai y byddai'n rhaid iddynt roi tystiolaeth.
- Beth yw polisi cyffuriau'r eiddo a beth i'w wneud petai cyffuriau yn cael eu darganfod yn yr eiddo.
- Beth i'w wneud petaent yn teimlo o dan fygythiad i werthu rhywbeth yn anghyfreithlon, a sut i osgoi sefyllfaoedd fel hyn.

Ymhellach, os yw aelodau staff wedi cael eu hyfforddi yn dda, efallai y byddant yn teimlo'n fwy hyderus i fod yn fwy ymarferol wrth gadw'r eiddo yn rhydd o unrhyw drafferthion. Y ffordd orau o wneud hyn yw cael dogfen sydd yn nodi cynnwys yr hyfforddiant ar gyfer staff a dogfennau i ddangos bod pob aelod o staff yn gyfarwydd â'r deunydd. Gellir cyfeirio at y ddogfen yn y rhestr weithredu. Ble defnyddir staff asiantaeth, sicrhewch eu bod wedi cael eu briffio'n drylwyr ynglŷn â'u rôl, a ble bynnag y bo'n bosibl, ceisiwch ddefnyddio'r un staff fel eu bod yn dod i adnabod yr eiddo a'r cwsmeriaid.

Ni ddylai cynigion hyrwyddo diodydd annog yfed mewn hyrddiau. Dylid ystyried y goblygiadau ar y gymuned pryd bynnag y ceir cynigion hyrwyddo diodydd alcoholig. Cynghorir cael datganiad i egluro'r cynigion hyrwyddo diodydd ar yr eiddo ble bynnag y bo'n berthnasol.

Dylid rhoi ystyriaeth arbennig ynglŷn ag amcanion trwyddedu pan fydd digwyddiadau arbennig megis gemau pêl-droed neu ddigwyddiadau lleol neu genedlaethol eraill a sut effaith y bydd y digwyddiadau hyn yn ei gael ar y gymuned leol a sut i leihau'r effaith negyddol.

**Atal Trosedd ac Anhrefn**

Manylion unrhyw deledu cylch cyfyng oddi ar yr eiddo a/neu yn yr eiddo ac arwyddion addas yn ymwneud â theledu cylch cyfyng. Os ydych yn gosod system teledu cylch cyfyng newydd, dylid gofyn am gyngor yr adran berthnasol o Heddlu Gogledd Cymru rhag ofn y bydd angen y deunydd fel tystiolaeth.

Gall bod yn aelod o, a mynychu cyfarfodydd grwpiau atal troseddau megis *Pubwatch* fod o gymorth i atal pobl sydd yn adnabyddus am achosi trwbl rhag cael mynediad i'ch eiddo. Gan fod *Pubwatch* a'r Heddlu yn gallu rhannu gwybodaeth gyda'i gilydd, gobeithir gallu lleihau digwyddiadau troseddol. Mae cael eu gwahardd gan *Pubwatch* yn gallu cael effaith ar fywyd cymdeithasol y bobl hyn. Efallai y byddai'n rhaid iddynt deithio llawer pellach i gael mynychu eiddo trwyddedig, ac felly ni allent gymdeithasu â'u ffrindiau yn yr un modd. Felly, gall arwyddion *Pubwatch* fod yn rhwystr. Byddai bod yn aelod o *Pubwatch* yn cael ei ystyried yn arfer da ar gyfer nifer o eiddo yng nghanol trefi ble mae cyflenwi alcohol yn weithgaredd awdurdodedig.

Dylai eiddo trwyddedig gyda pholisi mynediad cyfyngedig a/neu brofiad yn dangos bod llawer o giwio ar amser arbennig nodi trefniadau arolygu ar y lleiaf. Dylai unrhyw oruchwylydd wrth y drws fod â thrwydded o dan Ddeddf Diwydiant Diogelwch (SIA). Gellid ymestyn hwn ar gyfer eiddo megis y rhai sydd wedi'u trwyddedu ar gyfer bwyd yn hwyr yn y

nos. I gael mwy o wybodaeth am SIA, ewch ar www.the-sia.org.uk neu ffoniwch y llinell gymorth ar 08702430100.

Ble bynnag y bo'n briodol, gall y rhestr weithredu nodi manylion pryd y bydd defnyddio plastig neu wydr gwydn yn gymwys fel y diffinnir gan asesiad risg. Gall fod plastig yn ddewis amgenach mewn ardaloedd y tu allan ble gallai gwydr wedi torri fod yn anodd ei glirio neu ble byddai mwy o stŵr megis pan a ble mae chwaraeon cenedlaethol ar y teledu.

Ble mae mynedfa'r eiddo yn wynebu'r stryd sydd yn cael ei heffeithio ag is-ddeddf yn atal y cyhoedd rhag yfed alcohol, ni chaniateir mynd â chynwysyddion agored o'r eiddo. Byddai arwyddion i atgyfnerthu'r ffaith mai ond diodydd a brynir yn yr eiddo y caniateir i'w yfed yn yr eiddo o fudd.

Bydd unrhyw gofnodion o ddigwyddiadau trosedd ac anhrefn a ble mae gwerthu alcohol wedi cael ei wrthod o gymorth i'r heddlu a'r awdurdod lleol gyd-weithio.

Sicrhau bod digon o staff yn ystod adegau prysur fel bod staff yn cael goruchwylio holl fannau'r eiddo trwyddedig gan gynnwys toiledau a mannau eraill nad ydynt yn weladwy o'r bar.

Mae datblygu perthynas dda gyda swyddogion heddlu lleol hefyd o fudd, i atal digwyddiadau yn eich eiddo. Os yw cwsmeriaid yn dod i arfer gweld heddlu yn ymweld â'r eiddo yn rheolaidd, nid yw ymddygiad problemus yn cael ei annog.

**Diogelwch y Cyhoedd**

Asesiad risg – mae hwn yn ofyn o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch wrth Weithio 1974, ble mae mwy na 5 o weithwyr. Gall gynnwys asesiad risg tân fel sydd yn ofynnol o dan reoliadau Gochelion Rhag Tân (wrth weithio) 1997 a bydd yn berthnasol i holl eiddo annomestig yn dilyn Gorchymyn Diwygio Rheoleiddiol sydd yn debygol o ddod i rym yn 2005.

Dylai ymgeiswyr ystyried, fel gofyn sylfaenol, mannau megis diogelwch trydan, cyfanrwydd yr adeilad, a gosodiadau gwres yn ôl yr arfer ac ailasesu'r rhain yn dilyn gwaith adnewyddu mawr, atgyweirio a chynnal a chadw cyffredinol.

Arwydd o faint a ddeil yr eiddo – gellir seilio hyn ar asesiad diweddar gan swyddog tân a oedd yn un o ofynion ar gyfer Trwydded Adloniant Cyhoeddus. Fodd bynnag, cyfrifoldeb y rheolwr yw gwneud asesiad risg o'r busnes. Byddai Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynorthwyo gydag arweiniad ar gyfer y gwaith yma. Gall pa mor rhwydd yw mynd allan gael effaith ar y niferoedd hyn, fel y gall unrhyw ddodrefn sefydlog a/neu osodiadau. Rhowch fanylion os yw eich eiddo yn dal llai na 200 o bobl gan fod yna eithriad. O dan Adain 177 o Ddeddf Trwyddedu 2003 ble:

- Mae trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb yn awdurdodi cyflenwi alcohol i'w yfed yn yr eiddo a darparu "adloniant cerddorol" (cerddoriaeth fyw neu ddawnsio neu gyfleusterau i alluogi pobl gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn rhwng 8.00am a hanner nos).
- Mae'r eiddo perthnasol yn cael eu defnyddio'n bennaf ar gyfer cyflenwi alcohol i'w yfed yn yr eiddo, a
- Mae gan yr eiddo lefel ganiataëdig o ddim mwy na 200 o bobl (gan gynnwys staff a pherfformwyr), bydd unrhyw amodau sydd yn berthnasol i ddarparu adloniant cerddorol a osodir ar y drwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb gan Gyngor Gwynedd, heblaw am y rhai a nodir gan y drwydded neu'r dystysgrif yn gyson â'r rhestr weithredu, bydd yn cael ei ohirio heblaw am ble maent yn cael eu gosod fel amodau angenrheidiol ar gyfer diogelwch y cyhoedd neu i atal trosedd ac anhrefn, neu'r ddau.

**Atal niwsans cyhoeddus**

Disgwylir i fusnesau ysgubo'r mannau y tu allan i'w heiddo ar amser cau ar ôl bob diwrnod busnes, os oes angen. Nodwch unrhyw bolisi sydd yn ymwneud â hyn.

Anogir cau unrhyw ardaloedd y tu allan ar amseroedd penodol i'w cynnwys yn y rhestr weithredu. Fe'ch cynghorir na ddylid cynnal unrhyw adloniant rheoledig y tu allan gyda'r nos heb ymgynghori ymlaen llaw gyda'r awdurdod trwyddedu. Gellir ymatal sŵn drwy gadw ffenestri a drysau ar gau, drwy osod gwydr dwbl ble bo hynny'n briodol a chadw offer gwyntyllu mewn cyflwr da. Mae defnyddio pobl sydd yn perfformio adloniant rheoledig i atgoffa pobl i barchu'r eiddo a'r cymdogion ac i adael yn dawel wedi profi'n llwyddiannus.

**Amddiffyn plant rhag niwed**

Gwnewch ddatganiad ynglŷn â pholisi gadael plant gael mynediad i'r eiddo gan nodi manylion unrhyw gyfyngiadau.

Gall arwyddion fod yn bwysig o ran cadw plant rhag niwed - gall fod o gymorth i atgoffa rhieni a gwarchodwyr ei fod yn anghyfreithlon bod yn feddw ac yn gyfrifol am blant dan 7 mlwydd oed, yn arbennig pan fod yr alcohol sydd yn cael ei werthu i'w yfed yn yr eiddo. Mae hefyd yn bwysig goruchwylio eich plant bob amser yn y mathau hyn o eiddo. Disgwylir, os caniateir plant yn yr eiddo, eich bod yn ffinio unrhyw ardal ble na chaniateir plant yn eich rhestr weithredu. Gall hyn gynnwys ardal y bar, ardaloedd gyda pheiriannau difyrrwch neu elfen fawr o gamblo, dylai lluniaeth addas fod ar gael bob amser pan ganiateir plant yn yr eiddo. Sicrhewch fod plant sydd angen mynd i'r toiled yn gallu mynd yno heb orfod mynd drwy unrhyw ardal ble na chaniateir iddynt.

**Angen cymorth?**

Os yw'r rhan yma wedi eich drysu, efallai y byddech yn dymuno nodi'r amodau sydd yn berthnasol i'ch trwydded/trwyddedau ar hyn o bryd o dan y penawdau priodol, gan eu haddasu ar gyfer unrhyw newidiadau yr ydych yn ymgeisio amdanynt. Er enghraifft, os oes gennych gyfyngiad o ran amser hwyraf mynediad ar gyfer Trwydded Adloniant Cyhoeddus, efallai y byddech yn dymuno ymgeisio i newid hwn yn unol â'ch oriau agor hwyrach arfaethedig o dan eich cais newydd.

**Troseddau**

- Parhau neu geisio parhau i gynnal gweithgaredd trwyddedadwy yn neu o eiddo, heblaw am o dan neu yn unol â'r awdurdodiad a geir mewn trwydded eiddo, tystysgrif eiddo clwb neu hysbysiad digwyddiad dros dro sydd yn cwrdd â'r amodau angenrheidiol.
- Caniatáu digwyddiad o'r fath gael ei gynnal yn fwriadol.
- Pan fo digwyddiad anawdurdodedig wedi cael ei gynnal, nid yw unrhyw berfformiwr nac unrhyw un a oedd yn cymryd rhan yn troseddu oni bai eu bod yn rhan o drefnu'r gweithgaredd anawdurdodedig.
- Mae'n drosedd amlygu alcohol ar werth pan nad yw'n weithgaredd awdurdodedig.
- Cadw alcohol gyda'r bwriad o'i werthu drwy adwerthu neu ei gyflenwi gan neu ar ran clwb neu ar archeb aelod o glwb ble byddai gwerthu alcohol yn weithgaredd trwyddedadwy anawdurdodedig.

Mae troseddau yn ymwneud â phlant yn cynnwys y rhai a ganlyn:

- Gwaherddir plant heb oruchwyliaeth o eiddo penodol megis eiddo pan fyddant yn agored i ddibenion cyflenwi alcohol ac yfed alcohol a'r holl eiddo perthnasol a ddefnyddir ar gyfer gwerthu alcohol i'w yfed rhwng hanner nos a 5am.
- Mae gwerthu alcohol i unigolyn o dan 18 yn anghyfreithlon.
- Mae clwb yn troseddu os bydd alcohol yn cael ei gyflenwi i aelod neu ymwelydd sydd o dan 18 mlwydd oed.
- Mae'n drosedd cyflenwi alcohol i blant yn eich eiddo.
- Mae'n drosedd i unigolyn o dan 18 brynu neu geisio prynu alcohol.
- Mae'n drosedd prynu neu geisio prynu alcohol ar ran unigolyn sydd o dan 18 mlwydd oed.
- Fodd bynnag, nid yw'n drosedd os yw unigolyn dros 18 yn prynu cwrw, gwin neu seidr i unigolyn 16 neu 17 mlwydd oed, os yw'r ddiod i'w yfed wrth y bwrdd gyda phryd o fwyd mewn eiddo perthnasol a bod unigolyn 18 neu hŷn yn wrth y bwrdd bwyd hefyd.
- Mae unigolyn o dan 18 yn troseddu os ydyw'n yfed alcohol yn fwriadol ar eiddo perthnasol.
- Mae unrhyw un sydd yn gweithio yn yr eiddo perthnasol, mewn unrhyw swyddogaeth, boed yn cael ei dalu neu beidio, yn troseddu os yw'n cyflenwi alcohol a werthir yn yr eiddo yn fwriadol i unigolyn o dan 18, neu alcohol a werthir yn yr eiddo gan neu ar ran clwb neu ar archeb aelod o'r clwb.
- Mae unigolyn yn troseddu os yw'n caniatáu unrhyw un arall i ddarparu alcohol a werthir yn yr eiddo perthnasol i unigolyn dan 18.
- Anfon plentyn i gael gafael ar alcohol sydd ar werth.

**Manylion Cyswllt**

Dylid ymgynghori â'r holl awdurdodau cyfrifol wrth gyflwyno'r cais (drwy gadw mewn côf ble lleolir yr eiddo). Yn ystod y cyfnod trosiannol bydd staff trwyddedu Cyngor Gwynedd yn rhoi eu hamser i gynorthwyo ymgeiswyr, fel y nodwyd yn flaenorol.

**<u>Yr Adain Drwyddedu</u>**

Ardal Arfon - Swyddfeydd y Cyngor, Stryd y Jêl., Caernarfon,<br>LL55 1SH<br>01286 679923/679925/679928

Ardal Dwyfor - Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd y Côb., Pwllheli,<br>LL53 5AA<br>01758 704000/704166

Ardal Meirionnydd - Swyddfeydd y Cyngor, Cae Penarlag, Dolgellau,<br>LL40 2YB<br>01341 424326/424346

**<u>Cynllunio</u>**

Os yn ardal y Parc Cenedlaethol Rheolwr Rheolaeth Datblygu,<br>Parc Cenedlaethol Eryri<br>Penrhyndeudraeth, Gwynedd. LL48 6LF<br>01766 772505 / 772209

Os **<u>nad</u>** yw o fewn y Parc Cenedlaethol–

Ardal Arfon - Swyddfeydd y Cyngor, Penrallt, Caernarfon LL55 1BN<br>01286 682765

| | | |
|---|---|---|
| Ardal Dwyfor | | Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd y Côb., Pwllheli<br>LL53 5AA<br>01758 704118 |
| Ardal Meirionnydd | - | Swyddfeydd y Cyngor, Cae Penarlag, Dolgellau<br>LL40 2YB<br>01341 424414 |

**<u>Iechyd Amgylched/Iechyd a Diogelwch</u>**

**Swyddog Iechyd Amgylchedd (Amgylchedd)**

| | | |
|---|---|---|
| Ardal Arfon | - | Swyddfeydd y Cyngor, Penrallt, Caernarfon LL55 1BN<br>01766 77100 |
| Ardal Dwyfor | - | Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd y Côb, Pwllheli<br>LL53 5AA<br>01766 771000 |
| Ardal Meirionnydd | - | Swyddfeydd y Cyngor, Cae Penarlag, Dolgellau,<br>LL40 2YB<br>01766 771000 |

**Swyddog Iechyd a Diogelwch (Adain Bwyd a Iechyd a Diogelwch)**

| | | |
|---|---|---|
| Ardal Arfon | - | Swyddfeydd y Cyngor, Penrallt, Caernarfon LL55 1BN<br>01286 682732 |
| Ardal Dwyfor | - | Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd y Côb, Pwllheli<br>LL53 5AA<br>01758 704136 |
| Ardal Meirionnydd | - | Swyddfeydd y Cyngor, Cae Penarlag, Dolgellau,<br>LL40 2YB<br>01341 424370 |

**<u>Safonnau Masnach</u>**

| | |
|---|---|
| Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd | Swyddfeydd y Cyngor, Penrallt, Caernarfon, LL54 1BN<br>01286 682728 / 682729 |

**<u>Amddiffyn Plant</u>**

| | |
|---|---|
| Uwch Swyddog Lles (Adran Addysg) | Swyddfeydd y Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon,<br>LL55 1SH 01286 679607 |
| Adran Plant (Adran Gwasanaethau Cymdeithasol) | Swyddfeydd y Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon,<br>LL55 1SH<br>01286 673113 |

**<u>Heddlu Gogledd Cymru</u>**

| | |
|---|---|
| Swyddog Trwyddedu | Swyddfa'r Heddlu, Yr Ala, pwllheli, Gwynedd LL53 5BU<br>01286 670053 |

**<u>Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru</u>**

| | |
|---|---|
| Os yn Arfon/Dwyfor - (ddim yn cynnwys Porthmadog) | Rheolwr Rhanbarth Cydymffurfiaeth Diogelwch Tan<br>Swyddfa Gogledd Gwynedd,<br>Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru,<br>Ffordd Llanberis,<br>Caernarfon,<br>LL55 2DF<br><br>01286 662999 |
| Os yn Meirionnydd - (gan gynnwys Porthmadog) | RheolwrRhanbarth Cydymffurfiaeth Diogelwch Tan,<br>Swyddfa De Gwynedd,<br>Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru,<br>Porthmadog,<br>LL49 9HR<br><br>01766 515418 |

**Cynghorau Cymuned / Tref**

Am wybodaeth bellach am eich Cyngor Cymuned/Tref lleol cysylltwch a gwefan y Cyngor www.gwynedd.gov.uk, neu drwy ffonio eich Swyddfa Ardal leol.

**Arweiniad ar y drefn i wrthwynebwyr**

Gellid ystyried gwrthwynebiadau gan y Cyngor o ran unrhyw gais gan yr 'Awdurdodau Cyfrifol' y mae'r ymgeisydd wedi ymgynghori â hwy, yn ogystal â'r 'Buddiwyr' fel y diffinnir yn y Ddeddf.

Mae 'Buddiwyr' yn golygu unrhyw un o'r rhain:

- Unigolyn sydd yn byw yng nghyffiniau'r eiddo
- Corff sydd yn cynrychioli unigolion sydd yn byw yn y cyffiniau
- Unigolyn sydd yn ymwneud â busnes yn y cyffiniau
- Corff sydd yn cynrychioli unigolion sydd yn ymwneud â busnesau o'r fath

Bydd sylwadau ond yn cael eu hystyried os ydynt wedi cael eu gwneud ar sail y 4 amcan trwyddedu a nodir yn y Ddeddf. Bydd unrhyw rai sydd yn cyfeirio at resymau eraill neu nad yw'n rhoi rhesymau am y gwrthwynebiad yn cael eu hanwybyddu.

Bydd yr holl sylwadau wedi cael eu gwneud yn ysgrifenedig, i Gyngor Gwynedd o fewn 28 diwrnod o gyflwyno'r cais, ac os ystyrir eu bod yn ddilys, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, byddant un ai'n cael eu hystyried gan y Pwyllgor Trwyddedu neu Is-Bwyllgor o'r Pwyllgor Trwyddedu.

## Atodiad B

**Strategaethau Trwyddedu**

Noder isod y strategaethau hynny gan y Cyngor y dylid ei hystyried wrth wneud cais :-

Cynllun Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau
Strategaeth Trosedd ac Anrhefn Gwynedd
Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
Strategaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc Gwynedd
Strategaeth Hamdden Gwynedd

## Atodiad C 1

**Amodau'n ymwneud ag atal trosedd ac anhrefn**

**Dylid nodi'n benodol ei bod yn anghyfreithlon o dan Ddeddf 2003 :**

- **i werthu neu gyflenwi neu geisio gwerthu neu gyflenwi alcohol, yn wybyddus, i unigolyn sy'n feddw**
- **i ganiatáu, yn wybyddus, ymddygiad afreolus mewn eiddo trwyddedig**
- **i ddeiliad trwydded eiddo neu oruchwyliwr eiddo dynodedig yn wybyddus i gadw neu ganiatáu cadw mewn eiddo trwyddedig unrhyw nwyddau a fewnforiwyd heb dalu toll arnynt neu a fyddai fel arall wedi eu mewnforio'n anghyfreithlon**
- **caniatáu presenoldeb plant dan 16 oed heb oedolyn rhwng hanner nos a 5 o'r gloch y bore mewn unrhyw eiddo a drwyddedwyd i werthu alcohol i'w yfed yn y eiddo, ac ar unrhyw adeg mewn eiddo a ddefnyddir yn unig neu yn bennaf ar gyfer gwerthu ac yfed alcohol**

**Felly nid oes angen amodau i orfodi'r trefniadau hyn.**

**Cyffredinol**

Pa fo ymgeiswyr am drwyddedau eiddo neu dystysgrifau eiddo clwb yn paratoi eu gweithredu neu atodlen gweithredu clwb, pan yw awdurdodau cyfrifol yn ystyried ceisiadau o'r fath a phan fo awdurdodau trwyddedu yn ystyried ceisiadau yn dilyn derbyn unrhyw gyflwyniadau perthnasol gan awdurdod cyfrifol neu barti sydd â diddordeb, dylid ystyried yr opsiynau canlynol fel mesurau a fyddai, pe bai angen, yn hyrwyddo atal trosedd ac anhrefn.

Bydd yr angen am yr opsiynau hyn a ddatgelir gan unrhyw asesiad risg o unrhyw eiddo yn dibynnu ar ystod o ffactorau yn cynnwys natur ac arddull y lleoliad, y gweithgareddau a gynhelir yno, lleoliad y eiddo a chwsmeriaid tebygol y busnes perthnasol. Dylid cadw mewn cof hefyd bod y clwb yn gweithredu o dan godau disgyblu er mwyn sicrhau trefn ac ymddygiad da gan yr aelodau.

Bydd amodau angenrheidiol ar gyfer y drwydded neu'r dystysgrif hefyd yn dibynnu ar wybodaeth leol o'r eiddo.

Ni ddylid, mewn unrhyw amgylchiadau, ystyried y mesurau canlynol fel amodau safonol i'w gweithredu'n awtomatig ym mhob achos. Fe'u cynlluniwyd i ddarparu ystod o amodau posib ar sail profiad yn deillio o sefyllfaoedd gwahanol ac er mwyn cynnig arweiniad.

Mae unrhyw unigolyn sy'n gweithredu atodlen weithredu yn rhydd i gynnig unrhyw fesur, megis y rhai a ddisgrifir isod, fel cam y mae ef neu hi yn bwriadu ei gymryd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Pan gânt eu cynnwys yn y drwydded neu'r dystysgrif fel amod, maent yn orfodadwy o dan y gyfraith ac fe allai torri amod o'r fath arwain at erlyniad.

**Peiriannau galw Radio/Testun**

Fe all peiriannau galw radio a thestun sy’n cysylltu deiliaid trwydded eiddo, goruchwylwyr eiddo dynodedig, rheolwyr eiddo a chlybiau gyda’r heddlu lleol ddarparu ymateb buan gan yr heddlu i sefyllfaoedd lle ceir anhrefn a allai beryglu cwsmeriaid a staff y eiddo.

Mae peiriannau galw o’r fath yn darparu cyfathrebu dwy ffordd, gan alluogi deiliaid trwydded, rheolwyr, goruchwylwyr eiddo dynodedig a chlybiau i adrodd am ddigwyddiadau werth yr heddlu, a galluogi’r heddlu i rybuddio’r rhai sy’n gweithredu nifer fawr o eiddo tebyg o unigolion a allai achosi trafferth posib neu rai a amheuir o ymddygiad troseddol sydd mewn ardal benodol. Gellir defnyddio systemau peirannau galw hefyd gan ddeiliaid trwydded, goruchwylwyr drysau, rheolwyr, goruchwylwyr eiddo dynodedig a chlybiau i rybuddio ei gilydd o bresenoldeb pobl o’r fath mewn ardal.

Mae’r Ysgrifennydd Gwladol yn argymell y dylid ystyried peiriannau galw radio neu destun fel amodau angenrheidiol priodol ar gyfer tafarndai, bariau a chlybiau nos sy’n gweithredu mewn ardaloedd hamdden canol trefi a dinasoedd sydd â dwysedd uchel o eiddo trwyddedig. Yn dilyn ystyriaeth unigol o amgylchiadau arbennig y lleoliad, mae’n bosib y gallai amodau o’r fath fod yn berthnasol ac angenrheidiol hefyd mewn ardaloedd eraill er mwyn atal trosedd ac anhrefn.

Argymhellir y dylai amod sy’n ei gwneud yn ofynnol i gael cysylltiadau peiriannau galw radio neu destun gyda’r heddlu gynnwys yr elfennau canlynol:

- gofyniad bod yr offer peiriannau galw radio/testun yn cael eu cadw mewn cyflwr gweithredol ar bob adeg;
- gofyniad bod y cyswllt peiriant galw yn cael ei roi ymlaen, ar gael ac yn cael ei fonitro gan y goruchwyliwr eiddo dynodedig neu aelod cyfrifol o’r staff ar bob adeg y mae’r eiddo’n agored i’r cyhoedd;
- gofyniad y dylid cydymffurfio gydag unrhyw gyfarwyddiadau/gorchmynion a roddir gan yr heddlu; a
- gofyniad bod pob achos o drosedd neu anhrefn yn cael ei gofnodi gan y goruchwyliwr eiddo dynodedig neu aelod cyfrifol o’r staff i bwynt cyswllt gyda’r a gytunwyd gyda’r heddlu trwy gyfrwng y cyswllt peiriant galw radio/testun.

**Goruchwylwyr drysau**

Fe all amodau’n ymwneud â darparu goruchwylwyr drysau a thimau diogelwch fod yn werthfawr wrth:

- atal mynediad a sicrhau bod y meddw a’r afreolus yn ymadael â’r eiddo, heb achosi rhagor o anhrefn;
- cadw unigolyn a waharddwyd o’r eiddo (sy’n destun gwaharddiadau llys neu waharddiadau a roddwyd gan ddeiliaid trwydded);
- chwilio a gwahardd rhai yr amheuir o gario cyffuriau anghyfreithlon, neu arfau peryglus; a
- sicrhau ciwio trefnus y tu allan i leoliadau lle mae ciwiau o’r fath yn debygol.

Lle bwriedir gosod amod ynghylch goruchwylwyr drysau’n cynnal gweithgareddau diogelwch, sy’n golygu y byddai angen iddynt gofrestru gydag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch, efallai bydd angen hefyd i amodau ymdrin â nifer goruchwylwyr o’r fath, arddangos bathodynnau enw, cario prawf eu bod wedi cofrestru, lle ac ar ba adegau y dylid eu lleoli yn y eiddo, ac a ddylai fod o leiaf un goruchwyliwr sy’n fenyw fod ar gael (er enghraifft, os bwriedir cynnal chwiliad corfforol o gwsmeriaid sy’n ferched). Mae gan oruchwylwyr drysau rôl i’w chwarae hefyd wrth sicrhau diogelwch y cyhoedd (gweler Atodiad C 2).

**Gwahardd poteli**

Gellir defnyddio poteli gwydr fel arfau sy'n achosi niwed mwy difrifol mewn achosion o anhrefn. Fe all amod atal gwerthu diodydd mewn poteli gwydr i'w hyfed yn y eiddo.

Argymhellir y dylid mynegi amod yn ei gwneud yn ofynnol i beidio gwerthu diodydd mewn poteli gwydr mewn termau clir gan gynnwys yr elfennau isod:

- ni roddir unrhyw boteli sy'n cynnwys diodydd o unrhyw fath, boed agored neu gaeedig, i gwsmeriaid yn y eiddo boed wrth y bar neu gan wasanaeth staff o'r bar;
- ni chaniateir mynediad i unrhyw gwsmeriaid sy'n cario poteli agored neu wedi eu selio i'r eiddo ar unrhyw adeg y mae'r eiddo'n agored i'r cyhoedd (noder: mae angen geirio hyn yn ofalus lle caniateir gwerthu diod i yfed oddi ar y safle hefyd);

Mewn amgylchiadau addas, fe allai'r amod gynnwys rhai eithriadau, megis er enghraifft:

- ond gellir caniatáu gwerthu poteli sy'n cynnwys gwin i'w hyfed gyda phryd bwyd gan gwsmeriaid sy'n eistedd mewn man a neilltuwyd o brif ardal y bar ar gyfer bwyta.

**Cynhwysyddion plastig a gwydr wedi'i gryfhau**

Gellir defnyddio gwydrau sy'n cynnwys diodydd fel arfau yn ystod digwyddiadau o anhrefn ac ar ffurf heb ei gryfhau, gallant achosi anafiadau difrifol iawn. Felly, lle bernir bod hynny'n angenrheidiol, gellid rhoi ystyriaeth i amodau sy'n gofyn am ddefnyddio naill ai cynhwysyddion plastig neu wydrau wedi'u cryfhau sy'n achosi niwed llai difrifol. Byddai lleoliad a natur y man a'r gweithgareddau a gynhelir yno yn arbennig o bwysig wrth asesu a fyddai angen amod o'r fath. Er enghraifft, byddai defnyddio cynhwysyddion gwydr ar derasau rhai meysydd chwaraeon awyr agored o bryder amlwg, ac efallai y byddai pryderon tebyg yn berthnasol mewn digwyddiadau chwaraeon dan do megis gornestau bocsio. Yn yr un modd, efallai bydd amod ar ddefnyddio cynhwysyddion plastig neu wydr wedi'i gryfhau yn angenrheidiol yn ystod darllediadau byw o ddigwyddiadau chwaraeon, megis gemau pêl-droed rhyngwladol, lle gelid cael achosion o emosiynau a chynnwrf mawr wedi'i chwyddo gan alcohol.

Dylid nodi y gellid defnyddio cynhwysyddion diodydd plastig neu wydr wedi'i gryfhau fod yn berthnasol hefyd fel mesurau angenrheidiol i hyrwyddo diogelwch y cyhoedd (gweler Atodiad C 2).

**Camerâu cylch caeedig (CCTV)**

Fe all presenoldeb camerâu cylch caeedig (CCTV) fod yn fodd pwysig o atal a chanfod troseddu mewn a thu allan i eiddo trwyddedig. Dylai amodau ystyried nid yn unig gofyniad di gale teledu cylch caeedig yn y eiddo, ond hefyd union leoliad pob camera, y gofyniad i gynnal a chadw camerâu , a chadw recordiadau am gyfnod priodol o amser.

Dylai'r heddlu ddarparu cyngor i unigolion sy'n cynnal asesiadau risg wrth baratoi atodlen gweithredu ar y defnydd o deledu cylch caeedig i atal troseddu.

**Cynhwysyddion agored na ddylid eu cymryd o'r eiddo**

Gellir mynd â diodydd a brynir mewn eiddo neu gwbl trwyddedig o'r eiddo honno i'w hyfed mewn man arall. Lle trwyddedir eiddo i werthu alcohol i'w yfed oddi ar y eiddo byddai hynny'n gwbl gyfreithlon. Fodd bynnag, dylid rhoi ystyriaeth i amod sy'n atal mynd â diodydd alcohol a diodydd eraill o'r eiddo mewn cynhwysyddion agored (e.e. gwydrau a photeli wedi'u hagor). Unwaith eto efallai bydd angen gosod amod o'r fath er mwyn atal

defnydd o’r cynhwysyddion hyn fel arfau peryglus mewn strydoedd cyfagos ar ôl i’r unigolion adael y eiddo.

**Cyfyngiadau ar ardaloedd yfed**

Efallai bydd angen cyfyngu’r ardaloedd lle gellir yfed diodydd alcohol yn y eiddo ar ôl iddynt gael eu prynu wrth y bar. Enghraifft o hyn fyddai mewn maes chwaraeon lle mae’r heddlu o’r farn bod angen atal yfed alcohol ar derasau meysydd chwaraeon yn ystod digwyddiadau chwaraeon penodol. Dylai amodau o’r fath bennu nid yn unig y meysydd hyn, ond dylent hefyd nodi’r amgylchiadau y byddai’r gwaharddiad mewn grym a’r adegau y dylid ei gweithredu.

**Cyfyngiadau cynhwysedd**

Er mai fel amod ynghylch diogelwch y cyhoedd y gwneir hynny amlaf, dylid hefyd roi ystyriaeth i amodau sy’n gosod cyfyngiadau ar gynhwysedd eiddo neu glybiau trwyddedig lle bydd angen atal gorlenwi’r eiddo a allai arwain at anhrefn a thrais. Lle bernir bod amod o’r fath yn angenrheidiol, dylid rhoi ystyriaeth hefyd i’r angen am oruchwylwyr drysau er mwyn sicrhau bod niferoedd yn cael eu rheoli’n briodol.

**Cardiau adnabod fel prawf oedran**

Mae’n anghyfreithlon i blant o dan 18 oed geisio prynu alcohol ac mae yr un mor anghyfreithlon gwerthu neu gyflenwi alcohol iddynt hyw. Er mwyn atal troseddau o’r fath, efallai bydd angen gweithredu polisi mewn rhai eiddo trwyddedig sy’n ei gwneud yn ofynnol cynhyrchu “prawf oedran” cyn caniatáu gwerthiant o’r fath. Ni ddylid cyfyngu hyn yn unig i gardiau “prawf oedran” cydnabyddedig, ond dylid hefyd caniatáu cynhyrchu mathau eraill o brawf , megis trwyddedau gyrru â lluniau, cardiau myfyrwyr a phasport. Mae’r Ysgrifennydd Gwladol yn cefnogi’r system achredu PASS yn gryf (gweler paragraff 12.8 yr Arweiniad) sy’n ceisio cymeradwyo ac achredu amryw o gynlluniau prawf oedran sydd eisoes ar gael. Mae hyn yn sicrhau bod cynlluniau o’r fath yn cynnal safonau uchel, yn enwedig ym maes integriti a diogelwch, a lle bo hynny’n briodol ac angenrheidiol, fe all amodau gyfeirio’n benodol at gardiau prawf oedran, trwyddedau gyrru â lluniau, cardiau myfyrwyr a phasport a achredwyd gan PASS.

Dylid nodi hefyd nad yw llawer o oedolion yng Nghymru a Lloegr yn cario unrhyw brawf oedran ar hyn o bryd. Golyga hyn y bydd angen meddwl yn ofalus am eiriad unrhyw amod. Er enghraifft, efallai bydd y gofyniad yn gofyn am sicrhau gweld tystiolaeth o oedran unrhyw unigolyn sy’n ymddangos yn iau na 18 oed i’r rhai sy’n gwerthu neu gyflenwi alcohol ac sy’n ceisio prynu alcohol. Byddai hyn yn sicrhau y byddai angen i’r rhan fwyaf o unigolion dan oed - hyd yn oed y rhai sy’n edrych yn hyˆn gyflwyno
prawf addas o’u hoedran cyn gwneud pryniad o’r fath. O dan drefn o’r fath lleiafrif yn unig o oedolion a fyddai’n cael eu heffeithio, ond ni fyddai’r mwyafrif yn gweld unrhyw darfu ar eu gweithgaredd arferol, er enghraifft, wrth siopa mewn archfarchnad.

**Rhybuddion atal troseddu**

Efallai bydd gofyn arddangos rhybuddion mewn rhai eiddo sy’n rhybuddio cwsmeriaid i fod ar eu gwyliadwriaeth rhag achosion o droseddu penodol. Efallai bydd rhai eiddo yn amharod i wirfoddoli arddangos rhybuddion o’r fath am resymau masnachol. Er enghraifft, mewn rhai ardaloedd, fe allai amod sy’n gysylltiedig â thrwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb ei gwneud yn ofynnol arddangos rhybuddion yn y eiddo sy’n rhybuddio cwsmeriaid o’r angen i fod yn ymwybodol o bigwyr pocedi neu gipwyr bagiau, ac i ofalu am eu heiddo. Yn yr un modd, efallai bydd angen arddangos rhybuddion sy’n cynghori cwsmeriaid i beidio gadael eu bagiau unattended oherwydd pryderon derfysgaeth. Gellid ystyried amod sy’n ei gwneud yn ofynnol arddangos rhybudd gydag enw cyswllt ar gyfer cwsmeriaid os ydynt am adrodd ynghylch unrhyw bryderon.

**Hyrwyddo diodydd**

Ni ddylid gosod amodau safonedig i drwyddedau eiddo neu dystysgrifau eiddo clwb sy'n hyrwyddo prisiau sefydlog am ddiodydd alcohol. Mae hefyd yn debygol o fod yn anghyfreithlon i awdurdodau trwyddedu neu swyddogion heddlu i hyrwyddo trefniadau gwirfoddol o'r math yma. Fe all hyn arwain at greu cartelau. Mae'n bosib y gallai defnyddio amodau i reoli prisiau diodydd alcohol mewn ardal hefyd fod yn groes i ddeddf cystadleuaeth. Efallai y gellid caniatáu amodau a deilwriwyd i amgylchiadau unigol eiddo benodol sy'n ymdrin ag ymgyrchoedd hyrwyddo diodydd anghyfrifol ar yr amod eu bod yn angenrheidiol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, ond fe ddylai awdurdodau trwyddedu gael cyngor cyfreithiol eu hunain cyn caniatáu trwydded neu dystysgrif o'r math yma. Efallai bydd barn yn oddrychol, ac ar adegau bydd yno linell denau iawn rhwng ymgyrchoedd hyrwyddo cyfrifol ac anghyfrifol ond bydd hyd yn oed mwy o wahaniaeth rhwng a oes modd i'r ymgyrch hyrwyddo dan sylw fod yn destun gosod amod o'r fath. Mae felly'n hanfodol bod materion o'r fath yn cael eu hystyried yng nghyd-destun amcanion trwyddedu a chyda chyngor cyfreithiol addas.

Ar ben hyn, wrth ystyried unrhyw gyflwyniadau perthnasol sy'n dangos cyswllt achosol clir rhwng ymgyrchoedd gwerthiant neu ostyngiadau prisiau a lefelau trosedd ac anhrefn ar neu yng nghyffiniau'r eiddo, byddai'n briodol i'r awdurdod trwyddedu ystyried bod angen gosod amod newydd yn gwahardd gwerthu neu ostwng prisiau diodydd alcohol mewn ffordd anghyfrifol yn y eiddo honno. Er hynny, cyn dilyn unrhyw fath o gyfyngiadau o gwbl, dylai awdurdodau trwyddedu gael eu cyngor cyfreithiol eu hunain.

**Arwyddion**

Efallai bydd angen arddangos yr oriau arferol o dan delerau trwydded y eiddo neu dystysgrif eiddo clwb lle caniateir gweithgareddau y gellir eu trwyddedu ar neu yn union y tu allan i'r eiddo fel ei bod yn glir os torrir telerau'r drwydded neu'r dystysgrif.

Yn yr un modd, efallai bydd angen arddangos unrhyw gyfyngiadau ar ganiatáu mynediad i blant ar y eiddo neu yn union y tu allan i'r eiddo fel bod canlyniadau torri'r amodau hynny hefyd yn eglur ac er mwyn atal rhai a allai geisio mynediad yn groes i'r amodau hynny.

**Lleoliadau sy'n dal llawer o bobl a ddefnyddir yn unig neu'n bennaf ar gyfer yfed alcohol ar eich traed (HVVDs)**

Mae eiddo sy'n dal llawer o bobl ar gyfer "yfed ar eich traed", sydd weithiau'n cael eu galw'n sefydliadau Yfed Fertigol Cyfaint Uchel, yn eiddo sy'n gallu dal nifer sylweddol iawn o bobl, ac fe'u defnyddir yn bennaf neu yn unig ar gyfer gwerthu ac yfed alcohol, ac nid oes ganddynt fawr ddim o fannau eistedd i gwsmeriaid neu ddim mannau eistedd o gwbl.

Lle mae hynny'n angenrheidiol ac addas, gellir gosod amodau ar drwydded eiddo ar gyfer hyrwyddo atal trosedd ac anhrefn mewn eiddo do'r fath (os nad yw gweithredydd y lleoliad yn gwirfoddoli gwneud hynny ac yn dilyn cyflwyniadau ar sail o'r fath) sy'n gofyn am lynu wrth y canlynol:

- cynhwysiant penodedig;
- cymhareb addas o fyrddau a chadeiriau i gwsmeriaid ar sail y cynhwysiant; a
- phresenoldeb timau diogelwch a gofrestrwyd gyda'r SIA i reoli mynediad ar gyfer dibenion cydymffurfio gyda'r cyfyngiad ar gynhwysiant.

## Atodiad C 2

**Amodau'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd (gan gynnwys diogelwch tân)**

**Dylid nodi mai'r amodau sy'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd ddylai fod y rhai angenrheidiol, yn amgylchiadau arbennig unrhyw eiddo unigol neu eiddo clwb, ac ni ddylent ailadrodd gofynion cyfreithiol eraill. I'r un graddau, ni fydd gosod amodau ar drwydded eiddo drwyddedig neu dystysgrif eiddo clwb yn rhyddhau cyflogwyr mewn unrhyw fodd rhag y ddyletswydd i gydymffurfio gyda gofynion deddfwriaeth arall gan gynnwys Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 ayb, rheoliadau cysylltiedig ac yn arbennig y gofynion o dan Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 a'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tan) 2005  i gynnal asesiadau risg. Dylai cyflogwyr asesu'r risgiau, gan gynnwys risgiau tân, a chymryd camau angenrheidiol i osgoi a rheoli'r risgiau hyn. Felly ni fyddai angen amodau'n gorfodi'r gofynion hynny.**

**Cyffredinol**

Pan fo ymgeiswyr am drwyddedau eiddo drwyddedig neu dystysgrifau eiddo clwb yn paratoi eu hatodlen weithredu neu atodlenni gweithredu clwb, bydd awdurdodau cyfrifol yn ystyried ceisiadau o'r fath ac awdurdodau trwyddedu yn ystyried ceisiadau ar ôl derbyn sylwadau perthnasol gan awdurdod cyfrifol neu rywun â diddordeb, dylai'r opsiynau a ganlyn gael eu hystyried fel camau a fyddai'n hyrwyddo diogelwch y cyhoedd, os bydd angen. Rhoddir ystyriaeth i faterion ychwanegol yn ymwneud â sinemâu a theatrau yn Atodiad C 3. Dylid cydnabod hefyd y gall materion arbennig godi mewn cysylltiad â digwyddiadau awyr agored neu ar raddfa fawr.

Bydd a fydd unrhyw asesiad risg yn dangos neu beidio os oes angen unrhyw rai o'r mesurau yn amgylchiadau unigol unrhyw eiddo yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys y math o leoliad a'i steil, y gweithgareddau a gynhelir yno, lleoliad y eiddo a chwsmeriaid disgwyliedig y busnes dan sylw.

Bydd yr amodau angenrheidiol ar gyfer y drwydded neu'r dystysgrif yn dibynnu ar wybodaeth leol am y eiddo hefyd.

Yn ogystal ag ystyried y pwyntiau a wneir yn yr Atodiad hwn, dylai'r rhai hynny sy'n paratoi atodlenni gweithredu neu atodlenni gweithredu clwb, awdurdodau trwyddedu ac awdurdodau cyfrifol ystyried:

- Model National and Standard Conditions for Places of Public Entertainment and Associated Gudiance ISBN 1 904031 11 0 (Entertainment Technology Press – ABTT Publications)
- The Event Safety Guide – A guide to health, safety and welfare at music and similar events (Cyngor Iechyd a Diogelwch 1999) ("Y Llyfr Porffor") ISBN 0 7176 2453 6
- Managing Crowds Safely (Cyngor Iechyd a Diogelwch 2000) ISBN 0 7176 1834 X
- 5 Steps to Risk Assessment: Case Studies (Cyngor Iechyd a Diogelwch 1998) ISBN 07176 15804
- The Guide to Safety at Sports Grounds (Llyfrfa Ei Mawrhydi, 1997) ("Yr Arweiniad Gwyrdd") ISBN 0 11 300095 2
- Safety Guidance for Street Arts, Carnival, Processions and Large Scale Performances a gyhoeddwyd gan yr Independent Street Arts Network, y gellir cael copïau ohono drwy: **www.streetartnetwork.org.uk/pages/publications.htm**
- "Technical Standards for Places of Public Entertainment" Cymdeithas Syrfewyr Rhanbarth Llundain ISBN 0 9531229 2 1

Dylid ystyried y Safonau Prydeinig a ganlyn hefyd:

- BS 5839 (canfod tân, systemau larwm tân ac adeiladau)

- BS 5266 (systemau goleuo argyfwng)

Ond wrth ymgynghori gyda'r testunau hyn, a baratowyd cyn i Ddeddf Trwyddedu 2003 ddod i rym, dylai'r rhai hynny sy'n creu atodlenni gweithredu neu atodlenni gweithredu clwb, awdurdodau trwyddedu ac awdurdodau cyfrifol nodi eto na ddylid ystyried o dan unrhyw amgylchiadau fod unrhyw amodau'n safonol i bob eiddo.

Mae unrhyw unigolyn sy'n paratoi atodlen weithredu neu atodlen gweithredu clwb yn rhydd i gynnig unrhyw fesurau, fel y rhai a ddisgrifir isod, fel y cam y bwriada ef neu hi eu cymryd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Pan ymgorfforir hwy fel amod mewn trwydded neu dystysgrif, deuant yn orfodadwy o dan y gyfraith a gallai torri amod o'r fath arwain at erlyniad.

**Pobl Anabl**

Mewn rhai eiddo lle nad yw deddfwriaeth gyfredol yn darparu'n ddigonol ar gyfer diogelwch y cyhoedd, gellid hefyd ystyried amodau i sicrhau:

- pan fo pobl anabl yn bresennol, fod trefniadau digonol i'w cael i'w symud oddi yno'n ddiogel pe bai argyfwng; ac
- bod pobl anabl yn y eiddo'n cael gwybod am y trefniadau hyn.

**Llwybrau dianc**

Efallai y bydd angen cynnwys amodau'n ymwneud â chynnal a chadw pob llwybr dianc ac allanfa gan gynnwys allanfeydd allanol. Gellid mynegi'r rhain trwy gyfeirio at yr angen i sicrhau nad oes unrhyw rwystr yn ffordd allanfeydd o'r fath, eu bod mewn cyflwr da gydag arwynebau gwastad, heb fod yn llithrig, heb unrhyw beryglon y gellid baglu drostynt ac wedi eu marcio'n eglur. Mewn tai bwyta a eiddo eraill lle darperir cadeiriau a byrddau gallai hyn gynnwys sicrhau hefyd fod pob tramwyfa'n cael ei chadw'n ddirwystr.

Mewn rhai eiddo lle nad yw'r ddeddfwriaeth gyfredol yn darparu'n ddigonol ar gyfer diogelwch y cyhoedd, gellid hefyd ystyried amodau sy'n sicrhau:

- fod pob drws allanfa yn hawdd ei agor heb ddefnyddio allwedd, cerdyn, cod neu ddull cyffelyb;
- yr edrychir dros ddrysau allanfeydd o'r fath yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithio'n foddhaol, gan gadw cofnod i nodi hynny;
- fod unrhyw folltiau diogelwch sy'n dod i ffwrdd yn cael eu tynnu pryd bynnag y bo'r eiddo'n agored i'r cyhoedd neu pan fo'r staff yno;
- fod pob drws tân yn cael eu cynnal i gau ohonynt eu hunain yn effeithiol ac na fyddo dim heblaw y dyfeisiadau cymeradwy'n cael eu dal yn agored (er enghraifft, rhyddhawyr electromagnetig a weithredir gan ganfyddwyr mwg);
- fod drysau atal tân i ddwythellau, siafftau gwasanaeth a chypyrddau yn cael eu cau a'u cloi; a
- bod ymylon stepiau a grisiau yn cael eu cynnal fel eu bod yn hawdd eu gweld.

**Gwiriadau diogelwch**

Mewn rhai eiddo lle nad yw deddfwriaeth gyfredol yn darparu'n ddigonol ar gyfer diogelwch y cyhoedd neu aelodau neu westeion clwb, gellid hefyd ystyried amodau sy'n sicrhau:

- fod gwiriadau diogelwch yn cael eu cynnal cyn i'r cyhoedd fynd i mewn; a
- fod manylion gwiriadau o'r fath yn cael eu cadw mewn Llyfr log.

**Llenni, addurniadau a chlustogwaith**

Mewn rhai eiddo lle nad yw deddfwriaeth gyfredol yn darparu'n ddigonol ar gyfer diogelwch y cyhoedd neu aelodau neu westeion clwb, gellid hefyd ystyried amodau sy'n sicrhau:

- fod llenni ac addurniadau dros dro yn cael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr gwrth-fflam;
- fod unrhyw gyfarpar eistedd gyda chlustogwaith bob amser yn bodloni'r meini prawf ar gyfer ffynhonnell tanio trwy fudlosgi 0, ffynhonnell tanio trwy fflamio 1 ffynhonnell tanio deunydd crib pan gaiff ei brofi'n unol ag adran 5 o Safon Brydeinig: 5852:1990;
- fod llenni ac addurniadau dros dro'n cael eu gosod fel nad ydynt yn rhwystro allanfeydd, arwyddion diogelwch tân, neu gyfarpar ymladd tân; ac
- na ddefnyddir addurniadau dros dro heb hysbysu'r awdurdod trwyddedu/awdurdod tân ymlaen llaw.

**Cyfyngiadau llety**

Mewn rhai eiddo lle nad yw deddfwriaeth gyfredol yn darparu'n ddigonol ar gyfer diogelwch y cyhoedd neu aelodau neu westeion clwb, gellid hefyd ystyried amodau sy'n sicrhau:

- y gwneir trefniadau i ofalu nad eir dros unrhyw gyfyngiad ar nifer a orfodir o dan y drwydded eiddo neu'r dystysgrif eiddo clwb; ac
- y dylai deiliad y drwydded, un o swyddogion y clwb, neu'r rheolwr neu oruchwyliwr dynodedig eiddo fod yn ymwybodol faint o bobl sydd yn y eiddo, a'i bod yn ofynnol iddo hysbysu unrhyw unigolyn ag awdurdod ar gais.

**Hysbysiadau gweithredu yn achos tân**

Mewn rhai eiddo lle nad yw deddfwriaeth gyfredol yn darparu'n ddigonol ar gyfer diogelwch y cyhoedd neu aelodau neu westeion clwb, gellid hefyd ystyried amodau sy'n sicrhau:

- fod hysbysiadau'n rhoi manylion pa gamau i'w cymryd yn achos tân neu argyfyngau eraill, gan gynnwys sut y dylid galw'r frigâd dân, yn cael eu harddangos yn amlwg a'u diogelu rhag difrod a dirywiad

**Tân yn cychwyn**

Mewn rhai eiddo lle nad yw deddfwriaeth gyfredol yn darparu'n ddigonol ar gyfer diogelwch y cyhoedd neu aelodau neu westeion clwb, gellid hefyd ystyried amodau sy'n sicrhau:

- fod yn rhaid galw'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn syth pan fo unrhyw dân, pa mor fychan bynnag yn cychwyn, gan nodi'r manylion yn y Llyfr log Tân.

**Colli dwr**

Mewn rhai eiddo lle nad yw deddfwriaeth gyfredol yn darparu'n ddigonol ar gyfer diogelwch y cyhoedd neu aelodau neu westeion clwb, gellid hefyd ystyried amodau sy'n sicrhau:

- fod y Ganolfan Tân Leol yn cael ei hysbysu cyn gynted â phosibl os bydd y cyflenwad dwˆ r i unrhyw hydrant, cenglwr, ysgeintiwr, drensiwr neu ddyfais diffodd tân arall yn cael ei gau i ffwrdd neu ei gyfyngu.

**Mynediad i gerbydau argyfwng**

Mewn rhai eiddo lle nad yw deddfwriaeth gyfredol yn darparu'n ddigonol ar gyfer diogelwch y cyhoedd neu aelodau neu westeion clwb, gellid hefyd ystyried amodau sy'n sicrhau:

- y cedwir mynediad yn glir ac yn ddirwystr i gerbydau argyfwng.

**Cymorth Cyntaf**

Mewn rhai eiddo lle nad yw deddfwriaeth gyfredol yn darparu'n ddigonol ar gyfer diogelwch y cyhoedd neu aelodau neu westeion clwb, gellid hefyd ystyried amodau sy'n sicrhau:

- fod cyflenwad digonol ac addas o offer a deunyddiau cymorth cyntaf ar gael yn y eiddo;
- os bo angen, bydd o leiaf un cynorthwywr cymorth cyntaf sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar gael pan fo'r cyhoedd yn bresennol, ac os bo mwy nag un cynorthwywr cymorth cyntaf sydd wedi cael hyfforddiant priodol, fod eu priod ddyletswyddau wedi eu nodi'n glir.

**Goleuo**

Mewn rhai eiddo lle nad yw deddfwriaeth gyfredol yn darparu'n ddigonol ar gyfer diogelwch y cyhoedd neu aelodau neu westeion clwb, gellid hefyd ystyried amodau sy'n sicrhau:

- lle nad oes golau dydd digonol, bod y goleuo mewn unrhyw fan sy'n hygyrch i'r cyhoedd, aelodau neu westeion yn gweithio'n llawn pan fyddant yn bresennol;
- fod arwyddion diogelwch tân wedi eu goleuo'n ddigonol;
- nad yw goleuo argyfwng yn cael ei newid;
- fod batris goleuo argyfwng wedi eu gwefru'n llawn cyn fod y cyhoedd, aelodau neu westeion yn dod i mewn; ac
- os digwydd i'r goleuadau arferol fethu, lle bo'r batri goleuo argyfwng yn para un awr, fod trefniadau mewn llaw i ofalu fod y cyhoedd, aelodau neu westeion yn gadael y eiddo o fewn 20 munud oni bai fod y golau arferol wedi dod yn ôl o fewn yr amser hwnnw a'r batri'n cael ei ail-wefru; ac, os yw'r batri goleuo argyfwng yn para tair awr, y cyfnod priodol y dylai'r cyhoedd fod wedi gadael y eiddo cyn iddo ddod i ben yw un awr.

**Gosodiadau trydan dros dro**

Mewn rhai eiddo lle nad yw deddfwriaeth gyfredol yn darparu'n ddigonol ar gyfer diogelwch y cyhoedd neu aelodau neu westeion clwb, gellid hefyd ystyried amodau sy'n sicrhau:

- na ddarperir systemau gwifro a dosbarthu trydan heb [hysbysu'r awdurdod trwyddedu o leiaf ddeng niwrnod cyn dechrau'r gwaith] [archwiliad ymlaen llaw gan drydanwr priodol, cymwysedig],
- fod systemau gwifro a dosbarthu trydan dros dro yn cydymffurfio gydag argymhellion Safon Brydeinig 7671 neu Safon Brydeinig 7909 lle bo'n berthnasol; a
- bod systemau gwifro a dosbarthu trydan dros dro yn cael eu harchwilio a'u hardystio gan berson cymwys cyn eu bod yn cael eu defnyddio, os nad ydynt wedi eu gosod gan berson cymwys.

Gyda golwg ar y pwynt bwled cyntaf uchod, dylid cydnabod efallai na fydd deg diwrnod o rybudd yn bosibl lle bo timau technegol allanol yn cefnogi perfformiadau. Er enghraifft, lle gwneir gosodiadau trydan dros dro mewn theatrau ar gyfer perfformiadau sioe deledu. Mewn amgylchiadau felly, y prif ofyniad yw y dylai'r amodau sicrhau, lle bo angen, mai unigolion cymwys, cymwysedig yn unig, a gyflogir gan y cwmni teledu, er enghraifft, sy'n ymgymryd â gosodiadau trydan dros dro.

**Adloniant chwaraeon dan do**

Mewn rhai eiddo lle nad yw deddfwriaeth gyfredol yn darparu'n ddigonol ar gyfer diogelwch y cyhoedd neu aelodau neu westeion clwb, gellid hefyd ystyried amodau sy'n sicrhau:

- os bo angen, fod meddyg sydd wedi cymhwyso'n briodol yn bresennol drwy gydol adloniant chwaraeon sy'n cynnwys, bocsio, ymaflyd codwm, jiwdo, karate neu adloniant chwaraeon tebyg o natur gyffelyb;
- lle bo cylch y rhan o'r chwarae, ei fod wedi ei adeiladu a'i gynnal gan berson cymwys a'i archwilio gan awdurdod cymwys, a bod unrhyw ddefnydd a ddefnyddir i lunio'r sgert o gwmpas y cylch yn wrth-fflam;
- nad yw aelodau'r cyhoedd yn eistedd mewn unrhyw sedd o fewn 2.5 metr i'r cylch yn ystod unrhyw ymaflyd codwm neu adloniant o natur gyffelyb; ac
- mewn adloniant chwaraeon dwˆ r, fod staff sydd wedi eu hyfforddi'n ddigonol mewn gweithdrefnau achub a diogelu bywyd wedi eu lleoli ac yn aros yn agos at y dwˆ r ar bob adeg o bwys ( gweler hefyd Managing Health and Safety in Swimming Pools a gyhoeddwyd ar y cyd gan y Comisiwn Iechyd a Diogelwch a Sport England).

**Newidiadau i'r eiddo**

Ni ddylai eiddo gael ei newid yn y fath fodd fel ei bod yn amhosibl cydymffurfio ag amod trwydded cyfredol heb geisio amrywiad ar y drwydded eiddo yn gyntaf yn cynnig dileu'r amod dan sylw yn ymwneud â diogelwch y cyhoedd. Bydd angen i'r ymgeisydd gynnig mewn atodlen weithredu newydd, sy'n adlewyrchu'r newid arfaethedig i'r safle, sut y mae'n bwriadu cymryd camau gwahanol i hyrwyddo'r amcan diogelwch y cyhoedd. Bydd y cais am amrywiad yn galluogi'r awdurdodau cyfrifol sy'n arbenigo mewn materion diogelwch i ystyried a yw'r cynnig yn dderbyniol.

**Effeithiau arbennig**

Mae'r defnydd o effeithiau arbennig mewn lleoliadau o bob math sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer adloniant wedi ei reoleiddio yn gynyddol gyffredin ac yn gallu peri risgiau sylweddol. Dylid trefnu a storio unrhyw effeithiau arbennig neu osodiad mecanyddol mewn modd sy'n lleihau i'r eithaf unrhyw risg i ddiogelwch y gynulleidfa, y perfformwyr a staff.

Mae'r effeithiau arbennig y dylid eu hystyried yn cynnwys:

- peiriannau iâ sych a niwl cryogenig;
- peiriannau mwg a generaduron mwg;
- pyrodechnegau, gan gynnwys tân gwyllt;
- fflamau go-iawn;
- arfau tân;
- cerbydau modur;
- goleuadau strôb;
- laserau (gweler Arweiniad y Cyngor Iechyd a Diogelwch The Radiation Safety of lasers used for display purposes [HS(G) 95] a Safon Brydeinig EN 60825: Safety of laser products);
- ffrwydron a sylweddau tra hylosg

Mewn rhai amgylchiadau, gall fod yn angenrheidiol mynnu fod yr awdurdod trwyddedu yn cael ei hysbysu ymlaen llaw neu y ceir [archwiliad gan] yr awdurdod tân cyn y caniateir defnyddio rhai effeithiau arbennig.

## Atodiad C 3

**Theatrau, sinemâu, neuaddau cyngerdd a mannau tebyg (hyrwyddo diogelwch y cyhoedd)**

Yn ychwanegol at y pwyntiau a wneir yn Atodiad C 2, mae materion arbennig y dylid eu hystyried yng nghyd-destun diogelwch y cyhoedd a diogelwch tân mewn cysylltiad â theatrau a sinemâu. Erys yr egwyddor bod yn rhaid wrth amodau a dylid eu sefydlu drwy asesu risg gan osgoi amodau wedi eu safoni. Pwyntiau i'w hystyried yw'r rhestr a ganlyn ac nid rhestr orfodol.

**Eiddo a ddefnyddir ar gyfer cynulleidfaoedd sy'n eistedd yn agos at ei gilydd**

**Hebryngwyr**

(a) Dylai nifer yr hebryngwyr mewn awditoriwm lle mae'r seddau'n agos at ei gilydd ddilyn y tabl isod:

| Nifer aelodau'r gnulleidfa sy'n bresennol | Lleiafswm nifer yr hebryngwyr sydd eu hangen ar lawr i fod yn bresennol ar y llawr hwnnw |
|---|---|
| 1 – 100 | Un |
| 101 – 250 | Dau |
| 251 – 500 | Tri |
| 501 – 750 | Pedwar |
| 751 – 1000 | Pump |
| Ac un hebryngwr ar gyfer pob 250 o bobl ychwanegol (neu ran o hynny) | |

(b) Ni chaniateir i hebryngwyr ymwneud ag unrhyw ddyletswyddau a fyddai'n eu rhwystro rhag cyflawni eu dyletswyddau'n ddi-oed os byddai argyfwng neu a fyddai'n golygu eu bod yn absennol o'r llawr hwnnw neu'r awditoriwm lle maent ar ddyletswydd.

(c) Bydd yn hawdd i'r gynulleidfa adnabod unrhyw hebryngwr (ond nid oes rhaid i hyn olygu gwisgo gwisg unffurf).

(d) Ni chaniateir defnyddio'r eiddo ar gyfer cynulleidfa sy'n eistedd yn agos at ei gilydd ond yn unol â'r cynllun(iau) eistedd, y bydd copi ohono ar gael yn y eiddo ac a ddangosir i unrhyw berson ag awdurdod ar gais.

(e) Ni chaniateir dodi unrhyw eitem ar gefn sedd a fyddai'n lleihau lled ddirwystr eisteddfannau neu'n achosi perygl baglu neu rwystr.

(f) Bydd copi o unrhyw dystysgrif yn ymwneud â dyluniad, gosod a llwytho unrhyw seddau dros dro yn cael ei gadw fel ei fod ar gael yn y eiddo ac fe'i dangosir i unrhyw berson ag awdurdod ar gais.

**Sefyll ac eistedd mewn eiliau**

(a) Ni chaniateir eistedd ar loriau ac eithrio lle bo hynny wedi ei ganiatáu yn y drwydded eiddo neu'r dystysgrif eiddo clwb.

(b) Ni chaniateir aros neu sefyll ac eithrio yn y mannau a ddynodir yn y drwydded eiddo neu'r dystysgrif eiddo clwb.

(c) Ni chaniateir i unrhyw un, o dan unrhyw amgylchiadau-
- (i) eistedd yn unrhyw eil
- (ii) sefyll neu eistedd o flaen unrhyw allanfa; neu
- (iii) sefyll neu eistedd ar unrhyw risiau gan gynnwys unrhyw landin.

**Diodydd**

Ac eithrio fel yr awdurdodir gan y drwydded eiddo neu'r dystysgrif eiddo clwb, ni chaniateir i unrhyw ddiodydd gael eu gwerthu i gynulleidfa sy'n eistedd yn agos at ei gilydd, nac iddynt eu hyfed, heblaw eu bod mewn cynwysyddion plastig neu bapur.

**Ffryntiau Balconi**

Ni chaniateir gosod dillad neu eitemau eraill dros reiliau balconi neu ar ffryntiau balconi.

**Effeithiau arbennig**

Dylai unrhyw effeithiau arbennig neu osodiadau mecanyddol gael eu trefnu a'u storio mewn modd sy'n lleihau unrhyw risg i ddiogelwch y gynulleidfa, y perfformwyr a'r staff.

Mae effeithiau arbennig yn cynnwys:

- peiriannau iâ sych a niwl cryogenig;
- peiriannau mwg a generaduron mwg;
- pyrodechnegau, gan gynnwys tân gwyllt;
- fflamau go-iawn;
- arfau tân;
- cerbydau modur;
- goleuadau strôb;
- laserau (gweler Arweiniad y Cyngor Iechyd a Diogelwch The Radiation Safety of lasers used for display purposes [HS(g) 95] a Safon Brydeinig EN 60825: Safety of laser products);
- ffrwydron a sylweddau tra hylosg iawn

Mewn rhai amgylchiadau, gallai fod yn angenrheidiol mynnu fod yr awdurdod trwyddedu yn cael ei hysbysu ymlaen llaw cyn y caniateir defnyddio rhai effeithiau arbennig neu y ceir [archwiliad gan] yr awdurdod tân.

**Golygfeydd**

Dylai unrhyw olygfeydd gael eu cadw mewn cyflwr gwrth-fflam.

**Llenni tân**

Lle darperir llenni tân, dylent gael eu gosod fel eu bod yn diogelu'r gynulleidfa rhag effeithiau tân neu fwg ar y llwyfan am ddigon o amser i allu gwacau'r awditoriwm yn ddiogel.

Lle nad oes llenni tân ar lwyfan gyda bwa prosceniwm, dylai unrhyw lenni a geir rhwng y llwyfan a'r awditoriwm fod yn rhai trymion ac wedi eu gwneud o ddefnydd na fyddai'n mynd ar dân neu o ddefnydd gwrth-fflam sydd wedi ei drin yn briodol i fod felly'n barhaus.

**Nenfydau**

Dylai pob nenfwd yn y rhannau hynny o'r safle y caniateir mynediad i'r cyhoedd iddynt gael eu harchwilio gan unigolyn sydd wedi ei gymhwyso'n briodol a fydd yn penderfynu pryd fyddai angen archwiliad pellach ac yn anfon tystysgrif yn delio â chyflwr y nenfydau ymlaen i'r awdurdod trwyddedu.

**Seddau**

Lle gallai'r gynulleidfa fod dros 250 dylai pob sedd yn yr awditoriwm, heblaw mewn bocsys lle nad oes lle ar gyfer mwy nag 8 o bobl, un ai gael eu gosod yn sownd yn y llawr neu eu hestyllu yn ei gilydd fesul dim llai na phedair neu ddim mwy na deuddeg.

**Eiddo a ddefnyddir ar gyfer dangos ffilmiau**

**Hebryngwyr – eiddo heb system rybuddio staff**

Lle nad oes system rybuddio staff yn y eiddo, dylai nifer yr hebryngwyr sy'n bresennol ddilyn y tabl isod:

| Nifer aelodau'r gynulleidfa | Lleiafswm nifer yr hebryngwyr yn bresennol yn yr eiddo sydd eu hangen ar ddylestwydd |
|---|---|
| 1 – 250 | Dau |
| Ac un hebryngwr ychwanegol ar gyfer pob 250 aelod ychwanegol o'r gynulleidfa sy'n bresennol (neu ran o hynny) | |
| Lle bo mwy na 150 aelodau bydd o leiaf un hebryngwr yn bresennol yn unrhyw gynulleidfa mwen unrhyw awditoriwm neu ar unrhyw lawr | Bydd o leiaf un hebryngwr yn bresennol mewn unrhyw awditoriwm neu ar unrhyw lawr |

**Hebryngwyr – eiddo â system rybuddio staff**

(a) Lle bo system rybuddio staff yn y eiddo, dylai nifer yr hebryngwyr sy'n bresennol ddilyn y tabl isod:

| Nifer aelodau'r gynulleidfa sy'n bresennol yn yr eiddo | Lleiafswm nifer hebryngwyr sydd ar ddyletswydd | Lleiafswm nifer yr hebryngwyr sydd ar gael i helpu mewn argyfwng |
|---|---|---|
| 1 – 500 | Dau | Un |
| 501 – 1000 | Tri | Dau |
| 1001 – 1500 | Pedwar | Pedwar |
| 1501 neu fwy | Pump ac un ar gyfer pob 500 dros 2000 yn yr eiddo | Pump ac un gyfer pob 500 o bobl (neu ran o hynny) dros 200 yn yr eiddo |

(b) Nid ystyrir bod staff ar gael i helpu os bydd argyfwng yn digwydd os ydynt:

(i) yn ddeiliad y drwydded eiddo neu'n rheolwr ar ddyletswydd yn y eiddo; neu
(ii) yn aelod o staff y mae ei (d)dyletswyddau neu gyfrifoldebau arferol yn debygol o effeithio'n fawr neu arafu ei ymateb mewn sefyllfa o argyfwng; neu
(iii) yn aelod o staff y mae ei (l)leoliad arferol pan fo ar ddyletswydd dros 60 metr o'r lleoliad lle bydd angen iddo fynd o'i hysbysu am sefyllfa argyfwng.

(c) Cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol bosibl bydd yr holl hebryngwyr wedi eu dosbarthu'n gyfartal drwy bob rhan o'r eiddo lle bo gan y cyhoedd fynediad ac yn cadw gwyliadwriaeth ar bob rhan o'r eiddo lle bo gan y cyhoedd fynediad.
(d) Cedwir y system rybuddio staff mewn cyflwr gweithredol. Isafswm goleuo Dylid cael cymaint ag sy'n bosib o olau yn yr awditoriwm fel y gellir cyflwyno'r ffilm yn effeithiol; ac fel arfer ystyrid bod lefel y golau a gedwir yn yr awditoriwm tra bo ffilmiau'n cael eu dangos yn foddhaol fel arfer os yw'n cyd-fynd â'r safonau a nodir yn Safon Brydeinig CP 1007 (Golau a Gynhelir ar gyfer Sinemâu). Ffilmiau fflamadwy Ni ddylid caniatáu unrhyw ffilmiau fflamadwy ar y safle heb hysbysu'r awdurdod trwyddedu/awdurdod tân ymlaen llaw.

**Isafswm goleuo**

Dylid cael cymaint ag sy'n bosib o olau yn yr awditoriwm fel y gellir cyflwyno'r ffilm yn effeithiol; ac fel arfer ystyrid bod lefel y golau a gedwir yn yr awditoriwm tra bo ffilmiau'n cael eu dangos yn foddhaol fel arfer os yw'n cyd-fynd â'r safonau a nodir yn Safon Brydeinig CP 1007 (Golau a Gynhelir ar gyfer Sinemâu).

**Ffilmiau fflamadwy**

Ni ddylid caniatáu unrhyw ffilmiau fflamadwy ar y safle heb hysbysu'r awdurdod trwyddedu/awdurdod tân ymlaen llaw.

## Atodiad C 4

**Amodau sy'n ymwneud ag atal niwsans cyhoeddus**

Dylid nodi bod darpariaethau Deddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990 a Deddf Sŵn 1996 yn rhoi peth diogelwch i'r cyhoedd yn gyffredinol rhag effeithiau niwsans sŵn. Yn ychwanegol at hyn, mae'r darpariaethau yn Rhan 8 o Ddeddf Trwyddedu 2003 yn rhoi'r hawl i uwch swyddog heddlu gau yn syth am hyd at 24 awr eiddo drwyddedig a anhedd(au) sy'n cynnal gweithgareddau dros dro a gafodd eu caniatáu sy'n peri niwsans yn sgil sŵn yn dod o'r eiddo. Dylid ystyried y materion hyn cyn penderfynu a oes angen amodau i atal niwsans cyhoeddusai peidio.

**Cyffredinol**

Pan fo ymgeiswyr am drwyddedau eiddo, neu dystysgrifau anhedd clwb yn paratoi eu hatodlenni gweithredu neu atodlenni gweithredu clwb, bydd awdurdodau cyfrifol yn ystyried ceisiadau o'r fath ac awdurdodau trwyddedu yn ystyried ceisiadau ar ôl derbyn sylwadau perthnasol gan awdurdod cyfrifol neu un sydd â diddordeb, dylid ystyried yr opsiynau a ganlyn fel mesurau a fyddai, pe bai angen, yn hyrwyddo atal niwsans cyhoeddus.

Bydd ystod o ffactorau'n penderfynu a fydd unrhyw asesiad risg yn dangos fod eu hangen neu beidio mewn amgylchiadau unigol , gan gynnwys natur a steil y lleoliad, y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yno, lleoliad y eiddo a chwsmeriaid disgwyliedig y busnes dan sylw.

Bydd yr amodau angenrheidiol ar gyfer trwyddedau a thystysgrifau yn dibynnu hefyd ar wybodaeth leol am y eiddo

**Oriau**

Gellir cyfyngu'r oriau pryd y caniateir i'r eiddo fod yn agored i'r cyhoedd neu i aelodau a'u gwesteion (ac eithrio lle byddont wedi eu diogelu gan ddarpariaethau dros dro Deddf Drwyddedu 2003) gan amodau trwydded eiddo neu gan dystysgrif eiddo clwb i atal niwsans cyhoeddus. Ond rhaid cydbwyso hyn â'r effaith bosibl ar anhrefn yn sgil amseroedd cau penodedig annaturiol o gynnar.

Gallai fod angen cyfyngiadau ar yr adegau pan fo rhai gweithgareddau trwyddedadwy yn digwydd er y gall y eiddo fod yn agored i'r cyhoedd ar adegau o'r fath. Er enghraifft, gellid gwahardd chwarae cerddoriaeth sydd wedi ei recordio ar ôl amser penodedig, er y caniateid i weithgareddau eraill trwyddedadwy eraill barhau.

Gallai fod angen cyfyngiadau ar rannau o'r eiddo allai gael eu defnyddio ar gyfer rhai gweithgareddau trwyddedadwy ar rai adegau. Er enghraifft, er y gellid caniatáu darparu adloniant wedi ei reoleiddio tra bod y eiddo yn agored i'r cyhoedd neu aelodau a'u gwesteion, efallai na chaniateid adloniant wedi ei reoleiddio yng ngerddi'r eiddo ar ôl amser penodol.

**Sŵn a dirgrynu**

Mewn rhai eiddo lle nad yw'r ddeddfwriaeth gyfredol yn darparu'n ddigonol ar gyfer atal niwsans cyhoeddus, gellid ystyried amodau sy'n sicrhau:

- nad yw sŵn na dirgrynu'n tarddu o'r eiddo mewn modd sy'n creu niwsans i eiddo cyfagos. Gallai cyflawni hyn trwy ofyniad syml i gadw drysau a ffenestri'r eiddo yn gaead, neu i ddefnyddio cyfyngwr sŵn ar offer chwyddo a ddefnyddir yn y eiddo;
- fod arwyddion amlwg, clir a darllenadwy yn cael eu harddangos ar bob allanfa yn gofyn i'r cyhoedd barchu anghenion trigolion lleol a gadael y eiddo a'r ardal yn dawel;
- y cyfyngir defnyddio ffrwydron, pyrodechnegau a thân gwyllt tebyg i hynny a fyddai'n achosi tarfu yn yr ardal o gwmpas; a
- fod rhoi gwastraff – megis poteli – mewn cynwysyddion tu allan i'r eiddo yn digwydd ar adegau pryd y tarfir cyn lleied â phosibl ar eiddo cyfagos.

**Arogleuon atgas**

Mewn rhai eiddo lle nad yw'r ddeddfwriaeth gyfredol yn darparu'n ddigonol ar gyfer atal niwsans cyhoeddus, gellid ystyried amodau sy'n sicrhau:

- na chaniateir arogleuon atgas o eiddo trwyddedig a fyddai'n creu niwsans i eiddo cyfagos a bod y eiddo'n cael ei awyru'n iawn.

**Llygredd golau**

Mewn rhai eiddo lle nad yw'r ddeddfwriaeth gyfredol yn darparu'n ddigonol ar gyfer atal niwsans cyhoeddus, gellid ystyried amodau sy'n sicrhau:

- nad yw goleuadau sy'n fflachio neu oleuadau arbennig o lachar ar neu'r tu allan i eiddo drwyddedig yn peri niwsans i eiddo cyfagos. Rhaid cydbwyso unrhyw amod o'r fath yn erbyn manteision goleuadau disglair mewn rhai mannau i atal trosedd ac anhrefn.

## Atodiad C 5

**Amodau sy'n ymwneud â diogelu plant rhag niwed**

Dylid nodi ei bod yn anghyfreithlon, o dan Ddeddf 2003, caniatáu i blant o dan 16 oed nad ydynt yng nghwmni oedolyn fod yn bresennol mewn eiddo a ddefnyddir yn unig neu'n bennaf ar gyfer cyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle hwnnw o dan awdurdod trwydded eiddo, tystysgrif eiddo clwb neu hysbysiad digwyddiad dros dro pan fo'n agored at ddibenion ei ddefnyddio i gyflenwi alcohol i'w yfed yno. Yn ychwanegol at hynny, mae'n drosedd caniatáu i blant dan 16 nad ydynt yng nghwmni oedolyn fod yn bresennol rhwng hanner nos a 5am ym mhob eiddo sy'n cyflenwi alcohol i'w yfed yn y eiddo honno o dan awdurdod unrhyw drwydded eiddo, tystysgrif eiddo clwb neu hysbysiad digwyddiad dros dro. Felly nid oes angen amodau sy'n ailadrodd y darpariaethau hyn.

**Mynediad i blant i eiddo drwyddedig – yn gyffredinol**

Dylid gosod cyfyngiadau ar fynediad plant o dan 18 oed i eiddo lle bo gweithgareddau trwyddedadwy yn cael eu cynnal lle bo angen diogelu plant rhag niwed. Mater i awdurdodau trwyddedu unigol fydd yr union bolisi a'r manylion. Mae'r amodau sydd ynghlwm wrth drwyddedau eiddo a thystysgrifau eiddo clwb yn gallu adlewyrchu pryderon awdurdodau cyfrifol a rhai â diddordeb sydd wedi cyflwyno sylwadau ond dim ond lle bo'r awdurdod trwyddedu o'r farn fod angen diogelu plant rhag niwed. Er bod rhaid i awdurdodau trwyddedu farnu ceisiadau mewn cysylltiad â thrwyddedau eiddo a thystysgrifau eiddo clwb ar eu haeddiant a'u nodweddion eu hunain, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn argymell (oni bai fod amgylchiadau'n caniatáu i'r gwrthwyneb):

- fod unrhyw eiddo â chysylltiadau hysbys (ar ôl i dystiolaeth gael ei derbyn) gyda, neu sy'n debygol o beri yfed trwm neu sbri neu dan oed, cyffuriau, gamblo sylweddol, neu unrhyw weithgaredd neu adloniant (pa un a yw'n adloniant wedi ei reoleiddio neu beidio) o natur rywiol amlwg neu ar gyfer oedolion, dylai fod rhagdybiaeth gref yn erbyn caniatáu unrhyw fynediad o gwbl i blant o dan 18 oed. Wrth baratoi atodlenni gweithredu neu atodlenni gweithredu clwb neu amrywiadau ar yr atodlenni hynny at ddibenion cael neu amrywio trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb, dylai ymgeiswyr sy'n dymuno caniatáu mynediad i blant i eiddo lle gallai'r cysylltiadau hyn fod yn berthnasol:

  - egluro eu rhesymau; ac
  - amlinellu'n fanwl y camau y bwriadant eu cymryd i ddiogelu plant rhag niwed mewn eiddo o'r fath.

- ar gyfer unrhyw eiddo, lle na weinir alcohol i'w yfed yn y eiddo, ond lle caniateir i'r cyhoedd ddod i'r eiddo ar ôl 11.00 y nos, dylai fod rhagdybiaeth yn erbyn i blant dan 12 oed fod yn bresennol heb gwmni oedolyn ar ôl yr amser hwnnw. Wrth baratoi atodlenni gweithredu neu amrywiadau ar yr atodlenni hynny neu atodlenni gweithredu clwb at ddibenion cael neu amrywio trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb, dylai ymgeiswyr sy'n dymuno caniatáu mynediad,
  - egluro eu rhesymau; ac
  - amlinellu'n fanwl y camau y bwriadant eu cymryd i ddiogelu plant rhag niwed mewn eiddo o'r fath.

- mewn unrhyw achos arall, yn amodol ar ddisgresiwn deiliad trwydded y safle neu'r clwb, disgwylid mynediad heb ei gyfyngu i blant yn ddarostyngedig i delerau Deddf 2003. Dylai atodlen weithredu neu atodlen gweithredu clwb gyfeirio at unrhyw benderfyniad i eithrio plant o'r eiddo yn gyfan gwbl, a fyddai'n golygu na fyddai angen nodi yn yr atodlen weithredu'r camau y bwriada'r ymgeisydd eu cymryd i hyrwyddo diogelu plant rhag niwed tra byddant yn y eiddo.

**Cyfyngiadau oed – penodol**

O dan Ddeddf 2003 gallai amrywiaeth eang o weithgareddau trwyddedadwy gael eu cynnal mewn gwahanol fathau o eiddo ac ar wahanol adegau o'r dydd a'r nos. Er y gall fod yn briodol caniatáu mynediad heb ei gyfyngu i blant ar adegau penodol a phan nad yw rhai gweithgareddau'n mynd ymlaen, bydd angen i awdurdodau trwyddedu yn dilyn sylwadau perthnasol a wnaed gan awdurdodau cyfrifol a rhai sydd â diddordeb ystyried ystod o amodau a gaiff eu teilwrio ar gyfer y eiddo arbennig a'u gweithgareddau lle bo angen amdanynt. Disgwylir i awdurdodau trwyddedu ystyried:

- oriau'r dydd pryd y dylai cyfyngiadau oed fod yn berthnasol a phryd na ddylent. Er

enghraifft, nid yw'r ffaith y gellid cyflwyno adloniant oedolion mewn eiddo ar ôl 8.00pm olygu y byddai angen gorfodi cyfyngiadau oed ar gyfer rhannau cynharach o'r dydd;

- mathau o ddigwyddiad neu weithgaredd nad oes angen unrhyw gyfyngiad oed ar eu cyfer, er enghraifft:
    - adloniant teulu; neu
    - digwyddiadau dim-alcohol ar gyfer grwpiau oedran iau, fel dawnsfeydd o dan 18 oed,

- Yn yr un modd, mathau o ddigwyddiad neu weithgaredd sy'n peri angen mwy dwys am gyfyngiadau oed nag arfer, er enghraifft;

- yn ystod "Oriau Hapus" neu nosweithiau hyrwyddo diodydd;

- yn ystod gweithgareddau a amlinellir yn y pwynt bwled cyntaf yn y paragraff cyntaf uchod.

**Cyfyngiadau oed – sinemâu**

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn, yn ogystal â'r amod gorfodol a osodir yn rhinwedd adran 20, sy'n mynnu fod mynediad i blant y ffilmiau yn cael ei gyfyngu'n unol ag argymhellion a roddir un ai gan gorff a ddynodir o dan adran 4 o Ddeddf Recordiadau Fideo 1984 neu gan yr awdurdod trwyddedu ei hun, dylai amodau'n cyfyngu mynediad i blant i arddangosfeydd ffilmiau gynnwys:

- amod lle bo'r awdurdod trwyddedu ei hun yn gwneud argymhellion ynglŷn â rhoi mynediad i blant i ffilmiau, fod yn rhaid i'r sinema neu'r sawl sy'n gweithredu'r lleoliad gyflwyno unrhyw ffilm y bwriada ei dangos i'r awdurdod 28 diwrnod cyn y mae'n bwriadu ei dangos. Gwneir hyn er mwyn rhoi amser i'r awdurdod ei dosbarthu fel y gall deiliad y drwydded eiddo lynu wrth unrhyw gyfyngiadau oed a orfodir:

- amod y dylai ffilmiau gael eu dosbarthu fel a ganlyn pan fyddant yn cael eu dosbarthu, un ai gan y corff dosbarthu ffilmiau neu fel y nodir yn y drwydded neu'r awdurdod trwyddedu,:
    - U – Universal. Addas ar gyfer cynulleidfaoedd pedair oed a throsodd
    - PG – Parental Guidance – Gallai rhai golygfeydd fod yn anaddas ar gyfer plant ifanc.
    - 12A – Pasiwyd i unigolion 12 oed neu hyn yn unig ei gwylio neu bersonau iau na 12 oed yng nghwmni oedolyn.
    - 15 - Pasiwyd i unigolion 15 oed a hyn ei gwylio.
    - 18 - Pasiwyd i unigolion 18 oed a hyn yn unig ei gwylio.

- fod amodau'n nodi fod yn rhaid arddangos ar y sgrin am o leiaf bum eiliad, yn union cyn pob dangosiad o ffilm a basiwyd gan Bwrdd Dosbarthiad Ffilmiau Prydain, ac yn y fath fodd fel y gall pawb sydd yn yr awditoriwm ei ddarllen yn hawdd, atgynhyrchiad o dystysgrif y Bwrdd neu, yn achos rhaglen yn hysbysebu ffilm, atgynhyrchiad o'r datganiad a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn nodi dosbarthiad y ffilm;

- amod pan fo awdurdod trwyddedu wedi gwneud argymhelliad ynglŷn â chyfyngu mynediad i blant i ffilm, bod angen arddangos hysbysiadau tu mewn a thu allan i'r

eiddo fel y gellir rhoi ar ddeall yn rhwydd i bobl sy'n dod i mewn beth yw'r dosbarthiad a roddwyd ar unrhyw lun neu raglun:

"Lle bo rhaglen yn cynnwys ffilm y mae'r awdurdod trwyddedu'n argymell ei bod yn dod o fewn categori 12A, 15 neu 18 ni chaniateir mynediad i unrhyw berson sy'n ymddangos o dan 12 oed heb gwmni oedolyn, neu o dan 15 neu 18 fel y bo'n briodol, i unrhyw ran o'r rhaglen; a bydd deiliad y drwydded yn arddangos rhybudd fel a ganlyn mewn man amlwg–

**NI CHANIATEIR MYNEDIAD I BERSONAU O DAN [RHODDER YR OEDRAN PRIODOL I MEWN] OED I UNRHYW RAN O'R RHAGLEN**

Lle bo ffilmiau o wahanol gategorïau'n ffurfio rhan o'r un rhaglen, bydd y rhybudd yn cyfeirio at y cyfyngiad oed hynaf.

Nid yw'r amod hwn yn berthnasol i aelodau staff o dan yr oed perthnasol tra byddant ar ddyletswydd ar yr amod y cafwyd caniatâd ysgrifenedig rhiant neu warcheidwad cyfreithlon y person ymlaen llaw."

**Theatrau**

Ni ddisgwylir cyfyngu mynediad plant i theatrau, fel yn achos eiddo trwyddedig eraill, fel arfer oni bai fod angen hyrwyddo'r amcan trwyddedu o ddiogelu plant rhag niwed. Ond mae theatrau'n gallu bod yn lleoliad ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau. Fel arfer disgwylir mai mater a adewir i ddisgresiwn deiliad y drwydded yw mynediad i blant i berfformiad drama ac ni ddylid gosod unrhyw amod yn cyfyngu mynediad blant i ddramâu. Ond mae theatrau hefyd yn gallu cyflwyno adloniant sy'n cynnwys sioeau amrywiaethol, er enghraifft, sioeau amrywiol yn cynnwys adloniant ar gyfer oedolion. Gall fod yn angenrheidiol cael amod yn cyfyngu mynediad i blant mewn amgylchiadau o'r fath. Gellir cyflwyno adloniant mewn theatrau yn arbennig ar gyfer plant hefyd (gweler isod).

Disgwylir i awdurdodau trwyddedu ystyried hefyd a ddylid gosod amod ar drwydded eiddo sy'n mynnu fod nifer digonol o staff sy'n oedolion yn bresennol ar y safle i sicrhau lles plant sy'n bresennol ar y safle yn ystod argyfwng.

**Perfformiadau yn arbennig ar gyfer plant**

Lle cyflwynir perfformiadau yn arbennig ar gyfer plant heb oedolion yn gwmni iddynt mewn theatrau a sinemâu disgwylir y bydd angen amodau sy'n mynnu:

- fod hebryngwr wedi ei osod yn y fan/mannau ble mae'r plant, yn agos at bob allanfa, ar yr amod, mai lleiafswm nifer yr hebryngwyr ar ddyletswydd ar bob lefel lle bo plant ddylai fod un hebryngwr ar gyfer pob 50 o blant neu ran o hynny.

Gyda golwg ar unrhyw sylwadau a wneir gan awdurdodau trwyddedu ar y mater, disgwylir i awdurdodau trwyddedu ystyried hefyd a ddylid caniatáu sefyll ai peidio. Er enghraifft, gallai fod llai o berygl i blant yn y llawr nag ar lefelau neu mewn rhannau eraill o'r adeilad.

**Plant mewn perfformiadau**

Mae llawer o gynyrchiadau bob blwyddyn sy'n sioeau untro a'r cast yn cynnwys plant yn gyfan gwbl bron. Gallant fod yn cymryd rhan fel unigolion neu fel rhan o glwb drama, ysgol ddrama neu grŵp ysgol. Gall y rhai sy'n cymryd rhan amrywio mewn oedran o 5 i 18. Mae Rheoliadau Plant (Perfformiadau) 1968 fel y maent wedi eu newid yn nodi'r gofynion ar gyfer plant yn perfformio mewn sioe. Dylai awdurdodau trwyddedu ymgyfarwyddo gyda gofynion y rheoliadau hyn ac ni ddylent ailadrodd unrhyw rai o'r gofynion hyn. Ond os oes angen ystyried gosod amodau, yn ychwanegol at y gofynion hyn, i hyrwyddo diogelu plant rhag niwed, yna dylai'r awdurdod trwyddedu ystyried y materion a nodir isod.

- Lleoliad – dylai'r cyfleusterau yng nghefn y llwyfan fod yn ddigon mawr i gynnwys nifer y plant sy'n cymryd rhan yn unrhyw berfformiad yn ddiogel.
- Diogelwch tân - dylai pob gwarchodwr a'r criw cynhyrchu ar y sioe dderbyn cyfarwyddiadau ynglyn â'r gweithdrefnau tân perthnasol i'r lleoliad cyn i'r plant gyrraedd.
- Effeithiau arbennig – gall fod yn amhriodol defnyddio rhai effeithiau arbennig, gan gynnwys mwg, iâ sych, goleuadau sy'n dychlamu neu'n fflachio'n gyflym, sy'n gallu ysgogi adwaith niweidiol yn arbennig yn achos plant.
- Gofal Plant - mae theatrau, neuaddau cyngerdd a llefydd tebyg yn fannau gwaith ac yn gallu cynnwys llawer o offer allai fod yn beryglus. Felly mae'n bwysig fod plant sy'n perfformio mewn eiddo o'r fath yn cael eu goruchwylio gan oedolion bob amser gan gynnwys symud o'r llwyfan i ystafell wisgo ac unrhyw fan arall ar y safle. Mae'n bwysig gallu rhoi cyfrif o'r plant bob amser hefyd rhag ofn y bydd angen gwagio neu rhag ofn argyfwng.

**Cod Ymddygiad Grŵp Portman ar Enwi, Pecynnu a Hyrwyddo Diodydd Alcoholaidd**

Mae Grŵp Portman yn gweithredu Cod Ymddygiad ar Enwi, Pacio a Hyrwyddo Diodydd Meddwol ar ran y diwydiant alcohol. Nod y Cod yw sicrhau fod diodydd yn cael eu pecynnu a'u hyrwyddo mewn dull cymdeithasol cyfrifol a dim ond i'r rhai hynny sy'n 18 oed neu hyn na hynny. Ystyrir cwynion ynglyn â chynnyrch o dan y Cod gan Banel Cwynion Annibynnol a chyhoeddir penderfyniadau'r Panel ar wefan Grŵp Portman, ym mhapurau newydd y fasnach ac mewn adroddiad blynyddol. Os ceir bod pecynnu neu hysbysebu pwynt talu cynnyrch yn torri'r Cod, gall Grŵp Portman gyhoeddi Bwletin Hysbysu Adwerthwyr i roi gwybod i adwerthwyr am y penderfyniad ac i ofyn iddynt beidio adnewyddu stociau o unrhyw gynnydd o'r fath nac arddangos defnydd pwynt talu o'r fath, hyd nes y cydymffurfir â'r penderfyniad. Mae'r Cod yn fecanwaith pwysig i ddiogelu plant rhag niwed oherwydd mae'n ymdrin ag enwi, marchnata a hyrwyddo cynhyrchion alcohol a werthir mewn eiddo trwyddedig mewn dull allai apelio at rai dan oed neu eu denu.

Lle bo hynny'n briodol ac yn angenrheidiol, gellir ystyried gosod amodau ar drwyddedau eiddo a thystysgrifau eiddo clwb sy'n mynnu fod yn rhaid cydymffurfio gyda Bwletinau Hysbysu Adwerthwyr Grŵp Portman.

**Cardiau Profi Oed**

Lle bo hynny’n angenrheidiol ac yn briodol, gellid gosod gofyniad i ddangos cardiau profi oed cyn y gwerthir unrhyw alcohol ar unrhyw drwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb i ddiogelu plant rhag niwed. Ni ddylid cyfyngu unrhyw ofyniad o’r fath i gardiau “profi oed” cydnabyddedig, ond caniatáu dangos math arall o brawf, megis trwyddedau gyrru-a-llun a phasportau. Mae’r Ysgrifennydd Gwladol yn gefnogwr cryf i system achredu PASS (gweler paragraff 12.8 o’r Arweiniad) sy’n ceisio cymeradwyo ac achredu amryfal gynlluniau profi oed sydd i’w cael. Sicrheir trwy hyn fod cynlluniau o’r fath yn cynnal safonau uchel, yn arbennig ym maes cywirdeb a diogelwch, a lle bo hynny’n briodol ac yn angenrheidiol, gall amodau gyfeirio’n uniongyrchol at gardiau profi oed achrededig PASS, trwyddedau gyrru-a-llun, cardiau myfyrwyr a phasportau. O ran amodau’n ymwneud â throseddu ac anhrefn, dylid nodi nad yw llawer o oedolion yng Nghymru a Lloegr yn cario unrhyw brawf o’u hoed arnynt ar hyn o bryd. Golyga hyn y bydd angen meddwl yn ofalus am eiriad unrhyw amod. Er enghraifft, mae’n bosibl mai pwrpas y gofyniad fyddai cael gweld prawf o oed gan unrhyw berson sy’n ymddangos i’r rheini sy’n ymwneud â gwerthu neu gyflenwi alcohol i rai o dan 18 oed fel y gallai fod dan oed ac sy’n ceisio prynu alcohol. Byddai hyn yn sicrhau fod y rhan fwyaf o rai dan oed – hyd yn oed y rhai sy’n edrych yn hyn – angen dangos tystiolaeth i brofi eu hoed yn briodol cyn prynu unrhyw beth felly. Mae’n bosibl mai lleiafrif o oedolion yn unig a effeithid o dan drefniant o’r fath, ond ni therfid ar weithgaredd arferol y mwyafrif, er enghraifft, wrth siopa mewn archfarchnad.

Mae cardiau profi oed hefyd yn gallu sicrhau fod gwiriadau priodol yn cael eu gwneud lle cyfyngir presenoldeb plant drwy oed, fel 16 oed ar adegau.

## Atodiad C 6

Amodau cymhwyso statudol i glybiau
Mae’r amodau cymhwyso a ganlyn ar gyfer clybiau wedi eu tynnu o Ddeddf Trwyddedu 2003.

**62 Yr amodau cyffredinol**

(1) Dyma’r amodau cyffredinol y rhaid i glwb eu bodloni os yw am fod yn glwb cymhwysol mewn cysylltiad â gweithgaredd clwb cymhwysol:

(2) Amod 1 yw na chaniateir i unigolion o dan reolau’r clwb —
(a) gael eu derbyn yn aelodau, neu
(b) gael eu derbyn, fel ymgeiswyr ar gyfer aelodaeth, i unrhyw un o freintiau aelodaeth,
heb fwlch o ddau ddiwrnod o leiaf rhwng eu henwebiad neu gais am aelodaeth a’u derbyn.

(3) Amod 2 yw na chaniateir o dan reolau’r clwb i unigolion sy’n dod yn aelodau heb eu henwebu neu wneud cais ymlaen llaw gael mynediad/eu derbyn i freintiau aelodaeth heb fwlch o ddau ddiwrnod o leiaf rhwng iddynt ddod yn aelodau a chael eu derbyn.

(4) Amod 3 yw bod y clwb yn cael ei sefydlu a’i gynnal yn ddidwyll fel clwb (gweler adran 63).

(5) Amod 4 yw bod gan y clwb o leiaf 25 aelod.

(6) Amod 5 yw na chyflenwir alcohol, neu fwriadu ei gyflenwi, i aelodau ar y safle ac eithrio gan neu ar ran y clwb.

**63 Penderfynu a yw clwb wedi ei sefydlu ac yn cael ei gynnal yn ddidwyll**

(1) Wrth benderfynu at ddibenion amod 3 yn isadran (4) adran 62 a yw clwb wedi cael sefydlu ac yn cael ei gynnal yn ddidwyll fel clwb, y materion i'w cymryd i ystyriaeth yw'r rhai hynny a nodir yn isadran (2).

(2) Y materion hynny yw —
(a) unrhyw drefniadau sy'n cyfyngu rhyddid prynu alcohol y clwb;
(b) unrhyw ddarpariaeth yn y rheolau, neu drefniadau, o dan y rhai, y gellir defnyddio —
(i) arian neu eiddo'r clwb, neu
(ii) unrhyw elw sy'n codi o gynnal y clwb,
ac eithrio er budd y clwb, yn gyfan gwbl neu at ddibenion elusennol, lles neu wleidyddol;
(c) trefniadau ar gyfer rhoi gwybodaeth i aelodau am arian y clwb;
(ch) y llyfrau cyfrifon a chofnodion eraill a gedwir i sicrhau cywirdeb y wybodaeth honno;
(d) natur y safle ble mae'r clwb.

(3) Os yw awdurdod trwyddedu yn penderfynu at unrhyw ddiben yn y Ddeddf hon nad yw clwb yn bodloni amod 3 yn isadran (4) o adran 62, rhaid i'r awdurdod hysbysu'r clwb am y penderfyniad a'r rhesymau drosto.

**64 Yr amodau ychwanegol ar gyfer cyflenwi alcohol**

(1) Dyma'r amodau ychwanegol y mae'n rhaid i glwb eu bodloni os yw am fod yn glwb cymhwysol mewn cysylltiad â chyflenwi alcohol i aelodau neu westeion:

(2) Amod ychwanegol 1 yw (cyn belled nad yw'n cael ei reoli gan y clwb mewn cyfarfod cyffredinol neu fel arall gan gorff cyffredinol yr aelodau) y rheolir prynu alcohol ar gyfer y clwb, a chyflenwi alcohol gan y clwb, gan bwyllgor y mae ei aelodau —
(a) yn aelodau o'r clwb;
(b) wedi cyrraedd 18 oed; ac
(c) yn cael eu hethol gan aelodau'r clwb.
Mae'r isadran hon yn amodol ar adran 65 (sy'n gwneud darpariaeth arbennig ar gyfer cymdeithasau diwydiannol a darbodus, cymdeithasau cyfeillgar ayb.).

(3) Amod ychwanegol 2 yw na wneir, na bwriadu gwneud, unrhyw drefniadau i unrhyw unigolyn dderbyn unrhyw gomisiwn, canran neu daliad cyffelyb ar, neu mewn cysylltiad gydag, alcohol a brynir gan y clwb ar draul y clwb.

(4) Amod ychwanegol 3 yw na wneir, na bwriadu gwneud, unrhyw drefniadau i unrhyw unigolyn gael unrhyw fudd ariannol yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o gyflenwi alcohol gan neu ar ran y clwb i aelodau neu westeion, ac eithrio —
(a) unrhyw elw sy'n a ddaw i'r clwb yn gyfan neu
(b) unrhyw elw a gaiff unigolyn yn anuniongyrchol trwy i'r cyflenwi achosi neu gyfrannu at elw cyffredinol o gynnal y clwb.

**65 Cymdeithasau diwydiannol a darbodus, cymdeithasau cyfeillgar ayb.**

(1) Mae isadran (2) yn berthnasol mewn cysylltiad ag unrhyw glwb sy'n —
(a) gymdeithas gofrestredig, o fewn ystyr Deddf Cymdeithasau

Diwydiannol a Darbodus 1965 (c.12) (gweler adran 74 (1) o'r Ddeddf honno),
(b) gymdeithas gofrestredig, o fewn ystyr Deddf Cymdeithasau Cyfeillgar 1974 (c.46) (gweler adran 111 (1) o'r Ddeddf honno), neu
(c) Gymdeithas gofrestredig gyfeillgar, o fewn ystyr Deddf Cymdeithasau Cyfeillgar 1992 (c.40) (gweler adran 116 o'r Ddeddf honno).

(2) I ddibenion y Ddeddf hon, cymerir bod unrhyw glwb o'r fath yn bodloni amod ychwanegol yn isadran (2) o adran 64 ac i'r graddau hynny fod —
(a) prynu alcohol i'r clwb, a
(b) chyflenwi alcohol gan y clwb o dan reolaeth aelodau o bwyllgor a benodir gan yr aelodau.

(3) Mae'r cyfeiriadau yn y Ddeddf hon, ac eithrio'r adran hon, at —
(a) isadran (2) adran 64, neu
(b) amod ychwanegol 1 yn yr isadran honno yn gyfeiriadau ati yn ôl fel y darllenir gydag isadran (1) o'r adran hon.

(4) Yn amodol ar isadran (5), mae'r Ddeddf hon yn berthnasol mewn cysylltiad â chymdeithas gyfeillgar gorfforedig gan ei bod yn berthnasol yng nghyswllt clwb, ac yn unol â hynny —
(a) rhaid ymdrin â eiddo'r gymdeithas fel eiddo clwb,
(b) rhaid ymdrin ag aelodau'r gymdeithas fel aelodau'r clwb, a
(c) bydd unrhyw beth a wneir gan neu ar ran y gymdeithas yn cael ei drin fel pe bai wedi ei wneud gan neu ar ran y clwb.

(5) Wrth benderfynu at ddibenion adran 61, a yw cymdeithas gyfeillgar gorfforedig yn glwb cymhwysol mewn cysylltiad â gweithgaredd clwb cymhwysol, cymerir bod y gymdeithas yn bodloni'r amodau a ganlyn —
(a) amod 3 yn isadran (4) o adran 62,
(b) amod 5 yn isadran (6) o'r aran honno,
(c) Yr amodau ychwanegol yn adran 64.

(6) Yn yr adran hon mae "cymdeithas gyfeillgar gorfforedig" yn golygu'r un pet hag yn Neddf Cymdeithasau Cyfeillgar 1992 (gweler adran 116 o'r Ddeddf honno.)

**66 Sefydliadau Lles Glowyr**

(1) Yn amodol ar isadran (2), mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â sefydliad lles glowyr perthnasol fel y mae'n berthnasol i glwb, ac yn unol â hynny —
(a) bydd eiddo sefydliad yn cael ei thrin fel eiddo clwb,
(b) bydd y personau sydd wedi cofrestru'n aelodau o'r sefydliad yn cael eu trin fel aelodau'r clwb, a
(c) bydd unrhyw beth a wneir gan neu ar ran yr ymddiriedolwyr neu'r rheolwyr i gynnal y sefydliad yn cael ei drin fel pe bai wedi ei wneud gan neu ar ran y clwb.

(2) Wrth benderfynu at ddibenion adran 61 a yw sefydliad lles glowyr perthnasol yn glwb cymhwysol mewn cysylltiad â gweithgaredd clwb cymhwysol, cymerir bod y sefydliad yn bodloni'r amodau canlynol —
(a) amod 3 yn isadran (4) o adran 62,
(b) amod 4 yn isadran (5) o'r adran honno,
(c) amod 5 yn isadran (6) o'r adran honno
(ch) yr amodau ychwanegol yn adran 64.

(3) At ddibenion yr adran hon —

(a) ystyr “sefydliad lles glowyr” yw cymdeithas a drefnwyd er lles cymdeithasol a hamdden unigolion mewn neu o gwmpas pyllau glo (neu o unigolion o’r fath yn arbennig), ac
(b) mae sefydliad lles golwyr yn “berthnasol” os yw’n bodloni un o’r amodau canlynol.

(4) Yr amod cyntaf yw bod —
(a) mae’r sefydliad yn cael ei reoli gan bwyllgor neu fwrdd, ac
(b) mae o leiaf ddau draean o’r pwyllgor neu’r bwrdd yn cynnwys —
(i) yn rhannol unigolion a benodwyd neu a enwebwyd, neu a benodwyd neu a enwebwyd o blith unigolion a enwebwyd, gan un neu ragor o weithredwyr trwyddedig o fewn ystyr Deddf Diwydiant Glo (c.21) ac
(ii) yn rhannol bersonau a benodwyd neu a enwebwyd, neu a benodwyd neu a etholwyd o blith personau a enwebwyd, gan un neu ragor o sefydliadau sy’n cynrychioli pobl a gyflogir mewn neu o gwmpas pyllau glo.

(5) Yr ail amod yw bod —
(a) y sefydliad yn cael ei reoli gan bwyllgor neu fwrdd, ond byddai
(b) gwneud —
(i) penodiad neu enwebiad a ddeuai o fewn isadran (4)(b)(i), neu
(ii) benodiad neu enwebiad a ddeuai o fewn isadran (4)(b)(ii), yn anymarferol neu yn amhriodol, ac
(c) mae o leiaf ddau draean o’r pwyllgor neu’r bwrdd yn cynnwys —
(i) yn rhannol unigolion a gyflogir, neu a arferai gael eu cyflogi, mewn neu o gwmpas pyllau glo, ac
(ii) yn rhannol unigolion a benodwyd gan Sefydliad Lles Cymdeithasol y Diwydiant Glo neu gorff neu unigolyn y trosglwyddwyd swyddogaethau’r Sefydliad hwnnw iddo o dan adran 12 (3) o Ddeddf Lles Glowyr 1952 (c.23).

(6) Y trydydd amod yw bod eiddo’r sefydliad yn cael ei dal ar ymddiriedau y mae adran 2 o Ddeddf Elusennau Adloniandol 1958 (c.17) yn berthnasol iddynt.

## Atodiad D

**Egwyddorion Gweithredu ar Drwyddedau**

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried farn y cyrff gorfodi yn llwyr wrth wneud penderfyniad. Y prif gyrff gorfodi yw Heddlu Gogledd Cymru, Adain Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach y Cyngor ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Trwy ei broses o wneud penderfyniadau, bydd yr awdurdod yn ceisio darparu’r pedwar amcan trwyddedu. Wrth wneud hyn, mae’n cydnabod bod y rhan fwyaf o leoliadau a deiliaid trwyddedau personol yn gyfrifol ac yn cydymffurfio’n llwyr gydag amodau eu trwydded ac yn cyflawni’r rhwymedigaethau y maent danynt. Efallai y bydd yr awdurdod trwyddedu yn ymweld â’r eiddo er mwyn gweld a yw’r lle yn addas ar gyfer trwydded.

Bwriad yr awdurdod trwyddedu yw canolbwyntio ar bethau penodol wrth weithredu ei bolisi, sef canolbwyntio ar leoliadau sy’n peri pryder – yn enwedig felly, y lleoliadau hynny sy’n bod yn anghyfrifol yng nghyswllt meddwdod, yfed mewn hyrddiau a rhai dan ddeunaw sy’n yfed alcohol – a gwneud hynny trwy ddefnyddio gwybodaeth gan bartneriaid megis yr Heddlu. Lle bo awdurdod cyfrifol yn canfod lleoliad yn gwerthu alcohol heb drwydded, y rhagdybiaeth yw y bydd yr awdurdod trwyddedu yn erlyn. Mewn achosion lle bo gan leoliad drwydded ond bod y gweithgareddau sy’n cael eu cynnal yno yn rhai na chytunwyd iddynt yn yr atodlen - gweithgareddau megis caraoce mewn tafarn - yna bydd yr awdurdod trwyddedu

yn ystyried a yw'r drwydded wedi arwain at niwed cyn penderfynu erlyn neu roi rhybudd ffurfiol.

Os nad yw ymgeisydd am drwydded yn medru dangos ei fod yn cwrdd â'r pedwar amcan trwyddedu, efallai y bydd amodau'n cael eu cynnwys gyda'r cais neu'r cais yn cael ei wrthod. Trwy reoli fel hyn, bydd yr awdurdod trwyddedu yn ceisio cyflawni'r amcanion trwyddedu. Lle na fodlonir yr amcanion trwyddedu, efallai y bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried tystiolaeth gan gyrff gorfodi ac yn penderfynu a oes raid wrth gosb neu hyd yn oed atal y drwydded er mwyn sicrhau y cynhelir y pedwar amcan. Mae gan yr awdurdod trwyddedu sawl cosb, yn eu plith:

- Cyfyngu ar yr oriau agor
- Atal y drwydded dros dro
- Newid goruchwiliwr dynodedig y lleoliad

O ran gweithredu'r polisi mae'r cyrff gorfodi yn allweddol. Mae ganddynt eisoes doreth o rymoedd a chyda Deddf Trwyddedu 2003 mae ganddynt hyd yn oed fwy o rym i gymryd camau'n gyflym os yw lleoliadau'n peri problem. Pan fo'r drefn drwyddedu yn ei lle o'r Ail Ddiwrnod Penodedig ymlaen (rhagwelir mai 25 Tachwedd 2005 fydd hwn), bydd hawl gan yr Heddlu a swyddogion Iechyd yr Amgylchedd i gau lleoliadau'n syth am hyd at bedair awr ar hugain. Pan ddigwydd hyn, bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried tystiolaeth ynghylch lleoliad fel mater o frys.

Wrth ystyried tystiolaeth ynghylch trosedd ddifrifol e.e. delio â chyffuriau, mewn lleoliadau, bydd yr awdurdod trwyddedu yn penderfynu a yw'r troseddau hyn yn ymwneud â'r ffordd y caiff y lleoliad ei redeg. Os dyma'r achos, bydd yr awdurdod trwyddedu yn cymryd camau gofalus ac yn gwneud yr hyn a gredir sy'n angenrheidiol ac ni fydd yn disgwyl am benderfyniad y llys cyn gwneud penderfyniad ei hun. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei haeddiant.

Efallai y bydd raid adolygu trwydded os yw'r unigolyn sy'n dal trwydded bersonol yn cyflawni trosedd berthnasol, megis gwerthu alcohol i rai dan ddeunaw neu ganiatáu meddwdod. Bydd yr awdurdod trwyddedu yn ceisio sicrhau bod y rhai hynny sydd â thrwydded bersonol yn medru cwrdd â'r pedwar amod trwyddedu.

Mae gorfodi hefyd yn cynnwys cyngor, addysg a hyfforddiant, gwybodaeth, hyrwyddo ymddygiad ac ymarfer da.

Bydd yr awdurdod trwyddedu yn sefydlu protocolau gyda Heddlu Gogledd Cymru ar orfodi. Fel hyn, gwneir defnydd mwy effeithlon o staff yr awdurdod trwyddedu a'r heddlu sydd yn aml yn gweithredu'r gyfraith drwyddedu ac yn archwilio lleoliadau trwyddedig.

Mae egwyddorion gorfodi ar gyfer yr awdurdod trwyddedu yn canolbwyntio ar :

- Cymryd camau cadarn yn erbyn y rhai hynny sy'n herio'r gyfraith neu'n bod yn anghyfrifol
- Cynorthwyo busnesau ac eraill wrth gwrdd â'u hymrwymiadau cyfreithiol
- Gweithredu'n syth ar faterion sy'n pryderu cymunedau lleol

Mae modd crynhoi'r math hyn o weithredu fel gweithred o ganolbwyntio ar leoliadau lle cred cyrff gorfodi y ceir un ai problemau trosedd ac anhrefn, pobl yn y lleoliad yn creu niwsans, plant mewn perygl neu'r cyhoedd yn cael eu niweidio.

Ni fydd raidd gweithredu os yw lleoliadau'n cael eu rhedeg yn gyfrifol.

**Fodd bynnag, bwriad y Cyngor yw gymryd camau cadarn os gwelir bod yr amcanion trwyddedu'n cael eu tanseilio.**

**Mae methu cydymffurfio ag unrhyw amod sydd ynghlwm wrth drwydded neu dystysgrif clwb yn drosedd a phe caech eich dyfarnu'n euog, caech eich cosbi gyda dirwy o hyd at £20,000 neu dreulio hyd at chwe mis yn y carchar neu'r ddau.**

## Ymgynghoriad Datganiad o Bolisi Trwyddedu

**Cychwyn Ymgynghoriad – Dydd Mercher, 4 Tachwedd 2015**
**Terfyn Ymgynghoriad – Dydd Mawrth, 24 Tachwedd 2015**

**Crynodeb**
Mae'r Ddeddf Trwyddedu 2003 yn gofyn i bob Awdurdod Trwyddedu bennu a chyhoeddi ei Datganiad o Bolisi Trwyddedu pob 5 mlynedd.

Mabwysiadwyd y Datganiad o Bolisi Trwyddedu cyfredol yn Rhagfyr 2010.

Mae'r Datganiad o Bolisi Trwyddedu wedi ei diweddaru ac yn destun ymgynghoriad ffurfiol gyda

- Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Pobl/cyrff sy'n cynrychioli busnesau a phreswylwyr yn y sir
- Pobl/cyrff sy'n cynrychioli deiliaid trwydded/tystysgrifau presennol

Mae'r polisi diweddaraf yn darparu gwybodaeth parthed:

- Cyflwyno mentrau newydd gan gynnwys y Dreth Hwyr yn y Nos a Gorchmynion Cyfyngu Gwerthu Alcohol yn fuan yn y bore.
- Y pŵer i atal trwydded am beidio talu ffi flynyddol
- Gall Iechyd Amgylchedd yn awr gwrthwynebu Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro.
- Dadreoleiddio rhywfaint o adloniant rheoledig a Lluniaeth Hwyr y Nos

**Sut i gymryd rhan**
Gall unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylwadau wneud hynny drwy e-bost i:
Trwyddedu@Gwynedd.gov.uk

neu yn ysgrifenedig i:

Ymgynghoriad Polisi Trwyddedu
Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Stryd y Jêl
Caernarfon
LL55 1SH

**Sut bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio**
Rhaid i'r holl sylwadau cael eu derbyn erbyn 24 Tachwedd 2015. Byddant yn cael eu hystyried, a lle bo'n briodol, bydd yn cael effaith ar y ddogfen derfynol cyn iddo gael ei fabwysiadu ar 10 Rhagfyr 2015.

**Mwy o Wybodaeth**
Mae asesiad cydraddoldeb cychwynnol wedi'i gynnal ar gyfer y cynigion.

## Statement of Licensing Policy Consultation

**Consultation starts – Wednesday, 4 November 2015**
**Consultation ends – Tuesday, 24 November 2015**

**Summary**
The Licensing Act 2003 requires every Licensing Authority to determine and publish a Statement of Licensing Policy every 5 years.

The current Statement of Licensing Policy was adopted in December 2010.

An updated Statement of Licensing Policy has been prepared and is subject to formal consultation with

- North Wales Police
- North Wales Fire & Rescue Service
- Betsi Cadwaladr University Health Board
- Persons/bodies representative of businesses and residents in the county
- Persons/bodies representative of current licence/certificate holders

The updated policy provides information regarding:

- The introduction of new initiatives including Late Night Levy and Early Morning Restriction Orders (not adopted by this authority)
- The power to suspend licenses for non-payment of annual fees
- Environmental Health can now object to Temporary Event notices
- The deregulation of some regulated entertainment and Late Night Refreshment

**How to take part**
Anyone wishing to make comment may do so by e-mail to:
Licensing@Gwynedd.gov.uk

or in writing to:

Licensing Policy Consultation
Public Protection Service
Gwynedd Council
Council Offices
Shirehall Street
Caernarfon
LL55 1SH

**How the results will be used**
All comments must be received by 24 November 2015. They will be considered, and where appropriate, will inform the final document prior to its adoption on 10 December 2015.

**More information**
An initial equality impact assessment has been carried for the proposals.

# ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB CYCHWYNNOL
# INITIAL EQUALITY IMPACT ASSESSMENT

## 1) TEITL Y POLISI / CYNLLUN / ARFER
## *POLICY / PLAN / PRACTICE TITLE*



**DATGANIAD O BOLISI TRWYDDEDU – Rhagfyr 2015**

Mae’r Ddeddf Trwyddedu 2003 yn gofyn i bob awdurdod trwyddedu bennu a chyhoeddi datganiad polisi trwyddedu leiaf bob pum mlynedd. Pwrpas y datganiad polisi trwyddedu yw amlinellu’r polisïau fydd yn cael eu gweithredu gan yr awdurdod trwyddedu wrth ymgymryd â’i swyddogaethau trwyddedu, h.y. wrth reoleiddio gweithgareddau trwyddedig mewn eiddo trwyddedig gan glybiau cymwys ac mewn digwyddiadau dros dro o fewn telerau’r Ddeddf Trwyddedu 2003.

Yn ôl gofynion y Ddeddf, fydd y Polisi Trwyddedu drafft yn amodol ar ymgynghoriad ffurfiol gyda

- Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Pobl/cyrff sy’n cynrychioli busnesau a phreswylwyr yn y sir
- Pobl/cyrff sy’n cynrychioli deiliaid trwydded/tystysgrifau presennol

Wrth ymgymryd â’i swyddogaethau dan y Ddeddf, rhaid i’r awdurdod trwyddedu geisio hyrwyddo’r pedwar amcan trwyddedu a gynhwysir yn y Ddeddf a’r ffaith eu bod yr un mor bwysig â’i gilydd. Dyma’r pedwar amcan:

- Atal trosedd ac anhrefn
- Diogelwch y cyhoedd
- Atal niwsans cyhoeddus
- Amddiffyn plant rhag niwed

Bydd yr awdurdod trwyddedu yn ymgymryd â’i swyddogaethau trwyddedu mewn modd sydd yn sicrhau diogelwch cyhoeddus, yn cefnogi eiddo sydd yn cael eu rheoli’n dda ble mae deiliaid trwydded yn dangos sensitifrwydd tuag at effaith bosib gweithgareddau trwyddedig ar breswylwyr lleol a busnesau eraill, ac yn gwarchod preswylwyr rhag effeithiau andwyol.

***STATMENT OF LICENSING POLICY – December 2015***

*The Licensing Act 2003 requires every licensing authority to determine and publish a statement of licensing policy at least every five years. The purpose of the statement of licensing policy is to set out the policies the licensing authority will apply when carrying out its licensing function, i.e. when regulating the licensable activities on licensed premises, by qualifying clubs and at temporary events within the terms of the Licensing Act 2003.*

*As required by the Act, the draft Licensing Policy is subject to formal consultation with*

- *North Wales Police*
- *North Wales Fire & Rescue Service*
- *Betsi Cadwaladr University Health Board*
- *Persons/bodies representative of businesses and residents in the county*
- *Persons/bodies representative of current licence/certificate holders.*

*When carrying out its functions under the Act the licensing authority must seek to promote, with equal importance, the four licensing objectives contained in the Act. The four objectives are:*

- *The prevention of crime and disorder*
- *Public safety*
- *The prevention of public nuisance*
- *The protection of children from harm*

*The licensing authority will carry out its licensing functions in a way that ensures public safety, supports well managed premises where licence holders show sensitivity to the potential impact of licensable activities on local residents and other businesses, and protects residents from detrimental effects.*

## 2) PERTHNASEDD AC EFFAITH
### *RELEVANCE AND IMPACT*
### *a.* Nodweddion Gwarchodedig/*Protected Characteristics*

O'r dystiolaeth sydd gennych chi, ydi hi'n debygol y bydd y polisi / cynllun / arfer yn cael effaith ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb yma?
*From the evidence you have, is it likely that the policy / plan / practice will have an impact on any of the protected equality characteristics?*

| **Nodwedd**<br>***Characteristic*** | **Effaith**<br>***Impact*** | **Manylion**<br>***Details*** |
|---|---|---|
| Oedran<br><br>*Age* | ~~Oes~~ / Nac oes<br><br>*~~Yes~~ / No* | Mae gwarchod plant rhag niwed yn un o'r pedwar amcan trwyddedu o'r Ddeddf Trwyddedu 2003.<br>Mae amodau statudol yn bodoli parthed oedran gwerthu alcohol ac arddangos ffilm.<br>Ni ragwelir y bydd y diwygiadau arfaethedig i'r datganiad o bolisi yn cael effaith ar sail oedran.<br><br>*The protection of children from harm is one of the four licensing objectives of the Licensing Act 2003.*<br>*Mandatory age conditions exist regarding the sale of alcohol and the exhibition of films.*<br>*It is not anticipated that the proposed amendments to the Statement of Licensing policy will have an effect on the grounds of age.* |
| Rhyw<br><br>*Gender* | ~~Oes~~ / Nac oes<br><br>*~~Yes~~ / No* | Cyfeirir at y nodwedd cydraddoldeb hon yn y Datganiad o Bolisi Trwyddedu.  Ni ragwelir y bydd y diwygiadau arfaethedig i'r datganiad o bolisi yn cael effaith ar sail rhyw.<br><br>*Reference is made to this equality characteristic in the Statement of Licensing Policy.  It is not anticipated that the proposed amendments to the Statement of Licensing policy will have an effect on the grounds of gender.* |
| Ailbennu Rhywedd<br><br>*Gender Reassignment* | ~~Oes~~ / Nac oes<br><br>*~~Yes~~ / No* | Ni ragwelir y bydd y diwygiadau arfaethedig i'r datganiad o bolisi yn cael effaith ar sail ailbennu rhywedd.<br><br>*It is not anticipated that the proposed amendments to the Statement of Licensing policy will have an effect on the grounds of gender reassignment.* |
| Hil<br><br>*Race* | ~~Oes~~ / Nac oes<br><br>*~~Yes~~ / No* | Cyfeirir at y nodwedd cydraddoldeb hon yn y Datganiad o Bolisi Trwyddedu.  Ni ragwelir y bydd y diwygiadau arfaethedig i'r Datganiad o Bolisi yn cael effaith ar sail hil.<br><br>*Reference is made to this equality characteristic in the Statement of Licensing Policy.  It is not anticipated that the proposed amendments to the Statement of Licensing policy will have an effect on the grounds of race.* |
| Yr iaith Gymraeg<br><br>*Welsh Language* | ~~Oes~~ / Nac oes<br><br>*~~Yes~~ / No* | Cyfeirir at y nodwedd cydraddoldeb hon yn y Datganiad o Bolisi Trwyddedu.  Ni ragwelir y bydd y diwygiadau arfaethedig i'r datganiad o bolisi yn cael effaith ar sail iaith Gymraeg.<br><br>*Reference is made to this equality characteristic in the Statement of Licensing Policy.  It is not anticipated that the proposed amendments to the Statement of Licensing policy will have an effect on the grounds of the Welsh language.* |

| **Nodwedd**<br>***Characteristic*** | **Effaith**<br>***Impact*** | **Manylion**<br>***Details*** |
|---|---|---|
| Anabledd<br><br>*Disability* | ~~Oes~~ / Nac oes<br><br>*~~Yes~~ / No* | Cyfeirir at y nodwedd cydraddoldeb hon yn y Datganiad o Bolisi Trwyddedu. Ni ragwelir y bydd y diwygiadau arfaethedig i'r datganiad o bolisi yn cael effaith ar sail anabledd.<br><br>*Reference is made to this equality characteristic in the Statement of Licensing Policy. It is not anticipated that the proposed amendments to the Statement of Licensing policy will have an effect on the grounds of disability.* |
| Cyfeiriadedd Rhywiol<br><br>*Sexual Orientation* | ~~Oes~~ / Nac oes<br><br>*~~Yes~~ / No* | Cyfeirir at y nodwedd cydraddoldeb hon yn y Datganiad o Bolisi Trwyddedu. Ni ragwelir y bydd y diwygiadau arfaethedig i'r datganiad o bolisi yn cael effaith ar sail cyfeiriadedd rhywiol.<br><br>*Reference is made to this equality characteristic in the Statement of Licensing Policy. It is not anticipated that the proposed amendments to the Statement of Licensing policy will have an effect on the grounds of sexual orientation.* |
| Crefydd neu gred<br><br>*Religion or Belief* | ~~Oes~~ / Nac oes<br><br>*~~Yes~~ / No* | Cyfeirir at y nodwedd cydraddoldeb hon yn y Datganiad o Bolisi Trwyddedu. Ni ragwelir y bydd y diwygiadau arfaethedig i'r datganiad o bolisi yn cael effaith ar sail crefydd neu gred.<br><br>*Reference is made to this equality characteristic in the Statement of Licensing Policy. It is not anticipated that the proposed amendments to the Statement of Licensing policy will have an effect on the grounds of religion or belief.* |
| Beichiogrwydd a mamolaeth<br><br>Pregnancy and maternity | ~~Oes~~ / Nac oes<br><br>*~~Yes~~ / No* | Ni ragwelir y bydd y diwygiadau arfaethedig i'r datganiad o bolisi yn cael effaith ar sail beichiogrwydd neu mamolaeth.<br><br>*It is not anticipated that the proposed amendments to the Statement of Licensing policy will have an effect on the grounds of pregnancy or maternity.* |
| Priodas a Phartneriaith Sifil<br><br>Marriage and Civil partnership | ~~Oes~~ / Nac oes<br><br>*~~Yes~~ / No* | Ni ragwelir y bydd y diwygiadau arfaethedig i'r datganiad o bolisi yn cael effaith ar sail priodas neu phartneriaith sifil.<br><br>*It is not anticipated that the proposed amendments to the Statement of Licensing policy will have an effect on the grounds of marriage or Civil partnership.* |

**b. Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb/*General Duties of the Equality Act***

O'r dystiolaeth sydd gennych chi, ydi hi'n debygol y bydd y polisi / cynllun / arfer yn cael effaith ar unrhyw un o'r dyletswyddau cyffredinol?

*From the evidence you have, is it likely that the policy / plan / practice will have an impact on the general duties?*

| **Nodwedd** | **Effaith** | **Manylion** |
|---|---|---|
| Cael gwared a chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth<br><br>*Removal of illegal discrimination, harassment and victimisation* | ~~Oes~~ / Nac oes<br><br>*~~Yes~~ / No* | Cyfeirir at y dyletswyddau cyffredinol hyn yn y Datganiad o Bolisi Trwyddedu. Ni ragwelir y bydd y diwygiadau arfaethedig i'r datganiad o bolisi yn cael effaith ar y dyletswyddau cyffredinol.<br><br>*Reference is made to these general duties in the Statement of Licensing Policy. It is not anticipated that the proposed amendments to the Statement of Licensing policy will have an effect on the general duties.* |
| Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal<br><br>*Promote equal opportunities* | ~~Oes~~ / Nac oes<br><br>*~~Yes~~ / No* | |
| Meithrin perthnasau da<br><br>*Foster good relationships* | ~~Oes~~ / Nac oes<br><br>*~~Yes~~ / No* | |

3) **OES ANGEN ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB LLAWN?** Os ydych chi wedi ateb "Oes" i unrhyw un o'r uchod yna bydd angen asesiad pellach
***IS A FULL EQUALITY IMPACT ASSESSMENT NEEDED?*** *If you have answered "Yes" to any of the above then you need a further assessment*

| | |
|---|---|
| **Oes / *Yes*** | |
| **Nag oes / *No*** | ✓ |

## 4) ARDYSTIO/*CERTIFICATION*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Arwyddwyd**<br>***Signed*** | ........................................ | **Arwyddwyd**<br>***Signed*** | ........................................ |
| **Swydd**<br>***Title*** | ........................................ | **Swydd**<br>***Title*** | ........................................ |
| **Dyddiad**<br>***Date*** | ........................................ | **Dyddiad**<br>***Date*** | ........................................ |

# Datganiad o Bolisi Trwyddedu

DEDDF TRWYDDEDU 2003
Rhagfyr 2015 – Rhagfyr 2020

# CYNNWYS


**1. Cyflwyniad ... 1**

1.1 Cefndir ... 1

1.2 Proffil yr Awdurdod ... 2

**2. Sgôp a Graddau ... 3**

**3. Amcanion trwyddedu ... 6**

3.1 Atal trosedd ac anhrefn ... 8

3.2 Diogelwch y cyhoedd ... 10

3.3 Atal niwsans cyhoeddus ... 11

3.4 Amddiffyn plant rhag niwed ... 12

**4. Effaith Gronnol, Gorchmynion Cyfyngu ar Werthu Alcohol yn fuan yn y bore a'r Dreth Hwyr yn y Nos ... 14**

4.1 Effaith Gronnol ... 14

4.2 Gorchmynion Cyfyngu ar Werthu Alcohol yn fuan yn y Bore (EMRO) ... 16

4.3 Y Dreth Hwyr yn y Nos ... 17

**5. Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu ... 18**

**6. Ceisiadau ... 20**

6.1 Trwydded Eiddo ... 20

6.2 Tystysgrif Eiddo Clwb ... 23

6.3 Rhybuddion Digwyddiad Dros Dro (TEN) ... 24

6.4 Trwydded Bersonol ... 25

**7. Atodlen Weithredu ... 26**

**8. Oriau Gweithredu ... 27**

**9. Gorfodaeth, Adolygiadau a Phwerau ... 28**

9.1 Gorfodaeth ... 28

9.2 Adolygiadau ... 29

9.3 Pwerau ... 30

**10. Y Broses Drwyddedu ... 31**

10.1 Y Llwybr Gwneud Cais ... 31

10.2 Cyflafareddu ... 32

10.3 Amodau ... 32

**11. Dirprwyo, Y Pwyllgor Trwyddedu a Gwneud Penderfyniadau ... 34**

**12. Y Gofrestr Trwyddedu ... 35**

**Atodiad 1:** **Rhestr Termau** .......... **36**
**Atodiad 2:** **Diweddariadau Deddfwriaethol** .......... **40**
Deddf Dadreoli 2015 .......... 40
Deddf Cerddoriaeth Fyw 2012 .......... 41
**Atodiad 3:** **Alcohon ac Iechyd yng Nghymru** .......... **42**
**Atodiad 4:** **Protocol Gorfodaeth ar y cyd gyda Heddlu Gogledd Cymru** .......... **43**
**Atodiad 5:** **Amodau Gorfodol** .......... **45**
Cyflenwi Alcohol .......... 45
Dangos Ffilmiau .......... 48
Goruchwylio Drysau .......... 48
Amod Trwyddedu Amgen .......... 48

# 1. CYFLWYNIAD

## 1.1 CEFNDIR

1.1.1 Dan ddarpariaethau Deddf Trwyddedu 2003, Cyngor Gwynedd yw'r **Awdurdod Trwyddedu** (a chyfeirir ato yn y ddogfen hon fel "yr awdurdod trwyddedu") sydd yn gyfrifol am ganiatáu Trwyddedau Eiddo, Tystysgrifau Eiddo Clwb a Thrwyddedau Personol yn sir Gwynedd.

1.1.2 Mae Deddf Trwyddedu 2003 ("y Ddeddf") yn gofyn i awdurdod trwyddedu bennu a chyhoeddi datganiad polisi trwyddedu ("y polisi") o leiaf bob pum mlynedd. Llunnir y polisi hwn dan Adran 5 y Ddeddf ac yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, dan Adran 182 y Ddeddf ("y Canllawiau"), i awdurdodau trwyddedu ar ryddhau eu swyddogaethau dan y Ddeddf.

1.1.3 Mae'r awdurdod trwyddedu wedi'i rwymo gan y Ddeddf ac unrhyw reoliadau a wneir dan y Ddeddf. Rhaid i'r awdurdod trwyddedu 'roi ystyriaeth' i'r Canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Pe bai'r awdurdod trwyddedu yn pennu ei fod yn briodol, gall wyro oddi wrth y Canllawiau os oes ganddo reswm da dros wneud hynny ac os yw'n gallu darparu rhesymau llawn.

1.1.4 Yn unol â gofynion y Ddeddf, roedd y Polisi Trwyddedu drafft yn amodol ar ymgynghoriad ffurfiol gyda Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Pobl/cyrff sy'n cynrychioli busnesau a phreswylwyr yn y sir a Pobl/cyrff sy'n cynrychioli deiliaid trwydded/tystysgrifau presennol.

1.1.5 Wrth fabwysiadu'r polisi hwn, mae'r awdurdod trwyddedu yn cydnabod anghenion y preswylwyr am amgylchedd diogel, iach a cynaliadwy i fyw a gweithio ynddo ynghyd â phwysigrwydd eiddo adloniant a hamdden sydd yn cael eu rhedeg yn dda i economi a diwydiant twristiaeth Gwynedd.

1.1.6 Mabwysiadwyd y polisi gan Gyngor Gwynedd ar **10 Rhagfyr 2015** wedi ystyried y sylwadau a dderbyniwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â hwy. Bydd y polisi yn dod i rym ar y diwrnod hwn ac yn aros mewn grym hyd nes y pennir bod proses statudol neu adolygu ac ymgynghori arall yn angenrheidiol. Bydd yr awdurdod trwyddedu yn parhau i adolygu'r polisi gan wneud unrhyw welliannau yr ystyrir yn briodol ganddo i gefnogi'r amcanion trwyddedu. Cyhoeddir unrhyw welliannau ar ffurf datganiad polisi newydd neu, os yw'n briodol, drwy gyhoeddi'r gwelliant.

1.1.7 Fel arfer, bydd y polisi'n berthnasol i unrhyw gais am drwydded y penderfynwyd arno ar ôl y dyddiad pan benderfynodd yr awdurdod trwyddedu wneud y polisïau hyn yn weithredol, waeth beth oedd y dyddiad pan wnaed y cais.

1.1.8 Dangosir datganiadau o bolisi allweddol mewn bocsys cysgodol.

## 1.2 PROFFIL YR AWDURDOD

1.2.1 Lleolir sir Gwynedd yng ngogledd-orllewin Cymru ac mae ganddi boblogaeth o dros 122,000 o breswylwyr.

1.2.2 Mae gan Wynedd dros 1000 o eiddo trwyddedig dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Mae dros 75% o'r eiddo hyn yn cyflenwi alcohol i'w yfed yn ac/neu oddi ar yr eiddo, gyda llawer yn darparu adloniant hefyd. Ceir dros 350 eiddo wedi'u hawdurdodi i ddarparu lluniaeth yn hwyr yn y nos. Ar gyfartaledd, mae'r awdurdod yn derbyn 330 rhybudd am ddigwyddiad dros dro bob blwyddyn er mwyn cynnal digwyddiadau dros dro sydd yn cynnwys adloniant wedi'i reoleiddio ac/neu werthu alcohol.

1.2.3 Mae'r awdurdod trwyddedu hefyd wedi caniatáu dros 2000 o drwyddedau personol ers 2005 ac ar hyn o bryd yn derbyn 100 cais am drwydded bersonol ar gyfartaledd bob blwyddyn.

# 2. SGÔP A GRADDAU

2.1 Pwrpas y datganiad polisi trwyddedu hwn yw amlinellu’r polisïau fydd yn cael eu gweithredu gan yr awdurdod trwyddedu wrth ymgymryd â’i swyddogaethau trwyddedu, h.y. wrth reoleiddio gweithgareddau trwyddedig mewn eiddo trwyddedig gan glybiau cymwys ac mewn digwyddiadau dros dro o fewn telerau’r Ddeddf. Cyfeirir at y Ddeddf er dibenion dealltwriaeth ond ni fwriedir iddi fod yn grynodeb syml o’r gyfraith. Gellir dod o hyd i restr o’r termau a ddefnyddir yn y Ddeddf ac yn y polisi hwn yn **Atodiad 1**.

2.2 Mae’r Ddeddf yn diffinio **gweithgareddau trwyddedig** fel:-

2.3 **Manwerthu alcohol** – Diffinnir “manwerthu” alcohol yn Adran 192 y Ddeddf. Mae alcohol yn golygu gwirodydd, gwin, cwrw, seidr neu unrhyw wirod alcoholaidd sydd wedi cael ei eplesu neu ei ddistyllu. Manwerthu yw unrhyw werthiant alcohol ac eithrio’r hyn a werthir i fusnes neu glwb gael ei werthu ymlaen i gwsmeriaid, h.y. cyfanwerthu alcohol.

2.4 **Cyflenwi alcohol gan glwb neu ar ei ran, neu yn ôl archeb gan aelod o'r clwb** - Mae cyflenwad alcohol clwb yn eiddo i’r holl aelodau ac felly mae cyflenwi i aelod yn weithgaredd trwyddedig ar wahân.

2.5 **Darpariaeth adloniant wedi’i reoleiddio** - Mae Atodlen 1 y Ddeddf yn amlinellu pa weithgareddau y dylid eu hystyried fel darpariaeth adloniant wedi’i reoleiddio a'r gweithgareddau hynny nad ydynt yn rhai trwyddedig ac felly wedi’u heithrio o agweddau’r drefn drwyddedu ar adloniant wedi’i reoleiddio.

2.6 Mae disgrifiadau o weithgareddau adloniant trwyddedig dan y Ddeddf yn cynnwys:

- Perfformio drama;
- Dangos ffilm;
- Digwyddiadau chwaraeon dan do;
- Adloniant bocsio neu reslo;
- Perfformio cerddoriaeth fyw;
- Chwarae unrhyw gerddoriaeth wedi’i recordio;
- Perfformiadau dawns; ac
- Adloniant o ddisgrifiad tebyg i berfformio cerddoriaeth fyw, chwarae unrhyw gerddoriaeth wedi’i recordio neu berfformiadau dawns.

2.7 Er mwyn bod yn drwyddedig, mae angen i un neu fwy o'r gweithgareddau hyn gael eu darparu (yn rhannol o leiaf) er diben adlonni cynulleidfa; rhaid iddynt gael eu cynnal ar eiddo sydd ar gael er diben galluogi'r gweithgaredd hwnnw; a rhaid iddynt naill ai

- gael eu cynnal o flaen cynulleidfa gyhoeddus, neu
- fod yn amodol ar dâl yn cael ei godi gyda golwg ar wneud elw pan fo’r gweithgaredd yn cael ei gynnal yn breifat.

2.8 Gwnaeth Deddf Dadreoli 2015 gryn newidiadau i'r diffiniad o adloniant wedi'i reoleiddio. Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach ynglŷn â'r newidiadau hyn â'r newidiadau a wnaed yn dilyn Deddf Cerddoriaeth Fyw 2012 yn **Atodiad 2**.

2.9 **Darpariaeth lluniaeth yn hwyr yn y nos** - Mae Atodlen 2 y Ddeddf yn amlinellu pa weithgareddau y dylid eu hystyried fel darpariaeth lluniaeth yn hwyr yn y nos a'r gweithgareddau hynny nad ydynt yn rhai trwyddedig. Trwy gyfrwng Deddf Dadreoli 2015 gall awdurdod trwyddedu eithrio cyflenwi bwyd poeth neu ddiod boeth os yw'n digwydd mewn ardal ddynodedig, ar neu oddi ar eiddo dynodedig ac yn ystod amseroedd dynodedig.

2.10 NID yw'r awdurdod trwyddedu wedi dynodi ardal o fewn sir Gwynedd i eithrio cyflenwi lluniaeth hwyr yn y nos.

2.11 Mae'n drosedd dan Adran 136 y Ddeddf i ymgymryd ag unrhyw un o'r gweithgareddau trwyddedig uchod heb drwydded neu awdurdodiad arall dan y Ddeddf.

2.12 Dyma'r **mathau o awdurdodiad neu ganiatâd** y mae'r Ddeddf yn gofyn i'r awdurdod trwyddedu eu rheoleiddio:-

- Trwydded eiddo – i ddefnyddio eiddo ar gyfer gweithgareddau trwyddedig.
- Tystysgrif eiddo clwb – i alluogi clwb cymwys gymryd rhan mewn gweithgareddau clwb cymwys.
- Rhybudd digwyddiad dros dro – i gynnal gweithgareddau trwyddedig mewn digwyddiad dros dro.
- Trwydded bersonol – i werthu neu awdurdodi gwerthiant alcohol o eiddo sydd gan drwydded eiddo.

2.13 Wrth ymgymryd â'i swyddogaethau dan y Ddeddf, dylai'r awdurdod trwyddedu geisio hyrwyddo'r pedwar **amcan trwyddedu** a gynhwysir yn y Ddeddf a'r ffaith eu bod yr un mor bwysig â'i gilydd. Dyma'r pedwar amcan:

- Atal trosedd ac anhrefn
- Diogelwch y cyhoedd
- Atal niwsans cyhoeddus
- Amddiffyn plant rhag niwed

2.14 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn ymgymryd â'i swyddogaethau trwyddedu mewn modd sydd yn

- sicrhau diogelwch cyhoeddus,
- cefnogi eiddo sydd yn cael eu rheoli'n dda, ble mae deiliaid trwydded yn dangos sensitifrwydd tuag at effaith bosib gweithgareddau trwyddedig ar breswylwyr lleol a busnesau eraill,
- cefnogi eiddo sydd yn hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw ac yfed alcohol yn gyfrifol, ac yn
- gwarchod preswylwyr rhag effeithiau andwyol.

2.15 Dim ond ceisio rheoli'r mesurau hyn o fewn rheolaeth deilydd y drwydded ac 'mewn ardal ger' yr eiddo all y broses drwyddedu ei wneud. Felly, bydd yr amodau sydd yn gysylltiedig ag amryw awdurdodiadau yn canolbwyntio ar:-

- Materion o fewn rheolaeth deiliaid trwydded unigol ac eraill sydd wedi derbyn unrhyw awdurdodiad perthnasol.
- Yr eiddo a'r lleoedd a gaiff eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau trwyddedig a'u hardaloedd gerllaw.
- Effaith uniongyrchol y gweithgareddau a gynhelir yn yr eiddo trwyddedig ar aelodau'r cyhoedd sydd yn byw, gweithio neu'n ymgymryd â gweithgareddau arferol yn yr ardal dan sylw.

2.16 Bydd pob cais a ystyrir gan yr awdurdod trwyddedu dan y polisi hwn yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau unigol. Ni fydd unrhyw beth yn y polisi hwn yn tanseilio hawliau unrhyw unigolyn i wneud cais am wahanol fathau o ganiatâd dan y Ddeddf ac i unrhyw fath o gais gael ei ystyried yn ôl ei rinweddau unigol.

2.17 Ni fydd dim yn y polisi hwn yn gorbwyso hawl unrhyw berson i gyflwyno sylwadau ar unrhyw gais neu geisio adolygu trwydded neu dystysgrif ble mae ganddynt yr hawl i wneud hynny dan y Ddeddf. Fodd bynnag, ni fydd yn cynnwys ceisiadau na sylwadau a ystyrir yn wamal, twyllodrus neu'n ailadroddus.

2.18 Os yw'n pennu ei fod yn briodol, gall yr awdurdod trwyddedu wyro oddi wrth ei ddatganiad polisi trwyddedu os yw amgylchiadau achos unigol yn haeddu penderfyniad o'r fath er budd hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

# 3. AMCANION TRWYDDEDU

3.0.1 Wrth ymgymryd â'i swyddogaethau dan y Ddeddf, dylai'r awdurdod trwyddedu geisio hyrwyddo'r pedwar **amcan trwyddedu** a gynhwysir yn y Ddeddf a'r ffaith eu bod yr un mor bwysig â'i gilydd. Dyma'r pedwar amcan:

- Atal trosedd ac anhrefn
- Diogelwch y cyhoedd
- Atal niwsans cyhoeddus
- Amddiffyn plant rhag niwed

3.0.2 Yr amcanion trwyddedu yw'r prif ystyriaethau sydd angen eu hystyried gan yr awdurdod trwyddedu wrth benderfynu ar gais a wneir dan y Ddeddf, a bydd unrhyw amodau cysylltiedig yn rhai priodol a chymesur i gyflawni'r amcanion trwyddedu.

3.0.3 **Mae pob amcan yr un mor bwysig â'i gilydd.** Byddent yn cael eu hystyried mewn perthynas â materion sydd yn canolbwyntio ar yr eiddo neu o fewn rheolaeth deilydd y drwydded a'r effaith y mae gweithgareddau'r busnes hwnnw yn ei gael ar yr ardal gerllaw.

3.0.4 Wrth ymgymryd â'i swyddogaethau trwyddedu, bydd yr awdurdod trwyddedu yn defnyddio ystod eang o fesurau yn cynnwys ei reolaethau cynllunio, rheolaeth drafnidiaeth ac yn ymwybodol o ddeddfwriaeth, strategaethau a pholisïau all effeithio ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Mae'r rhain yn cynnwys:-

- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Trosedd a Diogelwch 2010
- Deddf Plismona a Throsedd 2009
- Deddf Iechyd 2006
- Deddf Lleihau Troseddu Treisgar 2006
- Deddf Gamblo 2005
- Deddf Amddiffyn yr Amgylchedd 1990
- Deddf Sŵn 1996
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1874
- Cyfarwyddeb Gwasanaethau'r Undeb Ewropeaidd
- Cod Cydymffurfio Rheoleiddwyr
- Polisi Gorfodaeth Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Gwynedd
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Gwynedd

**Noder**: - Tra bod y gyfraith bresennol eisoes yn rhoi goblygiadau statudol ar ymgeiswyr, ni fydd y Cyngor yn gosod yr un dyletswyddau na rhai tebyg ar ffurf amod ar drwydded yr eiddo, y deilydd na'r clwb.

3.0.5 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn parhau i weithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau'r heddlu a thân, busnesau lleol, cynlluniau *Pub Watch*, cynrychiolwyr o'r gymuned a phobl leol i fodloni'r amcanion hyn.

3.0.6 Mae'r awdurdod trwyddedu'n cydnabod bod y diwydiant adloniant yng Ngwynedd yn cyfrannu at yr economi leol. Mae'n denu twristiaid ac ymwelwyr, yn gwneud trefi a chymunedau bywiog ac yn gyflogwr mawr. Mae disgwyliad cyfiawn gan feddianwyr masnachol eiddo hefyd o amgylchedd sydd yn atyniadol ac yn gynaliadwy ar gyfer eu busnesau. Ond rhaid cael cydbwysedd gydag anghenion y boblogaeth breswyl – mae dyletswydd ar yr awdurdod trwyddedu i warchod mwynderau'r boblogaeth.

3.0.7 Bydd y Cyngor hefyd yn rhoi sylw i ystyriaethau ehangach sydd yn effeithio ar fwynderau unrhyw ardal. Mae'r rhain yn cynnwys sbwriel a baeddu, sŵn, trosedd ar y stryd a chapasiti isadeiledd y sir, adnoddau ac adnoddau'r heddlu i ymdopi â'r mewnlifiad o ymwelwyr, yn enwedig yn ystod y nos.

## 3.1 ATAL TROSEDD AC ANHREFN

3.1.1 Mae atal trosedd ac anhrefn yn amcan yn Neddf Trwyddedu 2003 ac yn gyfrifoldeb pwysig gan Gyngor Gwynedd dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

3.1.2 Mae hyrwyddo'r amcan trwyddedu i atal trosedd ac anhrefn yn gosod cyfrifoldeb ar ddeiliaid trwydded i ddod yn bartneriaid allweddol er mwyn cyflawni'r amcan hwn. Felly, mae'n bwysig bod ymgeisydd am drwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb yn gallu dangos y camau ymarferol fydd yn cael eu dilyn i hyrwyddo'r amcan hwn i'r awdurdod trwyddedu.

3.1.3 Bydd yr awdurdod trwyddedu hefyd yn rhoi ystyriaeth i Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998 ble ceir dyletswydd arno i atal/lleihau trosedd ac anhrefn yn yr ardal.

3.1.4 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried sylwadau Gwasanaeth Heddlu Gogledd Cymru fel y brif ffynhonnell am gyngor ar drosedd ac anhrefn.

3.1.5 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl i bob eiddo fabwysiadu polisi gwirio oedran megis Her 21 neu Her 25.

### CYFFURIAU

3.1.6 Dylai ymgeiswyr ystyried y bydd angen gosod amodau arbennig efallai ar gyfer mathau penodol o leoliadau i leihau'r posibilrwydd o werthiant a'r defnydd o gyffuriau.

3.1.7 Mae cyffuriau'n newid y ffordd mae pobl yn ymddwyn, felly, rheolir eu dosbarthiad a'u meddiant gan y gyfraith. Fel arfer, caiff cyffuriau a reolir eu cynhyrchu a'u cyflenwi'n anghyfreithlon sydd yn denu cysylltiad troseddol o ran eu dosbarthiad. Mae cyffuriau a gynhyrchir yn anghyfreithlon yn aml yn amrywio mewn ansawdd a chryfder. Mae hyn yn rhoi pobl sydd yn cymryd cyffuriau o'r fath mewn perygl.

3.1.8 Mae'r awdurdod trwyddedu yn cydnabod nad yw defnydd o gyffuriau gan bobl mewn amgylchedd clwb yn berthnasol i bob eiddo trwyddedig. Fodd bynnag, gall nifer o leoliadau adloniant megis clybiau nos a lleoliadau dawnsio fod yn boblogaidd gyda defnyddwyr a chyflenwyr cyffuriau.

3.1.9 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn disgwyl i ddeiliaid trwyddedau gymryd pob cam rhesymol i atal cyffuriau rhag mynd i'r eiddo trwyddedig, i gymryd camau priodol i atal camddefnyddio cyffuriau yn yr eiddo a dilyn mesurau ymarferol i atal trasiedïau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau.

3.1.10 Bydd yr awdurdod trwyddedu angen i'r ymgeisydd nodi unrhyw faterion penodol (gan ystyried y math penodol o eiddo ac/neu weithgareddau) sydd yn ymwneud â chyffuriau yn mynd i'w heiddo ac yn cael eu defnyddio yno, ac amlinellu sut yr ymdrinnir â phroblemau yn eu hatodlen weithredu.

## GORUCHWYLWYR DRYSAU (PERSONÉL DIOGELWCH TRWYDDEDIG)

3.1.11 Mae'r awdurdod trwyddedu yn ystyried y bydd rhai eiddo angen goruchwylwyr er diben hyrwyddo lleihad mewn trosedd ac anhrefn ac i ddarparu gweithrediad mwy diogel o'r eiddo yn gyffredinol.

3.1.12 Os derbynnir sylwadau perthnasol, efallai y bydd yr awdurdod trwyddedu yn gosod amod bod angen cyflogi goruchwylwyr drysau (wedi'u cymeradwyo gan yr Awdurdod Diwydiant Diogelwch) yn yr eiddo naill ai bob amser neu ar amseroedd pan fo gweithgareddau trwyddedig penodol yn cael eu cynnal. Pennir niferoedd a chymhareb goruchwylwyr gan yr awdurdod trwyddedu.

## GORCHMYNION MANNAU CYHOEDDUS DYNODEDIG

3.1.13 Mae'r awdurdod yn cefnogi'r defnydd o Orchmynion Mannau Cyhoeddus Dynodedig (GMCD) a'r pŵer newydd i gyflwyno gorchymyn gwarchod man cyhoeddus (GGMC) fel teclyn i atal trosedd ac anhrefn sydd yn gysylltiedig ag alcohol ar y strydoedd.

3.1.14 Mae'r awdurdod yn disgwyl i eiddo sydd yn gweithredu yn yr ardal ble mae GMCD/GGMC wedi'u gweithredu i gael mesurau yn eu lle i sicrhau nad yw eu cwsmeriaid yn cyfrannu at ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd yn gysylltiedig ag yfed.

## TRWYDDEDAU PERSONOL

3.1.15 Mae'r awdurdod trwyddedu'n cydnabod mai ychydig iawn o ddisgresiwn sydd ganddo o ran caniatáu trwyddedau personol. Yn gyffredinol, cyn belled bod gan ymgeisydd gymhwyster wedi'i gymeradwyo gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ac nad oes ganddo euogfarnau troseddol difrifol; rhaid caniatáu'r cais.

3.1.16 Gall Heddlu Gogledd Cymru wrthwynebu'r cais os oes gan ymgeisydd euogfarn berthnasol. Os fydd yr heddlu'n cyflwyno gwrthwynebiad, cynhelir gwrandawiad gan Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog yr awdurdod trwyddedu.

3.1.17 Mewn unrhyw wrandawiad, bydd aelodau'n ystyried yn ofalus p'un a fydd caniatáu'r drwydded er budd yr amcan trosedd ac anhrefn. Bydd yn ystyried difrifoldeb a pherthnasedd yr euogfarn(au), y cyfnod sydd wedi mynd heibio ers i'r drosedd(au) gael ei chyflawni ac unrhyw amgylchiadau lliniarol. Caniateir y cais dim ond os fydd yr is-bwyllgor yn fodlon y byddai gwneud hynny yn hyrwyddo'r amcan hwn.

## 3.2 DIOGELWCH Y CYHOEDD

3.2.1 Mae'r amcan trwyddedu diogelwch y cyhoedd yn ymwneud â diogelwch corfforol pobl sydd yn defnyddio'r eiddo perthnasol. Mae diogelwch corfforol yn cynnwys atal damweiniau ac anafiadau a niweidiau uniongyrchol eraill all arwain o fod yn yfed alcohol. Am fwy o wybodaeth ynglŷn ag effeithiau alcohol ar iechyd yng Nghymru, gweler **Atodiad 3**.

3.2.2 Mae gan ddeiliaid trwydded gyfrifoldeb i sicrhau diogelwch y rhai sydd yn defnyddio eu heiddio fel rhan o'u dyletswyddau dan y Ddeddf. Mae'r rhain yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) diogelwch tân, mynediad i'r gwasanaethau brys, gwaredu gwastraff yn briodol ac aml, defnyddio TCC ac ati.

3.2.3 Mae'r awdurdod trwyddedu wedi'i ymrwymo i sicrhau nad yw diogelwch unrhyw berson sydd yn ymweld ag eiddo trwyddedig, neu'n gweithio ynddynt, dan fygythiad.

3.2.4 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn disgwyl i eiddo gael eu hadeiladu, eu cynnal a'u rheoli yn unol â safonau diogelwch cydnabyddedig, a bydd yn disgwyl i'r ymgeisydd fynd i'r afael â gofynion iechyd a diogelwch yn y gwaith a'r ddeddfwriaeth diogelwch tân.

3.2.5 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn rhoi ystyriaeth benodol i sylwadau gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Heddlu Gogledd Cymru ac Uned Iechyd yr Amgylchedd, Cyngor Gwynedd i benderfynu p'un a yw'r mesurau a gynigir yn addas er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd.

3.2.6 Pan fo'r awdurdod trwyddedu yn ystyried nad yw dyletswyddau iechyd a diogelwch cyffredinol yn ddigon i yswirio gweithgareddau trwyddedig, gall ychwanegu amodau i hyrwyddo diogelwch cyhoeddus os yw'n briodol gwneud hynny ar ôl derbyn sylwadau.

3.2.7 Pan drefnir gweithgareddau gan wirfoddolwyr neu gymuned megis clwb neu gymdeithas, ystyria'r awdurdod trwyddedu ei fod yn ymarfer da i gymryd arno fod yna berthynas cyflogwr/cyflogai yn bodoli a bod yr un lefel o fesurau iechyd a diogelwch yn cael eu darparu.

3.2.8 Mae'r awdurdod trwyddedu yn disgwyl i drefnwyr unrhyw ddigwyddiad ar raddfa fawr, ble mae gweithgareddau trwyddedig yn mynd i gael eu cynnal, baratoi cynllun rheoli digwyddiad sydd yn ymgorffori asesiadau risgiau priodol. Cynghorir trefnwyr digwyddiadau ar raddfa fawr i gysylltu â Grŵp Ymgynghori Digwyddiadau Gwynedd yn ystod cam cynllunio cyntaf y digwyddiad.

3.2.9 Ble bo'n briodol ar gyfer diogelwch y cyhoedd, bydd yr awdurdod trwyddedu yn cynnwys cyfanswm y capasiti o bobl mewn Trwydded Eiddo/Tystysgrif Eiddo Clwb. Pennir y ffigwr hwn mewn ymgynghoriad gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar ôl derbyn sylwadau ganddynt.

## 3.3 ATAL NIWSANS CYHOEDDUS

3.3.1 Rhoddir ystyr statudol i niwsans cyhoeddus mewn sawl darn o ddeddfwriaeth ond ni chaiff ei ddiffinio'n fanwl yn y Ddeddf a chedwir ei ystyr ehangach o ran cyfraith cyffredin.

3.3.2 Mewn amgylchiadau priodol, gall niwsans cyhoeddus gynnwys lleihau mwynderau ac amgylchedd byw a gweithio i pobl eraill sy'n byw a gweithio yn ardal yr eiddo trwyddedig.

3.3.3 Gall pryderon niwsans cyhoeddus gynnwys:

- Sŵn o eiddo
- Ysbwriel
- Parcio Ceir
- Llygredd golau
- Arogleuon atgas
- Ymddygiad/Anhrefn

3.3.4 Mae'r awdurdod trwyddedu wedi'i ymrwymo i sicrhau nad yw mwynderau ac amgylchedd byw a gweithio pobl eraill sydd yn byw a gweithio yn ardal yr eiddo trwyddedig dan fygythiad.

3.3.5 Wrth ystyried effaith bosib eiddo trwyddedig ar yr ardal gyfagos, ystyrir yr hyn a ganlyn:

- y gweithgareddau trwyddedig y gwneir cais drostynt
- yr oriau gweithredu y gwneir cais amdanynt
- capasiti'r eiddo
- cymeriad yr ardal, ac
- agosrwydd i breswylwyr lleol.

3.3.6 Ni fydd yr awdurdod trwyddedu yn gosod amodau ar eiddo trwyddedig na fyddai deilydd y drwydded yn gallu eu rheoli'n uniongyrchol, nac ar faterion nad ydynt yn gysylltiedig ag ardal gyfagos yr eiddo.

3.3.7 Dan y Ddeddf, mae gan Heddlu Gogledd Cymru bwerau i reoli sŵn o'r eiddo. Os oes angen iddynt ddefnyddio'r pwerau hyn gallant gysylltu, ble bo'n ymarferol, gyda'r awdurdod trwyddedu yn unol â'r protocol o ran rhannu gorfodaeth fel yr atodir yn **Atodiad 4.**

3.3.8 Mae'r sŵn a'r aflonyddwch a achosir gan ymddygiad cwsmeriaid sydd yn mynd i'r eiddo neu'n gadael yr eiddo yn ymwneud â chyfrifoldeb personol. I'r perwyl hwn, maent yn amodol ar yr Heddlu'n gorfodi'r ddeddfwriaeth sydd yn ymwneud ag anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

3.3.9 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn cydbwyso'r posibilrwydd am aflonyddwch cyfyngedig mewn cymdogaethau gyda'r angen i annog a hyrwyddo cerddoriaeth fyw, dawns a theatr.

## 3.4 AMDDIFFYN PLANT RHAG NIWED

3.4.1 Mae'r amcan amddiffyn plant rhag niwed yn ymwneud ag amddiffyn plant rhag niwed moesol, seicolegol a chorfforol. Nid yn unig y mae hyn yn cynnwys amddiffyn plant rhag y niweidiau uniongyrchol a gysylltir ag yfed alcohol ond mae hefyd yn amddiffyn plant rhag ecsbloetiaeth rywiol a niweidiau ehangach megis bod yn agored i iaith anweddus ac agored i adloniant oedolion.

3.4.2 Mae'r awdurdod trwyddedu yn cydnabod bod y Ddeddf yn caniatáu i blant gael mynediad agored i bob eiddo trwyddedig, yn amodol ar ddisgresiwn deilydd y drwydded ac unrhyw amodau a osodir ar y drwydded.

3.4.3 Ni chyfyngir ar fynediad i blant i bob math o eiddo oni bai yr ystyrir ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn eu hamddiffyn rhag niwed.

3.4.4 Ni fydd yr awdurdod trwyddedu yn dymuno gosod amodau'n datgan bod plant yn cael mynediad i eiddo trwyddedig. Dylai hynny barhau'n fater o ddisgresiwn i ddeilydd trwydded yr eiddo dan sylw, yn amodol ar y ffaith na fydd unrhyw wrthdaro gyda'r amcan trwyddedu sef amddiffyn plant rhag niwed.

3.4.5 Wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau eiddo, bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried hanes eiddo penodol a natur y gweithgareddau y bwriedir eu darparu, er enghraifft:

- Os cafwyd euogfarnau am weini alcohol i blant dan oed neu os oes gan eiddo enw drwg am yfed dan oed;
- Os oes gan eiddo gysylltiad â delio neu gymryd cyffuriau;
- Os oes yna elfen gref o gamblo yn yr eiddo; (nid yw hyn yn cynnwys eiddo sydd ond yn cynnwys nifer fach o beiriannau chwarae gemau am wobrau ariannol);
- Os oes adloniant ar gyfer oedolion neu natur rywiol yn cael ei ddarparu.

3.4.6 Mewn achosion o'r fath, efallai y bydd yr awdurdod trwyddedu yn gosod amodau ar unrhyw drwydded i:-

- Gyfyngu ar yr oriau y mae plant yn gallu bod yn bresennol
- Cyfyngu ar oedran pobl a ganiateir yn yr eiddo
- Gofyn am bresenoldeb oedolyn gyda phlant
- Cyfyngu neu wahardd mynediad pan fo gweithgareddau penodol yn cael eu cynnal

3.4.7 Os oes yna beiriannau chwarae gemau a gemau siawns gyfartal yn bresennol mewn eiddo trwyddedig, bydd rhaid i'r awdurdod trwyddedu a'r Gwarchodwr Eiddo Dynodedig (GED) fonitro presenoldeb plant.

3.4.8 Os oes nifer fawr o blant yn debygol o fod yn bresennol mewn unrhyw eiddo trwyddedig, neu pan fo perfformwyr ar gyfer plant yn bresennol mewn eiddo trwyddedig, efallai y bydd yr awdurdod trwyddedu angen i nifer priodol o oedolion cyfrifol (fydd wedi darparu tystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd boddhaol) fod yn bresennol i sicrhau eu diogelwch a'u hamddiffyn rhag niwed.

3.4.9 Os caniateir i ffilmiau gael eu dangos, rhaid i'r drwydded neu'r dystysgrif gynnwys amod fydd yn cyfyngu mynediad dim ond i'r rheiny sydd yn bodloni'r cyfyngiad oedran gofynnol yn unol ag unrhyw dystysgrif a roddir gan y *British Board of Film Classification* neu mewn achosion penodol.

3.4.10 Ni chaiff ffilmiau eu dangos mewn eiddo trwyddedig sydd yn debygol o:

- Arwain at anhrefn;
- Creu casineb neu annog trais yn erbyn unrhyw ran o'r cyhoedd ar sail lliw, hil neu darddiad ethnig neu genedlaethol, anabledd, credoau crefyddol, cyfeiriadedd rhywiol neu ryw.

3.4.11 Dylai ymgeiswyr sydd yn gwneud cais am drwydded i gyflenwi alcohol fel rhan o wasanaeth cludo a danfon alcohol gynnwys gweithdrefnau yn eu hatodlen weithredu y maent yn bwriadu eu gweithredu i sicrhau bod:

- Y person maent yn gwerthu'r alcohol iddo dros 18;
- Bod alcohol yn cael ei ddanfon i berson dros 18 yn unig; a
- Bod trywydd clir o ddogfennau am y broses archebu - o wneud yr archeb i ddanfon y cynnyrch - yn cael ei gynnal (gydag amseroedd a llofnodion) a'u bod ar gael i gael eu harchwilio gan swyddog awdurdodedig.

## ADLONIANT OEDOLION

3.4.12 Pan fo'r gweithgareddau a gynigiwyd dan y ddeddf yn cynnwys rhai o natur rywiol (e.e. stripio, gweinyddesau bronnoeth a dawnsio bwrdd) bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried y posibilrwydd am gynnydd mewn risg i'r amcanion trwyddedu.

3.4.13 Fel arfer, ni fydd yr awdurdod trwyddedu yn caniatáu trwyddedau sydd yn ymwneud ag elfen rywiol ger ysgolion, meithrinfeydd, addoldai, ysbytai, clybiau ieuenctid ac eiddo sensitif eraill lle mae nifer sylweddol o blant yn debygol o'u mynychu.

3.4.14 Os oes angen, gosodir amodau pan gaiff trwyddedau o'r fath eu caniatáu sydd wedi'u dylunio i sicrhau na chaiff plant fynediad i'r eiddo ac na allant weld y gweithgareddau hyn na hysbysebion amdanynt, yn ogystal ag amodau angenrheidiol i atal problemau trosedd ac anhrefn.

3.4.15 Os nad yw cais am drwydded eiddo neu dystysgrif clwb yn cyfeirio'n benodol at adloniant oedolion o unrhyw fath, bydd y drwydded neu'r dystysgrif yn nodi nad yw adloniant oedolion yn cael ei awdurdodi.

3.4.16 Rhaid i unrhyw eiddo a ddefnyddir am fwy na 12 achlysur o fewn cyfnod o 12 mis i ddarparu unrhyw adloniant rhywiol perthnasol gael ei drwyddedu fel Lleoliad Adloniant Rhywiol. Mae adloniant rhywiol perthnasol yn cynnwys: dawnsio glin, dawnsio polyn, dawnsio bwrdd, sioeau stripio, sioeau sbecian a sioeau rhyw byw.

# 4. EFFAITH GRONNOL, GORCHMYNION CYFYNGU AR WERTHU ALCOHOL YN FUAN YN Y BORE A'R DRETH HWYR YN Y NOS

## 4.1 EFFAITH GRONNOL

4.1.1 Mae crynodiad eiddo trwyddedig o ran nifer, math a dwysedd mewn ardal benodol a'r effaith gronnol y mae'n ei gael ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu yn fater a gaiff ei ystyried gan yr awdurdod trwyddedu wrth ymgymryd â'i swyddogaethau trwyddedu.

4.1.2 Os oes tystiolaeth fod ardal benodol o'r sir eisoes yn dioddef effeithiau andwyol o ganlyniad i grynodiad o eiddo hwyr yn y nos, neu fod yr ardaloedd preswyl hynny dan straen, rhoddir ystyriaeth i fabwysiadu 'Polisi Dirlawnder'.

4.1.3 Effaith polisi o'r fath yw y gallai awdurdod trwyddedu wrthod ceisiadau am Drwydded Eiddo neu Dystysgrif Eiddo Clwb newydd, neu amrywiad i drwydded neu dystysgrif bresennol, pryd bynnag y derbyniodd sylwadau perthnasol, oni bai y gallai ymgeisydd ddangos pam na fyddai gweithrediad yr eiddo dan sylw yn ychwanegu at yr effaith gronnol sydd eisoes yn cael ei brofi.

4.1.4 Fodd bynnag, ni fyddai'r 'Polisi Dirlawnder' yn absoliwt a byddai unrhyw gais yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau'i hun ac yn derbyn ystyriaeth briodol. Yn ogystal, ni fydd y polisi'n ceisio cyfyngu ar nifer yr eiddo trwyddedig a gaiff eu caniatáu, yn syml oherwydd bod yr awdurdod trwyddedu yn ystyried bod digon o eiddo trwyddedig yn barod i ddiwallu'r galw.

4.1.5 Wrth benderfynu p'un ai i fabwysiadu 'Polisi Dirlawnder' ar gyfer ardal benodol, gall yr awdurdod trwyddedu, ymhlith pethau eraill-

- Gasglu tystiolaeth neu brawf o bryderon difrifol a chronig gan awdurdodau cyfrifol a phartïon â diddordeb am niwsans ac anhrefn
- Adnabod yr ardal lle cyfyd problemau a ffiniau'r ardal honno
- Asesu'r achosion
- Cynnal ymarferiad ymgynghori

4.1.6 Os caiff 'Polisi Dirlawnder' ei fabwysiadu, bydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd i asesu p'un a yw'n angenrheidiol a chymesur.

4.1.7 Cyn sefydlu 'Polisi Dirlawnder', bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried y nifer o fesurau presennol sydd ar gael ac yn berthnasol i daclo ymddygiad anghyfreithlon a gwrthgymdeithasol sydd yn gysylltiedig ag eiddo trwyddedig.

| | | |
|---|---|---|
| Pwerau awdurdodau lleol i ddynodi rhannau o ardal yr awdurdod lleol fel llefydd na cheir yfed alcohol yn gyhoeddus ynddynt ac y gellir atafaelu alcohol yn yr ardaloedd hyn. | Pwerau'r heddlu i gau eiddo neu ddigwyddiadau dros dro am hyd at 24 awr ar sail anhrefn, anhrefn posib neu ormod o sŵn. | Pwerau'r heddlu, awdurdodau cyfrifol, preswylwyr neu fusnesau lleol, neu gynghorwyr i wneud cais am adolygu trwydded eiddo neu dystysgrif clwb. |
| Erlyn deiliaid trwyddedau personol neu aelodau o staff sydd yn gwerthu alcohol i bobl feddw. | Yr heddlu'n gorfodi'r gyfraith gyffredinol sydd yn ymwneud ag anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. | Cymryd rhan mewn cynlluniau cyswllt masnach leol e.e. *Pub watch*. |
| Rheolaeth gynllunio. | Darpariaeth TCC. | Defnydd o staff diogelwch wedi'u hyfforddi a staff eraill. |
| Polisïau rheoli cyffuriau. | | |

## 4.2 GORCHMYNION CYFYNGU AR WERTHU ALCOHOL YN FUAN YN Y BORE (EMRO)

4.2.1 Mae gan yr awdurdod trwyddedu bŵer dan adran 119 **Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011** i wahardd gwerthu alcohol am gyfnod penodol o amser rhwng 12am a 6am, os yw'n briodol i hybu'r amcanion trwyddedu.

4.2.2 Mae Gorchmynion Cyfyngu ar Werthu Alcohol yn Fuan yn y Bore (EMROs) wedi'u dylunio i fynd i'r afael â phroblemau cyson gydag eiddo trwyddedig, niwsans cyhoeddus difrifol ac achosion eraill o ymddygiad gwrthgymdeithasol oherwydd alcohol nad ydynt yn deillio'n uniongyrchol o eiddo penodol.

4.2.3 Rhaid i EMRO nodi:

- ar ba ddyddiau y mae'n weithredol a'r cyfnod amser ar y dyddiau hynny,
- yr ardal berthnasol lle dylid ei weithredu,
- p'un a yw'n weithredol am gyfnod dros dro neu ddiderfyn a
- y dyddiad o pryd y mae'n weithredol.

4.2.4 Effaith EMRO yw bod Trwyddedau Eiddo neu Dystysgrifau Eiddo Clwb a roddir gan yr awdurdod trwyddedu, a Rhybuddion Digwyddiadau Dros Dro a gyflwynir i'r awdurdod trwyddedu, yn aneffeithiol yn yr ardal a nodir ac yn ystod y cyfnod a nodir yn y gorchymyn.

4.2.5 Rhoddir ystyriaeth i wneud EMRO os oes tystiolaeth bod yna broblemau cyson gydag eiddo trwyddedig, niwsans cyhoeddus difrifol ac achosion eraill o ymddygiad gwrthgymdeithasol oherwydd alcohol nad ydynt yn deillio'n uniongyrchol o eiddo penodol.

4.2.6 Cyn gwneud EMRO, bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried y nifer o fesurau presennol sydd ar gael i daclo niwsans cyhoeddus ac ymddygiad gwrthgymdeithasol nad ydynt yn deillio'n uniongyrchol o eiddo penodol.

| | | |
|---|---|---|
| Cyflwyno neu ehangu Polisi Effaith Gronnol. | Adolygu trwyddedau eiddo penodol sy'n peri problemau. | Yr heddlu'n gorfodi'r gyfraith sydd yn ymwneud ag anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. |
| Defnyddio pwerau'r i ddynodi ardal fel lle na cheir yfed alcohol yn gyhoeddus. | Rheolaeth gynllunio | Mesurau cadarnhaol i greu canol trefi diogel a glân drwy weithio mewn partneriaeth gydag eraill. |

4.2.7 Os yw'r awdurdod trwyddedu yn cynnig gwneud EMRO, bydd yn dilyn y gofynion gweithdrefnol a nodir yn Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

## 4.3 Y DRETH HWYR YN Y NOS

4.3.1 Mae gan yr awdurdod trwyddedu bŵer dan adran 125 **Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011** i gyflwyno treth sydd yn daladwy gan ddeiliaid trwydded eiddo a thystysgrifau eiddo clwb sydd yn cyflenwi alcohol rhwng 12am a 6am er mwyn talu am y costau ychwanegol sydd yn gysylltiedig â gwerthu alcohol yn hwyr yn y nos.

4.3.2 Mae deiliaid trwyddedau eiddo a thystysgrifau eiddo clwb sydd yn cyflenwi alcohol rhwng 12am a 6am yn elwa o fodolaeth yr economi hwyr yn y nos. Fodd bynnag, mae trosedd ac anhrefn sydd yn gysylltiedig ag yfed alcohol yn ystod yr economi hwyr yn y nos yn arwain at gostau i'r heddlu, awdurdodau lleol a chyrff eraill.

4.3.3 Pan fo'r awdurdod trwyddedu'n penderfynu dan adran 125 bod angen gweithredu'r dreth hwyr yn y nos yn ei ardal, rhaid iddo hefyd benderfynu-

a. ar ba ddyddiad mae angen gweithredu'r dreth hwyr yn y nos gyntaf, ac
b. ar gyfer blwyddyn gyntaf y dreth a phob blwyddyn dreth ganlynol-
    i. cyfnod cyflenwi yn hwyr yn y nos;
    ii. categorïau sydd wedi'u heithrio a ganiateir (os oes rhai) sydd angen eu gweithredu yn ei ardal;
    iii. categorïau lleihau a ganiateir (os oes rhai) sydd angen eu gweithredu yn ei ardal;
    iv. cyfran y swm net o daliadau'r dreth sydd angen ei thalu i Heddlu Gogledd Cymru.

4.3.4 Rhaid rhannu unrhyw incwm a gynhyrchir gan y dreth rhwng yr awdurdod trwyddedu a Heddlu Gogledd Cymru. Bydd yr heddlu'n derbyn o leiaf 70% o refeniw net y dreth a bydd yr awdurdod trwyddedu'n derbyn hyd at 30% o refeniw net y dreth.

4.3.5 Os oes tystiolaeth bod trosedd ac anhrefn sydd yn gysylltiedig ag yfed alcohol yn ystod yr economi hwyr yn y nos yn arwain at gostau i'r heddlu, awdurdodau lleol a chyrff eraill; bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried p'un ai codi'r dreth hwyr yn y nos yw'r ffordd orau o godi refeniw mewn perthynas â'r costau hyn.

4.3.6 Os yw'r awdurdod trwyddedu yn cynnig cyflwyno'r dreth hwyr yn y nos, bydd yn dilyn y gofynion gweithdrefnol a nodir yn Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

# 5. CYNLLUNIO A RHEOLAETH ADEILADU

5.1 Mae cyfundrefnau cynllunio, rheolaeth adeiladu a thrwyddedu yn sefyll ar wahân er mwyn osgoi dyblygu ac aneffeithiolrwydd. Er fod y materion a ystyrir yn gysylltiedig, materion gwahanol ydyn nhw mewn gwirionedd.

5.2 Mae dau Awdurdod Cynllunio Lleol sydd â chyfrifoldebau cynllunio statudol yng Ngwynedd, sef:

**Cyngor Gwynedd** – sy'n gweithredu yn ardaloedd Arfon, Dwyfor a Meirionnydd sydd y tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri.

**Parc Cenedlaethol Eryri** – sy'n Awdurdod Cynllunio annibynnol ac sy'n gyfrifol am yr ardal gyfan sydd o fewn ei ffiniau.

5.3 Mae polisïau cynllunio Cyngor Gwynedd wedi'u nodi yng 'Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd' ac yn y 'Canllawiau Cynllunio Atodol'. Mae polisïau cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri wedi'u nodi yng 'Nghynllun Datblygu Lleol Eryri" ac yn y 'Canllawiau Cynllunio Atodol'.

5.4 Mae'r ddau Awdurdod Cynllunio yn cydweithio wrth baratoi eu cynlluniau eu hunain er mwyn:

- datblygu polisïau ategol a chydnaws,
- sicrhau cynllunio effeithiol a chynaliadwy yn yr hirdymor, ac uchafu buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

5.5 Yn gyffredinol, mae caniatâd cynllunio yn awdurdodi math o ddefnydd eang ar gyfer eiddo ac mae trwyddedau yn cael eu rhoi ar gyfer math penodol o weithgaredd. Er enghraifft, gall caniatâd cynllunio ar gyfer defnydd adloniant fod ar gyfer gweithgareddau a allai gael effaith eang ac amrywiol ar yr ardal leol. Pan gyflwynir cais am drwydded eiddo mae angen ystyried gwir natur effeithiau'r gweithgareddau penodol a fwriedir gan ymgeisydd.

5.6 Fel arfer, bydd yr awdurdod trwyddedu yn disgwyl bod y caniatâd cynllunio priodol wedi cael ei roi yn barod i unrhyw eiddo cyn y cyflwynir cais trwyddedu. Fodd bynnag, gellir cyflwyno ceisiadau am drwyddedau cyn y gwneir cais am unrhyw ganiatâd cynllunio perthnasol neu cyn y rhoddir caniatâd cynllunio o'r fath.

5.7 Yn ogystal, bydd yr awdurdod, fel arfer, yn disgwyl i'r weithgaredd a awdurdodir gan y drwydded fod yn ddefnydd cynllunio cyfreithiol ac nad yw unrhyw oriau gweithredu a geisir yn mynd yn groes i'r oriau a awdurdodwyd gan y caniatâd cynllunio, os yw hynny'n berthnasol.

5.8 Nid yw'r oriau gweithredu a ganiateir yn y broses drwyddedu yn disodli unrhyw gyfyngiadau a nodwyd fel amod cynllunio. Ymdrinnir ag amodau cynllunio drwy'r broses gynllunio.

| | |
|---|---|
| 5.9 | Cydnabyddir y ceisir datganiad dros dro, ynghyd â chaniatâd cynllunio, mewn rhai amgylchiadau. |
| 5.10 | Bydd yr awdurdod trwyddedu yn annog deiliaid trwydded i ddarparu cyfleusterau sy’n galluogi i bobl gydag anableddau gael mynediad iddynt, gan roi ystyriaeth ddilys i Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Ni osodir unrhyw amodau a ellid eu defnyddio i gyfiawnhau eithrio ar sail diogelwch y cyhoedd. |

# 6. CEISIADAU

6.0.1 Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaethau ar gyfer pedwar math o awdurdodiad neu ganiatâd, fel a ganlyn:

- Trwydded eiddo – i ddefnyddio eiddo ar gyfer gweithgareddau trwyddedig.
- Tystysgrif eiddo clwb – i alluogi clwb cymwys gymryd rhan mewn gweithgareddau clwb cymwys.
- Rhybudd digwyddiad dros dro – i gynnal gweithgareddau trwyddedig mewn digwyddiad dros dro.
- Trwydded bersonol – i werthu neu awdurdodi gwerthiant alcohol o eiddo sydd â thrwydded eiddo.

6.0.2 **Hysbysir ymgeiswyr y nodir y broses ymgeisio ar gyfer pob math o awdurdodiad neu ganiatâd yn fanwl yn y Ddeddf, yn y Rheoliadau ac yn y Canllawiau.**

6.0.3 Rhaid cyflwyno pob cais ar y ffurflen berthnasol gyda'r ffi berthnasol.

6.0.4 Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno ceisiadau yn electronig i'r awdurdod trwyddedu drwy anfon e-bost at **Trwyddedu@gwynedd.gov.uk** neu drwy gyflwyno copi caled. Mae'r holl ffurflenni cais, yn y Gymraeg a'r Saesneg, ar gael i'w lawrlwytho o wefan yr awdurdod trwyddedu. Gellir gwneud cais am ffurflen gais yn uniongyrchol i'r awdurdod trwyddedu drwy ffonio 01766 766000.

6.0.5 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n dyrannu trwyddedau eiddo, tystysgrifau eiddo clwb a thrwyddedau personol yn ddwyieithog.

## 6.1 TRWYDDED EIDDO

6.1.1 Mae'r ffurflen gais berthnasol am drwydded eiddo yn cynnwys yr atodlen weithredu ble mae gofyn i'r ymgeisydd nodi, ymysg pethau eraill, y gweithgareddau trwyddedig arfaethedig sydd i ddigwydd yn yr eiddo, yr amseroedd pan fydd y gweithgareddau'n digwydd, y cyfnod y mae angen y drwydded, p'un a yw'r alcohol a werthir yn yr eiddo am gael ei yfed yn yr eiddo neu i ffwrdd o'r eiddo neu'r ddau, ac yn hanfodol, y camau a fwriedir eu cymryd i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu.

6.1.2 Rhaid darparu cynllun o'r eiddo a ffurflen ganiatâd gan oruchwyliwr dynodedig yr eiddo (ar gyfer ceisiadau ble mae gwerthu alcohol yn weithgaredd drwyddedig), gyda'r cais.

6.1.3 Mae gofyn i ymgeiswyr hysbysebu eu cais yn y ffordd berthnasol ac yn ystod y cyfnod perthnasol yn unol ag Adran 17 y Ddeddf. Ni ellir gwneud penderfyniad ar gais am drwydded eiddo hyd nes bod yr awdurdod trwyddedu'n fodlon bod yr ymgeisydd wedi cydymffurfio â'r gofynion hyn.

6.1.4 Unwaith y cymeradwyir trwydded eiddo, gellir gwneud ceisiadau pellach yn gysylltiedig â hi. Mae'r rhain yn cynnwys:-

- Cais i wyro trwydded eiddo
- Cais i wyro trwydded eiddo i enwi unigolyn fel goruchwyliwr dynodedig yr eiddo
- Cais i drosglwyddo trwydded eiddo
- Hysbysiad awdurdod interim
- Cais i adolygu trwydded eiddo

## DATGANIADAU DROS DRO

6.1.5 Mae'r awdurdod trwyddedu yn cydnabod, mewn amgylchiadau penodol, y bydd angen i fusnesau a datblygwyr gael sicrwydd eu bod yn debygol y bydd trwydded eiddo'n cael ei chymeradwyo yn dilyn adeiladu eiddo newydd neu adnewyddu eiddo presennol sydd heb ei drwyddedu. Bydd yr awdurdod trwyddedu'n cyflwyno datganiadau dros dro yn unol â'r Ddeddf a'r Canllawiau.

## GORUCHWYLWYR DYNODEDIG YR EIDDO (DPS)

6.1.6 Rhaid cyflwyno ffurflen ganiatâd gan y person a benodir fel goruchwyliwr eiddo gyda phob cais sy'n penodi person fel goruchwyliwr yr eiddo. Dylai ceisiadau am drwyddedau newydd sy'n awdurdodi gwerthu alcohol gynnwys gwybodaeth berthnasol yr unigolyn y mae'r trwyddedai yn dymuno ei gael wedi'i enwi ar y Drwydded Eiddo fel goruchwyliwr yr eiddo.

6.1.7 Fel arfer, bydd Awdurdodau Cyfrifol yn ystyried datblygu perthnasau gwaith adeiladol gyda Goruchwylwyr Dynodedig yr Eiddo, a disgwylia'r awdurdod trwyddedu i hon fod yn berthynas ddwy-ffordd er mwyn hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth effeithiol yn y maes.

6.1.8 Mewn amgylchiadau eithriadol, gall Heddlu Gogledd Cymru wrthwynebu penodiad unigolyn fel Goruchwyliwr Dynodedig yr Eiddo.

6.1.9 Os fydd yr heddlu'n gwrthwynebu, ac os yw'r awdurdod trwyddedu'n fodlon y byddai penodi person penodol fel Goruchwyliwr Dynodedig yr Eiddo yn tanseilio'r amcan trwyddedu o atal trosedd; y polisi yw gwrthod y penodiad neu gael gwared ar y person dan sylw fel Goruchwyliwr Dynodedig yr Eiddo os ydyw'n ymgymryd â'r swydd honno'n barod.

## TROSGLWYDDO TRWYDDED EIDDO

6.1.10 Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaethau fel y gall unrhyw berson a allai wneud cais am drwydded eiddo hefyd wneud cais i drwydded eiddo gael ei throsglwyddo iddynt hwy. Mae cais i drosglwyddo trwydded eiddo yn newid pwy yw deilydd y drwydded ac nid yw'n newid y drwydded mewn unrhyw ffordd arall.

6.1.11 Rhaid i Heddlu Gogledd Cymru gael hysbysiad o'r cais yn unol â gofynion y Ddeddf. Os ydynt o'r farn y gallai'r trosglwyddiad danseilio'r amcan o atal trosedd, gallant wrthwynebu'r trosglwyddiad drwy hysbysu'r awdurdod trwyddedu o fewn 14 diwrnod.

6.1.12 Pan fo angen caniatâd gan ddeilydd y drwydded i drosglwyddo'r drwydded eiddo ond ble **nad** oes caniatâd wedi'i gael, rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno tystiolaeth i fodloni'r awdurdod trwyddedu bod **POB** cam rhesymol wedi'i gymryd i geisio cael caniatâd. Mae camau rhesymol yn cynnwys rhoi cyfnod rhesymol o amser i ddeilydd y drwydded ymateb/rhoi caniatâd.

## 6.2 TYSTYSGRIF EIDDO CLWB

6.2.1 Mae'r ffurflen gais berthnasol ar gyfer tystysgrif eiddo clwb yn cynnwys yr atodlen weithredu ble mae gofyn i'r ymgeisydd nodi, ymysg pethau eraill, y gweithgareddau trwyddedig arfaethedig sydd i ddigwydd yn yr eiddo clwb, yr amseroedd pan fydd y gweithgareddau'n digwydd, y cyfnod y mae angen y drwydded, p'un a gyflenwir alcohol i aelodau ai peidio, ac yn hanfodol, y camau a fwriedir eu cymryd i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu.

6.2.2 Rhaid darparu cynllun o'r eiddo a datganiad am dystysgrif eiddo clwb gyda'r cais.

6.2.3 Mae gofyn i ymgeiswyr hysbysebu eu cais yn y ffordd berthnasol ac yn ystod y cyfnod perthnasol yn unol ag Adran 17 y Ddeddf. Ni ellir gwneud penderfyniad ar gais am dystysgrif eiddo clwb hyd nes bod yr awdurdod trwyddedu'n fodlon bod yr ymgeisydd wedi cydymffurfio â'r gofynion hyn.

6.2.4 Unwaith y rhoddir tystysgrif eiddo clwb, gellir gwneud ceisiadau pellach yn gysylltiedig â hi. Mae'r rhain yn cynnwys:-

- Cais i wyro tystysgrif eiddo clwb
- Cais am fân wyriad i dystysgrif eiddo clwb
- Cais i adolygu tystysgrif eiddo clwb

### GOFYNIAD I HYSBYSEBU AC ARDDANGOS CEISIADAU

6.2.5 Pan fo gofyn i ymgeisydd gyhoeddi hysbysiad o'i gais mewn papur newydd lleol, bydd yr awdurdod trwyddedu angen cael copi o'r hysbysiad gan yr ymgeisydd cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosib wedi i'r hysbysiad gael ei gyhoeddi.

6.2.6 Pan fo gofyn i ymgeisydd arddangos hysbysiad mewn lleoliad amlwg neu yn yr eiddo ble y gellir ei ddarllen yn hwylus o'r tu allan i'r eiddo; ble y bo'n ymarferol, bydd yr awdurdod trwyddedu'n ymweld â'r eiddo yn ystod y cyfnod ymgynghori i wirio bod hysbysiad yn cael ei arddangos yn amlwg yn yr eiddo neu arno.

6.2.7 Mae'r awdurdod trwyddedu'n annog pob ymgeisydd i gyhoeddi hysbysiad dwyieithog o'i gais yn y Gymraeg a'r Saesneg.

# 6.3 RHYBUDDION DIGWYDDIAD DROS DRO (TEN)

6.3.1 Bwriad Rhybudd Digwyddiad Dros Dro yw gweithredu fel proses syml i'w dilyn er mwyn cynnal gweithgareddau trwyddedig dros dro. Yn wahanol i Drwyddedau Eiddo a Thystysgrifau Eiddo Clwb, nid yw'r awdurdod trwyddedu'n caniatáu Rhybuddion Digwyddiad Dros Dro. Yn lle hynny, mae defnyddiwr yr eiddo'n hysbysu'r awdurdod trwyddedu o'i fwriad i gynnal digwyddiad.

6.3.2 Mae dau fath o Rybudd Digwyddiad Dros Dro; Rhybudd Digwyddiad Dros Dro Safonol a Rhybudd Digwyddiad Dros Dro Hwyr. Ni chyflwynir Rhybudd safonol ddim hwyrach na 10 diwrnod gwaith cyn y digwyddiad a chyflwynir Rhybudd hwyr rhwng 5 a 9 diwrnod gwaith cyn y digwyddiad. **Bydd Rhybudd hwyr a gyflwynir lai na 5 diwrnod gwaith cyn y digwyddiad yn cael ei ddychwelyd fel un annilys ac ni awdurdodir unrhyw weithgareddau y mae'r rhybudd yn ymwneud â hwy.**

6.3.3 Mae nifer o gyfyngiadau wedi'u gosod ar ddefnyddio Rhybuddion Digwyddiad Dros Dro, yn cynnwys sawl tro y gall defnyddiwr eiddo gyflwyno Rhybudd Digwyddiad Dros Dro, sawl tro y rhoddir Rhybudd Digwyddiad Dros Dro i eiddo penodol, hyd mwyaf digwyddiad, a'r uchafswm o bobl a all fynychu'r digwyddiad ar unrhyw adeg benodol.

6.3.4 Rôl yr awdurdod trwyddedu yw gwirio y glynir at y cyfyngiadau a nodir yn y Ddeddf. Pan nad yw Rhybudd Digwyddiad Dros Dro o fewn y cyfyngiadau diffiniedig, bydd yr awdurdod trwyddedu'n cyflwyno gwrth-hysbysiad i ddefnyddiwr yr eiddo. Fel arall, bydd yr awdurdod trwyddedu'n cydnabod y Rhybudd, a gellir gwneud hynny'n electronig.

6.3.5 Gall Heddlu Gogledd Cymru ac Iechyd yr Amgylchedd wrthwynebu Rhybudd Digwyddiad Dros Dro o fewn tri diwrnod gwaith o'i dderbyn. Gellir gwrthwynebu ar sail unrhyw un o'r amcanion trwyddedu. Pan wrthwynebir Rhybudd Digwyddiad Dros Dro hwyr, cyflwynir gwrth-hysbysiad ac ni fydd y Rhybudd yn ddilys. Pan wrthwynebir Rhybudd Digwyddiad Dros Dro safonol, bydd y gwrth-hysbysiad yn cael ei ystyried mewn gwrandawiad.

6.3.6 Gellir gwneud addasiadau i Rybudd Digwyddiad Dros Dro safonol yn dilyn ymgynghoriad a chytundeb â Heddlu Gogledd Cymru **AC** Uned Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Gwynedd; fodd bynnag, **nid oes sgôp dan y Ddeddf i addasu Rhybudd Digwyddiad Dros Dro hwyr.**

6.3.7 Er nad yw digwyddiadau dros dro yn agored i'r un lefel o reolaeth ag eiddo sy'n destun trwydded eiddo, anogir defnyddiwr yr eiddo i'w trefnu mewn ffordd sy'n cefnogi'r holl amcanion trwyddedu.

6.3.8 Nid yw Rhybudd Digwyddiad Dros Dro yn dileu'r gofyn i'r ymgeisydd lynu at unrhyw ofyn cynllunio cyfreithiol i gael caniatâd cynllunio ble bo angen.

6.3.9 Mae'n rhaid rhoi rhybudd o ddeg diwrnod gwaith fan leiaf ar gyfer Rhybudd Digwyddiad Dros Dro safonol; fodd bynnag, er mwyn medru cynnal ymgynghoriad agored, **mae'r awdurdod trwyddedu'n annog ymgeiswyr i roi rhybudd o 20 diwrnod gwaith.**

6.3.10 Dylai Heddlu Gogledd Cymru **neu** Uned Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Gwynedd gyflwyno copi o Rybudd Digwyddiad Dros Dro safonol sydd wedi'i addasu i'r awdurdod trwyddedu fel prawf o'r cytundeb gyda defnyddiwr yr eiddo, yr Heddlu a'r gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd.

## 6.4 TRWYDDED BERSONOL

6.4.1 Mae Trwydded Bersonol yn caniatáu i'r deilydd werthu alcohol ar ran unrhyw fusnes sydd â thrwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb. Mae'r drwydded bersonol wedi'i dylunio i sicrhau bod unrhyw un sy'n rhedeg neu'n rheoli busnes sy'n gwerthu neu'n cyflenwi alcohol yn gwneud hynny mewn ffordd broffesiynol.

6.4.2 Gall deilydd trwydded bersonol weithredu fel goruchwyliwr dynodedig yr eiddo ar gyfer unrhyw fusnes sy'n gwerthu neu'n cyflenwi alcohol.

6.4.3 Dylid anfon ceisiadau at yr awdurdod trwyddedu sy'n gweithredu yn yr ardal ble mae'r ymgeisydd yn byw, ac nid at yr awdurdod sy'n gweithredu yn lleoliad yr eiddo trwyddedig.

6.4.4 Pan fo gan ymgeisydd gollfarn sydd heb ddarfod am drosedd berthnasol neu drosedd dramor, bydd yr awdurdod trwyddedu'n rhoi gwybod i Heddlu Gogledd Cymru. Os fydd yr heddlu'n gwrthwynebu ar sail atal trosedd, mae gan yr ymgeisydd hawl i gael gwrandawiad gerbron yr awdurdod trwyddedu. Os nad yw'r Heddlu'n cyflwyno gwrthwynebiad a bod y cais yn bodloni gofynion y Ddeddf ymhob ffordd arall, mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu gymeradwyo'r cais.

6.4.5 Mae trwyddedau personol yn parhau'n ddilys hyd oni iddynt gael eu hildio, eu hatal, eu diddymu neu i'r llysoedd ddatgan eu bod wedi'u fforffedu.

6.4.6 Mae'r Ddeddf yn gofyn i ddeilydd trwydded bersonol roi gwybod i'r awdurdod trwyddedu am unrhyw newidiadau i'w enw neu i'w cyfeiriad, am unrhyw gollfarnau am droseddau perthnasol ac am unrhyw gollfarnau am droseddau tramor.

6.4.7 Diddymwyd yr angen i adnewyddu trwydded bersonol o'r Ddeddf yn sgil Deddf Dadreoli 2015. Er bod dyddiad terfyn ar drwyddedau personol a gymeradwywyd cyn Deddf Dadreoli 2015, bydd y trwyddedau hyn yn parhau'n ddilys ac ni fydd dyddiadau o'r fath yn parhau mewn grym.

# 7. ATODLEN WEITHREDU

7.1 Mae'r awdurdod trwyddedu'n annog ymgeiswyr yn gryf i drafod ceisiadau arfaethedig â swyddog trwyddedu a'r awdurdodau cyfrifol yn gynnar a chyn cyflwyno'r cais ei hun. Dylai hyn dynnu sylw at broblemau posib a chynorthwyo i greu partneriaeth weithio dda. Yn ogystal, gall leihau'r angen am wrandawiad yn hwyrach ymlaen yn y broses.

7.2 Wrth ystyried sut i ddatblygu eu hatodlenni gweithredu, cynghorir ymgeiswyr i gysylltu â'r awdurdodau cyfrifol am arweiniad.

7.3 Anogir ymgeiswyr i ymgyfarwyddo ag unrhyw bolisïau cynllunio a thrafnidiaeth, strategaethau twristiaeth a diwylliannol a strategaethau trosedd ac anhrefn lleol sy'n berthnasol a'u hystyried ble bo'n briodol wrth fynd ati i lunio eu hatodlenni gweithredu.

7.4 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n disgwyl i bob ymgeisydd fanylu sut y byddant yn hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu yn eu hatodlenni gweithredu, gan ystyried y math o eiddo dan sylw, y gweithgareddau trwyddedig arfaethedig, y dulliau gweithdrefn, natur y lleoliad ac anghenion y gymuned leol.

7.5 Mae'r awdurdod yn ystyried bod atodlen weithredu benodol sydd wedi'i llunio'n dda yn dangos bod ymgeisydd yn deall ac yn barod i gwrdd â chyfrifoldebau deilydd trwydded dan y Ddeddf.

7.6 Mae'r awdurdod yn ystyried bod atodlen weithredu wag neu un sydd heb fawr o gynnwys yn rhoi'r argraff nad yw'r ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i gyfrifoldebau deilydd trwydded.

# 8. ORIAU GWEITHREDU

8.1 Mae'r awdurdod trwyddedu'n cydnabod bod cael sawl eiddo sy'n cau ar yr un amser mewn rhai ardaloedd yn gallu arwain at gyfnodau penodol o niwsans ac anhrefn wrth i lawer o bobl ddod allan ar y strydoedd ar yr un adeg. Gall hyn, o bosib, arwain at achosi gwrthdaro mewn lleoliadau gwerthu bwyd min nos, ranciau tacsi a gwasanaethau min nos eraill. O ganlyniad, mae'r awdurdod trwyddedu'n cydnabod y gall oriau trwyddedu hyblyg fod yn ffactor bwysig wrth geisio lleihau problemau o'r fath.

8.2 Gwneir penderfyniad ar bob cais yn ôl ei haeddiant ei hun, ond fel arfer, bydd yr oriau a geisir gan yr ymgeisydd yn cael eu cymeradwyo pan all yr ymgeisydd ddangos hyd foddhad yr awdurdod trwyddedu na fyddai'r cynigion yn cael effaith andwyol ar ansawdd amgylcheddol, mwynderau preswyl na chymeriad unrhyw ardal benodol.

8.3 Wrth ystyried ceisiadau, bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried cais yr ymgeisydd am oriau cau gan gadw hyn mewn cof:

- Ansawdd amgylcheddol
- Mwynderau preswyl
- Cymeriad neu swyddogaeth ardal benodol, a
- Natur y gweithgareddau arfaethedig sydd i'w darparu.

Cymeradwyir yr oriau cau fel arfer pan all yr ymgeisydd ddangos na fyddai'r cynnig yn cael effaith andwyol ar unrhyw un o'r nodweddion uchod.

8.4 Ble bo alcohol yn cael ei werthu, dylai ceisiadau nodi arnynt yr amser y byddai gwerthu alcohol yn gorffen a'r amser y byddai'r eiddo yn cau.

8.5 Fel arfer, caniateir i siopau ac archfarchnadoedd werthu alcohol yn ystod yr oriau arferol y maent yn bwriadu bod ar agor, ond gall eiddo unigol, sy'n ganolbwynt i anhrefn a niwsans, fod yn destun cyfyngiadau (yn amodol ar sylwadau).

8.6 Pan wneir cais am oriau hwyr yn enwedig yn cynnwys adloniant, ac os y daw sylwadau perthnasol i law, efallai y gosodir oriau cau cynharach ac fe all fod yn briodol gosod amodau er mwyn cyflawni'r amcanion trwyddedu.

8.7 Nid yw'r polisi hwn yn gosod unrhyw gyfyngiad cyffredinol ar oriau, mewn unrhyw ardal.

# 9. GORFODAETH, ADOLYGIADAU A PHWERAU

## 9.1 GORFODAETH

9.1.1 Mae'r awdurdod trwyddedu wedi sefydlu protocol gorfodaeth ar y cyd gyda Heddlu Gogledd Cymru i sicrhau gorfodaeth effeithlon sydd wedi'i dargedu. Cynhelir cyfarfodydd i fonitro cydymffurfiaeth â gofynion trwyddedu ac i sicrhau bod camau gweithredu priodol a chyfatebol yn cael eu cymryd. Gweler **Atodiad 4.**

9.1.2 Yn gyffredinol, dim ond yn unol ag egwyddorion gorfodaeth cytunedig ac yn unol â Pholisi Gorfodaeth y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd y cymerir camau gweithredu. I'r perwyl hwn, glynir at yr egwyddorion allweddol o gysondeb, tryloywder a bod yn gyfatebol.

9.1.3 Bydd addasiad a wnaed i Ddeddf Trwyddedu 2003 dan delerau Deddf Gostwng Troseddau Treisgar 2006 yn galluogi'r Awdurdod Trwyddedu, ar gais Uwch Swyddog Heddlu, i atodi amodau interim ar drwyddedau wrth aros am adolygiad llawn o'r drwydded.

9.1.4 Unwaith y bydd wedi'i drwyddedu, mae'n hanfodol bod yr eiddo'n cael ei gynnal a'i weithredu mewn ffordd sy'n sicrhau bod yr amcanion trwyddedu yn parhau i gael eu hyrwyddo a'u bod yn cydymffurfio â gofynion penodol y Ddeddf.

9.1.5 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn gwneud trefniadau i fonitro eiddo, cynnal archwiliadau a chymryd camau gweithredu priodol os yw o'r farn bod angen gwneud hynny i gefnogi a hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

9.1.6 Pan fo amodau wedi'u gosod ar drwydded, gall person awdurdodedig o'r awdurdod trwyddedu archwilio'r eiddo ar unrhyw adeg resymol er mwyn gwirio y glynir at yr amodau hynny.

9.1.7 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried cyflwyno rhybudd anffurfiol ysgrifenedig i ddeiliaid trwydded sy'n argymell gwelliannau mewn cyfnod o amser penodol os yw o'r farn bod hynny'n angenrheidiol i gefnogi a hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

## 9.2 ADOLYGIADAU

9.2.1 Ar ôl caniatáu trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb, gall **awdurdod cyfrifol** neu **unigolyn arall** ofyn i'r awdurdod trwyddedu adolygu'r trwydded neu dystysgrif ar unrhyw adeg yn sgil mater sy'n codi yn yr eiddo mewn perthynas ag unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu.

9.2.2 Mae'r broses adolygu'n rhoi gwarchodaeth allweddol i'r gymuned ble mae problemau sy'n gysylltiedig â'r amcanion trwyddedu'n digwydd mewn eiddo neu glwb.

9.2.3 Rhaid i'r awdurdod trwyddedu adolygu trwydded os yw'r eiddo y mae'n ymwneud ag ef yn destun gorchymyn cau gan yr heddlu neu os yw'r heddlu wedi gwneud cais am adolygiad diannod ar y sail bod yr eiddo'n gysylltiedig â throsedd ac / neu anhrefn difrifol.

9.2.4 Ym mhob achos, rhaid i gais am adolygiad ymwneud ag eiddo neu glwb penodol ac mae'n rhaid iddo fod yn berthnasol i hyrwyddo un neu fwy o'r amcanion trwyddedu.

9.2.5 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn gwrthod cais am adolygiad os yw'r ymgeisydd yn methu â darparu tystiolaeth nad ydyw un neu fwy o'r amcanion trwyddedu'n cael eu bodloni neu os nad yw'r rheswm am yr adolygiad yn ymwneud â'r amcanion trwyddedu.

9.2.6 Yn ogystal, bydd yr awdurdod trwyddedu yn gwrthod cais am adolygiad os ydyw o'r farn ei fod yn wamal, yn drallodus neu'n ailadroddus.

9.2.7 Mae'r awdurdod trwyddedu yn ystyried ei bod yn arfer dda i'r holl bersonau awdurdodedig sydd â phryderon am broblemau a ganfuwyd mewn eiddo i roi rhybudd cynnar i ddeiliaid trwydded o'u pryder ac o'r angen am welliannau, a dylent gynghori deilydd y drwydded o'r camau y mae angen eu cymryd i fynd i'r afael â'r pryderon hynny ble bo modd.

## 9.3 PWERAU

9.3.1 Mae'r Ddeddf yn rhoi amrediad o bwerau statudol i'r awdurdod trwyddedu ac fe all eu defnyddio wrth wneud penderfyniad ar geisiadau neu ar ôl iddo dderbyn rhybudd.

### GWAHARDD AM BEIDIO Â THALU FFIOEDD BLYNYDDOL AM DRWYDDEDAU EIDDO A THYSTYSGRIFAU EIDDO CLWB

9.3.2 Rhaid i ddeiliaid trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb dalu ffi flynyddol i'r awdurdod trwyddedu – swm sy'n cael ei bennu yn sgil gwerth treth annomestig yr eiddo. Daw'r ffi flynyddol yn ddyledus ac yn daladwy bob blwyddyn ar yr un dyddiad ac y cafodd y drwydded/tystysgrif ei chymeradwyo'n wreiddiol.

9.3.3 Mae'r ffi yn daladwy p'un a yw deilydd y drwydded gyfredol yn bwriadu cau'r busnes ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn i ddod neu os yw wedi cymryd y busnes drosodd ar ganol y flwyddyn.

9.3.4 Mae gan awdurdodau trwyddedu bwerau i wahardd y Drwydded Eiddo neu'r Dystysgrif Eiddo Clwb, ac mae gofyn iddynt wneud hynny, os nad yw'r ffi flynyddol wedi cael ei thalu.

9.3.5 Os oes unrhyw anghydfod ynghylch cyfanswm y ffi ac / neu wir gamgymeriad gweinyddol (a wnaed gan ddeilydd y drwydded / yr awdurdod trwyddedu neu unrhyw un arall), cyn i'r ffi ddod yn ddyledus, rhoddir Cyfnod Gras Statudol o 21 diwrnod fel bo modd dod i gytundeb ar yr anghydfod.

9.3.6 Os na ddatrysir yr anghydfod neu'r camgymeriad yn ystod y cyfnod o 21 diwrnod, RHAID i'r awdurdod trwyddedu wahardd y drwydded ac ni fydd modd i unrhyw weithgareddau trwyddedig gael eu cynnal.

9.3.7 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n hysbysu deilydd y drwydded o'r gwaharddiad yn ysgrifenedig ac yn nodi arno o ba ddyddiad y bydd y gwaharddiad mewn grym. Bydd y diwrnod y daw'r gwaharddiad mewn grym o leiaf 2 ddiwrnod gwaith ar ôl y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad.

9.3.8 Unwaith y bydd y taliad wedi'i dderbyn, gellir dileu'r gwaharddiad. Mae'r gwaharddiad yn dod i ben ar y diwrnod y mae'r awdurdod trwyddedu'n derbyn taliad am y ffi sy'n ddyledus.

# 10. Y BROSES DRWYDDEDU

10.0.1 **Hysbysir ymgeiswyr y nodir y broses ymgeisio ar gyfer pob math o awdurdodiad neu ganiatâd yn fanwl yn y Ddeddf, yn y Rheoliadau ac yn y Canllawiau.**

10.0.2 Rhaid cyflwyno pob cais ar y ffurflen berthnasol gyda'r ffi berthnasol.

10.0.3 Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno ceisiadau yn electronig i'r awdurdod trwyddedu drwy anfon e-bost at **Trwyddedu@gwynedd.gov.uk** neu drwy gyflwyno copi caled. Mae'r holl ffurflenni cais, yn y Gymraeg a'r Saesneg, ar gael i'w lawrlwytho o wefan yr awdurdod trwyddedu. Gellir gwneud cais am ffurflen gais yn uniongyrchol i'r awdurdod trwyddedu drwy ffonio 01766 766000.

## 10.1 Y LLWYBR GWNEUD CAIS

10.1.1 Ystyrir y bydd y mwyafrif o'r swyddogaeth drwyddedu yn weinyddol ei natur, h.y. ni fydd llawer o feysydd cynhennus gyda cheisiadau a rhybuddion. Er cyflymder, effeithiolrwydd a bod yn gost effeithiol, swyddogion fydd yn ymdrin â'r awdurdodiadau hyn gan amlaf.

10.1.2 Er mwyn i sylwadau fod yn berthnasol, rhaid iddynt:

- fod yn gysylltiedig â hyrwyddo un o'r pedwar amcan trwyddedu;
- gael eu gwneud gan awdurdod cyfrifol neu berson arall o fewn cyfnod penodol
- beidio â chael eu tynnu'n ôl; ac
- o ran sylwadau a wneir gan bobl eraill, rhaid iddynt fod yn rhai nad yw'r awdurdod trwyddedu o'r farn eu bod yn wamal neu'n drallodus.

10.1.3 Pan nad oes unrhyw **sylwadau perthnasol** yn gysylltiedig â chais, bydd y drwydded yn cael ei chymeradwyo ar yr amod bod y cais wedi'i gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf.

10.1.4 Pan wneir sylwadau perthnasol ar gais a bo'r cais wedi'i gyflwyno'n unol â gofynion y Ddeddf, gwneir penderfyniad ar y cais yn unol â gofynion y Ddeddf.

10.1.5 Gall sylwadau fod yn rhai cadarnhaol neu negyddol, ond os mai dim ond sylwadau cadarnhaol a dderbynnir mae'n annhebygol iawn y bydd gofyn cynnal gwrandawiad.

## 10.2 CYFLAFAREDDU

10.2.1 Pan fo sylwadau perthnasol sy'n ymwneud â'r amcanion trwyddedu'n dod i law gan awdurdodau cyfrifol neu berson arall, bydd yr adain drwyddedu'n penderfynu p'un a yw'r sylwad yn berthnasol ai peidio.

10.2.2 Pan fo'r awdurdod trwyddedu'n ystyried bod y sylw'n berthnasol, trefnir **cyfarfod cyflafareddu** rhwng y partïon perthnasol er mwyn ceisio dod o hyd i gyfaddawd rhesymol.

10.2.3 Os na fydd y broses anffurfiol hon yn llwyddiannus, cynhelir gwrandawiad gerbron y pwyllgor trwyddedu. Rhoddir gwybod i'r holl bartïon perthnasol.

10.2.4 Bydd y pwyllgor trwyddedu neu'r is-bwyllgor trwyddedu'n gwneud penderfyniad ar y cais a bydd manylion y penderfyniad hwnnw'n cael eu cylchredeg i'r holl bartïon dan sylw.

## 10.3 AMODAU

10.3.1 Mae'r amodau sydd ynghlwm â thrwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb yn bwysig wrth osod y paramedrau ble y gall eiddo weithredu'n gyfreithiol ynddynt.

10.3.2 Mae tri math o amod y gellir ei lynu at drwydded neu dystysgrif; arfaethedig, wedi eu gorfodi a gorfodol. Gweler **Atodiad 5** am yr Amodau Gorfodol cyfredol sydd i'w cynnwys ar bob trwydded ac/neu tystysgrif eiddo clwb yn yr amgylchiadau a nodir.

10.3.3 Mae'r awdurdod trwyddedu'n cydnabod pan na ddaw sylwadau i law gan awdurdodau cyfrifol neu bartïon â diddordeb ar gais, ei bod yn ddyletswydd arno i gymeradwyo'r drwydded neu'r dystysgrif gydag amodau sy'n gyson ag atodlen weithredu'r ymgeisydd ac unrhyw amodau gorfodol a nodir gan y Ddeddf.

10.3.4 O ran yr amodau arfaethedig, ni fydd yr awdurdod trwyddedu'n ailadrodd y cynnwys yn atodlen weithredu'r ymgeisydd. Bydd yr awdurdod trwyddedu'n dehongli'r amod yn unol â bwriad yr ymgeisydd ac yn llunio'r amod yn unol â'r egwyddorion amodau trwydded a welir isod.

10.3.5 Ni fydd yr awdurdod trwyddedu'n gosod unrhyw amodau oni bai fod ganddo ddisgresiwn i wneud hynny yn sgil sylwadau perthnasol a'i fod wedi'i fodloni mewn gwrandawiad bod angen gosod amodau yn sgil y sylwadau a godwyd. Dim ond ar yr adeg honno y bydd yn gosod amodau o'r fath sy'n briodol ac yn gyfatebol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ar ôl ystyried y sylwadau.

10.3.6 Wrth osod amodau, bydd yr awdurdod trwyddedu'n defnyddio geiriau fel "rhaid" a "bydd" a bydd yn ystyried yr egwyddorion amodau trwydded a ganlyn.

**Egwyddorion amodau trwydded:**

- Rhaid iddynt fod yn briodol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu;
- Rhaid iddynt fod yn bendant ac yn rhai y gellir eu gorfodi;
- Rhaid iddynt fod yn eglur a chlir o ran yr hyn y maent yn ceisio'i gyflawni;
- Ni ddylent ddyblygu unrhyw ofynion statudol eraill neu unrhyw ddyletswyddau neu gyfrifoldebau eraill a roddwyd ar y cyflogwr gan ddeddfwriaeth arall;
- Rhaid iddynt gael eu teilwra er dibenion math, lleoliad a nodweddion unigol yr eiddo a'r digwyddiadau dan sylw;
- Ni ddylent fod yn safonol ac fe allai fod yn anghyfreithlon os na ellir dangos eu bod yn briodol er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu mewn achos unigol;
- Ni ddylent ailadrodd troseddau a nodir yn y Ddeddf neu mewn deddfwriaeth arall;
- Dylent fod yn gyfatebol, yn gyfiawnadwy ac yn gyraeddadwy;
- Ni allant geisio rheoli ymddygiad cwsmeriaid unwaith y maent y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol deilydd y drwydded a'i staff, ond fe allant effeithio ar ymddygiad cwsmeriaid yn yr ardal ger yr eiddo wrth iddynt fynd i mewn neu ddod allan ohono; a
- Dylid eu hysgrifennu mewn fformat cyfarwyddol.

10.3.7 Wrth osod amodau ar drwydded, bydd yr awdurdod trwyddedu'n ymwybodol o'r angen i osgoi mesurau a allai atal cerddoriaeth fyw, dawns neu theatr wrth osod costau anuniongyrchol sylweddol fel rhan ohonynt, cyhyd ag y bo'n bosib.

10.3.8 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n ymdrechu i sicrhau y rhoddir eglurhad llawn i'r ymgeisydd o benderfyniad os gwneir penderfyniad sy'n groes i'r canllawiau Statudol.

10.3.9 Mae'r awdurdod trwyddedu'n cydnabod y Canllawiau o ran bod angen cydbwyso barn grwpiau lleol bychan â diddordebau cyffredinol a buddion diwylliannol ehangach y gymuned.

10.3.10 Os daw sylwadau i law ynghylch y posibilrwydd am elfen o niwsans mewn cymdogaeth benodol, bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried hynny yn erbyn y buddion ehangach i'r gymuned.

10.3.11 Pan wneir addasiadau neu ychwanegiadau i amodau gorfodol dan y Ddeddf, fe ymdrinnir â hwy fel petaent wedi'u cynnwys ar y trwyddedau neu'r tystysgrifau presennol ar y dyddiad y dônt i rym. Nid oes rhaid i'r awdurdod trwyddedu ail-gyflwyno trwyddedau neu dystysgrifau i gynnwys yr amodau gorfodol addasedig ynddynt ond fe wnânt hynny os y daw cyfle i wneud hynny.

# 11. DIRPRWYO, Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GWNEUD PENDERFYNIADAU

11.1 Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaethau bod swyddogaethau'r awdurdod trwyddedu, yn cynnwys ei benderfyniadau, i gael eu gwneud gan ei bwyllgor trwyddedu (ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud â gwneud datganiad polisi trwyddedu). Yng Nghyngor Gwynedd, cyfeirir at y pwyllgor hwn fel y **Pwyllgor Trwyddedu Canolog** ac mae 15 o aelodau yn gwasanaethu arno.

11.2 Gall y pwyllgor trwyddedu ddirprwyo'r swyddogaethau hyn i is-bwyllgorau neu, mewn achosion priodol, i swyddogion sy'n cefnogi'r awdurdod trwyddedu.

11.3 Mae Pwyllgor Trwyddedu Canolog Cyngor Gwynedd wedi penodi **Is-Bwyllgor Trwyddedu Canolog** i ymdrin â:

- Ceisiadau ble mae sylwadau perthnasol wedi dod i law
- Ceisiadau am drwyddedau personol ble mae gan ymgeiswyr droseddau heb ddarfod
- Ceisiadau i adolygu trwyddedau eiddo / tystysgrifau clwb
- Penderfyniad i wrthwynebu pan fo'r awdurdod trwyddedu yn ymgynghorai ac nid yn gweithredu fel yr awdurdod perthnasol sy'n ystyried y cais
- Penderfyniad ynghylch gwrthwynebiad i rybudd digwyddiad dros dro.

11.4 Bydd y mwyafrif o benderfyniadau a swyddogaethau yn bennaf weinyddol eu natur heb unrhyw faes cynhennus. Er cyflymder, effeithiolrwydd a bod yn gost effeithiol, swyddogion fydd yn ymdrin â'r rhain gan amlaf.

11.5 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n dirprwyo materion trwyddedu at sylw'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog ac i Swyddogion yn unol â'r canllawiau Dirprwyo Swyddogaethau cymeradwy diweddaraf a gyflwynwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dan Adran 182 y Ddeddf.

# 12. Y GOFRESTR TRWYDDEDU

12.1 Dan y Ddeddf, mae gofyn i bob awdurdod trwyddedu gadw **cofrestr trwyddedu** sy'n cynnwys:

- Cofnod o bob trwydded eiddo, tystysgrif eiddo clwb a thrwydded bersonol a gymeradwywyd ganddo,
- Cofnod o bob rhybudd digwyddiad dros dro a ddaeth i law
- Cofnod o bob cais arall a gyflwynwyd iddo, rhybuddion a roddwyd iddo ac unrhyw wrth-rybudd a roddwyd ganddo, ac
- Unrhyw wybodaeth arall o'r fath a bennir gan reoliadau.

12.2 Bydd yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y gofrestr trwyddedu ar gael i'r cyhoedd ei gweld yn ystod oriau swyddfa, yn rhad ac am ddim, a gellir darparu copi o'r wybodaeth honno ar gais (ffi'n daladwy).

12.3 Gweler crynodeb o'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar y gofrestr trwyddedu ar-lein yn **www.gwynedd.gov.uk**.

12.4 Gall unrhyw berson sy'n dymuno gweld y gofrestr trwyddedu gysylltu â'r awdurdod trwyddedu ar e-bost **Trwyddedu@gwynedd.gov.uk** neu drwy ffonio 01766 766000 i wneud apwyntiad.

12.5 I sicrhau bod y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar y gofrestr yn ddarllenadwy, bydd gofyn i unrhyw berson sy'n dymuno gweld y gofrestr nodi pa ran o'r gofrestr y maent yn dymuno ei weld yn ystod yr apwyntiad.

# ATODIAD 1: RHESTR TERMAU

**Adolygiad** - Yn dilyn caniatáu **trwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb**, gall **awdurdod cyfrifol** neu **unigolyn arall** ofyn i'r awdurdod trwyddedu adolygu'r drwydded neu'r dystysgrif oherwydd mater yn codi yn yr eiddo mewn perthynas ag unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu.

**Amodau** - mae tri math o amodau:

1. **Amodau Arfaethedig** - amodau a gynigir gan yr ymgeisydd yn yr atodlen weithredu.

2. **Amodau Gosodedig** - amodau sydd wedi'u gosod gan yr awdurdod trwyddedu ar ôl iddo dderbyn sylwadau perthnasol.

3. **Amodau Gorfodol** - amodau wedi'u rhagnodi gan y Ddeddf ac sydd wedi'u cynnwys ym mhob trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb pan fo gweithgareddau trwyddedig penodol yn cael eu cynnal.

**Amrywiad (i drwydded eiddo)** - Ceisiadau a wnaed dan a.34 o **Ddeddf Trwyddedu 2003** i amrywio amodau **trwydded eiddo**, er enghraifft yr oriau agor, y gweithgareddau trwyddedig neu'r amodau. Pennir y ffi am amrywio **GED** yn y Ddeddf.

**Amrywiad (i dystysgrif eiddo clwb)** - Ceisiadau a wnaed dan a.84 o **Ddeddf Trwyddedu 2003** i amrywio amodau **tystysgrif eiddo clwb**, er enghraifft y gweithgareddau clwb cymwys neu'r amodau.

**Amrywiad mân (i drwydded neu dystysgrif)** - Ceisiadau a wneir dan a.41A neu a.86A o **Ddeddf Trwyddedu 2003** i wneud amrywiadau risg-isel i delerau **trwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb**. Caiff y ffi am amrywiad mân ei rhagnodi yn y Ddeddf.

**Ardal effaith gronnol** - Ardal y mae'r **awdurdod trwyddedu** wedi ei hadnabod yn ei ddatganiad polisi trwyddedu fel ardal sydd â dirlawnder o eiddo trwyddedig, a gall yr 'effaith gronnol' o gael unrhyw eiddo trwyddedig ychwanegol effeithio'n andwyol ar yr amcanion trwyddedu statudol.

**Arolwg brys/cryno** - Gall prif swyddog yr heddlu wneud cais am arolwg brys/cryno o **drwydded eiddo** oherwydd trosedd ddifrifol ac/neu anhrefn difrifol dan a.53A o **Ddeddf Trwyddedu 2003**.

**Arolwg barnwrol** - Yn cynnwys y rhai ble bu i'r Uchel Lys hysbysu partïon o'i benderfyniad yn ystod y cyfnod penodol yn unig.

**Awdurdod cyfrifol -** Cyrff cyhoeddus y mae'n rhaid eu hysbysu o geisiadau **trwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb** penodol, ac mae ganddynt yr hawl i gyflwyno sylwadau i'r awdurdod trwyddedu. Maent yn cynnwys:

- yr awdurdod trwyddedu ac unrhyw awdurdod trwyddedu arall y mae rhan o'r eiddo wedi'i leoli yn ei ardal,

- prif swyddog yr heddlu ar gyfer unrhyw ardal yr heddlu y mae'r eiddo wedi'u lleoli yno,
- awdurdod tân ac achub unrhyw ardal y mae'r eiddo wedi'u lleoli yno,
- Bwrdd Iechyd Lleol unrhyw ardal y mae'r eiddo wedi'u lleoli yno,
- awdurdod gorfodi Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 ar gyfer unrhyw ardal y mae'r eiddo wedi'u lleoli yno,
- awdurdod cynllunio lleol unrhyw ardal y mae'r eiddo wedi'u lleoli yno,
- yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am leihau neu atal risg llygredd yr amgylchedd, neu risg niwed i iechyd dynol mewn unrhyw ardal y mae'r eiddo wedi'u lleoli yno mewn perthynas â,
- chorff sy'n cynrychioli'r rhai hynny sydd, ynghylch unrhyw ardal, yn gyfrifol am, neu â diddordeb mewn materion yn ymwneud â diogelu plant rhag niwed, ac sy'n gymwys i roi cyngor ar faterion o'r fath,
- mewn perthynas â llong, awdurdod mordwyo sydd â swyddogaeth ynghylch ble yr angorir y llong fel arfer neu unrhyw ddŵr ble y caiff ei mordwyo neu ble y cynigir ei mordwyo ar adeg pan fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau trwyddedig,
- yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am bwysau a mesurau mewn unrhyw ardal y mae'r eiddo wedi'u lleoli yno.

**Awdurdod trwyddedu** - Mae'r awdurdod trwyddedu'n gyfrifol am drwyddedu alcohol, adloniant rheoledig a lluniaeth hwyr yn y nos.

**Bandiau ffioedd** - Wrth bennu swm y ffi trwyddedu ar gyfer ceisiadau am **drwyddedau eiddo** a **thystysgrifau eiddo clwb** newydd, ac amrywiadau llawn i drwyddedau neu dystysgrifau, mae pob eiddo yn disgyn i mewn i fand sy'n seiliedig ar ei werth ardrethol annomestig. Ers cyflwyno Deddf 2003 hyd at 2012/13, roedd y ffioedd am wneud cais yn gysylltiedig â phob band am drwydded neu dystysgrif newydd fel a ganlyn: Band A (£100); Band B (£190); Band C (£315); Band D [dim **lluosogwr**] (£450); trwydded eiddo Band D â **lluosogwr** (£900); Band E [dim lluosogwr] (£635); trwydded eiddo Band E â lluosogwr (£1,905). O ganlyniad, mae'r ffioedd blynyddol sy'n gysylltiedig â thrwydded neu dystysgrif fel a ganlyn: Band A (£70); Band B (£180); Band C (£295); Band D [dim lluosogwr] (£320); trwydded eiddo Band D â lluosogwr (£640); Band E [dim lluosogwr] (£350); trwydded eiddo Band E â lluosogwr (£1,050).

**Clwb cymwys** - Ceir nifer o feini prawf y mae'n rhaid eu diwallu cyn i glwb gael ei ystyried yn glwb sy'n gymwys am dystysgrif eiddo clwb. Dyma'r meini prawf:

- o dan reolau'r clwb, nid oes modd gadael i unigolion gael aelodaeth, neu fod yn ymgeiswyr am aelodaeth, neu unrhyw fraint aelodaeth heb gyfnod o ddau ddiwrnod o leiaf rhwng eu henwebiad am aelodaeth a phan gânt eu derbyn;
- bod y clwb wedi'i sefydlu a'i gynnal yn ddidwyll fel clwb;
- bod gan y clwb o leiaf 25 aelod; ac
- nad oes alcohol yn cael ei gyflenwi i aelodau ar yr eiddo heblaw am gan y clwb neu ar ei ran.

**Diddymu (trwydded bersonol)** - Os yw deilydd **trwydded bersonol** yn cael ei euogfarnu o drosedd yn ystod y cyfnod gwneud cais am drwydded, mae'n bosib y bydd y drwydded yn cael ei diddymu dan a.124 o **Ddeddf Trwyddedu 2003**.

**Fforffedu (trwydded bersonol)** - Gwaharddiad penodol yn dilyn gorchymyn llys dan a.129 o **Ddeddf Trwyddedu 2003** (ble nad yw'r gorchymyn hwnnw wedi'i ddiarddel, yn disgwyl cynnal apêl dan s.129(4) neu 130 o'r Ddeddf).

**Gorchymyn cyfyngu ar werthu alcohol yn fuan yn y bore** - Pŵer dan adran 119 o **Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011** i wahardd gwerthu alcohol am gyfnod penodol rhwng 12am a 6am, os yw hyn yn cael ei ystyried yn briodol er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

**Gorchymyn treth hwyr y nos** - Pŵer ar ddisgresiwn **awdurdodau trwyddedu** dan adran 125 o **Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011**. Caiff y dreth hwyr yn y nos ei thalu gan yr eiddo sydd wedi'u trwyddedu i werthu alcohol yn hwyr yn y nos er mwyn cyfrannu at gostau plismona economi hwyr yn y nos.

**Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig (GED)** - Fel arfer, hwn fydd yr unigolyn fydd deilydd y **drwydded eiddo** wedi rhoi cyfrifoldeb bob dydd iddo i redeg yr eiddo. Dan Ddeddf 2003, rhaid i bob trwydded eiddo sy'n awdurdodi gwerthiant alcohol enwi GED. Rhaid i'r GED fod yn ddeilydd **trwydded bersonol**. Yr unig eithriad yw yn achos eiddo cymunedol sydd wedi gwneud cais llwyddiannus i'r ALl i gael eu heithrio o'r gofyniad.

**Gwerthu diod i'w yfed ar y safle** - Gwerthiant alcohol a chyflenwad alcohol (gan glybiau) i'w yfed ar yr eiddo.

**Gwerthu diod i'w yfed oddi ar y safle** - Gwerthiant alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo.

**Gwrandawiad** - Wedi'i ddefnyddio yng nghyd-destun ceisiadau am **drwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb** sy'n mynd i wrandawiad i benderfynu ar geisiadau am drwydded eiddo, am ddatganiadau dros dro, i amrywio trwydded eiddo, i gael tystysgrif eiddo clwb, ac i amrywio tystysgrifau eiddo clwb.

**Hysbysiad digwyddiad dros dro (HDDD)** - Hysbysiad dan a.100 o **Ddeddf Trwyddedu 2003**, sy'n cael ei ddefnyddio i awdurdodi gweithgareddau trwyddedig cymharol fychain, yn amodol ar feini prawf a chyfyngiadau penodol. Mae ond yn cynnwys hysbysiadau sydd wedi'u darparu'n gywir ac yn briodol yn ystod y cyfnod priodol h.y. nid yw'n cynnwys hysbysiadau a anfonwyd yn ôl oherwydd camgymeriadau ar y ffurflen. Mae hyn hefyd yn cynnwys hysbysiadau y tynnwyd yn eu hôl o ganlyniad. Pennir y ffi am HDDD yn y Ddeddf.

**Ildio (trwydded)** - Os hoffai deilydd trwydded ei hildio, gwneir hyn yn unol â'r darpariaethau dan adran 28 (ar gyfer **trwydded eiddo**), adran 81 (ar gyfer **tystysgrif clwb**) ac adran 116 (ar gyfer **trwydded bersonol**).

**Lluniaeth hwyr yn y nos -** Darpariaeth bwyd neu ddiod poeth i'r cyhoedd, i'w fwyta ar neu oddi ar yr eiddo, rhwng 11pm a 5am, neu gyflenwad bwyd poeth neu ddiod poeth i unrhyw unigolyn rhwng yr oriau hynny ar neu oddi ar eiddo y mae gan y cyhoedd fynediad iddynt.

**Lluosogwr** - Caiff lluosogwyr eu cymhwyso i eiddo sy'n cael eu defnyddio i gyflenwi alcohol yn unig neu yn bennaf i yfed ar yr eiddo dan awdurdodiad **trwydded eiddo** (**bandiau ffioedd** D ac E yn unig).

**Pobl ag Awdurdod -** Cyrff sydd â phŵer i ymgymryd â rolau arolygaeth a gorfodaeth dan Ddeddf Trwyddedu 2003 yw Pobl ag Awdurdod.

**Pobl eraill -** Unrhyw unigolyn, corff neu fusnes sy'n debygol o gael eu heffeithio o ganlyniad i ganiatáu ceisiadau am **drwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb**. Gall pobl eraill gyflwyno sylwadau perthnasol i'r awdurdod trwyddedu perthnasol a gallent wneud cais i adolygu trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb.

**Sylwadau perthnasol** - Sylwadau ynglŷn ag effaith tebygol caniatáu'r cais am **drwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb** ar hyrwyddiad yr amcanion trwyddedu, sy'n cael ei wneud gan awdurdod cyfrifol neu unigolyn arall o fewn y cyfnod a bennir dan adran 17(5)(c) y Ddeddf, nad ydynt wedi'u tynnu'n ôl, ac o ran sylwadau a wneir gan unigolyn arall, nad ydynt, ym marn yr awdurdod trwyddedu cynllunio, yn ddisylwedd neu'n flinderus.

**Trwydded bersonol** - Awdurdodi unigolyn i gyflenwi neu awdurdodi cyflenwi alcohol yn unol â **thrwydded eiddo** dan **Ddeddf Trwyddedu 2003**. Caiff y ffi i wneud cais am drwydded eiddo ei rhagnodi yn y Ddeddf.

**Trwydded eiddo** - Awdurdodi eiddo i'w defnyddio i werthu neu gyflenwi alcohol, darparu adloniant rheoledig neu ddarparu **lluniaeth hwyr yn y nos**, dan **Ddeddf Trwyddedu 2003**. Mae hyn yn cynnwys trwyddedau eiddo â chyfyngiadau amser. Mae ffi trwydded eiddo yn seiliedig ar ei werth ardrethol annomestig. Mae ffioedd gwneud cais yn amrywio o £100 (Band A) i £1,905 (Band E efo lluosogwr); mae ffioedd flynyddol yn amrywio o £70 i £1,050.

**Tystysgrif eiddo clwb -** Awdurdodi **clwb cymwys** i gynnal 'gweithgareddau clwb cymwys' dan **Ddeddf Trwyddedu 2003**. Mae hyn yn cynnwys tystysgrifau sydd â chyfyngiad amser.

**Wedi'i dirymu (trwydded eiddo)** - Ble mae **trwydded eiddo** wedi'i dirymu oherwydd marwolaeth, analluedd, methdaliad ac ati, fel y pennir dan a.27 o **Ddeddf Trwyddedu 2003**. Nid yw'n cynnwys amgylchiadau ble roedd trwydded eiddo'n weithredol am gyfnod cyfyngedig, ond mae'r drwydded bellach wedi dod i ben (e.e. digwyddiadau unwaith ac am byth).

**Wedi'i ddirymu (tystysgrif clwb)** - Ble mae **tystysgrif eiddo clwb** wedi'i ddirymu gan iddo fod yn weithredol am gyfnod cyfyngedig, ond mae'r cyfnod hwnnw bellach wedi dod i ben.

# ATODIAD 2: DIWEDDARIADAU DEDDFWRIAETHOL

## DEDDF DADREOLI 2015

Mae Deddf Dadreoli 2015 yn darparu ar gyfer tynnu neu leihau baich ar fusnesau, unigolion, cyrff sector cyhoeddus ac unigolion.

Y mesurau sy'n effeithio ar Ddeddf Trwyddedu 2003 yw:

A67 - Gwerthu Alcohol: digwyddiadau cymunedol ac ati a gwerthiannau busnes atodol
A68 – Rhybuddion am ddigwyddiadau dros dro: cynnydd yn uchafswm nifer y digwyddiadau bob blwyddyn
A69 – Trwydded bersonol: dim gofyn i'w hadnewyddu
A70 – Gwerthu melysion gwirod i blant dan 16: diddymu'r drosedd
A71 – Lluniaeth hwyr yn y nos
A72 – Tynnu'r gofyn i adrodd am golli neu ddwyn y drwydded ac ati i'r heddlu
A76 – Arddangos ffilmiau mewn eiddo cymunedol

**Gorchymyn DEDDF DADREOLI 2015 (CYCHWYN Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2015 -** Roedd y gorchymyn hwn yn manylu pa ddarpariaethau o Ddeddf Dadreoli 2015 fyddai'n dod i rym ar y dyddiadau a nodwyd. Mae'r dyddiadau sy'n berthnasol i'r mesurau sy'n effeithio ar Ddeddf Trwyddedu 2003 fel a ganlyn:-

**O 1 Ebrill 2015**

A69 – Trwydded bersonol: dim gofyn i'w hadnewyddu

**O 6 Ebrill 2015**

A76 – Arddangos ffilmiau mewn eiddo cymunedol

**O 26 Mai 2015**

A68 – Rhybuddion am ddigwyddiadau dros dro: cynnydd yn uchafswm nifer y digwyddiadau bob blwyddyn o 12 i 15. Bydd yr uchafswm diwygiedig yn berthnasol i flynyddoedd calendr o 1 Ionawr 2016.

A70 – Gwerthu melysion gwirod i blant dan 16: diddymu'r drosedd o werthu melysion gwirod i blant dan 16.

A72 – Tynnu'r gofyn i adrodd am golli neu ddwyn y drwydded ac ati i'r heddlu

**Gorchymyn DEDDF DADREOLI 2015 (CYCHWYN Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2015**

**O 1 Hydref 2015**

A71 – Lluniaeth hwyr yn y nos

Nid yw'r adrannau a ganlyn mewn grym eto.
A67 - Gwerthu Alcohol: digwyddiadau cymunedol ac ati a gwerthiannau busnes atodol

# DEDDF CERDDORIAETH FYW 2012

Bu i Ddeddf Cerddoriaeth Fyw 2012 newid Deddf Trwyddedu 2003 gan ddadreoli perfformiadau cerddoriaeth fyw yn rhannol, a chan ddiddymu rheoliadau am ddarpariaeth cyfleusterau adloniant.

Bu iddi:

- ddiddymu’r gofyniad trwyddedu i gerddoriaeth fyw heb amp sy’n digwydd rhwng 8am ac 11pm ym mhob lleoliad, yn amodol i hawl awdurdod trwyddedu i osod amodau ar gerddoriaeth fyw yn dilyn adolygu trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb mewn perthynas ag eiddo wedi'u hawdurdodi i gyflenwi alcohol i’w yfed ar yr eiddo;

- ddiddymu’r gofyniad trwyddedu i gerddoriaeth fyw ag amp sy’n digwydd rhwng 8am ac 11pm o flaen cynulleidfaoedd o ddim mwy na 200 o bobl ar eiddo wedi’u hawdurdodi i gyflenwi alcohol i’w yfed ar yr eiddo, yn amodol i hawl awdurdod trwyddedu i osod amodau yn ymwneud â cherddoriaeth fyw yn dilyn adolygu trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb;

- ddiddymu’r gofyniad trwyddedu i gerddoriaeth fyw ag amp sy'n digwydd rhwng 8am ac 11pm o flaen cynulleidfaoedd o ddim mwy na 200 o bobl mewn gweithleoedd nad ydynt wedi'u trwyddedu dan Ddeddf 2003 (neu wedi'u trwyddedu ar gyfer darpariaeth hwyr yn y nos yn unig).

- ddiddymu’r gofyniad trwyddedu ar gyfer y ddarpariaeth o gyfleusterau adloniant; ac wedi ehangu’r eithriad trwyddedu ar gyfer cerddoriaeth fyw sy’n hanfodol i berfformiad o ddawnsio ‘*morris’* neu ddawnsio cyffelyb, fel bod yr eithriad yn gymwys i gerddoriaeth fyw neu wedi’i recordio yn hytrach na cherddoriaeth fyw heb amp.


# ATODIAD 3: ALCOHON AC IECHYD YNG NGHYMRU


Mae defnyddio alcohol a'i ganlyniadau yn her iechyd cyhoeddus mawr yng Nghymru, y DU a llefydd eraill. Mae defnydd niweidiol o alcohol yn sgorio ymysg y pum ffactor risg uchaf o ran afiechyd, anableddau a marwolaeth drwy'r byd.

Mae alcohol ymhlyg iawn mewn trosedd ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol a materion megis trais domestig a throseddau casineb. Mae cam-drin alcohol yn arwain at gostau sylweddol i'r GIG, o ran gofal damweiniau a brys a'r driniaeth hir-dymor o salwch yn ymwneud ag alcohol ac o fod yn gaeth i alcohol.

Cyhoeddodd Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru yr erthygl **Alcohol ac Iechyd yng Nghymru 2014**. Dyma rai o'r negeseuon allweddol:

- Alcohol yw un o'r prif achosion marwolaeth a salwch yng Nghymru gyda thua 1,500 o farwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol bob blwyddyn (1 o bob 20 o'r holl farwolaethau).
- Mae yfed ymysg plant a phobl ifanc yn parhau i beri pryder gydag 1 o bob 6 o fechgyn ac 1 o bob 7 o ferched 11-16 oed yng Nghymru yn yfed alcohol o leiaf unwaith yr wythnos. Mae tua 400 o bobl ifanc o dan 18 oed yn cael eu derbyn i'r ysbyty ar gyfer cyflyrau a achoswyd gan alcohol bob blwyddyn, ond mae'r gyfradd wedi bod yn gostwng ers nifer o flynyddoedd.
- Yn gyffredinol, mae cyfraddau yfed alcohol wedi lleihau ac mae oedolion o dan 45 oed nawr yn yfed llai. Er bod y gostyngiad hwn yn newyddion da, mae'n cuddio arferion yfed cyson neu gynnydd ymysg y rhai dros 45 oed.
- Mae cysylltiad cryf rhwng marwolaethau a derbyniadau i'r ysbyty oherwydd alcohol a chyfraddau amddifadedd ac mae'r cyfraddau yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yn llawer uwch nag yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf. Nid oes unrhyw arwydd o welliant yn y bwlch anghydraddoldeb mewn marwolaethau dros gyfnod o amser.



## ATODIAD 4: PROTOCOL GORFODAETH AR Y CYD GYDA HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn bodoli rhwng Heddlu Gogledd Cymru a holl awdurdodau trwyddedu Gogledd Cymru ynglŷn â'r gweithdrefnau gweithredol a phrotocol gorfodi ar y cyd o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

Pwrpas y protocol gorfodi ar y cyd yw

- sicrhau gorfodaeth effeithiol ac wedi'i dargedu,
- hwyluso cydweithrediad rhwng asiantaethau gorfodi, a
- cefnogi'r cyd gymorth gweithredol sydd ei hangen i fynd i'r afael ag eiddo trwyddedig problemus.

Mae'r protocol gorfodi ar y cyd yn disgrifio sut y bydd Heddlu Gogledd Cymru a'r awdurdod trwyddedu yn delio â phroblemau sy'n codi mewn eiddo neu glwb mewn perthynas ag unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu. Mae hefyd yn disgrifio pryd ystyrir fod angen cychwyn y broses adolygu.

### CAMAU GORFODI

**CAM UN**
Achos o anhrefn/yfed dan oed/ymdrechion i brynu alcohol gan berson dan oed neu ar ran person dan oed mewn/o eiddo trwyddedig lle mae'r person â gofal yn galw'r heddlu am gymorth ac yn cytuno i weithio gyda'r heddlu.

Gall troseddau mwy difrifol sbarduno cam dau neu dri yn awtomatig.

**Os bydd problemau'n parhau ymlaen o Gam Un**


**CAM DAU**
Cyfarfod gyda'r Arolygydd yr Heddlu/Rhingyll Cymdogaeth, Rhanbarth Gorllewinol, Rheolwr Eiddo Trwyddedig a chynrychiolydd yr Awdurdod Lleol. Bydd materion yn cael eu trafod yn ffurfiol a rhybudd ysgrifenedig ffurfiol a roddir.

Cynllun Gweithredu ar y Cyd yn cael ei gytuno gyda chyfnod amser o **dri mis**. Os nad oes unrhyw achosion pellach yn digwydd wedyn ymadael camau gorfodi.

**Os bydd problemau'n parhau ar o Gam Dau**

**CAM TRI**
Bydd Arolygydd yr Heddlu/Rhingyll Cymdogaeth a Rhanbarth y Gorllewin neu awdurdod trwyddedu yn gwneud cais am adolygiad o Drwydded Eiddo, fel sy'n briodol i'r amgylchiadau.

## TREFN ADOLYGU EIDDO TRWYDDEDIG YMGORFFORI DATRYS PROBLEMAU AR Y CYD




Mae symud ymlaen i bob lefel yn broses dewisol, a dyluniwyd y siart llif hwn fel templed cynnydd, ac i fonitro Eiddo Trwyddedig problemus.

Ar unrhyw bryd, gellir penderfynu gwneud cais am adolygiad o drwydded eiddo yn ddibynnol ar deilyngdod yr achos.

# ATODIAD 5: AMODAU GORFODOL

## CYFLENWI ALCOHOL

**ADRAN 19 (2), DEDDF TRWYDDEDU 2003**
Ni ellir cyflenwi alcohol dan y drwydded hon

(a) Ar adeg pan nad oes goruchwyliwr eiddo dynodedig yn yr eiddo neu,
(b) Ar adeg pan nad oes gan y goruchwyliwr eiddo dynodedig drwydded bersonol neu os yw ei drwydded bersonol wedi ei hatal.

**ADRAN 19 (3), DEDDF TRWYDDEDU 2003**
Rhaid i bob gwerthiant neu gyflenwad alcohol dan y drwydded hon gael eu hawdurdodi gan unigolyn sydd â thrwydded bersonol.

**ADRAN 19 (4), DEDDF TRWYDDEDU 2003 -**
Amodau eraill

**Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2010 fel y'i diwygiwyd**
**1**
(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau nad yw staff ar eiddo perthnasol yn ymgymryd â, yn trefnu neu yn cymryd rhan mewn unrhyw hyrwyddo anghyfrifol ynghylch yr eiddo.

(2) Yn y paragraff hwn, mae hyrwyddo anghyfrifol yn golygu un neu fwy o'r gweithgareddau a ganlyn, neu weithgareddau sy'n sylweddol debyg, sy'n digwydd er mwyn hyrwyddo gwerthiant neu gyflenwad alcohol i'w yfed ar yr eiddo -

(a) gemau neu weithgareddau eraill sy'n gofyn am neu'n hybu, neu sydd wedi'u dylunio i ofyn neu i hybu unigolion i -
  (i) yfed swm o alcohol o fewn cyfyngiad amser (heblaw yfed alcohol a werthwyd neu a gyflenwyd ar yr eiddo cyn terfyn y cyfnod y mae'r unigolyn cyfrifol wedi'i awdurdodi i werthu neu gyflenwi alcohol), neu
  (ii) yfed cymaint o alcohol ag sy'n bosib (un ai o fewn cyfyngiad amser neu fel arall);

(b) darpariaeth swm diddiwedd neu amhenodol o alcohol am ddim neu am bris penodedig neu ar ddisgownt i'r cyhoedd neu i grŵp a gaiff ei ddiffinio gan nodwedd benodol sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;
(c) darpariaeth alcohol am ddim neu ar ddisgownt neu unrhyw beth arall fel gwobr i annog neu i wobrwyo prynu ac yfed alcohol dros gyfnod o 24 awr neu lai mewn modd sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;
(d) gwerthu neu gyflenwi alcohol mewn cysylltiad â phosteri neu bamffledi hyrwyddol ar, neu yng nghyffiniau'r eiddo a all ei ystyried (yn rhesymol) fel ei fod yn caniatáu, neu'n annog ymddygiad gwrth-gymdeithasol, yn portreadu ymddygiad gwrth-gymdeithasol fel rhywbeth deniadol neu'n cyfeirio at effeithiau meddwdod mewn modd ffafriol.
(e) unigolyn yn uniongyrchol ddosbarthu alcohol i geg unigolyn arall (heblaw pan fo unigolyn yn methu yfed heb gymorth oherwydd anabledd).

**2**
Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod dŵr yfed am ddim yn cael ei ddarparu ar gais i gwsmeriaid pan fod hyn ar gael yn rhesymol.

**3**
(1) Rhaid i ddeilydd y drwydded eiddo neu ddeilydd y dystysgrif eiddo clwb sicrhau y gweithredir polisi gwirio oedran yn yr eiddo mewn perthynas â gwerthu neu chyflenwi alcohol.

(2) Rhaid i oruchwyliwr eiddo dynodedig mewn perthynas â'r drwydded eiddo sicrhau bod gwerthiant alcohol ar yr eiddo yn digwydd yn unol â'r polisi gwirio oedran.

(3) Yn unol â'r polisi, rhaid i unigolion sy'n ymddangos fel eu bod o dan 18 oed (neu oedran hynach fel y'u datgenir yn y polisi) ddangos ar gais, cyn cael prynu alcohol, math o gerdyn adnabod yn cynnwys eu llun, eu dyddiad geni ac un ai

(a) marc holograffig, neu
(b) nodwedd uwchfioled.

**4**
Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau -

(a) os caiff unrhyw un o'r diodydd alcohol a ganlyn eu gwerthu neu eu cyflenwi i'w hyfed ar yr eiddo (heblaw am ddiodydd alcohol sy'n cael eu gwerthu neu eu cyflenwi ar ôl eu gwneud yn barod i'w gwerthu neu eu cyflenwi mewn cynhwysydd wedi'i gau'n ddiogel), bydd yr alcohol ar werth i gwsmeriaid yn y mesurau a ganlyn -

(i) cwrw neu seidr: ½ peint;
(ii) jin, rỳm, fodca neu wisgi: 25 ml neu 35 ml; a
(iii) gwin llonydd mewn gwydr: 125 ml;

(b) caiff y mesurau hyn eu dangos ar ffurf bwydlen, rhestr prisiau neu ddeunydd printiedig arall sydd ar gael i gwsmeriaid yn yr eiddo; ac

(c) ble nad yw cwsmer, mewn perthynas â gwerthiant alcohol, yn manylu ar y swm o alcohol i'w werthu, bydd y gwerthwr yn hysbysu'r cwsmer mai dyma yw'r mesurau

### Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Gorfodol) 2014

**1**
Bydd unigolyn perthnasol yn sicrhau nad yw alcohol yn cael ei werthu na'i gyflenwi i'w yfed yn yr eiddo, neu oddi ar yr eiddo, am bris sy'n llai na'r pris a ganiateir.

**2**
Er dibenion yr amod a amlinellir ym mharagraff 1 -

(a) caiff "toll" ei ddehongli yn unol â'r Ddeddf Tollau ar Ddiodydd Meddwol 1979;
(b) y "pris a ganiateir" yw'r pris a geir trwy ddefnyddio'r fformiwla hon -

$$P = D + (D \times V)$$

lle mai –

(i) P yw'r pris a ganiateir,

(ii) D yw faint o doll sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol petai'r doll yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol, a

(iii) V yw cyfradd y dreth ar werth sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol petai'r dreth ar werth yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol;

(c) mae "unigolyn perthnasol" yn golygu, yng nghyswllt eiddo y mae trwydded eiddo mewn grym ar ei gyfer -

(i) deilydd y drwydded eiddo,

(ii) y goruchwyliwr eiddo dynodedig (os oes un) yng nghyswllt trwydded o'r fath, neu

(iii) y deilydd trwydded bersonol sy'n cyflenwi neu'n awdurdodi cyflenwi alcohol dan drwydded o'r fath;

(d) mae "person perthnasol" yn golygu, yng nghyswllt eiddo y mae tystysgrif eiddo clwb mewn grym ar ei gyfer, unrhyw aelod neu swyddog o'r clwb sy'n bresennol yn yr eiddo mewn swyddogaeth sy'n galluogi'r aelod neu'r swyddog i atal y cyflenwad dan sylw; a

(e) mae "treth ar werth" yn golygu'r dreth ar werth a godir yn unol â Deddf Treth Ar Werth 1994.

**3**

Os na fyddai'r pris a ganiateir a roddir gan Baragraff (b) ym mharagraff 2 (ar wahân i'r paragraff hwn) yn rif cyfan o geiniogau, cymerir mai'r pris a roddir gan yr is-baragraff hwnnw yw'r gwir bris a roddir gan yr is-baragraff hwnnw wedi'i dalgrynnu i'r geiniog agosaf.

**4**

(1) Mae is-baragraff (2) yn berthnasol pe bai'r pris a ganiateir a roddir gan Baragraff (b) ym mharagraff 2 ar un diwrnod ("y diwrnod cyntaf") yn wahanol i'r pris a ganiateir ar y diwrnod nesaf ("yr ail ddiwrnod") o ganlyniad i newid yn y gyfradd doll neu dreth ar werth.

(2) Mae'r pris a ganiateir fyddai'n berthnasol ar y diwrnod cyntaf yn berthnasol i werthiant alcohol neu gyflenwad alcohol fyddai'n digwydd cyn i'r cyfnod 14 diwrnod sy'n cychwyn ar yr ail ddiwrnod ddod i ben.

# DANGOS FFILMIAU

**ADRAN 20, DEDDF TRWYDDEDU 2003**
Bydd mynediad i blant dan 18 oed i arddangosiadau ffilm a ganiateir dan y drwydded hon yn cael ei gyfyngu yn unol ag unrhyw argymhellion a wneir

(a) gan y *British Board of Film Classification (BBFC)*, ble y dosbarthwyd y ffilm gan y Bwrdd hwnnw, neu

(b) gan yr Awdurdod Trwyddedu ble na roddwyd tystysgrif dosbarthiad gan y BBFC, neu, pan fo'r awdurdod trwyddedu wedi hysbysu deilydd y drwydded bod adran 20(3) (b), (Adran 74(3)(b) ar gyfer clybiau) o Ddeddf Trwyddedu 2003 yn berthnasol i'r ffilm.

# GORUCHWYLIO DRYSAU

**ADRAN 21, DEDDF TRWYDDEDU 2003**
Ar yr adegau penodol pan fo rhaid i un neu fwy o unigolion fod yn bresennol ar yr eiddo i ymgymryd â gweithgarwch diogelwch, rhaid i unigolion o'r fath

(a) gael eu hawdurdodi i ymgymryd â'r gweithgaredd gan drwydded a roddwyd dan y Ddeddf Diwydiant Diogelwch Preifat 2001; neu
(b) gael yr hawl i ymgymryd â'r gweithgaredd hwnnw oherwydd adran 4 o Ddeddf Diwydiant Diogelwch Preifat 2001.

Er dibenion yr amod hwn -

(a) mae "gweithgaredd diogelu" yn golygu gweithgaredd sy'n berthnasol i baragraff 2(1)(a) Atodlen 2 Deddf Diwydiant Diogelwch Preifat 2001, ac sy'n ymddygiad trwyddedig er dibenion y Ddeddf (gweler adran 3(2) o'r Ddeddf honno) ac
(b) mae paragraff 8(5) o'r Atodlen honno (dehongliad cyfeiriadau i achlysur) yn berthnasol gan ei fod yn berthnasol i baragraff 8 o'r Atodlen honno.

# AMOD TRWYDDEDU AMGEN

**ADRAN 25A (2), DEDDF TRWYDDEDU 2003**
Rhaid i bob cyflenwad alcohol a wneir dan y drwydded hon gael ei wneud neu ei awdurdodi gan y pwyllgor rheoli.

# Eitem 12

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **10fed o Ragfyr 2015** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR** |
| **PWRPAS** | **Adolygu Cydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Dyrannu Seddau ar Bwyllgorau** |
| **AWDUR** | **Geraint Owen**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Yn dilyn is-etholiadau diweddar, mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Plaid Cymru | 39 |
| Annibynnol | 19 |
| Llais Gwynedd | 8 |
| Llafur | 5 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | 2 |
| Aelod Unigol | 2 |
| **Cyfanswm** | **75** |

## 2. DYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

2.1 I atgoffa'r aelodau, nodir yma'r pedair prif reol yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ynglŷn â dyrannu seddau:-

2.2 (a) Ni chaiff pob sedd ar bwyllgor ei dyrannu i'r un grŵp gwleidyddol;

(b) Rhaid dyrannu mwyafrif y seddau ar bwyllgor i grŵp gwleidyddol os yw nifer y personau sy'n perthyn i'r grŵp yn fwyafrif o aelodau'r Cyngor;

(c) Yn amodol ar baragraffau (a) a (b) uchod, bydd nifer y seddau ar y pwyllgorau cyffredin a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un fath â'r nifer o'r holl seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor;

(ch) Yn amodol ar (a),(b) ac (c) uchod, bydd nifer y seddau ar bwyllgor a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un gyfran o'r seddau ar y pwyllgor â'r nifer o seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor.

Disgwylir i'r Cyngor weithredu yn unol â'r rheolau hyn cyn belled a bo hynny'n ymarferol bosib.

2.3 Er mwyn sicrhau y glynir wrth y rheolau hyn, mae'r Cyngor wedi bod yn ymdrin â phwyllgorau mewn blociau gwahanol yn y gorffennol. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i sicrhau y glynir wrth reol (c) ym mharagraff 2.2 uchod hefyd. Mae'r dyraniad hwn wedi bod yn destun trafodaeth gyda'r Arweinyddion gwleidyddol a ofynodd i ni weithredu'r rheolau yng nghyd-destun eu hawydd i sicrhau presenoldeb cryf ar draws yr holl bleidiau gwleidyddol i'r graddau mae hynny'n bosib.

## 3. NEWIDIADAU I DDYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

3.1 Mae'r newid yn y cydbwysedd gwleidyddol yn golygu bod Grŵp Plaid Cymru yn ennill sedd ar y Pwyllgor Craffu Cymunedau, y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau a'r Pwyllgor Archwilio ar draul Grŵp Llais Gwynedd sydd yn colli sedd ar y Pwyllgorau Craffu Cymunedau a Gwasanaethau, a Grwp Llafur yn colli sedd ar y Pwyllgor Archwilio. Bydd y Grŵp Annibynnol hefyd yn ennill sedd ar y Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar draul Grŵp Llafur.

3.2 Golyga hefyd fod y Grwp Annibynnol yn ennill sedd ar y Pwyllgor Cynllunio ar draul Grwp Llais Gwynedd. Golyga hefyd fod Grŵp Plaid Cymru yn ennill un sedd yr un ar y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion ar draul Grŵp Llais Gwynedd fydd yn colli sedd ar y pwyllgor hwnnw.

3.3 Golyga hefyd fod Plaid Cymru yn ennill sedd ar y Pwyllgor Pensiynau ar draul Grŵp Llafur. Golyga hefyd fod y Grwp Llafur yn ennill sedd ar y Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol ar draul Grwp Llais Gwynedd sydd yn colli sedd.
(Gweler **Atodiad A**)

3.4 Gan nad yw'r argymhelliad yn llwyr adlewyrchu'r cydbwysedd gwleidyddol fel y mae ar hyn o bryd, bydd rhaid i'r aelodau bleidleisio dros y cynnig yn ddiwrthwynebiad.

## 4. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Cyngor drafod a chytuno ar y newid i ddyraniad y seddau ar y pwyllgorau fel y noder yn 3.1 - 3.3 uchod.

**ATODIAD A**

**PWYLLGORAU CRAFFU**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Corfforaethol | 9 | 5 | 2 | 1 | 1 | |
| Cymunedau | 10 | 4 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Gwasanaethau | 10 | 4 | 2 | 1 | | 1 |
| Archwilio | 10 | 5 | 2 | 1 | | |

**PWYLLGORAU ERAILL**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democratiaeth | 8 | 4 | 2 | 1 | | |
| Iaith | 8 | 4 | 2 | 1 | | |
| Cynllunio | 8 | 4 | 1 | 1 | 1 | |
| Trwyddedu Canolog | 8 | 4 | 2 | | | 1 |
| Apelau Cyflogaeth | 3 | 1 | 1 | 1 | | 1 |
| Penodi Prif Swyddogion | 8 | 4 | 1 | 1 | 1 | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y seddau** | **82** | **39** | **16** | **9** | **4** | **4** | **154** |

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | 4 | 2 | 0 | 0 | 1 | |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | 6 | 2 | 1 | 2 | | |
| Cydbwyllgor Addysg Anghenion Arbennig | 3 | 2 | 1 | | | 1 |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | 4 (3 sedd ac un eilydd) | 2 | 1 | 1 | | |
| CYSAG | 4 | 2 | 1 | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Seddau** | **103** | **49** | **20** | **12** | **5** | **5** | **194** |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y CYNGOR |
| **DYDDIAD** | 10 Rhagfyr 2015 |
| **PWNC** | ABSENOLDEB AELOD O'R CYNGOR |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | CYFLWYNO CAIS I GYMERADWYO ABSENOLDEB AELOD O'R CYNGOR |
| **AWDUR** | GERAINT OWEN, PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD |

**1. CEFNDIR**

1.1 Mae Adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn nodi os yw aelod o awdurdod lleol yn methu mynychu unrhyw gyfarfod o'r awdurdod am gyfnod o chwe mis yn olynol o ddyddiad eu presenoldeb diwethaf, yna ni fyddant yn aelod o'r awdurdod mwyach.

1.2 Yr unig eithriad i hyn yw os y cymeradwyir yr absenoldeb gan yr awdurdod.

**2. SEFYLLFA PRESENNOL CYNGHORYDD YNG NGHYNGOR GWYNEDD**

2.1 Mae'r Cynghorydd Peter Read wedi bod yn anhwylus ac yn derbyn triniaeth sydd wedi effeithio ac yn debygol o barhau i effeithio ar ei allu i fynychu cyfarfodydd ffurfiol o'r awdurdod, er nad yw'n glir ar hyn o bryd am ba hyd y mae hyn am fod yn broblem.

2.2 Mae gofyn i'r Cyngor Llawn gymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Peter Read o gyfarfodydd yr awdurdod er mwyn ei alluogi i barhau i fod yn aelod.

2.3 Os na roddir cymeradwyaeth i'r absenoldeb, yna byddai cyfnod y Cynghorydd Peter Read fel aelod o'r Cyngor yn dod i ben 6 mis ar ôl ei bresenoldeb diwethaf mewn cyfarfod o'r Cyngor.

2.4 Awgrymir, o dan yr amgylchiadau, y dylid cymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Peter Read.

**3. ARGYMHELLIAD**

3.1 Argymhellir bod y Cyngor Llawn yn cymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Peter Read o gyfarfodydd y Cyngor oherwydd yr amgylchiadau personol, yn unol ag Adran 85 Deddf Llywodraeth Leol 1972, gan ei alluogi i barhau i fod yn aelod o Gyngor Gwynedd.